# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 22 Mai 2012**
**Tuesday, 22 May 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister |
| 33 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement |
| 37 | Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)<br>Financial Resolution in relation to the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill |
| 38 | Datganiad: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi<br>Statement: The Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs |
| 58 | Datganiad: Y Polisi Amaethyddol Cyffredin: Safbwynt Cymru<br>Statement: The Common Agricultural Policy: The Welsh Perspective |
| 75 | Datganiad: Trefniadau Newydd ar gyfer Darparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru<br>Statement: New Arrangements to Provide Support for Council Tax in Wales |
| 89 | Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru'<br>The Results of the 'Natural Resources Wales' Consultation |
| 111 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |
| 118 | Dadl Fer: Cyfranogaeth a Grymuso yn Nyfodol Gwasanaethau Gofal yng Nghymru—Mentrau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a Thaliadau Uniongyrchol<br>Short Debate: Participation and Empowerment in the Future of Care Services in Wales—Co-Ops, Mutuals and Direct Payments |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Hosbisau

### Hospices

***1. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i hosbisau. OAQ(4)0528(FM)*

***1. Mark Isherwood:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's support for hospices. OAQ(4)0528(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We support independent hospices in Wales with central funding to meet the cost of core specialist consultant-led palliative and end-of-life care services.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym yn cefnogi hosbisau annibynnol yng Nghymru â chyllid canolog i gwrdd â chost gwasanaethau lliniarol a gofal diwedd bywyd craidd arbenigol sy'n cael eu harwain gan ymgynghorwyr.

**Mark Isherwood:** For every £1 that the Welsh Government invests in local charitable hospices, hospices deliver an additional £4-worth of care for people with life-limiting and terminal illnesses and their families. Yet Wales receives the lowest level of statutory funding for hospices in the UK, at just 24%. Funding is 10% higher in England and 15% higher in Scotland. How, therefore, do you respond to the call by NHS Wales for improved investment in the independent charitable hospice sector in order to help the NHS deliver improved care and maximise value for money at a time of deficit reduction and more broadly?

**Mark Isherwood:** Am bob £1 y mae Llywodraeth Cymru yn ei buddsoddi mewn hosbisau elusennol lleol, mae hosbisau yn darparu gofal ychwanegol gwerth £4 i bobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu bywydau a salwch terfynol a'u teuluoedd. Serch hynny, Cymru sy'n cael y swm lleiaf o gyllid statudol ar gyfer hosbisau yn y DU, sef dim ond 24%. Mae Lloegr yn cael 10% yn fwy a'r Alban 15% yn fwy. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r galw gan GIG Cymru am well buddsoddiad yn y sector hosbis elusennol annibynnol er mwyn helpu'r GIG i ddarparu gwell gofal a chael y gwerth am arian gorau ar adeg o leihau dyled ac yn ehangach?

**The First Minister:** We are developing a delivery plan for palliative and end-of-life care for the NHS, in line with a suite of other delivery plans that we are developing for key disease-specific areas. Standards to further improve palliative and end-of-life care have been developed and will be issued in the summer.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd bywyd i'r GIG, ynghyd â chyfres o gynlluniau gweithredu eraill yr ydym yn eu datblygu ar gyfer meysydd allweddol sy'n ymdrin â chlefydau penodol. Datblygwyd safonau i wella gofal lliniarol a gofal diwedd bywyd ymhellach a byddant yn cael eu cyhoeddi yn yr haf.

**Elin Jones:** Mae Ffagl Gobaith—Beacon of Hope—yn hosbis yn y cartref yn fy etholaeth i ac yn gwneud gwaith gwych. Fodd bynnag, un o'r problemau i hosbisau yn y cartref, mewn ardal wledig yn enwedig, yw'r costau teithio ar gyfer nyrsys a gweithwyr wrth

**Elin Jones:** Ffagl Gobaith—Beacon of Hope—is a hospice at home in my constituency and does excellent work. However, one of the problems for hospices at home, in a rural area in particular, is the travel costs for nurses and workers in

iddynt fynd o un cartref i gartref arall. A ydych yn barod i edrych ar sut mae arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer hosbisau i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu gwerth a realiti y cost teithio hwn?

travelling from one home to another. Are you willing to look at how funding is allocated to hospices in order to ensure that they reflect the real cost of this travel?

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd wrth edrych ar y cynllun delifro, ac mae hwn yn bwynt pwysig, nid dim ond yng nghefn gwlad, ond mewn sawl rhan o Gymru lle mae llawer o deithio'n cael ei wneud er mwyn cael gofal.

**The First Minister:** This is being considered at the moment as we look at the delivery plan, and this is an important point, not only in rural areas, but in many parts of Wales where a great deal of travel has to be undertaken to access care.

### Economïau Cymunedau'r Cymoedd

### The Economies of Valley Communities

***2. David Rees:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economïau cymunedau'r cymoedd. OAQ(4)0523(FM)*

***2. David Rees:*** *What are the Welsh Government's priorities for developing the economies of valley communities. OAQ(4)0523(FM)*

**The First Minister:** Our plans include strengthening the conditions for job creation and retention, and investing in infrastructure, skills and innovation.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau yn cynnwys cryfhau yr amodau i greu a chadw swyddi, a buddsoddi mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. In addition, our Valleys communities have often lagged behind our more densely-populated coastal urban areas when it comes to receiving internet connectivity. In fact, in response to a constituent, BT indicated that there are more commercially viable options than the targeted areas of the Valleys. What discussions has the Welsh Government had with BT and other providers to ensure that these communities do not once again find themselves behind more urban areas when next generation broadband is introduced, so that businesses and budding entrepreneurs in those areas can compete more effectively?

**David Rees:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn ogystal, mae ein cymunedau yn y Cymoedd yn aml wedi llusgo ar ôl ein hardaloedd trefol sydd â'r poblogaethau mwyaf ar yr arfordir o ran cael cysylltiad â'r rhyngrwyd. Yn wir, mewn ymateb i etholwr, dywedodd BT bod mwy o opsiynau ymarferol yn fasnachol nag ardaloedd y Cymoedd a dargedwyd. Pa drafodaethau a gafodd Llywodraeth Cymru gyda BT a darparwyr eraill i sicrhau nad yw'r cymunedau hynny unwaith eto yn canfod eu bod y tu ôl i ardaloedd mwy trefol pan fydd band eang y genhedlaeth nesaf yn cael ei gyflwyno, fel y gall busnesau a darpar entrepreneuriaid yn yr ardaloedd hynny gystadlu'n fwy effeithiol?

**The First Minister:** The next generation broadband for Wales project seeks to ensure that homes and businesses across Wales will have access to high-speed broadband by 2015 and that project will intervene in areas where the private sector is not investing, which will include rural areas, as well as Valleys communities that are further away from the coast.

**Y Prif Weinidog:** Diben prosiect band eang y genhedlaeth nesaf ar gyfer Cymru yw ceisio sicrhau y bydd cartrefi a busnesau ledled Cymru yn cael mynediad i fand eang cyflym erbyn 2015, a bydd y prosiect hwnnw yn ymyrryd mewn ardaloedd lle nad yw'r sector preifat yn buddsoddi, a fydd yn cynnwys ardaloedd gwledig, yn ogystal â chymunedau'r Cymoedd sydd yn bellach i ffwrdd o'r arfordir.

**Mohammad Asghar:** Enterprise zones can

**Mohammad Asghar:** Gall ardaloedd menter

play a significant role in developing the economies of Valleys communities by offering incentives to attract new businesses to these locations. The Welsh Government has announced that Ebbw Vale is one of the locations for an enterprise zone for the advanced manufacturing sector; I welcome this, First Minister. Will you look again at the proposal for a virtual enterprise zone for Torfaen and Monmouthshire, based around developing a new digital economy?

chwarae rôl sylweddol o ran datblygu economïau cymunedau yn y Cymoedd drwy gynnig cymhellion i ddenu busnesau newydd i'r lleoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi mai Glyn Ebwy yw un o'r lleoliadau ar gyfer ardal fenter i'r sector gweithgynhyrchu uwch; rwyf yn croesawu hyn, Brif Weinidog. A wnewch chi edrych eto ar y cynnig i greu ardal fenter rithwir ar gyfer Tor-faen a Sir Fynwy, yn seiliedig ar ddatblygu economi ddigidol newydd?

**The First Minister:** The difficulty with introducing more and more enterprise zones is that they get less and less effective. By their very nature, enterprise zones have to be special; there cannot be that many of them, and we believe that, at this moment in time, we have the balance right.

**Y Prif Weinidog:** Y drafferth gyda chyflwyno mwy a mwy o ardaloedd menter yw eu bod yn mynd yn llai ac yn llai effeithiol. Oherwydd eu natur, mae'n rhaid i ardaloedd menter fod yn arbennig; ni ellir cael llawer ohonynt, ac rydym yn credu, ar hyn o bryd, fod gennym y cydbwysedd cywir.

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, un o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gyfranogiad economaidd yn y Cymoedd yw cyfleusterau a gwasanaethau i sicrhau nad oes rhwystrau i weithio. Mae Y Bont ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu gofal a chymorth i blant ag anghenion arbennig o chwech wythnos hyd at bedair blwydd oed. Mae ei gyfleustra allgymorth yng Nghaerau ym Maesteg yn mynd i gau cyn bo hir oherwydd diffyg arian. A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol i rieni mewn cymunedau difreintiedig yn y Cymoedd gael mynediad at wasanaethau fel hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu mynd allan i fyd gwaith? A wnewch chi edrych i mewn i'r sefyllfa hon fel mater o frys?

**Bethan Jenkins:** First Minister, one of the key factors that impact upon economic activity in the Valleys is facilities and services to ensure that there are no barriers to working. Y Bont in Bridgend provides care support to children with special needs from the age of six weeks to four years. Its outreach facilities in Caerau and Maesteg are going to close before long because of a shortage of funding. Do you agree that it is crucial for parents in disadvantaged communities in the Valleys to have access to such services in order to ensure that they can go out to work? Will you look into this situation as a matter of urgency?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi bod yn gweithio gydag Y Bont ers blynyddoedd maith. Rwyf yn adnabod y bobl sy'n gweithio yno, ac rwyf wedi helpu yn y gorffennol fel Aelod lleol i'r ganolfan gael cyllid er mwyn hybu'r gwaith da mae'n ei wneud. Drwy'r gwaith mae'r ganolfan a chyrff eraill yng Nghymru yn ei wneud, mae pobl yn gallu mynd allan i weithio. Mae'r plant hefyd yn gallu cael profiad newydd wrth fynd i rywle fel Y Bont. Rwyf yn siŵr y bydd bob Aelod yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau dyfodol y cyrff hyn.

**The First Minister:** I have been working with Y Bont for many years. I know the people who work there, and I have helped the centre in the past as a local Member to get funding in order to promote the good work that it does. Through the work that the centre and other bodies in Wales do, people can go out to work. The children can also gain new experiences by going to places such as Y Bont. I am sure that every Member will work hard to secure the future of these bodies.

**Christine Chapman:** First Minister, small businesses in my constituency tell me about a

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, mae busnesau bach yn fy etholaeth i yn sôn wrthyf

number of persistent problems that they feel restrict their ability to grow and develop and to make even greater economic contributions. It appears that they are unsure about how to access specialist support and advice, particularly relating to the awarding of public sector contracts. I welcome the very determined lead that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is taking to bring about change in this area, but what can the Welsh Government do to enable our small businesses to access the right advice and the right opportunities?

am nifer o broblemau parhaus y teimlant sy'n cyfyngu ar eu gallu i dyfu a datblygu, a gwneud cyfraniadau economaidd hyd yn oed yn fwy. Mae'n ymddangos eu bod yn ansicr ynghylch sut i gael cymorth a chyngor arbenigol, yn enwedig o ran dyfarnu contractau sector cyhoeddus. Croesawaf arweiniad penderfynol iawn y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth i sicrhau newid yn y maes hwn, ond beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i alluogi ein busnesau bach i gael y cyngor a'r cyfleoedd cywir?

**The First Minister:** The microbusiness report identified awareness and access to business support as one of the key priorities to support business. To make it easier for businesses to access the right business support, a network of one-stop shops will be developed across Wales to provide businesses with direct and indirect support by expanding and redirecting the current regional centre service. Those one-stop shops will be in place by January of next year.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r adroddiad meicrobusnes yn nodi bod ymwybyddiaeth o gymorth busnes a mynediad ato yn un o'r blaenoriaethau allweddol i gefnogi busnes. I'w gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar y cymorth busnes cywir, bydd rhwydwaith o siopau un stop yn cael ei datblygu ledled Cymru i roi cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i fusnesau drwy ehangu ac ailgyfeirio'r gwasanaeth canolfan ranbarthol presennol. Bydd y siopau un stop hynny ar gael erbyn mis Ionawr y flwyddyn nesaf.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, how many managers does it take to run the Welsh civil service?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew RT Davies):** Brif Weinidog, faint o reolwyr y mae'n ei gymryd i redeg gwasanaeth sifil Cymru?

**The First Minister:** Given that everyone in this Chamber is a manager, because we all manage staff, there are 60 managers in this Chamber. It is quite right that people should have responsibility for managing finances, other staff and their own workload. In that sense, they are all managers.

**Y Prif Weinidog:** Gan fod pawb yn y Siambr hon yn rheolwr, oherwydd ein bod i gyd yn rheoli staff, mae 60 o reolwyr yn y Siambr hon. Mae'n hollol gywir y dylai pobl fod yn gyfrifol am reoli cyllid, staff eraill a'u llwyth gwaith eu hunain. Yn hynny o beth, maent i gyd yn rheolwyr.

**Andrew R.T. Davies:** That is an absurd answer, to be honest with you, First Minister. As Assembly Members, we employ people in our own right—the support staff that are offered to us—but you and I know that 80% of civil servants within the Welsh civil service are designated as managers. It is hardly a dynamic number and a staffing structure that a company going forward would look to adopt. Talking of dynamism and enterprise, you have announced the

**Andrew R.T. Davies:** Dyna ateb hurt, i fod yn onest â chi, Brif Weinidog. Fel Aelodau Cynulliad, rydym yn cyflogi pobl—y staff cymorth sy'n cael eu cynnig i ni—ond gwyddom ein dau bod 80% o weision sifil yng ngwasanaeth sifil Cymru wedi eu dynodi'n rheolwyr. Prin ei fod yn nifer deinamig nag yn strwythur staffio y byddai cwmni sy'n datblygu yn ystyried ei fabwysiadu. Gan gyfeirio at egni a menter, rydych wedi cyhoeddi'r ardaloedd menter.

enterprise zones. What are you able to offer companies locating to Wales if they choose to locate in enterprise zones? Other than for Deeside, we have precious little information about the enterprise zones that your Government has identified.

Beth y gallwch ei gynnig i gwmnïau sy'n dod i Gymru os ydynt yn dewis sefydlu eu hunain mewn ardaloedd menter? Ac eithrio Glannau Dyfrdwy, nid oes gennym fawr o wybodaeth am yr ardaloedd menter y mae eich Llywodraeth wedi eu nodi.

**The First Minister:** We have just had 1,000 jobs announced for St Athan, which may have escaped the Member's attention. The enterprise zones are progressing well, and we will continue talks with the UK Government to make sure that there are incentives in place to help them. I am sure that his own staff will be stunned to hear that he is not a manager. That will put them in a position of being rather worried about who exactly is managing them. I am also surprised that he says that managers in some way are not dynamic—I am sure that he has not told his colleague to his left about that—and that people should not take responsibility for their workload, for staff or, indeed, for finances, because that is exactly what people should be doing in this organisation.

**Y Prif Weinidog:** Rydym newydd glywed bod 1,000 o swyddi wedi eu cyhoeddi ar gyfer Sain Tathan, ond efallai na gymerodd yr Aelod sylw o hynny. Mae'r ardaloedd menter yn datblygu'n dda, a byddwn yn parhau i gael trafodaethau â Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod cymhellion ar gael i'w helpu. Rwyf yn siŵr y bydd ei staff ef yn synnu clywed nad yw'n rheolwr. Bydd hynny'n peri pryder iddynt braidd o ran pwy yn union sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn synnu ei fod yn dweud nad yw rheolwyr, rywsut neu'i gilydd, yn ddeinamig—rwyf yn siŵr nad yw wedi dweud wrth ei gydweithiwr ar ei ochr chwith am hynny—ac na ddylai pobl gymryd cyfrifoldeb am eu llwyth gwaith, staff, neu, yn wir, gyllid, oherwydd dyna'n union ddylai pobl fod yn ei wneud yn y sefydliad hwn.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, you get poorer and poorer by the week. An organisation that has 80% of its staffing categorised as managers is not a dynamic organisation by anyone's standards, particularly in the world of business. I note that you are unable to name one incentive that you are offering via the enterprise zones in Wales that you have announced. If you look at enterprise zones in England—he is scrabbling through his papers now—business rate relief is offered to many companies, with a cumulative value of £55,000 to those companies, if they locate in those enterprise zones. First Minister, is it not time that you pulled your finger out and started to drive forward the Welsh economy and to create a dynamic Wales, which you have failed miserably to do to date?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, rydych yn mynd yn waeth ac yn waeth bob wythnos. Nid yw sefydliad sydd â 80% o'i staff wedi eu categoreiddio yn rheolwyr yn sefydliad deinamig yn ôl safonau neb, yn enwedig ym myd busnes. Sylwaf nad ydych yn gallu enwi un cymhelliad yr ydych yn ei gynnig drwy'r ardaloedd menter yng Nghymru a gyhoeddwyd gennych. Os edrychwch ar ardaloedd menter yn Lloegr—mae'n chwilio a chwalu ymysg ei bapurau yn awr—mae rhyddhad ardrethi busnes yn cael ei gynnig i nifer o gwmnïau, gyda gwerth cronnol o £55,000 i'r cwmnïau hynny, os ydynt yn sefydlu yn yr ardaloedd menter hynny. Brif Weinidog, onid yw'n bryd ichi dynnu eich bys allan a dechrau rhoi hwb i economi Cymru a chreu Cymru ddeinamig, gan y bu eich ymdrech yn fethiant truenus hyd yma?

**The First Minister:** That is on a day when his party has been told by the International Monetary Fund that they have got it wrong. He stands up and falls into the trap yet again. What does he know about running a business? I ran a small business for a number of years, as did a number of us on these benches, and yet he sits there and preaches to

**Y Prif Weinidog:** Daw hynny ar ddiwrnod pan ddywedodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol wrth ei blaid ei bod yn gwneud bob dim yn anghywir. Mae'n sefyll i fyny ac yn disgyn i'r fagl unwaith eto. Beth y mae ef yn ei wybod am redeg busnes? Rhedais fusnes bach am nifer o flynyddoedd, fel y gwnaeth nifer ohonom ar y meinciau hyn, ac

us about what businesses are for. Let me remind him of what this Government has done: the £30 million Wales economic growth fund, the £40 million Wales small and medium-sized enterprise investment fund, the £6 million micro business loan fund, the Finance Wales JEREMIE fund, the £500,000 digital development fund, the Welsh life sciences fund, the £2 million high-potential starts project, and the business start-up service. What has his party contributed? Absolutely nothing.

eto mae'n eistedd yno ac yn pregethu wrthym ynghylch beth yw diben busnesau. Gadewch imi ei atgoffa o'r hyn a wnaeth y Llywodraeth hon: cronfa twf economaidd Cymru sy'n werth £30 miliwn, y gronfa buddsoddi ar gyfer mentrau bach a chanolig sy'n werth £40 miliwn, y gronfa benthyca i ficrofusnesau sy'n werth £6 miliwn, cronfa JEREMIE Cyllid Cymru, y gronfa datblygu digidol sy'n werth £500,000, cronfa gwyddorau bywyd Cymru, y prosiect ar gyfer busnesau newydd sydd â photensial mawr sy'n werth £2 filiwn, a'r gwasanaeth dechrau busnes. Beth y mae ei blaid wedi ei gyfrannu? Affliw o ddim.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** All across Europe, voters have been rejecting austerity politics. Do you accept the idea of a plan B as an alternative strategy to current economic policy, and will you agree to work with progressives across the EU and Wales to help to turn the ideas around a plan B into a plan of action?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Ledled Ewrop, mae pleidleiswyr wedi gwrthod gwleidyddiaeth caledi. A ydych yn derbyn y syniad o gael cynllun B fel strategaeth amgen i'r polisi economaidd presennol, ac a gytunwch i weithio gyda phleidiau blaengar ledled yr UE a Chymru i droi'r syniadau o amgylch cynllun B yn gynllun gweithredu?

**The First Minister:** The Wales Infrastructure Investment Plan is exactly the sort of plan that we need. This Government has been proactive in ensuring that we get money out of the door in order to invest capital. However, I note the IMF's suggestion today that the UK Government needs a plan B.

**Y Prif Weinidog:** Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw'r union fath o gynllun sydd ei angen arnom. Bu'r Llywodraeth hon yn rhagweithiol o ran sicrhau ein bod yn gwario arian i fuddsoddi arian cyfalaf. Fodd bynnag, nodaf yr awgrym gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol heddiw bod Llywodraeth y DU angen cynllun B.

**Leanne Wood:** Well done on bringing forward your infrastructure investment plan, even though we have been waiting a year for it.

**Leanne Wood:** Da iawn chi am gyflwyno eich cynllun buddsoddi mewn seilwaith, er y buom yn aros blwyddyn amdano.

As part of his plan B, France's newly elected President Hollande has proposed an EU-wide financial transaction tax. Such a tax would raise €57 billion for infrastructure investment throughout Europe annually, including around £435 million every year for Wales. That would cover the estimated cost of the electrification of the Valleys lines, or it could cancel the shortfall in the Wales school building programme. David Cameron and Ed Balls say that they are both against the French proposal because it is an EU-only proposal and it will affect and damage the financial interests of the City. First Minister, can you please tell us where you stand on an

Fel rhan o'i gynllun B, mae Arlywydd newyddetholedig Ffrainc, Arlywydd Hollande, wedi cynnig treth gweithrediadau ariannol ledled yr UE. Byddai treth o'r fath yn codi €57 biliwn i fuddsoddi mewn seilwaith ledled Ewrop bob blwyddyn, gan gynnwys tua £435 miliwn bob blwyddyn i Gymru. Byddai hynny'n talu am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, neu gallai ddileu'r diffyg arian yn rhaglen adeiladu ysgolion Cymru. Dywed David Cameron ac Ed Balls ill dau eu bod yn erbyn y cynnig Ffrengig gan ei fod yn gynnig ar gyfer yr UE yn unig ac y bydd yn effeithio ar fuddiannau ariannol y Ddinas ac yn eu

EU-wide transaction tax: with Hollande and Wales, or with the cheerleaders of the City of London?

niweidio. Brif Weinidog, a allwch ddweud wrthym beth yw eich safbwynt ar gael treth gweithrediadau ariannol ledled yr UE: a ydych o blaid Hollande a Chymru, neu hyrwyddwyr buddiannau Dinas Llundain?

**The First Minister:** A transaction tax does make sense, as long as it is applied as broadly as possible. It would not make sense to have such a tax within the UK or, indeed, simply within the EU. It has to be broader than that and should also include, for example, North America. I take the view that it is right that those who created the problems in the world economy in the first place should pay their dues when it comes to rectifying the situation.

**Y Prif Weinidog:** Mae treth gweithrediadau yn gwneud synnwyr, cyhyd â'i bod yn cael ei chymhwyso mor eang â phosibl. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i gael treth o'r fath yn y DU neu, yn wir, dim ond o fewn yr UE. Rhaid iddi fod yn ehangach na hynny, a dylai hefyd gynnwys, er enghraifft, Gogledd America. Rwyf o'r farn ei bod yn iawn y dylai'r rhai a greodd broblemau yn economi'r byd yn y lle cyntaf dalu eu dyledion pan ddaw i ddatrys sefyllfa.

**Leanne Wood:** President Hollande proposes an EU-wide transaction tax. Are you with President Hollande or are you with your party leader and the UK Chancellor, both of whom oppose its introduction?

**Leanne Wood:** Mae Arlywydd Hollande yn cynnig treth gweithrediadau ledled yr UE. A ydych chi o blaid Arlywydd Hollande neu o blaid arweinydd eich plaid a Changhellor y DU, sy'n gwrthwynebu ei chyflwyno?

**The First Minister:** I have given the leader of Plaid Cymru the answer, but she obviously did not listen carefully to what I said. It is refreshing, I suppose, to be presented with evidence of what is happening in France as opposed to the constant refrain about Scotland.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi rhoi'r ateb i arweinydd Plaid Cymru, ond mae'n amlwg na wrandawodd yn ofalus arno. Mae'n braf, mae'n siŵr, clywed tystiolaeth o'r hyn sy'n digwydd yn Ffrainc yn hytrach na'r byrdwn cyson am yr Alban.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, many people are trapped in rented accommodation because they cannot afford the deposit to buy their first home. That is why the Welsh Liberal Democrats have pushed for a pan-Wales scheme to help first-time buyers onto the housing ladder by getting the Government to act as guarantor for a number of mortgages. Given the idea's inclusion in the housing White Paper yesterday and comments from the Minister for finance in today's media, when will the Government be in a position to publish the details of how people can access such a scheme in Wales?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae nifer o bobl yn cael eu gorfodi i aros mewn llety ar rent gan na allant fforddio'r blaendal i brynu eu cartref cyntaf. Dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gwthio am gynllun drwy Gymru gyfan i helpu'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf i roi eu troed ar yr ysgol dai drwy gael y Llywodraeth i weithredu fel gwarantwr ar gyfer nifer o forgeisi. O ystyried bod y syniad wedi ei gynnwys yn y Papur Gwyn ar dai ddoe ac yn sgîl sylwadau gan y Gweinidog dros gyllid yn y cyfryngau heddiw, pryd fydd y Llywodraeth mewn sefyllfa i gyhoeddi manylion sut y gall pobl gael mynediad i gynllun o'r fath yng Nghymru?

**The First Minister**: Those details are being taken forward. The housing White Paper has already been published. Now that the idea has been settled, it is a matter of ensuring that it is implemented as quickly as possible.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r manylion hynny yn cael eu datblygu. Mae'r Papur Gwyn ar dai eisoes wedi ei gyhoeddi. Gan fod y syniad bellach wedi cael ei gytuno, mae'n fater o sicrhau ei fod yn cael ei weithredu cyn

gynted â phosibl.

**Kirsty Williams:** With 90,000 people on housing waiting lists in Wales, it is a scandal that there are 22,000 empty properties in our country. I am pleased that the Minister has agreed to double the number of empty homes that are to be brought back into use. When will the Government be able to publish details on how the owners of such properties can access the financial assistance?

**Kirsty Williams:** Gyda 90,000 o bobl ar restrau aros am dai yng Nghymru, mae'n warthus bod 22,000 o eiddo gwag yn ein gwlad. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi cytuno i ddyblu nifer y cartrefi gwag sydd i'w dychwelyd i ddefnydd. Pryd fydd y Llywodraeth yn gallu cyhoeddi manylion sut y gall perchnogion eiddo o'r fath gael gafael ar y cymorth ariannol?

**The First Minister:** Again, that is being taken forward. The empty homes initiative has been the Government's intention for some months, and we see local authorities looking at ways of bringing empty homes into use.

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, mae hynny'n cael ei ddatblygu. Bu'r fenter tai gwag ar y gweill gan y Llywodraeth ers rhai misoedd, ac rydym yn gweld awdurdodau lleol yn edrych ar ffyrdd o ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd.

**Kirsty Williams:** A recent report by the University of Cambridge, commissioned by your Government, identified that Wales needs an additional 5,000 affordable homes to be built every year, but your Government's target is to build just 2,000 additional affordable homes every year. What specific actions will your Government be taking to address that shortfall?

**Kirsty Williams:** Mae adroddiad diweddar gan Brifysgol Caergrawnt, a gomisiynwyd gan eich Llywodraeth, yn nodi bod ar Gymru angen 5,000 o dai fforddiadwy ychwanegol i gael eu hadeiladu bob blwyddyn, ond targed eich Llywodraeth yw adeiladu 2,000 o dai fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn. Pa gamau gweithredu penodol fydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw?

1.45 p.m.

**The First Minister:** We are looking at new ways of financing projects such as building new houses. However, I have to say to the leader of the Welsh Liberal Democrats that many people will become homeless because of the cuts in housing benefit that her party has proposed. The reality of the situation is that, as those people become homeless, so the cost will be passed on to local authorities and to the Welsh Government. It is a direct transfer of a fiscal black hole, again, from the UK Government to the Welsh Government. Therefore, I agree with much of what she said, but she has to recognise that her party will be responsible for much homelessness in the future.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o ariannu prosiectau fel adeiladu tai newydd. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y bydd nifer o bobl yn dod yn ddigartref oherwydd y toriadau i fudd-dal tai y mae ei phlaid wedi'u cynnig. Realiti'r sefyllfa yw, wrth i'r bobl hynny ddod yn ddigartref, y bydd y gost yn cael ei throsglwyddo i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae'n golygu trosglwyddo twll du ariannol yn uniongyrchol o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Felly, cytunaf â llawer o'r hyn a ddywedodd, ond rhaid iddi gydnabod y bydd ei phlaid yn gyfrifol am lawer o ddigartrefedd yn y dyfodol.

### Cynlluniau i Hybu'r Economi

### Plans to Boost the Economy

***3. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ei Lywodraeth i hybu'r economi.*

***3. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement on his Government's plans to boost the economy. OAQ(4)0531(FM)*

*OAQ(4)0531(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob ysgogiad sydd gennym i symbylu'r twf economaidd a chreu swyddi.

**Alun Ffred Jones:** Mae colli swyddi yn realiti sy'n wynebu llawr iawn o bobl ar hyd a lled Cymru a thu hwnt y dyddiau yma. Yng Nghaernarfon, mae 32 o weithwyr Scottish Power yn wynebu colli eu swyddi o'u symud i Wrecsam. Mae colli swyddi hefyd o fewn staff gweinyddol yr heddlu. Mae swyddi felly yn y sector cyhoeddus yn bwysig. Fel y gwyddoch, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn enghraifft brin o gorff cyhoeddus yng Nghymru sydd â phencadlys y tu allan i Gaerdydd. Wrth lunio'r corff amgylcheddol newydd, gan fod yr arbenigedd hwnnw yn y gogledd-orllewin, gofynnaf i chi roi addewid nid y bydd y corff newydd â'i bencadlys yn y gogledd-orllewin, ond y bydd eich Llywodraeth yn rhoi sylw teg a manwl i'r dadleuon o blaid cadw pencadlys y corff newydd y tu allan i Gaerdydd ac i'r ffaith bod y gogledd-orllewin, oherwydd yr arbenigedd sydd yno, yn lle addas ar gyfer y pencadlys hwnnw, gan gofio bod yr undebau yn dadlau'n gryf o blaid hynny.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod wedi codi'r mater hwn sawl gwaith, wrth gwrs, gan gofio bod y pencadlys yn ei etholaeth ef ar hyn o bryd. Mae'n iawn sôn am y sefyllfa ar hyn o bryd, a rhof addewid iddo y bydd popeth yn cael ei ystyried o ran lleoli pencadlys y corff newydd. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto, ond bydd y ffaith bod y pencadlys ar hyn o bryd ym Mangor yn cael ei ystyried yn y pen draw.

**Nick Ramsay:** First Minister, in your detailed answer to the leader of the opposition earlier regarding the economy, you mentioned that work was in progress on the enterprise zones that your Government has, thankfully, set up in Wales. We welcome the appointment of Nick Bourne to the chairship of the Haven zone in Pembrokeshire. That is an excellent appointment. Beyond the usual response of simply making progress, now that these zones are established and chairs are being announced, can you tell us how you intend to work with the chairs of those zones—and

**The First Minister:** The Welsh Government is using all the levers that we have to stimulate economic growth and create jobs.

**Alun Ffred Jones:** Job losses are the reality that many people the length and breadth of Wales are faced with during these times. In Caernarfon, 32 workers at Scottish Power face the loss of their jobs with the move to Wrexham. Administrative posts with the police are also being lost. Such jobs in the public sector are vital. As you will know, the Countryside Council for Wales is a rare example of a public body in Wales that has its headquarters outside Cardiff. In establishing the new environment body, given that expertise exists in the north-west, I ask you to give an assurance not that the new body will have its headquarters in the north-west, but that your Government will give due and detailed consideration to the arguments in favour of retaining the organisation's headquarters outside Cardiff and to the fact that the north-west, given the expertise to be found there, would be an appropriate place for the headquarters, bearing in mind that the unions have argued strongly in favour of that.

**The First Minister:** The Member has raised this issue several times, of course, bearing in mind that the headquarters are in his constituency currently. It is right to talk about the current situation, and I give him a promise that everything will be considered in the context of locating the headquarters of the new body. No decision has yet been made, but the fact that the headquarters are currently in Bangor will be considered.

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, yn eich ateb manwl i arweinydd yr wrthblaid ynghylch yr economi yn gynharach, gwnaethoch sôn bod gwaith yn mynd rhagddo ar yr ardaloedd menter y mae eich Llywodraeth, diolch byth, wedi'u sefydlu yng Nghymru. Rydym yn croesawu penodi Nick Bourne i gadeiryddiaeth ardal y Ddau Gleddau yn sir Benfro. Mae hynny'n benodiad rhagorol. Y tu hwnt i'r ymateb arferol ynghylch gwneud cynnydd, gan fod yr ardaloedd hyn wedi'u sefydlu a chan fod enwau cadeiryddion yn cael eu cyhoeddi, a allwch ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu gweithio gyda

perhaps you can give us an assurance that your Government will be working closely with them—to make sure that progress proceeds at a quicker pace than it did before their establishment and the announcements that you recently made?

chadeiryddion yr ardaloedd hynny—ac efallai y gallwch roi sicrwydd y bydd eich Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda hwy—i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn gyflymach nag yr oedd cyn eu sefydlu a'r cyhoeddiadau a wnaed gennych yn ddiweddar?

**The First Minister:** I thank the Member for his recognition of the detailed consideration that I gave of what we are doing as a Government, and the fact that I started to list all the things that we are doing as a Government. I stopped, as I could see that the leader of the opposition was reeling a bit, and I thought that it would be cruel just to keep him on the ropes and continue the barrage. I thought that I would let him off, for now, out of pity. However, as far as the enterprise zones are concerned, the pace has been very quick. It took a while to get the UK Government to confirm the level of allowances that would be given to the enterprise zones, and we have seen the good news that has come in about St Athan. Once the chairs are in place, we will work quickly to ensure that the enterprise zones become a reality, attracting more and more jobs into Wales.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am gydnabod yr ystyriaeth fanwl a roddais i'r hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth, a'r ffaith y dechreuais restru'r holl bethau rydym yn eu gwneud fel Llywodraeth. Rhoddais y gorau iddi, oherwydd gallwn weld bod arweinydd yr wrthblaid yn simsanu ychydig, ac roeddwn yn meddwl y byddai'n greulon i'w adael mewn gwendid a pharhau â'r llif. Roeddwn yn meddwl y byddwn yn gadael iddo fod, am y tro, oherwydd fy mod yn teimlo trueni drosto. Fodd bynnag, o ran ardaloedd menter, rydym wedi gweithredu'n gyflym. Cymerodd amser i gael Llywodraeth y DU i gadarnhau lefel y lwfansau a fyddai'n cael eu rhoi i'r ardaloedd menter, ac rydym wedi gweld y newyddion da sydd wedi dod i law ynghylch Sain Tathan. Unwaith y bydd y cadeiryddion yn eu lle, byddwn yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod yr ardaloedd menter yn dod yn realiti, gan ddenu mwy o swyddi i Gymru.

**Eluned Parrott:** First Minister, last year, your Government gave a vote of confidence to Cardiff by announcing that the capital's proposed central business district would become an enterprise zone. Indeed, you planned to locate the green investment bank in a new building in that area, were we successful in gaining the bank. However, this morning, Cardiff Council has announced that it has completely scrapped the plans, delaying the creation of those thousands of new jobs. How will you deliver an enterprise zone in Cardiff's central business district if Cardiff does not have a central business district?

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, y llynedd, rhoddodd eich Llywodraeth bleidlais o hyder i Gaerdydd drwy gyhoeddi y byddai ardal fusnes ganolog arfaethedig y brifddinas yn dod yn ardal fenter. Yn wir, eich bwriad oedd lleoli'r banc buddsoddi gwyrdd mewn adeilad newydd yn yr ardal honno, pe baem wedi llwyddo i ddenu'r banc. Fodd bynnag, y bore yma, mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi ei fod wedi rhoi'r gorau i'r cynlluniau yn llwyr, gan ohirio creu'r miloedd o swyddi newydd hynny. Sut y byddwch yn sefydlu ardal fenter yn ardal fusnes ganolog Caerdydd os nad oes gan Gaerdydd ardal fusnes ganolog?

**The First Minister:** Clearly, Cardiff has a central business district. The enterprise zone will remain and, from the point of view of the Welsh Government, we will continue to advance Cardiff as a business district, as we have done in the weeks and months gone past.

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae gan Gaerdydd ardal fusnes ganolog. Bydd yr ardal fenter yn parhau ac, o safbwynt Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i ddatblygu Caerdydd fel ardal fusnes, fel yr ydym wedi'i wneud yn ystod yr wythnosau a'r misoedd a aeth heibio.

**Ffynonellau Cyllid Newydd neu Amgen**

***4. Mark Drakeford:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddatblygu'r defnydd o ffynonellau newydd neu amgen o gyllid yng Nghymru. OAQ(4)0527(FM)*

**The First Minister:** In the programme for government, we committed to examining innovative means of funding public sector infrastructure. We have made good progress, securing additional investment to finance our strategic priorities and to boost jobs and growth. There will be further details in the statement that the Minister for finance will make shortly.

**Mark Drakeford:** We look forward to that statement this afternoon. The plan contains a commitment to continue to develop innovative approaches to lever in significant additional investment for public infrastructure in Wales. Can you provide us with an assurance that, where there are important public purposes at stake, this Government will continue to look as vigorously as possible at a range of innovative ways in which we can attempt to make good the cuts that we know are being imposed on infrastructure and services here in Wales?

**The First Minister:** Indeed we will, and let me give you one example of where that has already happened. At the end of March, we created the Ely Bridge Development Company Ltd with our partners, the Principality Building Society. That company will deliver some 700 new homes, 400 of which will be more affordable properties, as well as redevelop an area of land that has been derelict for some years.

**Paul Davies:** Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod Llywodraeth yr Alban wedi sefydlu corff o'r enw Scottish Futures Trust i ddatblygu ffyrdd newydd o ariannu prosiectau cyfalaf. Mae'r corff hwnnw wedi bod yn llwyddiannus gan arbed arian wrth reoli prosiectau. A all y Prif Weinidog gadarnhau y bydd ei Lywodraeth yn ystyried model o'r fath ar gyfer Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ystyried sawl

**New or Alternative Sources of Funding**

***4. Mark Drakeford:*** *What steps has the Welsh Government taken to develop the use of new or alternative sources of funding in Wales. OAQ(4)0527(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yn y rhaglen lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i archwilio dulliau arloesol o ariannu seilwaith y sector cyhoeddus. Rydym wedi gwneud cynnydd da, gan sicrhau buddsoddiad ychwanegol i ariannu ein blaenoriaethau strategol ac i hybu swyddi a thwf. Bydd rhagor o fanylion yn y datganiad y bydd y Gweinidog Cyllid yn ei wneud cyn bo hir.

**Mark Drakeford:** Rydym yn edrych ymlaen at y datganiad y prynhawn yma. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddatblygu dulliau arloesol o ddenu buddsoddiad sylweddol ychwanegol ar gyfer seilwaith cyhoeddus yng Nghymru. A allwch roi sicrwydd inni, lle mae amcanion cyhoeddus pwysig yn y fantol, y bydd y Llywodraeth yn parhau i ystyried, mewn ffordd mor fanwl ag y bo modd, amrywiaeth o ffyrdd arloesol y gallwn geisio gwneud iawn am y toriadau y gwyddom sy'n cael eu gorfodi ar ein seilwaith a'n gwasanaethau yma yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Gallwn, yn wir. Gadewch imi roi un enghraifft lle mae hynny wedi digwydd eisoes. Ddiwedd mis Mawrth, crëwyd Ely Bridge Development Company Cyf gyda'n partneriaid, Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Bydd y cwmni hwnnw'n adeiladu tua 700 o gartrefi newydd, a bydd 400 ohonynt yn dai mwy fforddiadwy. Yn ogystal, bydd yn ailddatblygu ardal o dir a fu'n ddiffaith ers rhai blynyddoedd.

**Paul Davies:** The First Minister will be aware that the Scottish Government has established a body called the Scottish Futures Trust to develop new ways of funding capital projects. That body has successfully used project management to save money. Can the First Minister confirm that his Government will consider a similar scheme for Wales?

**The First Minister:** We are considering a

model ar gyfer cyllido i'r dyfodol, a bydd y Gweinidog yn sôn am hynny. Dywedaf wrth yr Aelod hefyd ei fod yn llawer mwy deinamig nag y mae ei arweinydd yn rhoi clod iddo ar ei gyfer.

number of different funding models for the future, and the Minister will be talking about that. I also say to the Member that he is much more dynamic than his leader gives him credit for.

**Ieuan Wyn Jones:** Er eich bod wedi gofyn i'r Trysorlys am bwerau benthyg, rydym i gyd yn gwybod eich bod yn annhebyg o'u cael tan o leiaf 2015, sef pryd y bydd yr Alban yn cael ei phwerau newydd. Mae hynny'n golygu y bydd bwlch o £770 miliwn wedi'i dorri o'ch cyllideb cyfalaf. Rydych wedi cyhoeddi bod £170 miliwn yn dod o ddefnyddio pwerau benthyg awdurdodau lleol, ond o ble mae'r £500 miliwn arall yn dod?

**Ieuan Wyn Jones:** Even though you have asked the Treasury for borrowing powers, we all know that you are unlikely to get them until 2015 at the earliest, which is when Scotland will get its new powers. That means that there will be a gap of £770 million cut from your capital budget. You have announced that £170 million will come from using local authorities' borrowing powers, but where will the other £500 million come from?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ystyried ar hyn o bryd sut y mae arian yn cael ei dynnu i mewn i'r economi, a bydd y Gweinidog yn rhoi mwy o fanylion yn ei datganiad heddiw ynghylch sut y bydd arian cyfalaf yn cael ei wario yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. Dymunaf yn dda i'r Aelod heddiw.

**The First Minister:** We are currently looking at how money is levered in to the economy, and the Minister in her statement today will be outlining more details of how capital moneys are to be spent in Wales over the coming years. I wish the Member well today.

**Peter Black:** First Minister, your Government has been talking for some considerable time about finding alternative sources of funding, particularly in relation to bonds. When will you finally make a statement on this?

**Peter Black:** Brif Weinidog, bu eich Llywodraeth yn siarad ers cryn amser am ddod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid, yn enwedig mewn perthynas â bondiau. Pryd y byddwch, o'r diwedd, yn gwneud datganiad am hyn?

**The First Minister:** As I say, the Minister will shortly be making a statement on the Wales infrastructure investment plan in the Chamber. We await the Treasury's further comments on granting Wales borrowing powers, as has been done for Scotland and Northern Ireland. We see no reason why Wales should be discriminated against in that way.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, yn fuan, bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn y Siambr. Rydym yn aros am ragor o sylwadau gan y Trysorlys ar roi pwerau benthyca i Gymru, fel y gwnaed yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Ni welwn unrhyw reswm pam y dylid gwahaniaethu yn erbyn Cymru yn y ffordd honno.

### Dwyn Metel

### Metal Theft

***5. Mike Hedges***: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â dwyn metel yng Nghymru. OAQ(4)0520(FM)*

***5. Mike Hedges:*** *What action is the Welsh Government taking to combat metal theft in Wales. OAQ(4)0520(FM)*

**The First Minister:** We are working closely with the police and other authorities to combat metal theft. We also work with Whitehall departments, where the responsibility for dealing with this issue lies.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ac awdurdodau eraill i fynd i'r afael â dwyn metel. Rydym hefyd yn gweithio gydag adrannau Whitehall, sy'n gyfrifol am ymdrin â'r mater hwn.

**Mike Hedges:** A freedom of information request made to the City and County of Swansea council regarding metal theft revealed that the authority was forced to spend more than £74,000 in 2011-12 on replacing stolen public property, ranging from road signs to downpipes and cabling. Do you agree that it should now look at using alternative materials to stop such thefts?

**Mike Hedges:** Datgelodd cais rhyddid gwybodaeth a wnaed i gyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch dwyn metel y cafodd yr awdurdod ei orfodi i wario mwy na £74,000 yn 2011-12 ar ailosod eiddo cyhoeddus a ddygwyd, yn amrywio o arwyddion ffyrdd i bibellau a cheblau. A ydych yn cytuno y dylai yn awr ystyried defnyddio deunyddiau amgen i atal achosion o ddwyn o'r fath?

**The First Minister:** Local authorities will need to explore, where appropriate, the most cost-effective way of replacing any stolen metal, using suitable alternative materials, if possible, and products that are designed to deter thefts. There is an obvious financial incentive for doing so.

**Y Prif Weinidog:** Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried, lle y bo'n briodol, y ffordd fwyaf cost-effeithiol o ailosod metel sydd wedi'i ddwyn, gan ddefnyddio deunyddiau amgen addas, os yn bosibl, a chynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i atal achosion o ddwyn. Mae cymhelliad ariannol amlwg dros wneud hynny.

**Russell George:** First Minister, I have been approached by a number of local authority leaders asking what the Welsh Government can do to tackle metal thefts. What consideration has the Government given to introducing a cashless payment scheme for dealing with scrap metal, which would include requirements for individuals to produce photo identification along with vehicle registration documents?

**Russell George:** Brif Weinidog, mae nifer o arweinwyr awdurdodau lleol wedi cysylltu â mi i ofyn beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael ag achosion o ddwyn metel. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i rhoi i gyflwyno cynllun talu heb arian ar gyfer delio metel sgrap, a fyddai'n cynnwys gofynion ar unigolion i ddangos llun adnabod ynghyd â dogfennau cofrestru cerbyd?

**The First Minister:** The Scrap Metal Dealers Act 1964, which governs the dealing of scrap metal, as the name suggests, is not a devolved piece of legislation. We understand that the UK Government, through the Home Office's forum for innovation in crime prevention, is seeking to design solutions to identify alternatives to traditional metals that would be less attractive and harder to steal.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964, sy'n rheoli delio metel sgrap, fel yr awgryma'r enw, yn ddarn o ddeddfwriaeth ddatganoledig. Rydym yn deall bod Llywodraeth y DU, drwy fforwm y Swyddfa Gartref ar gyfer arloesi wrth atal troseddau, yn ceisio llunio atebion i nodi dewisiadau amgen i fetelau traddodiadol a fyddai'n llai deniadol ac yn fwy anodd eu dwyn.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, y llynedd, costiodd y lladrata hwn bron £0.75 miliwn i awdurdodau lleol Cymru, sef dwywaith y swm y mae'r *Western Mail* yn corddi cymaint yn ei gylch heddiw. Mae hwn yn sgandal, felly, yng Nghymru. Ymhellach i gwestiwn Russell George, beth y gallwch chi ei wneud i geisio cael y pwerau i Gymru, os oes eu hangen, i wneud yn siŵr bod masnachwyr mewn metel yn cadw cofnodion cywir i wneud yn sicr nad yw'r lladrata hwn mor rhwydd ag ydyw ar hyn y bryd?

**Simon Thomas:** First Minister, last year, this kind of theft cost Welsh local authorities almost £0.75 million, which is twice the sum that the *Western Mail* is so exercised about today. This is, therefore, a great scandal in Wales. Further to Russell George's question, what can you do to try to obtain the powers for Wales, if necessary, to ensure that metal dealers keep accurate records in order to ensure that this type of theft is not as easy as it is currently?

**Y Prif Weinidog:** Y broblem yw, wrth gwrs, pe bai gennym reolau gwahanol yng Nghymru, gallai hynny annog pobl i werthu metel yn Lloegr. Felly, mae'n bwysig dros ben bod ffordd fwy eang o ddelio â'r broblem hon. Yn y pen draw, y ffordd o sicrhau nad yw hwn yn digwydd yn y dyfodol yw sicrhau bod pethau eraill yn cael eu defnyddio i greu arwyddion, ac nid metel, sydd werth llawer o arian ar hyn o bryd.

**The First Minister:** The problem is, of course, that if we had different rules in Wales, that might simply act as an incentive for people to sell metal in England. Therefore, it is extremely important to find a broader way of dealing with this problem. Ultimately, the way to ensure that this does not happen in future is to ensure that other materials are used to create signs instead of metal, which is extremely valuable currently.

### Undebau Credyd

### Credit Unions

***6. Christine Chapman:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Undebau Credyd yng Nghymru. OAQ(4)0519(FM)*

***6. Christine Chapman:** Will the First Minister make a statement on Credit Unions in Wales. OAQ(4)0519(FM)*

**The First Minister:** The commitment to support credit unions is in our programme for government and is being delivered.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ymrwymiad i gefnogi undebau credyd wedi'i nodi yn ein rhaglen lywodraethu ac mae'n cael ei gyflawni.

**Christine Chapman:** We know that credit unions offer very real benefits to their members, least of all in helping people to avoid loan sharks and pay-day loan companies. I know that there is a risk that many people will use such services now because of the terrible cuts that are coming down from the UK Government. There is still a need for us to improve awareness of, and access to, credit unions. Mobile credit unions are one solution, offering convenience and increasing the take-up by bringing the service direct to people's doorsteps. First Minister, I am aware of one local authority that does this, but what plans does the Welsh Government have to encourage the roll-out of similar projects in other local authority areas?

**Christine Chapman:** Rydym yn gwybod bod undebau credyd yn cynnig manteision gwirioneddol i'w haelodau, leiaf oll wrth helpu pobl i osgoi benthycwyr arian didrwydded a chwmnïau benthyciad diwrnod cyflog. Gwn fod perygl y bydd nifer o bobl yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn awr oherwydd y toriadau ofnadwy sy'n dod gan Lywodraeth y DU. Mae angen o hyd inni wella ymwybyddiaeth o undebau credyd a mynediad iddynt. Mae undebau credyd symudol yn un ateb, gan eu bod yn gyfleus ac yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth drwy ddod ag ef yn syth i garreg drws pobl. Brif Weinidog, rwy'n gwybod am un awdurdod lleol sy'n gwneud hyn, ond pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog y broses o gyflwyno prosiectau tebyg mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill?

**The First Minister:** The Neath Port Talbot Credit Union has a mobile office—I saw it yesterday, in fact, when I opened its new office. It sees that as an important part of its work. On top of that, it has three other offices. It is for each credit union to decide how best to reach out to people in its communities, but I am sure that the example of a mobile office is one that many credit unions will follow with interest.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot swyddfa symudol—yn wir, fe'i gwelais ddoe pan agorais ei swyddfa newydd. Mae'n gweld hynny yn rhan bwysig o'i waith. Ar ben hynny, mae ganddo dair swyddfa arall. Mater i bob undeb credyd yw penderfynu ar y ffordd orau o estyn allan at bobl yn ei gymunedau, ond rwy'n siŵr y bydd nifer o undebau credyd yn dilyn enghraifft y swyddfa symudol gyda diddordeb.

**Antoinette Sandbach:** Credit unions

**Antoinette Sandbach:** Heb os, mae gan

undoubtedly have a welcome role to play in reducing dependence on short-term pay-day loans that charge excessive rates of interest. However, one of the most important ways of preventing future generations from becoming trapped in debt will be to improve the financial education of children in schools. First Minister, do you agree that this task is all the more urgent in the light of the poor numeracy skills in Welsh schools, highlighted in the recent PISA results and again this month by Estyn? Can you state what confidence you have that your Minister will be able to overcome the failures of his predecessors and will be able to equip schoolchildren with the numeracy and financial skills that they need to succeed in their adult lives?

undebau credyd rôl werthfawr i'w chwarae o ran lleihau dibyniaeth ar fenthyciadau diwrnod cyflog tymor byr sy'n codi cyfraddau llog eithafol. Fodd bynnag, un o'r ffyrdd pwysicaf o atal cenedlaethau'r dyfodol rhag cael eu dal mewn dyled fydd gwella addysg ariannol ar gyfer plant mewn ysgolion. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod y dasg hyd yn oed yn fwy pwysig yng ngoleuni'r sgiliau rhifedd gwael yn ysgolion Cymru, a amlygwyd yn y canlyniadau PISA diweddar ac eto y mis hwn gan Estyn? A allwch ddweud pa mor hyderus ydych y gall eich Gweinidog oresgyn methiannau ei ragflaenwyr ac y bydd yn gallu rhoi i blant ysgol y sgiliau rhifedd ariannol sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu bywydau fel oedolion?

**The First Minister:** A large number of young people are savers in credit unions. Certainly, Neath Port Talbot Credit Union has seen an increase of 71% in the number of junior savers since October last year. In many instances, credit unions are working with schools and other organisations to ensure that children have a proper understanding of how money works and how best to avoid debt.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer fawr o bobl ifanc yn cynilo mewn undebau credyd. Yn sicr, mae Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot wedi gweld cynnydd o 71% yn nifer y cynilwyr iau ers mis Hydref y llynedd. Mewn nifer o achosion, mae undebau credyd yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill i sicrhau bod gan blant ddealltwriaeth briodol o sut y mae arian yn gweithio a pa ffordd yw'r un orau i osgoi dyled.

**Jocelyn Davies:** First Minister, the increase in credit union membership is very welcome and I hope that it will pull people away from borrowing from loan sharks—the legal and illegal kind. What progress have you made with the crackdown on illegal loan sharks? Will you lobby the UK Government to set a maximum interest rate on pay-day loans?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, mae'r cynnydd mewn aelodaeth undebau credyd i'w groesawu'n fawr ac rwy'n gobeithio y bydd yn atal pobl rhag benthyca gan siarcod benthyg—y math cyfreithlon a'r math anghyfreithlon. Pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud o ran yr ymgyrch i fynd i'r afael â benthycwyr arian didrwydded? A wnewch lobïo Llywodraeth y DU i bennu uchafswm cyfradd llog ar fenthyciadau diwrnod cyflog?

**The First Minister:** On the second point, I am entirely with you. It is little more than usury, to use the old biblical term, when the annual percentage rates for interest run into four figures. Credit unions play an important role in diverting people away from loan sharks, whether they are on the street or elsewhere. That is why, as a Government, we have invested so much to ensure that there is a network of credit unions across Wales.

**Y Prif Weinidog:** O ran yr ail bwynt, rwy'n cytuno'n llwyr â chi. Ychydig mwy nag usuriaeth ydyw, i ddefnyddio'r hen derm beiblaidd, pan fydd y cyfraddau canrannol blynyddol ar gyfer llog yn cynyddu yn bedwar ffigur. Mae undebau credyd yn chwarae rhan bwysig o ran denu pobl oddi wrth fenthycwyr arian didrwydded, p'un a ydynt ar y stryd neu yn rhywle arall. Dyna pam, fel Llywodraeth, rydym wedi buddsoddi cymaint i sicrhau bod rhwydwaith o undebau credyd ledled Cymru.

**David Rees:** First Minister, as you have

**David Rees:** Brif Weinidog, fel yr ydych

already stated, you were in my constituency yesterday opening the new offices of the Neath Port Talbot Credit Union. It has shown how an organisation can grow. It estimates that, over the past 18 months, it has saved £700,000 by not charging the same high interest rates as the legal and illegal loan sharks. Part of the strategy is to work closely with major employers, such as Tata Steel and Neath Port Talbot County Borough Council. What can the Welsh Government do to encourage more public employers to support credit unions and to encourage employees to save with them?

wedi ei ddweud eisoes, roeddech yn fy etholaeth ddoe yn agor swyddfeydd newydd Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot. Mae wedi dangos sut y gall sefydliad dyfu. Mae'n amcangyfrif ei fod, dros y 18 mis diwethaf, wedi arbed £700,000 drwy beidio â chodi'r un cyfraddau llog uchel â siarcod benthyg cyfreithlon ac anghyfreithlon. Rhan o'r strategaeth yw gweithio'n agos gyda phrif gyflogwyr, megis Tata Steel a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i annog rhagor o gyflogwyr cyhoeddus i gefnogi undebau credyd ac annog gweithwyr i arbed gyda hwy?

2.00 p.m.

**The First Minister:** Much work has been done over the years to encourage credit unions, as the Member will be aware. For example, yesterday, when I opened the Neath Port Talbot Credit Union Limited office, there were representatives from Tata Steel, which is a major employer in the area that takes a strong interest in the work of credit unions. Indeed, there are other examples across Wales of credit unions that were originally set up in places of work. Some have merged over the years with credit unions that have a common bond across a wider area.

**Y Prif Weinidog:** Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae llawer o waith wedi ei wneud dros y blynyddoedd i annog undebau credyd. Er enghraifft, ddoe, pan agorais swyddfa Undeb Credyd Cyfyngedig Castell-nedd Port Talbot, roedd cynrychiolwyr o Tata Steel yno, sy'n gyflogwr pwysig yn yr ardal sy'n cymryd diddordeb mawr yng ngwaith undebau credyd. Yn wir, mae enghreifftiau eraill yng Nghymru o undebau credyd a gafodd eu sefydlu'n wreiddiol mewn mannau gwaith. Dros y blynyddoedd, mae rhai ohonynt wedi uno ag undebau credyd sydd â chysylltiad cyffredin ar draws ardal ehangach.

### Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

### European Structural Funds

***7. Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. OAQ(4)0526(FM)*

***7. Nick Ramsay:** Will the First Minister make a statement on any discussions he has had on the European Structural Fund programme. OAQ(4)0526(FM)*

**The First Minister:** I have had numerous discussions with Welsh, UK and European partners on the European structural funds, including several conversations with the Commissioner for regional policy, Johannes Hahn.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cael trafodaethau niferus gyda phartneriaid yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop am y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, gan gynnwys nifer o sgyrsiau gyda Johannes Hahn, y Comisiynydd dros bolisi rhanbarthol.

**Nick Ramsay:** First Minister, you will know that the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes recently found time in his busy schedule, jetting between Belgium, London and Cardiff, to deliver a statement to the Chamber on structural funds. In it, he spoke about the

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd wedi canfod amser yn ei amserlen brysur yn ddiweddar, wrthi iddo hefan rhwng Gwlad Belg, Llundain a Chaerdydd, i roi datganiad i'r Siambr am

need for focus on the creation of sustainable jobs and growth, which I agree with wholeheartedly. Given the problems identified with the previous rounds of structural funds and the need for the next round of funds to deliver that sustainability in growth and jobs, what role will your delivery unit play in ensuring that we have the quantifiable outcomes that your hard-working Deputy Minister believes your Government should be doing a lot to deliver?

gronfeydd strwythurol. Yn ei ddatganiad, cyfeiriodd at yr angen i ganolbwyntio ar greu swyddi cynaliadwy a thwf, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. O ystyried y problemau a nodwyd gyda chylchoedd blaenorol o'r cronfeydd strwythurol a'r angen i'r cylch nesaf o arian sicrhau cynaliadwyedd o ran twf a swyddi, pa rôl fydd eich uned gyflawni yn ei chwarae wrth sicrhau bod gennym y canlyniadau mesuradwy y mae eich Dirprwy Weinidog gweithgar yn credu y dylai eich Llywodraeth fod yn gwneud llawer o ymdrech i'w cyflawni?

**The First Minister:** Indeed, we should have outcomes, and that is what we will do when the new round of structural funds is put in place. We are believers in being measured against outcomes, as you and all Members will find out when the programme for government is published.

**Y Prif Weinidog:** Yn wir, dylem gael canlyniadau, a dyna y byddwn yn ei wneud pan fydd y cylch newydd o gronfeydd strwythurol yn cael ei roi ar waith. Rydym yn credu mewn cael ein mesur ar sail canlyniadau, fel y byddwch chi a'r holl Aelodau'n ei ganfod pan fydd y rhaglen lywodraethu yn cael ei chyhoeddi.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhan o'r ymchwiliad i weithgareddau Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan—AWEMA. Rydym wedi bod yn disgwyl am ddatganiad oddi wrth y Llywodraeth ynglŷn â chasgliadau'r ymchwiliad hwn. A allwch chi ddweud y prynhawn yma pryd y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r datganiad hwnnw? Rydym wedi bod yn disgwyl ers misoedd erbyn hyn. Mae diwedd mis Mai yn prysur agosáu ac os nad ydym yn cael gwybodaeth oddi wrthych cyn bo hir, bydd toriad yr haf arnom cyn bod datganiad yn cael ei wneud.

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, you will be aware that the Welsh European Funding Office is involved in the investigation into the activities of the All Wales Ethnic Minority Association. We have been awaiting a statement from the Government on the conclusions of this investigation. Can you tell us this afternoon when that statement will be made? We have now been waiting for months. It is almost the end of May and if we do not have information from you soon, the summer recess will be upon us before any statement is made.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i orffen eto. Unwaith y bydd hwnnw wedi ei orffen ac y bydd adroddiad ar gael, bydd yn bosibl i Aelodau weld y manylion.

**Y Prif Weinidog:** The Wales Audit Office's inquiry is not yet complete. Once that happens and a report is published, Members will be provided with the details.

**Cymorth i Gymru Wledig**

**Support for Rural Wales**

***8. Angela Burns:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i roi mwy o gymorth i Gymru wledig. OAQ(4)0534(FM)*

***8. Angela Burns:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans for increasing support for rural Wales. OAQ(4)0534(FM)*

**The First Minister:** Yes; they are to be found in programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maent i'w gweld yn y rhaglen lywodraethu.

**Angela Burns:** Thank you very much for that illuminating answer. [*Laughter.*] The Wales Rural Observatory put out a report only a couple of years ago in which it pointed out very clearly that the chasm between urban and rural areas is growing ever larger. We are losing our post offices and our schools, and our medical services are being centralised, usually away from small, local communities. Our pubs are closing and there is real poverty, hidden poverty, in rural Wales. First Minister, do you regret the inaction over the last couple of years that has not seen this great chasm between urban dwellers and rural dwellers closing? The poverty statistics have not changed one iota.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb dadlennol hwnnw. [*Chwerthin.*] Ychydig flynyddoedd yn ôl, cyhoeddodd Arsyllfa Wledig Cymru adroddiad lle’r oedd yn nodi’n glir bod yr agendor rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn tyfu’n fwy o hyd. Rydym yn colli ein swyddfeydd post a’n hysgolion, ac mae ein gwasanaethau meddygol yn cael eu canoli, gan amlaf i ffwrdd o gymunedau bach, lleol. Mae ein tafarndai yn cau ac mae yno dlodi gwirioneddol, tlodi cudd, yng nghefn gwlad Cymru. Brif Weinidog, a ydych yn edifar ynghylch y diffyg gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn ceisio cau’r agendor mawr hwn rhwng y rheini sy’n byw mewn trefi a’r rheini sy’n byw yn y wlad? Nid yw’r ystadegau tlodi wedi newid o gwbl.

**The First Minister:** As far as rural Wales is concerned, we have an excellent record on making payments under the common agricultural policy, an excellent record on delivering on the rural development plan, and an excellent record on transport. If you look at the ‘Deep Rural Localities’ report, you will see that as a result of that, four community transport pilot projects were awarded money in order to take them forward. Of course, we are ensuring that people in rural areas will have access to broadband at a reasonable speed as well. We know that the market will not deliver that; it is something that is being delivered uniquely in Wales, and we are determined that those who live in rural Wales should have the same access to facilities as those who live in urban areas.

**Y Prif Weinidog:** O ran cefn gwlad Cymru, mae gennym record rhagorol ar wneud taliadau o dan y polisi amaethyddol cyffredin, record rhagorol ar gyflawni’r cynllun datblygu gwledig, a record rhagorol o ran trafnidiaeth. Os edrychwch ar yr adroddiad ‘Ardaloedd Gwledig Anghysbell’, gwelwch, o ganlyniad i hwnnw, y dyfarnwyd arian i bedwar prosiect trafnidiaeth cymunedol peilot er mwyn bwrw ymlaen â hwy. Wrth gwrs, rydym yn sicrhau y gall pobl mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at fand eang ar gyflymder rhesymol yn ogystal. Rydym yn gwybod na fydd y farchnad yn darparu hynny; mae’n rhywbeth sy’n cael ei ddarparu’n unigryw yng Nghymru, ac rydym yn benderfynol y dylai’r rhai sy’n byw yng nghefn gwlad Cymru gael yr un mynediad at gyfleusterau â phobl sy’n byw mewn ardaloedd trefol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rydym i gyd yn ymwybodol o broblemau tlodi tanwydd, sy’n effeithio ar ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd poblog, ond mae pwnc arall, sef tlodi trafnidiaeth, yn dod yn fwyfwy amlwg yn ddiweddar, ac mae’n mynd i fod yn broblem yr un mor gynyddol a’r un mor ddifrifol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. A wnewch chi fel Llywodraeth ystyried rhoi’r un pwyslais ar daclo tlodi trafnidiaeth ag yr ydych wedi ei roi ar daclo tlodi tannwyd?

**Llyr Huws Gruffydd:** We are all aware of the problems of fuel poverty, which affect rural areas as well as more populated areas, but there is another issue, namely transport poverty, which has become more apparent recently and which will be just as much of a problem, particularly in rural areas. Will you as a Government therefore consider putting the same emphasis on tackling transport poverty as you did on tackling fuel poverty?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol wedi bod ar waith ers amser, ac mae'r Gweinidog wedi dweud mewn datganiad i'r Cynulliad y bydd yn edrych ar y cynlluniau a'r prosiectau eu hunain i weld ym mha ffordd y gallem eu datblygu yn y dyfodol. Mae hefyd gynllun Bwcabus, a ddechreuwyd yn Sir Gâr ac sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Soniais am y prosiectau sydd wedi cael eu hariannu mewn pedair rhan o Gymru er mwyn helpu pobl gyda thrafnidiaeth.

**The First Minister:** The community transport concessionary fares initiative has been in place for some time now, and the Minister has made a statement to the Assembly to say that he will be looking at the plans and the projects themselves to see how we can develop them in future. There is also the Bwcabus scheme, which was started in Carmarthenshire and has been exceptionally successful. I mentioned the other projects that have been funded in four parts of Wales in order to assist people with transportation.

**William Powell:** First Minister, as you will be aware, a task and finish group has recently been set up in Powys to deliver the local growth zones that were announced by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science in the spring. Given that the call for evidence to that committee is due to close on 1 June, I hope that you will join me in urging all relevant businesses to make a contribution if they so wish. Some early submissions of evidence that have been copied to me suggest that one important area is the creation in Powys of a coherent and more business-friendly approach to planning. Could you please confirm how your Government will respond?

**William Powell:** Brif Weinidog, fel y gwyddoch, yn ddiweddar, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu ym Mhowys i gyflwyno'r ardaloedd twf lleol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn y gwanwyn. O ystyried bod disgwyl i'r cais am dystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw gau ar 1 Mehefin, rwy'n gobeithio y gwnewch chi ymuno â mi i annog pob busnes perthnasol i wneud cyfraniad, os ydynt yn dymuno. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn gynnar, yr wyf wedi cael copi ohoni, yn awgrymu mai un maes pwysig ym Mhowys yw creu dull mwy cydlynol a chyfeillgar i fusnesau o ymdrin â chynllunio. A fyddech cystal â chadarnhau sut y bydd eich Llywodraeth yn ymateb?

**The First Minister:** In terms of planning, it is a matter for the council in Powys. It should have in place a local development plan and a planning system that is swift and transparent. That goes for any local authority in Wales, not just Powys. Of course, we are looking at the planning Bill, which will be introduced in the course of this year, and as part of that planning Bill we are aware that the planning system certainly needs to become speedier—there is no question about that—without losing its ability to listen to people's views before decisions are taken. Those matters will be examined carefully during the course of that Bill.

**Y Prif Weinidog:** O ran cynllunio, mae'n fater i'r cyngor ym Mhowys. Dylai fod ganddo gynllun datblygu lleol a system gynllunio gyflym a thryloyw ar waith. Mae hynny'n wir am unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, nid ym Mhowys yn unig. Wrth gwrs, rydym yn edrych ar y Bil cynllunio, a fydd yn cael ei gyflwyno eleni, ac fel rhan o'r Bil cynllunio hwnnw, rydym yn ymwybodol bod angen cyflymu'r system gynllunio yn sicr—nid oes unrhyw amheuaeth am hynny—heb golli ei allu i wrando ar farn pobl cyn gwneud penderfyniadau. Bydd y materion hynny'n cael eu harchwilio'n ofalus yn ystod hynt y Bil hwnnw.

## Cyrhaeddiad Disgyblion

## Pupil Attainment

***9. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghymru. OAQ(4)0524(FM)*

***9. Kenneth Skates:*** *Will the First Minister outline the work the Welsh Government is doing to improve the attainment of pupils on free school meals in Wales. OAQ(4)0524(FM)*

**The First Minister:** We give a high priority to tackling poverty and using all available levers to deliver better outcomes for pupils from low-income families. To give you some examples, we have introduced secondary school banding, which incentivises stretching targets for pupil attainment, and the pupil deprivation grant.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael â thlodi a defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau gwell i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel. I roi rhai enghreifftiau ichi, rydym wedi cyflwyno system fandio ar gyfer ysgolion uwchradd, sy'n cymell ymestyn targedau ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion, a'r grant amddifadedd i ddisgyblion.

**Kenneth Skates:** Thank you for your answer, First Minister. Tomorrow, Save the Children will be launching a report that will highlight the very strong association between poverty and low levels of educational achievement in Wales. The report examines some of the measures that now need to be taken by schools, local authorities and the Welsh Government to tackle the poverty gap and raise educational attainment. Do you agree that the way to tackle the poverty gap in education is through a unified approach such as this? Will you examine what steps this Welsh Government can take to break the link between poverty and educational underachievement?

**Kenneth Skates:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Yfory, bydd Achub y Plant yn lansio adroddiad a fydd yn tynnu sylw at y cysylltiad cryf rhwng tlodi a lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn archwilio rhai o'r mesurau y mae angen i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch tlodi a gwella cyrhaeddiad addysgol. A ydych yn cytuno mai'r ffordd o fynd i'r afael â'r bwlch tlodi mewn addysg yw drwy gael dull unedig fel hyn? A wnewch chi edrych ar ba gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol?

**The First Minister:** I have already mentioned some matters that are being taken by the Minister to deal with this. I look forward to getting the report tomorrow, when it is launched, and we will of course give it full consideration.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf eisoes wedi crybwyll rhai camau sy'n cael eu cymryd gan y Gweinidog i ymdrin â hyn. Rwy'n edrych ymlaen at gael yr adroddiad yfory, pan gaiff ei lansio, a byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn iddo wrth gwrs.

**Mark Isherwood:** Six years ago, the *Times Educational Supplement* reported that the school with the highest proportion of free school meals in England, at 83%, had 59% of pupils getting A-C grades at GCSE. However, the school with the highest proportion of free school meals in Wales, at 62%, had just 14% achieving that level. Eighteen months ago, we had new figures showing that the proportion of 15-year-olds attaining that level had fallen again, and the gap had increased further. Do you therefore agree that we should be targeting

**Mark Isherwood:** Chwe blynedd yn ôl, cyhoeddodd y *Times Educational Supplement* fod 59% o'r disgyblion yn yr ysgol sy'n darparu'r gyfran uchaf o brydau ysgol am ddim yn Lloegr, sef 83%, wedi cael graddau A-C yn eu harholiadau TGAU. Fodd bynnag, dim ond 14% o'r disgyblion yn yr ysgol sy'n darparu'r gyfran uchaf o brydau ysgol am ddim yng Nghymru, sef 62%, a oedd yn cyrraedd y lefel honno. Ddeunaw mis yn ôl, roedd gennym ffigurau newydd a oedd yn dangos bod y gyfran o ddisgyblion 15 oed sy'n cyrraedd y lefel honno wedi gostwng

underachievement wherever we find it, recognising the link between poverty, disadvantage and educational performance, but also recognising that, sometimes, excellence exists in disadvantaged areas, and sometimes educational failure exists in areas that do not have high levels of disadvantage?

unwaith eto, ac mae'r bwlch wedi cynyddu ymhellach. A ydych yn cytuno felly y dylem fod yn targedu tangyflawni lle bynnag yr ydym yn ei ganfod, gan gydnabod y cysylltiad rhwng tlodi, anfantais a pherfformiad addysgol, ond yn cydnabod hefyd bod rhagoriaeth, weithiau, yn bodoli mewn ardaloedd difreintiedig, a bod methiant addysgol, weithiau, yn bodoli mewn ardaloedd nad oes ganddynt lefelau uchel o anfantais?

**The First Minister:** I would agree with the last statement very much. If we look at the banding that has been introduced, we can see that the statement is correct. There are many schools in disadvantaged parts of Wales that are doing very well. I do not believe that the figures that you quoted can be used for a direct comparison of Wales with England, but, as I mentioned in answer to the original question, we are determined to make sure that any gap in educational attainment between those on free school meals and those who are not is closed.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn cytuno â'r datganiad olaf yn fawr iawn. Os edrychwn ar y bandio sydd wedi'i gyflwyno, gallwn weld bod y datganiad yn gywir. Mae nifer o ysgolion mewn rhannau difreintiedig o Gymru sy'n gwneud yn dda iawn. Nid wyf yn credu y gall y ffigurau a ddyfynnwyd gennych gael eu defnyddio ar gyfer cymharu'n uniongyrchol rhwng Cymru a Lloegr, ond, fel y soniais wrth ateb y cwestiwn gwreiddiol, rydym yn benderfynol o wneud yn siŵr bod unrhyw fwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn cael ei gau.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, i droi at y grant amddifadedd disgyblion rydych newydd ei grybwyll, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i asesu effeithlonrwydd y grant hwnnw yn ystod y flwyddyn hon, ac a ydych chi'n bwriadu parhau â'r grant hwnnw beth bynnag a ddaw dros y flwyddyn nesaf ac yng ngweddill tymor eich Llywodraeth?

**Simon Thomas:** First Minister, in turning to the pupil deprivation grant that you just mentioned, what steps are you taking to assess the efficacy of that grant during this year, and do you intend to continue to offer the grant come what may during the next year and during the remainder of your Government's term of office?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n deall pwynt yr Aelod am y grant. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i ddweud beth fydd canlyniad unrhyw asesiad, ond, wrth gwrs, roeddem yn hapus i gytuno ar hynny â'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod y trafodaethau am y gyllideb.

**The First Minister:** I understand the point the Member makes about the grant. It is too early to say what the outcome of any assessment will be, but, of course, we were happy to agree on this point with the Liberal Democrats during the budget negotiations.

**Joyce Watson:** What assessment has the Government made of the impact of welfare reform on the number of children in Wales receiving free school meals? According to an analysis by the Children's Society, more than 350,000 children in the UK will lose their free school meals under the universal credit system. That is staggering, particularly when you consider that school lunch is the main

**Joyce Watson:** Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o effaith diwygio lles ar nifer y plant yng Nghymru sy'n cael prydau ysgol am ddim? Yn ôl dadansoddiad gan Gymdeithas y Plant, bydd mwy na 350,000 o blant yn y Deyrnas Unedig yn colli eu prydau ysgol am ddim o dan y system credydau cyffredinol. Mae hynny'n syfrdanol, yn enwedig pan fyddwch yn

meal for one in three schoolchildren. In the light of this, will the Welsh Government look again at the system that local education authorities put in place to protect the anonymity of children receiving free lunch? My concern is that the children who qualify for free school meals may find themselves even more singled out and subjected to forms of bullying and may possibly refuse the dinner queue stigma.

ystyried mai cinio ysgol yw'r prif bryd ar gyfer un o bob tri phlentyn ysgol. Yng ngoleuni hyn, a wnaiff Llywodraeth Cymru edrych unwaith eto ar y system y mae awdurdodau addysg lleol yn ei rhoi ar waith i ddiogelu anhysbysrwydd plant sy'n cael cinio ysgol am ddim? Fy mhryder i yw y gall y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gael eu neilltuo hyd yn oed yn fwy a bod yn destun mathau o fwlio, ac y byddant, o bosibl, yn gwrthod y stigma o giwio am ginio.

**The First Minister:** The universal credit from 2013 means that the current criteria for identifying entitlement to free school meals will no longer exist. So, we are considering a range of potential options for setting new criteria. It is possible for local education authorities to use cashless systems. It is a matter for them whether they do that, but that would help in ensuring the anonymity of those pupils who receive free school meals.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r credyd cyffredinol sydd ar gael o 2013 yn golygu na fydd y meini prawf presennol ar gyfer nodi hawl i gael prydau ysgol am ddim yn bodoli mwyach. Felly, rydym yn ystyried nifer o opsiynau posibl ar gyfer pennu meini prawf newydd. Mae'n bosibl i awdurdodau addysg lleol ddefnyddio systemau heb arian. Mae'n fater iddynt hwy a ydynt yn gwneud hynny, ond byddai hynny'n helpu i sicrhau cyfrinachedd y disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim.

### Adnoddau Hyfforddi Pêl-Droed

### Football Training Resources

***10. Aled Roberts:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynglyn â darparu adnoddau hyfforddi pêl-droed yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0532(FM)*

***10. Aled Roberts:*** *What discussions has the Welsh Government had with the Football Association in Wales regarding the provision of football training resources in north Wales. OAQ(4)0532(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cyfarfod â Chymdeithas Bêl-droed Cymru sawl gwaith ynglŷn ag amrywiaeth o faterion. Mae'r gymdeithas eisiau sicrhau bod cyfleusterau ar gael i bobl yn y rhan fwyaf o Gymru. Nid oes trafodaeth wedi bod ynghylch y gogledd yn unig, ond gwn fod y gymdeithas eisiau sicrhau bod ffynhonnell y dalent sydd ar gael yn y gogledd yn llifo.

**The First Minister:** I have met with the Football Association of Wales several times to discuss a range of issues. The FAW wants to ensure that facilities are available for people in most parts of Wales. There has not been a discussion specifically on north Wales, but I know that the FAW wants to ensure that the fountain of talent in the north continues to flow.

**Aled Roberts:** Croesawaf y ffaith fod y gymdeithas yn datblygu canolfan yng Nghasnewydd, ond nid yw ei chynllun strategol yn sôn o gwbl am unrhyw ddarpariaeth mewn rhannau eraill o Gymru. Mae problem ymarferol, yn arbennig o ran ein hieuenctid, o ran pa mor bell yw Casnewydd o'r gogledd. Pa gamau penodol y gall eich Llywodraeth chi eu cymryd i sicrhau nad yw chwaraewyr ifanc yn y

**Aled Roberts:** I welcome the fact that the FAW is developing a centre in Newport, but its strategic plan makes no mention of any provision in other parts of Wales. There is a practical problem, particularly as regards our youth players, in relation to the distance between Newport and north Wales. What practical steps can your Government take to ensure that youth players in north Wales do not miss out on opportunities?

gogledd yn benodol yn colli cyfleoedd?

**Y Prif Weinidog:** Deallaf bwynt yr Aelod, ond rhywbeth i Gymdeithas Bêl-droed Cymru yw hyn. Ni allaf ateb cwestiynau ar ei rhan, ond, fel y dywedais, rwy'n siŵr ei bod eisiau sicrhau bod cyfleusterau ar gael i bawb, ym mhob rhan o Gymru, i ddatblygu eu talentau.

**The First Minister:** I understand the point the Member makes, bust this is a matter for the FAW. I cannot respond on its behalf, but, as I said, I am sure that it wants to ensure that facilities are available for everyone, in all parts of Wales, in order to develop their talents.

**The Presiding Officer:** I call Mike Hedges. This question is on north Wales, by the way.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Mike Hedges. Mae'r cwestiwn hwn am ogledd Cymru, gyda llaw.

**Mike Hedges:** Yes, I know. As people are unaware, north Wales is a major hotbed of soccer. What discussions, if any, have you had with the Football Association of Wales regarding the provision of third or fourth generation artificial pitches in north Wales, which are either linked to or on the pitches of the Welsh national league teams, including, possibly, Rhyl?

**Mike Hedges:** Ydy, rwy'n gwybod. Gan nad yw pobl yn gwybod, mae gogledd Cymru yn fagwrfa 'soccer'. Pa drafodaethau, os o gwbl, ydych chi wedi'u cael gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru o ran darparu caeau chwarae artiffisial trydydd neu bedwerydd cenhedlaeth yn y Gogledd, sydd naill ai'n gysylltiedig â chaeau chwarae timau cynghrair cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y Rhyl, o bosibl, neu sydd ar y caeau chwarae hynny?

**The First Minister:** I concede to the Member that I have not had specific discussions on that point. I will not get into the argument about whether the sport is called soccer or not, which I know raises hackles with some, including some Members in this Chamber. Nevertheless, as I said, it is important that the fountain of talent that exists in north Wales continues to flow for the good of the national football team.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cyfaddef i'r Aelod nad wyf wedi cael trafodaethau penodol ar y pwynt hwnnw. Nid wyf am gychwyn y ddadl ynghylch a yw'r gamp yn cael ei galw'n 'soccer' ai peidio, sy'n codi gwrychyn rhai mi wn, gan gynnwys rhai Aelodau yn y Siambr hon. Er hynny, fel y dywedais, mae'n bwysig bod y rhaeadr o dalent sy'n bodoli yng ngogledd Cymru yn parhau i lifo er lles y tîm pêl-droed cenedlaethol.

**The Presiding Officer:** In calling Mohammad Asghar, I again make the point that this is a question on north Wales.

**Y Llywydd:** Wrth alw ar Mohammad Asghar, hoffwn unwaith eto wneud y pwynt mai cwestiwn ar ogledd Cymru yw hwn.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Presiding Officer.

**Mohammad Asghar:** Diolch ichi, Lywydd.

First Minister, work has begun on a new centre of excellence for Welsh football in Newport International Sports Village. This will provide a first-class facility for talented young players to develop and enhance their footballing skills. Do you agree that the Football Association of Wales should now look at opening a similar centre of excellence in north Wales so that talented youngsters in the north can access state-of-the-art training facilities near their homes?

Brif Weinidog, mae gwaith wedi dechrau ar ganolfan ragoriaeth newydd ar gyfer pêl-droed yng Nghymru ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd. Bydd yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraewyr ifanc talentog i ddatblygu a gwella eu sgiliau pêl-droed. A ydych chi'n cytuno y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru edrych yn awr ar agor canolfan ragoriaeth debyg yn y gogledd fel y gall pobl ifanc talentog yn y gogledd gael mynediad i

gyfleusterau hyfforddi o'r radd flaenaf yn agos i'w cartrefi?

**The First Minister:** These are, of course, matters for the Football Association of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, materion i Gymdeithas Bêl-droed Cymru yw'r rhain.

2.15 p.m.

**Llyr Huws Gruffydd:** Y realiti, wrth gwrs, yw mai £600,000 y flwyddyn mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ei wario trwy ei chwaer gwmni ar isadeiledd chwarae a hyfforddi pêl-droed yng Nghymru. Gwariodd Iwerddon £36 miliwn y flwyddyn ddiwethaf ac mae Lloegr wedi gwario £30 miliwn. Gallech ddweud mai mater i'r gymdeithas yw hynny, ond a ydych yn credu bod yr anghydbwysedd o fewn y Deyrnas Unedig yn annheg? A ydych, felly, yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru ryw fath o gyfraniad i'w wneud i wella'r sefyllfa honno?

**Llyr Huws Gruffydd:** The reality, of course, is that the Football Association of Wales spends £600,000 per annum through its sister company on the infrastructure for training and playing football in Wales. Ireland spent £36 million last year and England has spent £30 million. You could say that that is a matter for the FAW, but do you believe that that imbalance within the United Kingdom is unfair? Do you, therefore, feel that the Welsh Government has some kind of contribution to make to improve that situation?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod Iwerddon wedi bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig ers dros 90 o flynyddoedd. Mae'n rhaid inni gofio bod angen trafod y mater hwn gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Ni allwn ddweud wrth y gymdeithas beth y dylai ei wneud a faint o arian y dylai fod yn ei wario; mae'r pethau hynny i'w trafod wrth i'r gymdeithas benderfynu beth y mae eisiau ei wneud ac wrth weld pa fath o gyllideb sydd ar gael o du'r Llywodraeth neu Chwaraeon Cymru.

**The First Minister:** I do not believe that Ireland has been part of the United Kingdom for more than 90 years. We must bear in mind that this is something that we need to discuss with the FAW. We cannot tell it what it should be doing or how much money it should be spending; that is something to be discussed as the FAW decides what it wants to do and what kind of funding is available from the Government or from Sport Wales.

### Dileu Tlodi Plant

### Eradicating Child Poverty

***11. Keith Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddileu tlodi plant yng Nghymru. OAQ(4)0525(FM)*

***11. Keith Davies:*** *Will the First Minister give an update on eradicating child poverty in Wales. OAQ(4)0525(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae dileu tlodi plant yn un o flaenoriaethau sylfaenol Llywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu mynd i'r afael â thlodi ar gyfer Cymru. Bydd y mater hwn yn rhan bwysig o waith y Llywodraeth yn y dyfodol.

**The First Minister:** Eradication of child poverty is a fundamental priority for the Welsh Government and the tackling poverty action plan for Wales. This matter will be an important part of the Government's future work.

**Keith Davies:** Rwy'n llongyfarch banc bwyd Myrtle House yn Llanelli ar ei ben-blwydd cyntaf. Mae'r banc yn gwneud gwaith gwych yn darparu parseli bwyd i'r sawl sy'n ei chael yn anodd bwydo eu hunain a'u teuluoedd. Amcangyfrifwyd y bydd newidiadau'r

**Keith Davies:** I congratulate Llanelli's Myrtle House food bank on its first anniversary. The bank is doing excellent work in providing food parcels for those who find it difficult to feed themselves and their families. It has been estimated that the UK

glymblaid yn y Deyrnas Unedig i'r system drethi a budd-daliadau yn achosi cynnydd o 6,000 yn nifer yr achosion o dlodi plant yn y flwyddyn nesaf. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr angen am barseli bwyd. A ydych yn cytuno ei bod yn drist bod teuluoedd yn ddibynnol ar fanciau bwyd y dyddiau hyn?

coalition's changes to the tax and benefits system will cause an increase of 6,000 in the number of cases of child poverty over the coming year. This increase is reflected in the demand for food parcels. Do you agree that it is sad that families depend upon food banks in this day and age?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n drist dros ben, ac mae'n dangos effeithiau polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig hyd yn hyn; rydym yn gwybod bod y gwaethaf i ddod. Dyna pam rydym, fel Llywodraeth, wedi dweud bod y polisïau yn anghywir. Yn awr, deallwn fod y Gronfa Arian Gydwladol wedi cefnogi ein safbwynt.

**The First Minister:** It is very sad, and demonstrates the effects of UK Government policies to date; we know that the worst is yet to come. That is why we, as a Government, have said that the policies are wrong. We now understand that the International Monetary Fund supports our standpoint.

**William Graham:** The eradication of child poverty is the goal of all parties here, and I commend the Welsh Government in particular for its initiatives with regard to legislation. However, you will have noted the comments by the Children's Commissioner for Wales calling for greater honesty in targets. Is the 2020 target realistic?

**William Graham:** Dileu tlodi plant yw nod pob plaid yma, ac rwy'n cymeradwyo Llywodraeth Cymru yn benodol ar ei mentrau o ran deddfwriaeth. Fodd bynnag, byddwch wedi nodi'r sylwadau gan Gomisiynydd Plant Cymru yn galw am fwy o onestrwydd mewn targedau. A yw'r targed ar gyfer 2020 yn realistig?

**The First Minister:** The 2020 target remains our target and aspiration. It is right that the children's commissioner should challenge us from time to time; that is why he is there. We will take full notice of what he says and we hope to work with him in future to address some of the concerns that he may have.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r targed ar gyfer 2020 yn parhau'n darged ac yn ddyhead inni. Mae'n iawn i'r comisiynydd plant ein herio o dro i dro; dyna pam y mae yno. Byddwn yn cymryd sylw llawn o'r hyn y mae'n ei ddweud, ac rydym yn gobeithio gweithio gydag ef yn y dyfodol i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd ganddo.

**Lindsay Whittle:** Considering the fact that the Welsh economy has deteriorated significantly since the Government set its original targets for child poverty—sadly, the rates of child poverty are getting ever higher—what reassessment has the Government made of the challenges that it faces and of how it will achieve its targets?

**Lindsay Whittle:** O ystyried y ffaith bod economi Cymru wedi dirywio'n sylweddol ers i'r Llywodraeth bennu ei thargedau gwreiddiol ar gyfer tlodi plant—yn anffodus, mae cyfraddau tlodi plant yn mynd yn uwch fyth—pa ailasesiad a wnaeth y Llywodraeth o'r heriau y mae'n eu hwynebu a sut y bydd yn cyrraedd ei thargedau?

**The First Minister:** That is part of the work that is being taken forward on the tackling poverty action plan. It is a cross-Government plan that has involved all Ministers; the plan is being developed and will take into account the economic circumstances of the time.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu ar y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi. Mae'n gynllun ar draws y Llywodraeth sydd wedi cynnwys pob Gweinidog; mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu a bydd yn ystyried yr amgylchiadau economaidd ar y pryd.

**Dwyrain De Cymru**

**South Wales East**

***12. Mohammad Asghar:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Dwyrain De Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0522(FM)*

***12. Mohammad Asghar:** Will the First Minister outline his priorities for South Wales East for the next six months. OAQ(4)0522(FM)*

**The First Minister:** The priorities are noted in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that short answer, First Minister. It was recently reported that, in 2010-11, 3,263 operations were cancelled in Wales due to a shortage of hospital beds. Of those, 778 were in the Aneurin Bevan Local Health Board area, the second highest figure in Wales. Preparing for an operation is a stressful time for the patient, and cancellation causes considerable stress as well as having cost implications for the NHS. Will the First Minister tell us what his Government is doing to tackle this problem?

**Mohammad Asghar:** Diolch ichi, Brif Weinidog, am yr ateb byr hwnnw. Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod 3,263 o lawdriniaethau wedi'u canslo yng Nghymru yn 2010-11 oherwydd prinder gwelyau mewn ysbytai. O'r rheini, roedd 778 yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, y ffigur uchaf ond un yng Nghymru. Mae paratoi ar gyfer llawdriniaeth yn gyfnod o straen i glaf. Mae canslo llawdriniaeth yn achosi straen sylweddol ac mae i hynny oblygiadau o ran costau i'r GIG. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym beth y mae ei Lywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon?

**The First Minister:** I will put those figures into context by stating that 265,000 operations were carried out in Wales over the course of the last year. A very small number of operations are cancelled. Of those that are cancelled, 70% are cancelled for clinical reasons or because of a cancellation by the patient; 30% are cancelled for reasons outside of the doctors' and patients' control. Bearing in mind that the vast majority of operations are carried out successfully and in good time, particularly when compared with England, it is a good story.

**Y Prif Weinidog:** O roi'r ffigurau hynny yn eu cyd-destun, cafodd 265,000 o lawdriniaethau eu cynnal yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Caiff nifer fach iawn o lawdriniaethau eu canslo. O'r rhai sy'n cael eu canslo, mae 70% yn cael eu canslo am resymau clinigol neu oherwydd bod y claf yn canslo; mae 30% yn cael eu canslo am resymau y tu hwnt i reolaeth y meddygon a'r cleifion. O gofio bod y mwyafrif helaeth o lawdrinaiethau'n cael eu cynnal yn llwyddiannus ac mewn da bryd, yn enwedig o'i gymharu â Lloegr, mae'n stori dda.

**Jocelyn Davies:** First Minister, I am sure that improving ambulance response times in south-east Wales is one of your priorities. In the written statement by your Minister for Health and Social Services yesterday, she acknowledges the need for improvement in Torfaen, which she attributes to the unique set of challenges there. What is unique about Torfaen that continues to prevent satisfactory ambulance response times?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, rwy'n siŵr bod gwella amseroedd ymateb ambiwlansys yn ne-ddwyrain Cymru yn un o'ch blaenoriaethau. Yn y datganiad ysgrifenedig gan eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddoe, mae hi'n cydnabod yr angen am welliant yn Nhor-faen, y mae hi'n ei briodoli i'r set unigryw o heriau yno. Beth sy'n unigryw am Dor-faen sy'n parhau i atal amseroedd ymateb ambiwlansys rhag bod yn foddhaol?

**The First Minister:** The Welsh Ambulance Services NHS Trust continues to strive to improve performance in areas such as Torfaen, the Cynon Valley and Powys, which have already been identified. While the target

**Y Prif Weinidog:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn parhau i ymdrechu i wella'r perfformiad mewn ardaloedd fel Tor-faen, Cwm Cynon a Phowys, sydd eisoes wedi eu nodi. Er bod y

across Wales has been met, there are parts of Wales where improvement is required.

targed drwy Nghymru wedi'i gyrraedd, ceir rhannau o Gymru lle y mae angen gwella.

**Gwasanaethau Brys**

**Emergency Services**

***13. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y gwasanaethau brys yng Nghymru. OAQ(4)0521(FM)*

***13. Darren Millar***: *Will the First Minister make a statement on the future of emergency services in Wales. OAQ(4)0521(FM)*

**The First Minister:** Our priority is to ensure that people have access to emergency services as close as possible to their homes.

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gan bobl fynediad at wasanaethau brys mor agos â phosibl at eu cartrefi.

**Darren Millar:** The last time that the national health service met the four-hour waiting target for people in accident and emergency departments was in August 2009. Do you think that that is good enough? What action are you taking to address this ongoing problem, particularly given that you intend to reduce the number of A&E departments providing 24/7 consultant-led care and the number of sites across Wales providing emergency general surgery services? Do you not think that that will add to the problem?

**Darren Millar:** Y tro diwethaf i'r gwasanaeth iechyd gwladol gyrraedd y targed o bedair awr ar gyfer pobl sydd yn aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys oedd ym mis Awst 2009. A ydych yn credu bod hynny'n ddigon da? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem barhaus, yn enwedig o ystyried eich bod yn bwriadu lleihau nifer yr adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n darparu gofal o dan arweiniad ymgynghorydd 24/7 a nifer y safleoedd ar draws Cymru sy'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys? Onid ydych yn meddwl y bydd hynny'n ychwanegu at y broblem?

**The First Minister:** We have no plans at all along those lines. That is something that is being put forward by other parties in the Chamber, not by us. Performance against the target in March for all emergency department units was 88%. We will continue to work closely with emergency departments to improve patient flow, including by investing in hospitals, as I have seen with my own eyes at Morriston Hospital over the last few days. That investment will ensure, particularly in A&E, that it is possible for people to access those departments more quickly than before.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennym gynlluniau o gwbl i'r perwyl hwnnw. Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei gynnig gan bleidiau eraill yn y Siambr, nid gennym ni. Canran y perfformiad o'i gymharu â'r targed ym mhob uned achosion brys ym mis Mawrth oedd 88%. Byddwn yn parhau i weithio'n agos ag adrannau achosion brys i wella llif y cleifion, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn ysbytai, fel yr wyf wedi gweld drosof fy hun yn Ysbyty Treforys yn ystod y dyddiau diwethaf. Bydd y buddsoddiad hwnnw'n sicrhau, yn enwedig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ei bod yn bosibl i bobl gael mynediad i'r adrannau hynny'n gyflymach nag o'r blaen.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, pan mae sôn am fuddsoddi cyfalaf—rydych newydd gyfeirio at fuddsoddiad o'r fath yn y gwasanaeth iechyd—rydych yn barod iawn i feio'r glymblaid yn San Steffan am dorri ar yr arian cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, when it comes to capital investment—you have just mentioned such investment in the health service—you are very happy to blame the Westminster coalition for cutting the capital money made available to the Welsh

Cymru, ac rwy'n cytuno â chi ar hynny. Rydych hefyd yn barod iawn i alw ar arweinwyr pleidiau eraill i ymbellhau oddi wrth ddatganiadau sy'n cael eu gwneud gan aelodau o'u pleidiau. Felly, pan fo ymgyrch amlbleidiol i geisio gwrthwynebu'r toriadau hyn o Lundain, a ydych yn cytuno ag Andy Richards, Unite, na fydd y mudiad undebau llafur yng Nghymru ond yn gweithio â'r Blaid Lafur, ynteu a fyddwch yn croesawu cydweithrediad gyda'r rhai eraill ohonom sydd eisiau gweithio yn erbyn y toriadau hyn?

Government, and I agree with you on that. You are also very happy to call on other party leaders to distance themselves from comments made by their party members. Therefore, in a cross-party campaign to oppose these cuts emanating from London, do you agree with Andy Richards of Unite that the trade union movement in Wales will only work with the Labour Party, or would you welcome collaboration with those of us who also want to stand against these cuts?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n ddigon parod i weithio ag unrhyw un sydd yn erbyn y toriadau, o dan arweiniad y blaid fwyaf yng Nghymru, sef y Blaid Lafur.

**The First Minister:** I am more than happy to work with anyone who is against the cuts, under the leadership of Wales's largest party—the Labour Party.

### Darpariaeth Iechyd Drawsffiniol

### Cross-border Health Provision

***14. Kirsty Williams:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth iechyd drawsffiniol. OAQ(4)0533(FM)*

***14. Kirsty Williams***: *Will the First Minister make a statement on cross border health provision. OAQ(4)0533(FM)*

**The First Minister:** We recognise the importance of cross-border provision of health services to provide accessible services and to secure access for Welsh residents to services that are not available in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd trawsffiniol i ddarparu gwasanaethau hygyrch ac i sicrhau mynediad i drigolion Cymru at wasanaethau nad ydynt ar gael yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Many people in Brecon and Radnorshire routinely receive their health services in England, mostly without incident. However, when communication breaks down it can have some tragic consequences. Does your Government actively police the cross-border initiatives and protocols that exist to ensure a good patient experience?

**Kirsty Williams:** Mae llawer o bobl ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, fel mater o drefn, yn cael eu gwasanaethau iechyd yn Lloegr, a hynny heb i ddim byd fynd o chwith fel arfer. Fodd bynnag, pan fydd diffyg yn y cyfathrebu gall achosi canlyniadau trasig. A yw eich Llywodraeth yn mynd ati i blismona'r mentrau a'r protocolau trawsffiniol sy'n bodoli i sicrhau profiad da i'r claf?

**The First Minister:** Yes, the cross-border health protocols are renewed either annually or biennially. Therefore, they are reviewed on a regular basis. The revised cross-border protocol that is presently in existence was put in place on 1 April this year, and it will run until 31 March 2013, and there will be a continual process of review in order to ensure that the system works as seamlessly as it can.

**Y Prif Weinidog:** Ydy, caiff y protocolau iechyd trawsffiniol eu hadnewyddu naill ai'n flynyddol neu bob dwy flynedd. Felly, maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cafodd y protocol trawsffiniol diwygiedig sy'n bodoli ar hyn o bryd ei roi ar waith ar 1 Ebrill eleni, a bydd yn parhau tan 31 Mawrth 2013, a bydd proses adolygu barhaus er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio mor ddi-dor ag y gall.

**Lynne Neagle:** The health and social care Bill in England has implications for cross-

**Lynne Neagle:** Mae gan y Bil iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr oblygiadau ar gyfer

border health provision in Wales. Earlier this month we saw the scandalous decision of the UK Government to veto the publication of the risk register, despite a ruling to the contrary by the Information Commissioner. In view of the implications for Wales, does the Welsh Government have plans to ask the UK Government for sight of the risk register? Do you agree that this shocking decision shows that the UK Government has something to hide in relation to these dangerous, ill-conceived and ideologically driven plans?

darpariaeth iechyd drawsffiniol yng Nghymru. Yn gynharach y mis hwn gwelsom benderfyniad gwarthus Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi feto ar gyhoeddi'r gofrestr risg, er gwaethaf dyfarniad i'r gwrthwyneb gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O ystyried y goblygiadau i Gymru, a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am gael golwg ar y gofrestr risg? A ydych yn cytuno bod y penderfyniad syfrdanol hwn yn dangos bod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig rywbeth i'w guddio mewn perthynas â'r cynlluniau peryglus, cyfeiliornus sydd wedi'u hysgogi gan ideoleg?

**The First Minister:** It is not a matter for me to comment on the plans in England. What I can say is that we try to be as transparent as we can. That is the way that we have always worked as a Government, and I am sure that Members will understand that.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n fater i mi roi sylwadau ar y cynlluniau yn Lloegr. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod yn ceisio bod mor dryloyw ag y gallwn. Dyna'r ffordd yr ydym wedi gweithio bob amser fel Llywodraeth, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n deall hynny.

**Darren Millar:** A large number of people in north Wales receive tertiary health services over the border in the north west of England. It is a relationship that has served north Wales very well indeed over many years. However, one problem that is a regular feature in terms of accessing those services is the distance that some people have to travel, the cost associated with that distance, and the overnight stays for relatives who are supporting their loved ones while in hospital. What support can the Welsh Government give people in such circumstances?

**Darren Millar:** Mae nifer fawr o bobl yn y gogledd yn cael gwasanaethau iechyd trydyddol dros y ffin yng ngogledd-orllewin Lloegr. Mae'n berthynas sydd wedi gwasanaethu gogledd Cymru yn dda iawn dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, un broblem sy'n nodwedd reolaidd o ran cael mynediad at y gwasanaethau hynny yw'r pellter y mae'n rhaid i rai pobl deithio, y gost sy'n gysylltiedig â hynny, a pherthnasau'n gorfod aros dros nos wrth iddynt gefnogi eu hanwyliaid tra byddant yn yr ysbyty. Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i bobl mewn amgylchiadau o'r fath?

**The First Minister:** It is always difficult when people have to travel to get treatment. That situation exists across the whole of Britain. When someone needs particularly specialist treatment, such as treatment for severe burns, they go to Morriston Hospital in Swansea, and those from across the whole of south Wales have always done so—at least, since the burns unit opened in Morriston, succeeding St Lawrence Hospital in Chepstow. It is important, of course, that treatment can be provided as close to home as possible and as safely as possible; that is something that we, as a Government, will always strive to do. It is inevitable that, with

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn anodd pan fydd yn rhaid i bobl deithio i gael triniaeth. Mae'r sefyllfa honno'n bodoli ar draws Prydain. Pan fydd ar rywun angen triniaeth arbenigol dros ben, fel triniaeth ar gyfer llosgiadau difrifol, maent yn mynd i Ysbyty Treforys yn Abertawe, ac mae cleifion o bob cwr o dde Cymru wedi gwneud hynny erioed—neu o leiaf, ers i'r uned losgiadau agor yn Nhreforys, gan ddilyn Ysbyty St Lawrence yng Nghas-gwent. Mae'n bwysig, wrth gwrs, gallu darparu triniaeth mor agos ag sy'n bosibl i gartref y claf ac mor ddiogel ag sy'n bosibl. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni, fel

some treatments that are more specialised, in order to achieve better outcomes for patients, there will be some travel involved.

Llywodraeth, bob amser yn ymdrechu i'w wneud. Mae'n anochel, gyda rhai triniaethau sy'n fwy arbenigol, y bydd rhywfaint o deithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

**Elin Jones:** Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cadarnhau y bydd diwygiadau i'r NHS yn Lloegr yn costio £11.5 miliwn iddo wrth iddo gael mynediad at wasanaethau ysbyty yng ngogledd-orllewin Lloegr. A fydd y Llywodraeth yn ariannu'r gost ychwanegol i fyrddau iechyd Cymru, ynteu a fyddwch yn herio Trysorlys y Deyrnas Gyfunol ar y gost annisgwyl hon?

**Elin Jones:** The Betsi Cadwaladr University Local Health Board has confirmed that changes to the NHS in England will cost it £11.5 million in accessing hospital services in north-west England. Will the Government fund this additional cost facing Welsh health boards, or will you challenge the UK Treasury on this unexpected cost?

**Y Prif Weinidog:** Rydym bob amser eisiau sicrhau bod byrddau iechyd yn cyllido triniaeth sy'n gorfod digwydd yn Lloegr. Dyna'r sefyllfa ers blynyddoedd mawr a gobeithiwn mai dyna fydd y sefyllfa yn y pen draw.

**The First Minister:** We are always keen to ensure that health boards fund treatments that have to take place in England. That has been the situation for many years and we hope that that remains the case.

### Cyfarfod â Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon

### Meeting with the First Ministers of Scotland and Northern Ireland

***15. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pryd y cyfarfu'r Prif Weinidog â Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon, a beth oedd canlyniad eu trafodaethau. OAQ(4)0530(FM)*

***15. Lord Elis-Thomas:*** *When did the First Minister meet with the First Ministers of Scotland and Northern Ireland, and what was the outcome of their discussions. OAQ(4)0530(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Dyddiad y cyfarfod diwethaf oedd 13 Ionawr. Amlinellais ein trafodaethau mewn datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol wythnos ar ôl y cyfarfod.

**The First Minister:** The date of the last meeting was 13 January. I outlined our discussions in a written statement to the National Assembly a week after the meeting.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch yn fawr am eich ateb. A yw'r Prif Weinidog wedi cael cyfle i drafod gyda hwy ymhellach ei gynnig o gonfensiwn cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig? Gobeithiaf y caiff y cyfle fel Prif Weinidog, yn ei amser prysur, i edrych ar y papur rhagorol sydd newydd gael ei gynhyrchu gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad hwn o dan y teitl 'Tuag at Gonfensiwn Cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig?' A ydym ymhellach ymlaen ar hyd y llwybr hwn, ynteu a oes diffyg cydweithrediad o gyfeiriad Prif Weinidogion eraill y deyrnas?

**Lord Elis-Thomas:** Thank you for your reply. Has the First Minister had an opportunity to discuss with them further his proposal for a constitutional convention for the UK? I hope that he finds time as First Minister, in his hectic schedule, to look at the excellent paper recently produced by the Assembly's Research Service entitled 'Towards a UK Constitutional Convention?' Are we any further down this path, or are other First Ministers in the UK unwilling to co-operate?

**Y Prif Weinidog:** Bydd cyfle imi drafod

**The First Minister:** I will have an

hwn gyda hwy yfory, gan fod cyfarfod o gyd-bwyllgor y Gweinidogion yn cael ei gynnal yn Llundain. Gobeithiaf y bydd cyfle yno i drafod pethau felly a'r Papur Gwyrdd a ddaeth o Swyddfa Cymru ddoe.

opportunity to discuss this tomorrow, as there is a meeting of the joint ministerial committee in London. I hope that there will be an opportunity there to discuss issues such as the Green Paper issued by the Wales Office yesterday.

**Suzy Davies:** First Minister, following your meetings with the First Ministers of Scotland and Northern Ireland in Edinburgh last year, you were criticised for not discussing the benefits that the 2012 Olympic Games might bring to the devolved nations. Have you managed to discuss ways to maximise these opportunities in subsequent conversations?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, yn dilyn eich cyfarfodydd gyda Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon yng Nghaeredin y llynedd, cawsoch eich beirniadu am beidio â thrafod pa fanteision a allai ddeillio o Gemau Olympaidd 2012 i'r gwledydd datganoledig. A ydych wedi llwyddo i drafod ffyrdd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn mewn sgyrsiau dilynol?

**The First Minister:** I have to say that that is news to me. However, Scotland and Northern Ireland are competing with us to get benefits from the Olympic Games. Therefore, on this occasion, co-operation with them is probably not in Wales's best interests.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid imi ddweud bod hynny'n newydd i mi. Fodd bynnag, mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn cystadlu gyda ni i gael manteision yn sgîl y Gemau Olympaidd. Felly, y tro hwn, mae'n debyg nad yw er budd Cymru inni gydweithio â hwy.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have three changes to report to this week's planned business. The time allocated to tomorrow's oral Assembly questions to the Counsel General and to the Assembly Commission has been reduced. Furthermore, the Business Committee has scheduled a motion immediately after questions to the Assembly Commission tomorrow to elect a member to the Business Committee. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf dri newid i adrodd amdanynt ym musnes arfaethedig yr wythnos hon. Mae'r amser a glustnodwyd ar gyfer cwestiynau llafar y Cynulliad yfory i'r Cwnsler Cyffredinol ac i Gomisiwn y Cynulliad wedi'i leihau. At hynny, mae'r Pwyllgor Busnes wedi trefnu cynnig yn syth ar ôl cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad yfory i ethol aelod i'r Pwyllgor Busnes. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement this afternoon. Will she bring forward a statement from the Minister for Health and Social Services following the recent Welsh Health Survey, which suggests that only 60% of adults in Wales report having all four healthy lifestyle behaviours, such as not smoking, not drinking above the guidelines, eating five or more portions of fruit and vegetables each

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad y prynhawn yma. A wnaiff hi gyflwyno datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn Arolwg Iechyd Cymru yn ddiweddar, sy'n awgrymu mai dim ond 60% o oedolion yng Nghymru sy'n dilyn y pedwar ymddygiad er mwyn cael ffordd iach o fyw, fel peidio ag ysmygu, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau, bwyta pum cyfran neu fwy o

day and doing at least 30 minutes of moderate intensity physical activity on at least five days each week? Will the Minister for health make a statement on when we can see the realisation of any of the Welsh Government's healthy lifestyle strategies?

ffrwythau a llysiau bob dydd a gwneud o leiaf 30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol o leiaf bum diwrnod bob wythnos? A wnaiff y Gweinidog iechyd wneud datganiad ynghylch pryd y gallwn weld gwireddu unrhyw un o strategaethau ffyrdd iach o fyw Llywodraeth Cymru?

**Jane Hutt:** This is at the forefront of the Minister for health's priorities in terms of the healthy lifestyles strategy. Lessons have to be learned from the health survey, which, of course, informs policy debate and development by the Minister.

**Jane Hutt:** Mae hyn yn rhywbeth sy'n flaenllaw ymysg blaenoriaethau'r Gweinidog iechyd o ran y strategaeth ffyrdd iach o fyw. Mae'n rhaid i wersi gael eu dysgu yn sgîl yr arolwg iechyd sydd, wrth gwrs, yn sail i'r drafodaeth ar y polisi a datblyguriad y polisi gan y Gweinidog.

**Mick Antoniw:** Minister, there is considerable cross-party support for the view that the electoral system of the Assembly is owned by the people of Wales, who approved it in a referendum. In light of yesterday's Green Paper, will you outline any discussions that have taken place between the Prime Minister, David Cameron, and the Welsh Government?

**Mick Antoniw:** Weinidog, mae cryn gefnogaeth drawsbleidiol i'r farn bod system etholiadol y Cynulliad yn eiddo i bobl Cymru, a gymeradwyodd y system mewn refferendwm. Yng ngoleuni'r Papur Gwyrdd ddoe, a wnewch amlinellu unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Prif Weinidog David Cameron, a Llywodraeth Cymru?

2.30 p.m.

**Jane Hutt:** I thank Mick Antoniw for that question. I am not aware that the Secretary of State consulted the Welsh Government before publishing her consultation paper. The First Minister has just indicated that he will be raising it tomorrow at the joint ministerial council that he is attending and I also intend to table a debate on the paper after the forthcoming recess.

**Jane Hutt:** Diolch i Mick Antoniw am y cwestiwn. Nid wyf yn ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi ei phapur ymgynghori. Mae'r Prif Weinidog newydd ddweud y bydd yn ei godi yfory yn y cydgyngor Gweinidogion y bydd yn ei fynychu ac rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno dadl ar y papur ar ôl y toriad nesaf.

**Simon Thomas:** Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried beth fydd ymateb Llywodraeth Cymru i achos Daniel Morgan. Efallai y cofiwch yr achos hwn am ddyn o Gymru a gafodd ei lofruddio, ac rydym nawr wedi canfod bod yr heddlu wedi bod yn hynod ddiffygiol wrth ymchwilio i'r achos ac wedi syrthio ar eu bai bellach am golli tystiolaeth hynod bwysig. Er bod hwn yn fater i'r Llywodraeth yn San Steffan, ac i Theresa May gynnal ymchwiliad cyhoeddus efallai, byddai'n braf cael datganiad—un ysgrifenedig hyd yn oed—gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha fath o ohebiaeth y mae'n ei gael nawr gyda'r Llywodraeth yn San Steffan i hybu'r achos hwn ac i wneud yn siŵr bod y scrwtini mwyaf cyhoeddus yn cael

**Simon Thomas:** I ask the Minister to consider what the response of the Welsh Government will be to the case of Daniel Morgan. You might recall the case of a man from Wales who was murdered, and we have now found that the police were extremely deficient in their investigation of the case and have now accepted their fault in losing very important evidence. Although this is a matter for the Westminster Government, and possibly for Theresa May to conduct a public inquiry, it would be great to have a statement—even a written statement—from the Welsh Government on the sort of correspondence that it is now having with the Westminster Government to promote this case and to ensure that the most public of

ei gynnal nawr ar weithredoedd yr heddlu, lle mae honiadau o lygredd, ac yn sicr tystiolaeth o fethiant, fel yn yr achos anffodus hwn.

scrutiny is now undertaken of the actions of the police where there are claims of corruption, and certainly evidence of failings, as in this unfortunate case.

**Jane Hutt:** This is a very disturbing case, as was widely reported in the press and media yesterday. It is not a devolved issue, as Simon Thomas understands, but I believe that we need to look at what influence we could bring to bear on this matter.

**Jane Hutt:** Dyma achos sy’n peri pryder mawr, a rhoddwyd cryn sylw iddo ddoe yn y wasg a'r cyfryngau. Nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, fel y gŵyr Simon Thomas, ond credaf fod angen i ni ystyried pa ddylanwad y gallem ei gael ar y mater hwn.

**Kirsty Williams:** Minister, will you make time for a statement on the implementation of the Learner Travel (Wales) Measure 2008? Although it has been some considerable time since that Measure was passed into law, it seems that Powys County Council is now getting around to reviewing its transport provision in light of this legislation. The legislation states that transport must be paid for if a route is available. The council is calculating nearest routes on the use of B roads and unclassified roads on which buses would not normally travel. Would you make a statement available so that we can have some clarity about the definition of an available route, so that the Minister can outline his expectations of local authorities, so that transport is looked at in terms of suitable routes, rather than the availability of a back road or a B road, on which a coach would not normally travel?

**Kirsty Williams:** Weinidog, a wnewch drefnu amser ar gyfer datganiad ar weithredu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008? Er bod cryn dipyn o amser wedi mynd heibio ers pasio'r Mesur yn gyfraith, ymddengys mai yn awr y mae Cyngor Sir Powys yn ystyried adolygu ei ddarpariaeth cludiant yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth hon. Dywed y ddeddfwriaeth fod rhaid talu am y cludiant os oes llwybr ar gael. Mae'r cyngor yn cyfrifo’r llwybrau agosaf yn ôl y defnydd o ffyrdd B a ffyrdd diddosbarth lle na fyddai bysiau’n arfer teithio. A wnewch ryddhau datganiad fel y gallwn gael rhywfaint o oleuni ar y diffiniad o lwybr sydd ar gael, fel y gall y Gweinidog amlinellu’r hyn y mae’n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, fel bod cludiant yn cael ei ystyried o ran llwybrau addas, yn hytrach nag o ran a oes cefnffordd neu ffordd B ar gael, lle na fyddai bws yn arfer teithio?

**Jane Hutt:** The Member for Brecon and Radnor highlights a very important Measure that we took through in the last Assembly—the Learner Travel (Wales) Measure 2008. We now have a Minister for local government and transport, Carl Sargeant, and if there are particular concerns about implementation—and you have called Powys County Council to account on this matter—in terms of criteria and guidance, I will ask him to look at this matter.

**Jane Hutt:** Mae’r Aelod dros Frycheiniog a Maesyfed yn tynnu sylw at Fesur pwysig iawn a luniwyd gennym yn y Cynulliad diwethaf, sef y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae gennym bellach Weinidog dros lywodraeth leol a thrafnidiaeth, Carl Sargeant, ac os oes pryderon penodol am weithredu—ac rydych wedi galw Cyngor Sir Powys i gyfrif ar y mater hwn—o ran meini prawf a chanllawiau, gofynnaf iddo edrych ar y mater hwn.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, is it possible to have two statements, one from the Minister with responsibility for tourism, in relation to the activities of the Welsh Government in promoting Wales as a destination during the Olympics? You will be aware that I led a short debate here last week about Team GB, and in the research that I

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a fyddai modd cael dau ddatganiad, un gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am dwristiaeth, am weithgareddau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan yn ystod y Gemau Olympaidd? Gwyddoch fy mod wedi arwain dadl fer yma yr wythnos diwethaf am Team GB, ac yn y gwaith ymchwil a

undertook for that debate, I was surprised to find that there has been no specific campaign around the Visit Wales 2012 campaign to lure Olympic tourists out of London to visit Wales. I would be grateful for a statement from the Minister to understand exactly what activities have been undertaken by the Welsh Government.

wneuthum at y ddadl honno, synnais o ddarganfod na fu dim ymgyrch benodol yn gysylltiedig ag ymgyrch Croeso Cymru 2012 i ddenu twristiaid Olympaidd o Lundain i ymweld â Chymru. Byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan y Gweinidog er mwyn deall yn union pa weithgareddau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Secondly, I call for a statement from the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes in relation to the recent announcement of the amalgamation of Arla Foods and Milk Link in the milk business. I have heard the Deputy Minister speak often in the Chamber about his meetings with dairy companies in light of the recent price cuts that dairy farmers in Wales have suffered, and this consolidation also now presents its challenges to creating a dynamic market from which milk producers are able to achieve the best return. I would be grateful for a statement from him to understand exactly what actions the Welsh Government has undertaken in its dialogue with the milk companies.

Yn ail, galwaf am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd am y cyhoeddiad yn ddiweddar i gyfuno Arla Foods a Milk Link yn y busnes llaeth. Clywais y Dirprwy Weinidog yn sôn yn aml yn y Siambr am ei gyfarfodydd gyda chwmnïau llaeth yn wyneb y toriadau yn y pris i ffermwyr llaeth yng Nghymru yn ddiweddar, ac mae’r cyfuno hwn hefyd yn awr yn cyflwyno her i greu marchnad ddynamig y mae cynhyrchwyr llaeth yn gallu sicrhau'r elw gorau ohoni. Byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad ganddo er mwyn deall yn union pa gamau a gymerodd Llywodraeth Cymru yn ei deialog gyda'r cwmnïau llaeth.

**Jane Hutt:** The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is prepared to issue a statement on the publicity for, and promotion of, Wales as part of the forthcoming Olympics. There will be a focus over the coming days on the torchbearers who are starting to make their way through Wales, and many of us will be engaged with that. There is that commitment from the Minister. I am sure that the Deputy Minister for agriculture will be concerned to respond to your point about a statement on dairy matters.

**Jane Hutt:** Mae’r Gweinidog Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth yn barod i gyhoeddi datganiad am y cyhoeddusrwydd i Gymru a’r gwaith o’i hyrwyddo fel rhan o'r Gemau Olympaidd sydd ar ddod. Bydd ffocws dros y dyddiau nesaf ar gludwyr y fflam sy’n dechrau ymlwybro drwy Gymru, a bydd llawer ohonom yn ymwneud â hynny. Gwnaethpwyd yr ymrwymiad hwnnw gan y Gweinidog. Rwyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog dros amaethyddiaeth yn awyddus i ymateb i'ch pwynt am ddatganiad am faterion llaeth.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, yn dilyn safiad y *Western Mail* bore yma yn ei erthygl olygyddol ar y ddarpariaeth o gyfieithiadau yn y Cynulliad yn sgîl y Bil Ieithoedd Swyddogol, ac yn dilyn sylwadau’r Gweinidog addysg bod y *Western Mail* ei hun yn elwa o wariant ar yr iaith Gymraeg, a fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i roi amser i ddadl am y buddiannau economaidd mae Cymru gyfan yn eu cael o’n hiaith swyddogol, yn y gobaith y gallwn gael gwared, unwaith ac am byth, o’r cysyniad bod y Gymraeg yn gwneud dim ond costio arian i ni fel Cymry?

**Bethan Jenkins:** Minister, following the stance taken by the *Western Mail* this morning in its editorial on the provision of translation in the Assembly in light of the Official Languages Bill and the comments made by the Minister for education that the *Western Mail* itself benefits from expenditure on the Welsh language, would the Welsh Government be willing to give time to a debate on the economic benefits that the whole of Wales gains from our official language, in the hope that we can eradicate, once and for all, this concept that the Welsh language only costs the people of Wales

money?

A allaf ofyn hefyd am ddatganiad am yr hyn a ddatganwyd wythnos diwethaf gan Ymddiriedolaeth y BBC yng nghyd-destun ei dogfen '*Delivering Quality First*'? Nid wyf wedi gweld unrhyw ymateb gan y Gweinidog Huw Lewis ynglŷn â'r toriadau i Radio Cymru a Radio Wales a thorri'r rhaglen gerddorol *BBC Introducing* ar Radio Wales. A oes modd inni gael datganiad gan y Llywodraeth ar ei barn ynglŷn â'r toriadau hyn i BBC Cymru?

May I also ask for a statement on last week's statement by the BBC Trust in the context of its 'Delivering Quality First' document? I have not seen any response from the Minister Huw Lewis on the cuts to Radio Cymru and Radio Wales and the cuts to *BBC Introducing*, the Radio Wales music programme. Can we have a statement from the Government on its opinions on these cuts to BBC Wales?

**Jane Hutt:** Of course, the Minister for education, who is responsible for the Welsh language, is well aware of this and is promoting the Welsh language and promoting it very clearly in terms of his responsibilities. That will be clear in the forthcoming statements he will make on the matter. With regard to the heritage responsibilities of the Minister Huw Lewis, these matters are clearly devolved, but we also have a very strong view on the need for broadcasting, particularly with regard to network news and current affairs.

**Jane Hutt:** Wrth gwrs, mae'r Gweinidog dros addysg, sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg, yn gwybod yn iawn am hyn ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn glir iawn o ran ei gyfrifoldebau. Bydd hynny'n glir yn y datganiadau y bydd yn eu gwneud ar y mater. O ran cyfrifoldebau treftadaeth y Gweinidog, Huw Lewis, mae'r materion hyn wedi'u datganoli yn amlwg, ond mae gennym hefyd farn gref iawn am yr angen am ddarlledu, yn enwedig o ran newyddion rhwydwaith a materion cyfoes.

**Antoinette Sandbach:** Minister, no doubt your Government will have welcomed the recent announcement in relation to the Vauxhall jobs at Ellesmere Port. This has a substantial impact on constituents in north-east Wales. I am very hopeful that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will make a statement on how she will seek to ensure that the Welsh supply chain will benefit from that investment commitment in Ellesmere Port, given its importance to the local economy of north-east Wales.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae'n siŵr y bydd eich Llywodraeth wedi croesawu'r cyhoeddiad yn ddiweddar am swyddi Vauxhall yn Ellesmere Port. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar etholwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Rwy'n obeithiol iawn y bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gwneud datganiad am sut y bydd yn ceisio sicrhau y bydd cadwyn gyflenwi Cymru yn elwa o'r ymrwymiad hwnnw i fuddsoddi yn Ellesmere Port, o gofio ei bwysigrwydd i economi leol gogledd-ddwyrain Cymru.

**Jane Hutt:** Antoinette Sandbach gives us the opportunity to welcome this very good news, which will have an extensive benefit in north-east Wales. Indeed, of course, we hope and expect that our procurement policy, which has opportunities for the supply chain and community benefits, will be adopted.

**Jane Hutt:** Mae Antoinette Sandbach yn rhoi cyfle i ni groesawu'r newydd da iawn hwn, y bydd gogledd-ddwyrain Cymru yn elwa'n helaeth ohono. Yn wir, wrth gwrs, rydym yn gobeithio ac yn disgwyl y caiff ein polisi caffael, sydd â chyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi a manteision cymunedol, yn cael ei fabwysiadu.

## Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

## Financial Resolution in relation to the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

*Cynnig NDM4890 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.*

*Motion NDM4890 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the National Assembly for Wales (Officials Languages) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69(ii), arising in consequence of the Bill.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** There are no other speakers. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Nid oes siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Mae’r cynnig, felly, wedi’i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Datganiad: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi
## Statement: The Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Today we are publishing the Wales infrastructure investment plan, a clear demonstration that this is a Government committed to jobs and growth. Following constructive discussions with the Welsh Liberal Democrats as part of the budget agreement, I am announcing additional funding for a number of projects, as a result of the autumn consequentials.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Heddiw, rydym yn cyhoeddi'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, sy’n dangos yn glir fod hon yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i swyddi a thwf. Yn dilyn trafodaethau adeiladol gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb, rwyf yn cyhoeddi arian ychwanegol i nifer o brosiectau, o ganlyniad i symiau canlyniadol yr hydref.

The economic landscape has changed profoundly over the past few years, with unexpectedly high unemployment, slow growth and low rates of economic activity. In line with the objectives of our budget for growth and jobs, the Welsh Government recognises that further urgent action is required to stimulate and strengthen our economy. Concentrating our resources where we can add the most value and acting as an enabler of growth in the economy will help to generate employment. This is a core principle for future investment in infrastructure, and this approach will set us on the right path to a

Mae'r dirwedd economaidd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda diweithdra annisgwyl o uchel, twf araf a chyfraddau isel o weithgarwch economaidd. Yn unol ag amcanion ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gweithredu brys pellach i ysgogi a chryfhau ein heconomi. Bydd canolbwyntio ein hadnoddau lle y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gweithredu fel galluogwr twf yn yr economi yn helpu i greu cyflogaeth. Mae hon yn egwyddor graidd i fuddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol, a bydd y dull hwn o weithredu yn ein rhoi ar

Wales with a strong economy with twenty-first century networks for transport, IT and energy, a low-carbon Wales with sustainability at its core, and a skilled and efficient country where businesses thrive and where our expertise is globally renowned, and, importantly, a Wales that invests in its essential public sector infrastructure for education, health and housing.

ben y ffordd i greu Cymru sydd ag economi gref gyda rhwydweithiau’r unfed ganrif ar hugain ar gyfer cludiant, TG ac ynni, Cymru carbon isel y mae cynaliadwyedd yn greaiddiol iddi, a gwlad fedrus ac effeithlon lle y mae busnesau’n ffynnu a lle y mae ein harbenigedd yn enwog drwy'r byd, ac, yn bwysig, Cymru sy’n buddsoddi yn ei seilwaith sector cyhoeddus hanfodol ar gyfer addysg, iechyd a thai.

The plan that I am launching today is clear about our priorities for infrastructure investment to stimulate the economy and support jobs. It is clear about how we will pay for infrastructure investment through more efficient use of existing resources and exploring and implementing innovative finance approaches. It is also clear about the information we present to our delivery partners in the public and private sectors through the pipeline of public sector schemes. We cannot achieve this alone and we are working closely with business, local government and the third sector to maximise investments in areas of common interest.

Mae'r cynllun yr wyf yn ei lansio heddiw yn glir am ein blaenoriaethau i fuddsoddi mewn seilwaith i ysgogi'r economi a chynnal swyddi. Mae'n glir o ran sut y byddwn yn talu am fuddsoddi mewn seilwaith drwy ddefnyddio adnoddau presennol yn fwy effeithlon ac ymchwilio i ddulliau arloesol o weithredu ym maes cyllid a rhoi’r rheini ar waith. Mae hefyd yn glir am y wybodaeth yr ydym yn ei rhoi i’n partneriaid cyflenwi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat drwy gyfrwng cynlluniau sector cyhoeddus. Ni allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain ac rydym yn gweithio'n agos â byd busnes, llywodraeth leol a'r trydydd sector i fanteisio i’r eithaf ar fuddsoddiadau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin.

These are big challenges, but they are surmountable. They demand a more strategic and focused approach for infrastructure development, to inform and drive the way we work and the decisions we make. The plan for growth and jobs sets out our sectoral priorities over the coming years. It provides an investment framework for the prioritisation of nationally significant schemes where whole-Government support is required to deliver them, using central funding and innovative financing.

Mae'r rhain yn heriau mawr, ond gellir eu goresgyn. Maent yn gofyn am ffordd fwy strategol â mwy o ffocws iddi o ddatblygu seilwaith, i lywio a hybu’r ffordd yr ydym yn gweithio a’r penderfyniadau a wnawn. Mae'r cynllun ar gyfer twf a swyddi yn nodi ein blaenoriaethau fesul sector dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n darparu fframwaith buddsoddi ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau o bwys cenedlaethol lle y mae angen cefnogaeth y Llywodraeth gyfan i’w cyflawni, gan ddefnyddio cyllid canolog ac ariannu arloesol.

The framework outlines seven high-level sectoral priorities. These are: improving the transport network in Wales, focusing on east-west links and developing Cardiff airport; improving telecommunications networks; supporting the development of the energy industry in Wales; investing in housing; delivering more efficient and economical public services, in particular supporting our vision for the NHS in Wales; improving the quality of the educational estate, particularly schools; and developing our enterprise zones.

Mae'r fframwaith yn amlinellu saith blaenoriaeth lefel uchel fesul sector. Y rhain yw: gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin a datblygu maes awyr Caerdydd; gwella rhwydweithiau telathrebu; cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru; buddsoddi mewn tai; cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus sy’n fwy effeithiol a darbodus, yn enwedig drwy gefnogi ein gweledigaeth i’r GIG yng Nghymru; gwella ansawdd yr ystâd addysgol,

Over the next few months, we will be applying this framework to the allocation of centrally retained funds, and I will be allocating up to £260 million for 2013-14 and 2014-15.

yn enwedig ysgolion; a datblygu ein hardaloedd menter. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cymhwyso’r fframwaith hon i ddyrannu cronfeydd a gedwir yn ganolog, a byddaf yn dyrannu hyd at £260 miliwn ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

I will now provide details of the funding for a number of projects for this financial year. As indicated earlier, in line with the budget agreement with the Welsh Liberal Democrats, I have taken into account their proposals and priorities, which also accord with the investment framework. The additional allocations that reflect this agreement are a new Welsh mortgage guarantee scheme to increase the supply of affordable homes and increase access to home ownership support and a Welsh housing bond, working with registered social landlords. We are committing £4 million a year of funding for 30 years to support a bond issue of over £100 million, which will finance delivery of more than 1,000 affordable homes over the next four years. We are also committing an additional £3 million for the Nest scheme and £2 million for the Arbed scheme, benefiting an extra 1,000 homes; an additional £6 million to expand the successful Welsh housing partnership, levering in a total investment of £30 million to deliver 280 family homes for intermediate rent; and an additional £5 million to double the size of the recyclable empty homes fund, contributing to our target of bringing 5,000 empty homes back into use during this Assembly term.

Rwyf yn awr am roi manylion am y cyllid i nifer o brosiectau yn y flwyddyn ariannol hon. Fel y nodwyd yn gynharach, yn unol â'r cytundeb ar y gyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwyf wedi ystyried eu cynigion a’u blaenoriaethau, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r fframwaith buddsoddi. Y dyraniadau ychwanegol sy'n adlewyrchu’r cytundeb hwn yw cynllun gwarantu morgais newydd i Gymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a chynyddu mynediad at gymorth perchentyaeth a bond tai Cymru, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Rydym yn neilltuo £4 miliwn y flwyddyn o gyllid dros 30 mlynedd i gefnogi dyroddiad bondiau o dros £100 miliwn, a fydd yn ariannu’r gwaith o ddarparu mwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf. Rydym hefyd yn neilltuo £3 miliwn ychwanegol i gynllun Nyth a £2 filiwn i gynllun Arbed, a fydd o fantais i 1,000 arall o gartrefi; swm ychwanegol o £6 miliwn i ehangu partneriaeth tai Cymru, sy’n bartneriaeth lwyddiannus, gan ddenu’n gyfan gwbl fuddsoddiad o £30 miliwn i ddarparu 280 o gartrefi teuluol am rent canolradd; a swm ychwanegol o £5 miliwn i ddyblu maint y gronfa cartrefi gwag ailgylchadwy, gan gyfrannu at ein targed o ddefnyddio 5,000 o gartrefi gwag unwaith eto yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

I am also allocating an additional £2.7 million for M4 junction improvements; an additional £4 million to accelerate essential flood protection schemes for the Colwyn Bay coastal defence scheme, Talgarth flood alleviation scheme, Gilfach Kerry flood alleviation scheme and Borth coastal defence scheme, to reduce the impact of flood and coastal erosion on communities across Wales; an additional £6.8 million to accelerate major hospital projects at Ysbyty Glan Clwyd and Llandough; £500,000 to deliver premises for domestic abuse one-stop shops in Pembrokeshire, Swansea and Gwynedd; an additional £5 million to support schools in Lampeter, Denbighshire,

Rwyf hefyd yn dyrannu £2.7 miliwn ychwanegol i wella cyffyrdd ar yr M4; £4 miliwn ychwanegol i gyflymu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, sy’n hanfodol, i gynllun amddiffyn arfordir Bae Colwyn, cynllun lliniaru llifogydd Talgarth, cynllun lliniaru llifogydd Gilfach Ceri a chynllun amddiffyn arfordir y Borth, er mwyn lleihau effaith llifogydd ac erydu arfordirol ar gymunedau ledled Cymru; £6.8 miliwn ychwanegol i gyflymu prosiectau ysbytai o bwys yn Ysbyty Glan Clwyd a Llandochau, £500,000 i ddarparu safle ar gyfer siop un stop cam-drin domestig yn sir Benfro, Abertawe a Gwynedd; £5 miliwn ychwanegol i gefnogi ysgolion yn Llanbedr

Abercynon and Penarth and £3 million for the new Cardiff and Vale College city centre post-16 campus; £3.5 million to support essential infrastructure work for the Northern Gateway site in the Deeside enterprise zone; and, additional funding of £2.5 million to boost the Welsh economic growth fund. These investments will contribute to delivering major benefits: a twenty-first century education and health estate, shorter journey times, improved housing, increased efficiency and more investment by small and medium-sized enterprises. Taken together, they will create or support more than 1,300 jobs.

Pont Steffan, sir Ddinbych, Abercynon a Phenarth a £3 miliwn i'r campws ôl-16 newydd yng nghanol y ddinas yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ; £3.5 miliwn i gefnogi gwaith seilwaith hanfodol ar gyfer safle Porth y Gogledd yn ardal fenter Glannau Dyfrdwy; a chyllid ychwanegol o £2.5 miliwn i roi hwb i gronfa twf economaidd Cymru. Bydd y buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at sicrhau manteision sylweddol: ystâd addysg ac iechyd i'r unfed ganrif ar hugain, amseroedd teithio byrrach, tai gwell, mwy o effeithlonrwydd a mwy o fuddsoddiad gan fentrau bach a chanolig. Gyda'i gilydd, byddant yn creu neu'n cefnogi mwy na 1,300 o swyddi.

The plan outlines, for the first time, a pipeline of projects—existing schemes being delivered now and schemes that are in the pipeline to be delivered and have not yet started. We want to give our partners the confidence to plan ahead and profile the long-term delivery of our infrastructure. This will reduce costs by minimising start-up and wind-up costs associated with large schemes. The plan sets out the steps that we are taking to squeeze out the maximum public value and increase the quality and efficiency of our investments. Our approach to funding public infrastructure is clear: primarily, it should be funded through direct government capital expenditure. All forms of investment have to be financed and any borrowed funds have to be repaid with interest. In general, therefore, direct Government capital expenditure will be cheaper than other forms of investment.

Mae'r cynllun yn amlinellu, am y tro cyntaf, brosiectau sydd yn yr arfaeth—cynlluniau presennol sy'n cael eu gwireddu yn awr a chynlluniau sydd ar y gweill i'w gwireddu ond sydd heb ddechrau eto. Rydym am roi hyder i'n partneriaid gynllunio ymlaen llaw a phroffilio cyflwyno ein seilwaith yn y tymor hir. Bydd hyn yn lleihau costau drwy leihau costau cychwyn a chostau dirwyn i ben sy'n gysylltiedig â chynlluniau mawr. Mae'r cynllun yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'r cyhoedd a gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ein buddsoddiadau. Mae ein dull o ariannu seilwaith cyhoeddus yn glir: yn bennaf, dylid ei ariannu drwy wariant cyfalaf uniongyrchol gan y Llywodraeth. Mae'n rhaid ariannu pob math o fuddsoddiad ac mae'n rhaid ad-dalu unrhyw arian a fenthycwyd gyda llog. Yn gyffredinol, felly, bydd gwariant cyfalaf uniongyrchol gan y Llywodraeth yn rhatach na mathau eraill o fuddsoddi.

2.45 p.m.

However, there is a strong economic case for boosting the resources available over and above the level of Government capital budgets where the benefits of investment now outweigh additional costs. This case is particularly strong now for several reasons: first, because of the huge cuts in our capital budget imposed by the UK Government; secondly, because of the need for investment to boost jobs and growth in both the short and the long term; thirdly, because of the economic and other benefits of bringing

Fodd bynnag, mae achos economaidd cryf dros gynyddu'r adnoddau sydd ar gael uwchlaw lefel cyllidebau cyfalaf y Llywodraeth, lle mae manteision buddsoddi bellach yn gorbwyso'r costau ychwanegol. Mae'r achos hwn yn arbennig o gryf yn awr, am nifer o resymau: yn gyntaf, oherwydd y toriadau mawr i'n cyllideb cyfalaf a orfodwyd gan Lywodraeth y DU; yn ail, oherwydd bod angen buddsoddi i hybu swyddi a thwf yn y tymor byr a'r hirdymor; yn drydydd, oherwydd manteision

forward much-needed infrastructure projects that would otherwise be delayed by many years or possibly not happen at all; and, fourthly, because of the relatively low cost of borrowing. The Welsh Government is engaged constructively in ongoing talks with the UK Government to enable us to borrow directly to finance infrastructure investment.

economaidd a manteision eraill cyflwyno prosiectau seilwaith y mae mawr eu hangen ac a fyddai fel arall yn cael eu gohirio am nifer o flynyddoedd neu efallai na fyddant yn digwydd o gwbl; ac, yn bedwerydd, oherwydd cost cymharol isel benthyca. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan adeiladol mewn trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU er mwyn ein galluogi i fenthyca yn uniongyrchol i ariannu buddsoddi mewn seilwaith.

In the meantime, we have already developed a number of new innovative financing approaches, including the local government borrowing initiative, which is enabling investment of over £170 million to improve local highways across Wales, and the Ely Bridge development, working with the Principality Building Society to unlock capital funding and provide 700 housing units for rent, social rent and open-market sales. Through these projects, and with the support of our partners, we are exploring the development of new, innovative mechanisms to attract private sector investment into public infrastructure in the coming years. This includes the development of 'non-dividend' vehicles to finance and deliver public infrastructure projects. We are being ambitious, but we are also being prudent—wherever we exploit opportunities to finance borrowing, we will undertake a thorough and robust analysis to demonstrate that such investments deliver real public value to the people and economy of Wales.

Yn y cyfamser, rydym eisoes wedi datblygu nifer o ddulliau ariannu newydd ac arloesol, gan gynnwys y fenter benthyca llywodraeth leol, sy'n galluogi buddsoddiad o dros £170 miliwn i wella priffyrdd lleol ledled Cymru, a datblygiad Pont Trelái, gan weithio gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality i ddatgloi cyllid cyfalaf ac i ddarparu 700 o unedau tai i'w rhentu, i'w rhentu yn gymdeithasol, ac i'w gwerthu ar y farchnad agored. Drwy'r prosiectau hyn, ac â chefnogaeth ein partneriaid, rydym yn ystyried datblygu dulliau newydd ac arloesol i ddenu buddsoddiad o'r sector preifat ar gyfer seilwaith cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys datblygu dulliau heb ddifidend i gyllido ac i gyflwyno prosiectau seilwaith cyhoeddus. Rydym yn bod yn uchelgeisiol, ond rydym hefyd yn bod yn ddarbodus—lle bynnag rydym yn manteisio ar gyfleoedd i ariannu benthyca, byddwn yn gwneud dadansoddiad trylwyr a chadarn i ddangos bod buddsoddiadau o'r fath yn darparu gwerth cyhoeddus gwirioneddol i bobl ac economi Cymru.

This plan will enable us to deliver nationally significant schemes through a project pipeline of capital investment, using innovative financing solutions where appropriate, and will improve the quality of business planning and delivery. The Wales infrastructure investment plan for growth and jobs is a crucial initiative for the Welsh Government, and I urge you all to support it as a cornerstone of the approach that Wales needs to ensure its sustainable economic success in an ever uncertain world.

Bydd y cynllun hwn yn ein galluogi i gyflwyno cynlluniau o bwys cenedlaethol drwy gyfres o brosiectau buddsoddi cyfalaf, gan ddefnyddio atebion ariannu arloesol lle y bo'n briodol, a bydd yn gwella ansawdd cynllunio busnes a chyflawni. Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i hybu twf a swyddi yn fenter hollbwysig i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n eich annog i gyd i'w gefnogi fel conglfaen i'r dull y mae ar Gymru ei angen i sicrhau ei llwyddiant economaidd cynaliadwy mewn byd sydd mor ansicr ag erioed.

**Paul Davies:** I thank the Minister for her statement this afternoon. I am pleased to support the Wales infrastructure investment

**Paul Davies:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Rwy'n falch i gefnogi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith

plan in general. Quite simply, infrastructure investment is vital to the Welsh economy and to help create modern public services. I accept that the Welsh Government has had to work in difficult financial circumstances, and so it has been more important than ever to look at innovative ways of funding capital projects. I very much welcome a set of strategic investment priorities that include focusing on such things as improving transport networks, improving telecommunication networks and investing in housing.

Cymru yn gyffredinol. Yn syml, mae buddsoddi mewn seilwaith yn hanfodol i economi Cymru ac i helpu i greu gwasanaethau cyhoeddus modern. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gweithio mewn amgylchiadau ariannol anodd, ac felly bu edrych ar ffyrdd arloesol o ariannu prosiectau cyfalaf yn fwy pwysig nag erioed. Rwy'n croesawu'n fawr cyfres o flaenoriaethau buddsoddi strategol sy'n cynnwys canolbwyntio ar bethau fel gwella rhwydweithiau trafnidiaeth, gwella rhwydweithiau telathrebu a buddsoddi mewn tai.

I am sure that it will come as no surprise to the Minister that we on this side of the Chamber believe that the Welsh Government should look to use all types of finance as much as possible to fund infrastructure projects. As the Minister is aware, in Scotland, for example, the Scottish Government has been using some innovative models. The Scottish Futures Trust is one model that helps to fund capital projects. Can the Minister tell us whether the Welsh Government is looking at a similar model in Wales for the future? Given the current financial climate, it is even more important to consider all options when financing capital projects, including private investment.

Rwy'n siŵr na fydd yn syndod i'r Gweinidog ein bod ni ar yr ochr hon o'r Siambr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio pob math o gyllid gymaint â phosibl i ariannu prosiectau seilwaith. Fel y gŵyr y Gweinidog, yn yr Alban, er enghraifft, bu Llywodraeth yr Alban yn defnyddio rhai modelau arloesol. Mae'r Scottish Futures Trust yn un model sy'n helpu i ariannu prosiectau cyfalaf. A all y Gweinidog ddweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried model tebyg yng Nghymru ar gyfer y dyfodol? O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysicach fyth ystyried pob opsiwn wrth ariannu prosiectau cyfalaf, gan gynnwys buddsoddiad preifat.

During the Third Assembly, the Finance Committee held an inquiry into public-private partnerships and the then Minister, Andrew Davies, accepted a recommendation to establish a central PPP unit to manage projects on behalf of the Welsh Government and to offer advice and training to other statutory bodies considering PPP as a financial tool. I believe that he said that he would establish a body called Partnership Wales. In the light of this statement, can the Minister tell us whether this is still the Welsh Government's intention? Perhaps the Minister can tell us in her response whether a central unit will be established as part of the Wales infrastructure investment plan in the future.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad i bartneriaethau cyhoeddus-preifat a derbyniodd y Gweinidog ar y pryd, Andrew Davies, argymhelliad i sefydlu uned partneriaethau cyhoeddus-preifat canolog i reoli prosiectau ar ran Llywodraeth Cymru ac i gynnig cyngor a hyfforddiant i gyrff statudol eraill sy'n ystyried y partneriaethau hyn fel arf ariannol. Rwy'n credu iddo ddweud y byddai'n sefydlu corff o'r enw Partneriaeth Cymru. Yn sgîl y datganiad hwn, a all y Gweinidog ddweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru yn dal yn bwriadu gwneud hyn? Yn ei hymateb, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym a fydd uned ganolog yn cael ei sefydlu fel rhan o'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn y dyfodol.

In relation to the plan, I am pleased that the Welsh Government has engaged with key stakeholders throughout the consultation

O ran y cynllun, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y cyfnod

period and I hope that the Minister will publish the consultation response documents that the Welsh Government has received, because it is essential that this process remains transparent and that all Members have access to the information that the Welsh Government has been given to formulate this plan.

ymgynghori ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael, oherwydd mae'n hanfodol bod y broses hon yn parhau i fod yn dryloyw a bod gan yr holl Aelodau fynediad i'r wybodaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru i lunio'r cynllun hwn.

As I said earlier, we are supportive of the Wales infrastructure investment plan and of looking at different ways of financing infrastructure investment. However, I have some concerns surrounding the prioritisation of projects under this plan. One of the main aims of the plan is to identify and prioritise nationally significant infrastructure investment across the Welsh public sector. However, I would be grateful if the Minister could tell us exactly what criteria were used in this process. Could she tell Members in more detail about the criteria used for prioritisation in her response?

Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn cefnogi cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru ac edrych ar wahanol ffyrdd o gyllido buddsoddi mewn seilwaith. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon ynghylch blaenoriaethu prosiectau o dan y cynllun. Un o brif amcanion y cynllun yw nodi a blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym yn union pa feini prawf a ddefnyddiwyd yn y broses hon. Yn ei hymateb, a allai roi mwy o fanylion i'r Aelodau am y meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer blaenoriaethu?

Now, the Confederation of British Industry believes that the process for choosing project priorities should be at arm's length from Ministers, and I think that is extremely important. Does the Minister agree that by taking this responsibility away from her, the Welsh Government will be clearly depoliticising the process and ensuring that there is a standard of fairness in the system? In other words, projects will be prioritised purely on their merits, and not according to political pressure.

Yn awr, mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn credu y dylai'r broses o ddewis blaenoriaethau prosiectau fod hyd braich oddi wrth Weinidogion, a chredaf fod hynny'n bwysig dros ben. A yw'r Gweinidog yn cytuno y bydd Llywodraeth Cymru, drwy gymryd y cyfrifoldeb oddi ar y Gweinidog, yn dadwleidyddoli'r broses yn glir ac yn sicrhau bod safon o degwch yn y system? Mewn geiriau eraill, bydd prosiectau yn cael eu blaenoriaethu yn ôl eu teilyngdod yn unig, ac nid yn ôl pwysau gwleidyddol.

Today's plan aims to provide a 10-year indication of the Welsh Government's direction of travel and a rolling pipeline of approved investments. While I accept that this will provide greater clarity and certainty for delivery partners, you will already know that the Welsh Local Government Association has been undertaking futures work with local authorities as part of its sustainable development framework, and it has suggested that this time frame be lengthened. It suggests that a 20 to 30-year time frame is required, rather than the 10 years that has been suggested by the Welsh Government. I would be grateful for the Minister's comments on this. Perhaps she could clarify in her response the criteria on

Mae cynllun heddiw yn anelu at ddarparu syniad o gyfeiriad Llywodraeth Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf a rhaglen barhaus o fuddsoddiadau a gymeradwywyd. Er fy mod yn derbyn y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd ar gyfer partneriaid cyflenwi, byddwch yn gwybod eisoes y bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gwneud gwaith ar y dyfodol gydag awdurdodau lleol fel rhan o'i fframwaith datblygu cynaliadwy, ac mae wedi awgrymu y dylid ymestyn yr amserlen. Mae'n awgrymu bod angen amserlen 20 i 30 mlynedd, yn hytrach na'r 10 mlynedd sydd wedi cael ei awgrymu gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn ddiolchgar i glywed sylwadau'r Gweinidog ar hyn. Efallai y gallai

which the 10-year time frame was initially decided.

egluro yn ei hymateb y meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr amserlen 10 mlynedd yn y lle cyntaf.

I believe that the Welsh Government should raise its ambitions for devolved capital spending to avoid the impression that Wales cannot manage ambitious capital projects. I am pleased that we can now see an infrastructure investment plan in place. The Minister has of course made it clear that the devolution of borrowing powers to fund capital investment is more important than ever. However, it is not clear from the Minister's evidence to the Finance Committee last week, for example, whether the Welsh Government wants a borrowing limit to be imposed on it by the Treasury or whether it wants flexibility by determining these limits for itself. Perhaps the Minister can clarify that in her response, because the ability to borrow money, and the way that we borrow, will have an impact on this infrastructure plan and the funding of capital projects in future. As I have said before, the Welsh Government needs to be clear about the sort of borrowing powers it is requesting and establish under what terms and conditions it would have them. The clearer the Welsh Government is about this, the stronger the case will be for Wales to receive those powers.

Credaf y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei huchelgais ar gyfer gwariant cyfalaf datganoledig i osgoi'r argraff na all Cymru reoli prosiectau cyfalaf uchelgeisiol. Rwy'n falch bod y cynllun buddsoddi mewn seilwaith yn awr yn ei le. Mae'r Gweinidog, wrth gwrs, wedi ei gwneud yn glir bod datganoli pwerau benthyca i ariannu buddsoddi cyfalaf yn bwysicach nag erioed. Fodd bynnag, nid yw'n glir o dystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Cyllid yr wythnos diwethaf, er enghraifft, a yw Llywodraeth Cymru am i'r Trysorlys osod terfyn benthyca arni, neu a yw am gael hyblygrwydd drwy benderfynu ar y terfynau hyn ei hun. Efallai y gall y Gweinidog egluro hynny yn ei hymateb, oherwydd bydd y gallu i fenthyg arian, a'r ffordd yr ydym yn benthyg, yn effeithio ar y cynllun seilwaith hwn ac ar ariannu prosiectau cyfalaf yn y dyfodol. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch y math o bwerau benthyca y mae'n gofyn amdanynt ac ynghylch pennu o dan ba delerau ac amodau y byddai'n cael y pwerau hynny. Po gliriaf y mae Llywodraeth Cymru ynghylch hyn, po gryfaf fydd yr achos o blaid Cymru'n cael y pwerau hynny.

Minister, you also talk about delivering vehicles to raise finance, including bonds to lever in additional investment in infrastructure. Perhaps you could expand on this a little in your response.

Weinidog, rydych hefyd yn sôn am gyflwyno mesurau i godi arian, gan gynnwys bondiau i ddenu buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith. Efallai y gallech ymhelaethu ar hyn ychydig yn eich ymateb.

I hope that the document is up to date, because I note that on page 25, for example, when talking about enterprise zones, it is stated that two further location options are currently being considered—Snowdonia and the Haven waterway. However, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science last week confirmed that those two locations will now become enterprise zones. I therefore hope that this is a current and up-to-date document, because we must ensure that a document of this nature instils confidence in the Welsh people.

Rwy'n gobeithio bod y ddogfen yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Ar dudalen 25, er enghraifft, wrth sôn am ardaloedd menter, dywedir bod dau opsiwn yn rhagor ar gyfer lleoliadau yn cael eu hystyried—Eryri a dyfrffordd y Ddau Gleddau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yr wythnos diwethaf y byddai'r ddau leoliad hynny yn awr yn dod yn ardaloedd menter. Gobeithio, felly, bod y ddogfen hon yn un cyfredol, gan fod yn rhaid inni sicrhau bod dogfen o'r natur hwn yn meithrin hyder pobl Cymru.

Finally, I once again thank the Minister for her statement. I look forward to hearing more

Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei datganiad. Edrychaf ymlaen

about the Wales infrastructure investment plan and the development of the projects chosen for funding over the coming weeks and months.

at glywed mwy am y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ac am ddatblygiad y prosiectau a ddewisir ar gyfer eu cyllido dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

**Jane Hutt:** I thank the finance spokesperson for the Welsh Conservatives for that very positive response and for his very clear questions about what has informed the development of this plan and how we can deliver and implement it fully and, indeed, in consultation and clear engagement with our partners. Of course, I have mentioned those delivery partners in my statement and in the plan with regard to the clarity for the public and private sectors that this plan will deliver.

**Jane Hutt:** Diolch i lefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig am yr ymateb cadarnhaol iawn hwnnw ac am ei gwestiynau clir iawn am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar ddatblygu'r cynllun hwn a sut y gallwn ei ddarparu a'i weithredu yn llawn ac, yn wir, drwy ymgynghori ac ymgysylltu yn glir gyda'n partneriaid. Wrth gwrs, rwyf wedi sôn am y partneriaid cyflenwi hynny yn fy natganiad ac yn y cynllun o ran yr eglurder y bydd y cynllun hwn yn ei roi ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.

On the issues that you raised about models for innovative financing, I will not repeat again the examples of the models that we have discussed in the Finance Committee, because they are already well stated and accounted for. However, it is important to say that we have been in close discussion with the UK and Scottish Governments about their developments, for example, the Scottish Futures Trust, which you mentioned in your questions. Wales is in a very good position to learn from the models that have been developed. We are already developing non-dividend models, such as the Ely Bridge social enterprise company, which is yet another model, which, I am sure, Scottish colleagues will be looking at with interest. It is important to note, in terms of the work done by previous Assemblies in looking at the public-private sector partnerships that are developing, that Wales has nothing like the stock of private finance initiative debt that other UK administrations will have to shoulder, as a result of our not using the now-discredited PFI model—discredited, indeed, by your Government. The Chancellor of the Exchequer has recognised that, so we benefit from the fact that we do not have to shoulder that debt.

O ran y materion a godwyd gennych am fodelau ar gyfer ariannu arloesol, nid wyf am ailadrodd eto yr enghreifftiau o'r modelau yr ydym wedi'u trafod yn y Pwyllgor Cyllid, am eu bod eisoes wedi cael eu nodi yn glir ac wedi'u cyfrifo. Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud y buom yn trafod yn fanwl â Llywodraethau'r DU a'r Alban ynghylch eu datblygiadau, er enghraifft, y Scottish Futures Trust, a grybwyllwyd gennych yn eich cwestiynau. Mae Cymru mewn sefyllfa dda iawn i ddysgu oddi wrth y modelau sydd wedi cael eu datblygu. Rydym eisoes yn datblygu modelau heb ddifidend, fel cwmni menter gymdeithasol Pont Trelái, sy'n fodel arall eto, y bydd ein cydweithwyr yn yr Alban, rwy'n siŵr, yn edrych arno gyda diddordeb. Mae'n bwysig nodi, o ran y gwaith a wnaed gan Gynulliadau blaenorol wrth ystyried partneriaethau sector cyhoeddus-preifat sy'n cael eu datblygu, nad oes gan Gymru ddim byd tebyg i'r stoc o ddyled o fentrau cyllid preifat y bydd yn rhaid i weinyddiaethau eraill y DU ei ysgwyddo, o ganlyniad i'r ffaith nad ydynt yn defnyddio'r model PFI sydd bellach wedi'i ddifrïo—yn wir, wedi'i ddifrïo gan eich Llywodraeth chi. Mae Canghellor y Trysorlys wedi cydnabod hynny, felly rydym yn elwa ar y ffaith nad oes yn rhaid inni ysgwyddo'r ddyled honno.

The engagement that we have had with key stakeholders through the Council for Economic Renewal has been particularly important. It involved key business stakeholders and social partners. I am happy

Bu'r ymgysylltu a gawsom gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Gyngor Adnewyddu'r Economi yn arbennig o bwysig. Roedd yn cynnwys rhanddeiliaid busnes a phartneriaid cymdeithasol

to feed their responses back through the Finance Committee and on other occasions, and I am sure that we will do that. They have influenced the prioritisation that we have developed in the Wales infrastructure investment plan in terms of the fact that it is a 10-year vision and sets out the pipeline for the first time, which is a major step forward, and in terms of identifying priority programmes and projects across the sectors and having those seven sectoral priorities. That has developed as a result of that engagement. You will see that those sectoral developments are then delivered in terms of the profile. Improving transport links is key, as business said in its response prior to the publication of this plan. We know how important improving transport links is to business, along with improving the telecommunications network and supporting the development of the energy industry in Wales. In addition, moving on to the huge investment in housing, the social need, as well as economic need, is clear, and there was a boost to the construction sector in the announcements that the Minister for housing and I have made over the last two days.

allweddol. Rwy'n hapus i adrodd eu hymatebion yn ôl drwy'r Pwyllgor Cyllid ac ar adegau eraill, ac rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud hynny. Maent wedi dylanwadu ar y blaenoriaethu yr ydym wedi'u datblygu yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru o ran y ffaith ei fod yn weledigaeth 10 mlynedd ac yn nodi'r hyn sydd ar y gweill am y tro cyntaf, sy'n gam mawr ymlaen, ac o ran nodi rhaglenni blaenoriaeth a phrosiectau ar draws y sectorau a chael y saith blaenoriaeth sectoraidd hynny. Mae hynny wedi datblygu o ganlyniad i'r ymgysylltu hwnnw. Byddwch yn gweld bod y datblygiadau sectoraidd yn cael eu darparu o ran y proffil. Mae gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn hollbwysig, fel y dywedodd busnesau yn eu hymatebion cyn cyhoeddi'r cynllun hwn. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth i fusnesau, ynghyd â gwella'r rhwydwaith telathrebu a chefnogi datblygu'r diwydiant ynni yng Nghymru. Yn ogystal, gan symud ymlaen at y buddsoddiad enfawr mewn tai, mae'r angen cymdeithasol, yn ogystal â'r angen economaidd, yn glir, ac roedd hwb i'r sector adeiladu yn y cyhoeddiadau y mae'r Gweinidog tai a minnau wedi'u gwneud dros y ddau ddiwrnod diwethaf.

It is important that we also look at our borrowing powers in terms of factoring in the finance that we need to deliver this plan, and I have been very positive about the inter-governmental talks, which I know are supported across this Chamber, on enabling us to use our borrowing powers. We have to be clear about the opportunities that we have in terms of using those powers. However, at this stage, until we gain those powers, as you said, we have to turn to those partners from whom we can derive support—such as local government and the registered social landlords. We are working not only with those partners in the public sector, but also with the private sector. The power to borrow would provide that important additional lever to enable effective and efficient planning of our capital expenditure programmes in Wales over the medium term. In the short term, we will use these other routes to assist in the borrowing of others. In a perfect world, we would need to ensure that we had the flexibility that Gerry Holtham clearly identified in the second report of his

Mae'n bwysig ein bod hefyd yn edrych ar ein pwerau benthyca o ran cynnwys y cyllid sydd ei angen arnom i gyflenwi'r cynllun hwn, a bûm yn gadarnhaol iawn am y sgyrsiau rhynglywodraethol, y gwn eu bod yn cael eu cefnogi ar draws y Siambr hon, ar ein galluogi i ddefnyddio ein pwerau benthyca. Rhaid inni fod yn glir ynghylch y cyfleoedd sydd gennym o ran defnyddio'r pwerau hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, hyd nes y byddwn yn cael y pwerau hynny, fel y dywedasoch, rhaid i ni droi at y partneriaid hynny y gallwn gael cymorth ganddynt—fel llywodraeth leol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Rydym yn gweithio nid yn unig gyda'r partneriaid hynny yn y sector cyhoeddus, ond hefyd gyda'r sector preifat. Byddai'r pŵer i fenthyca yn rhoi'r arf ychwanegol hwnnw i alluogi inni gynllunio rhaglenni gwariant cyfalaf yng Nghymru yn effeithiol ac yn effeithlon yn y tymor canolig. Yn y tymor byr, byddwn yn defnyddio'r llwybrau eraill hyn i gynorthwyo â benthyca pobl eraill. Mewn byd perffaith, byddai angen inni

independent commission—the flexibility for us to borrow—and we recognise the need to have that responsibility in terms of the UK Government. However, debt management would be the route that we would take in terms of those opportunities.

sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd a nodwyd yn glir gan Gerry Holtham yn ail adroddiad ei gomisiwn annibynnol—yr hyblygrwydd inni fenthyca—ac rydym yn cydnabod yr angen i gael y cyfrifoldeb o ran Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rheoli dyled fyddai'r trywydd y byddem yn ei ddilyn o ran y cyfleoedd hynny.

I hope that you also welcome, as I am sure that you do, the fact that I have announced the Welsh housing bond today. This is a living document, and I am delighted that my colleague, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, announced the two new enterprise zones as we were going to press. That demonstrates to business, the economy and the people of Wales that this is a Government is moving, is taking decisions, and is taking this plan forward.

Gobeithio y byddwch hefyd yn croesawu, fel y rwy'n siŵr eich bod, y ffaith fy mod wedi cyhoeddi bond tai Cymru heddiw. Mae hon yn ddogfen fyw, ac rwy'n falch iawn bod fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, wedi cyhoeddi'r ddwy ardal fenter newydd wrth inni fynd i'r wasg. Mae hynny'n dangos i fusnesau, yr economi a phobl Cymru bod y Llywodraeth hon yn symud, yn gwneud penderfyniadau, ac yn bwrw ymlaen â'r cynllun hwn.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Mae'n amlwg yn beth da ein bod yn cyhoeddi'r rhaglen o gynlluniau cyfalaf ar draws y Llywodraeth, ac, fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, roeddem wedi cytuno ar hyn pan oeddem mewn llywodraeth yn ôl yn 2009 a 2010.
Felly, mae'n beth da. Mewn gwirionedd, roeddwn yn synnu gweld nifer y cynlluniau sydd wedi'u cwblhau yn y ddogfen, oherwydd roeddwn yn meddwl mai rhaglen ar gyfer y dyfodol oedd hon. Er hynny, rwy'n falch bod sôn ynddi am y gwaith da a wnaed gan Lywodraeth Cymru'n Un, megis ffordd Blaenau'r Cymoedd, ffordd osgoi Porthmadog, ffordd Cwmbach i'r Bontnewydd ar Wy, ffordd osgoi Pentre'r Eglwys a ffordd osgoi Llandysul. Cafodd yr holl bethau hynny eu delifro tra oedd aelod o Blaid Cymru yn Weinidog trafnidiaeth, ac rydym yn falch eich bod yn cydnabod hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** I thank the Minister for her statement. It is clearly a good thing that we are announcing a programme of capital projects across Government, and, as the Minister knows, we had agreed this when we were in Government back in 2009 and 2010. Therefore, it is positive. To tell the truth, I was surprised to see the number of projects already completed in the document, because I had thought it a programme for the future. However, I am pleased that it mentions the good work carried out by the One Wales Government, such as the Heads of the Valleys road, the Porthmadog bypass, the Cwmbach to Newbridge-on-Wye road, the Church Village bypass and the Llandysul bypass. Those projects were all delivered while a member of Plaid Cymru was Minister for transport, and we are pleased that you recognise that.

3.00 p.m.

Er mai rhoi rhagflas o'r hyn sydd ar y gweill dros gyfnod o 10 mlynedd sydd gennym gerbron, Weinidog, ond yr hyn sydd o ddiddordeb mwyaf i gwmnïau sy'n cynnig am waith yw'r cynlluniau a gytunwyd ac a ariannwyd gennych ar gyfer y ddwy neu dair blynedd nesaf. Dyna sydd o ddiddordeb pennaf iddynt hwy. Mantais cael rhaglen seilwaith yw bod cwmnïau adeiladu a

What we have before us is a taster of what is to come over a period of 10 years, Minister, but what is of most interest to the companies tendering for work is those schemes that you have agreed to and funded for the next two to three years. That is their primary interest. The benefit of having an infrastructure programme is that construction and engineering companies will be able to do

pheirianyddol yn gallu cynllunio o flaen llaw yn well. Mae llif gwaith yn y sector hwn, yn enwedig mewn cyfnod o ddirwasgiad, yn hynod bwysig ac, o ganlyniad, mae'n gallu cadw gweithlu ar y llyfrau gyda mwy o sicrwydd. Er na all gwmnïau warantu y byddant yn ennill contractau o dan y system bwrcasu, mae rhwydwaith o gwmnïau profiadol yng Nghymru bellach sy'n gallu ymgymryd â chontractau gweddol fawr ac sydd â record gweddol dda yn y maes, megis gyda rhai o'r cynlluniau y cyfeiriais atynt yn awr.

some forward planning, as well. The workflow in that sector, particularly in a period of recession, is exceptionally important and, as a result, a workforce can be kept on the books with greater certainty. Although companies cannot guarantee that they will win contracts under the procurement process, there is now a network of experienced companies in Wales that can take on relatively large contracts and that have quite a good record in the field, such as with some of the schemes that I just referred to.

Yn ogystal â chyhoeddi rhaglen fel hon, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod adolygu rheolau pwrcasu'n gyson yn bwysig? Un peth yw cael rhaglenni ar gyfer cyfalaf, ond rydym eisiau i gwmnïau o Gymru elwa mwy o'r broses hon. Felly, er mwyn annog mwy o gwmnïau o Gymru i gymryd rhan yn y broses, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei bod yn ailedrych ar y rheolau pwrcasu? Mae modd symleiddio'r broses a hyfforddi swyddogion pwrcasu i'w gwneud hi'n haws i gwmnïau cynhenid gystadlu am y gwaith, ac, wrth gwrs, i gadw gweithlu mewn gwaith.

In addition to announcing a programme such as this, does the Minister agree that it is important to revise the procurement rules regularly? It is one thing to have programmes for capital projects, but we want Welsh companies to benefit more from this process. Therefore, to encourage more companies to participate, will the Minister confirm that she is reviewing the procurement rules? The process could be simplified and procurement officers could be trained to make it easier for indigenous companies to compete for the work and, of course, to retain the workforce.

As you have indicated, Minister, the fall in the Welsh Government's capital budget is vast. Over the next few years, the real-terms cuts will be in the order of £770 million, which is a very big cut, representing some 44% of the capital budget. That means that, with the best will in the world, the three big spending departments—health, education and transport—will see a massive reduction in their programmes. That means, therefore, that schemes for hospitals, health centres, schools, colleges and road and rail will be cut back, delayed or cancelled. In the case of schools, for example, many local authorities face finding more match funding to make up for the loss in Welsh Government spend, and, where they cannot find that, they will have to consider cancelling those schemes. If we are to develop innovative ways of reducing pressures on acute hospitals, for example, we need to see investment in modern state-of-the-art primary care centres.

Fel yr ydych wedi'i nodi, Weinidog, bu gostyngiad enfawr yng nghyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y toriadau yn tua £770 miliwn mewn gwirionedd, sy'n ostyngiad mawr iawn, sef tua 44% o'r gyllideb gyfalaf. Mae hynny'n golygu, gyda'r ewyllys gorau yn y byd, y bydd gwariant y tair adran sy'n gwario'r symiau mwyaf—iechyd, addysg a thrafnidiaeth—yn gweld gostyngiad aruthrol yn eu rhaglenni. Mae hynny'n golygu, felly, y bydd cynlluniau ar gyfer ysbytai, canolfannau iechyd, ysgolion, colegau a ffyrdd a rheilffyrdd yn cael eu torri yn ôl, eu gohirio neu eu diddymu. Yn achos ysgolion, er enghraifft, bydd yn rhaid i nifer o awdurdodau lleol ddod o hyd i arian cyfatebol i wneud iawn am y golled yng ngwariant Llywodraeth Cymru, ac, os na allant ddod o hyd i hwnnw, bydd yn rhaid iddynt ystyried diddymu'r cynlluniau hynny. Os ydym i ddatblygu ffyrdd arloesol o leihau pwysau ar ysbytai aciwt, er enghraifft, mae angen inni weld buddsoddi mewn canolfannau gofal sylfaenol o'r radd flaenaf.

Having looked at the detail of the plan—and I

Ar ôl edrych ar fanylion y cynllun—a dim

have had only a very short time in which to do so—I see that it has the look of the familiar about it. I cannot see much in the way of absolutely new schemes. Therefore, will the Minister confirm that what we have here is the existing plans from each department, and that what she intends to do is deliver schemes that have been in the pipeline for many years? It is useful, for example, to have in one place all the plans for capital projects for the next two to three years, and I understand the need to have an aspiration for the next 10 years, but, for the future, the schemes are very much aspirational. The most commonly used phrases in the document are 'subject to capital availability'—how familiar I am with those words, Minister—and 'yet to be defined'. We must ask ourselves how useful that information is to those who will be looking for investment in infrastructure spend.

The final point that I want to raise today is on the issue of innovative ways of raising finance. We have very little information—and I am a bit surprised about that—about the progress that has been made in this area. We are into the second year of this Government. No new borrowing powers can possibly come onstream until 2015 and, by then, we will already be down £770 million. The only sum announced is the use of £170 million of local authority borrowing, and however helpful that is, we still have a shortfall of £600 million. There is no new information in the document published today about raising that sum during this Assembly. We have to acknowledge, therefore, that unless that new money comes quickly, plans for new schools and hospitals, primary healthcare centres and road and rail schemes will have to be abandoned or scrapped. I think that the Government, in its own interests, should be more forthcoming on how close it is to raising extra capital. As Paul Davies mentioned, while the Scottish Futures Trust is motoring ahead, we do not want there to be a perception that the Welsh Government is in the slow lane on this. Minister, you will have our support, but on today's evidence you will have to show greater ambition and urgency.

ond ychydig iawn o amser a gefais i wneud hynny—gwelaf eu bod yn edrych yn gyfarwydd.  Ni allaf weld llawer o gynlluniau gwbl newydd. Felly, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai'r hyn sydd gennym yma yw'r cynlluniau presennol o bob adran, ac mai'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yw cyflawni cynlluniau a fu ar y gweill ers blynyddoedd lawer? Mae'n ddefnyddiol, er enghraifft, cael yr holl gynlluniau ar gyfer prosiectau cyfalaf dros y ddwy neu dair blynedd nesaf yn yr un lle, ac rwyf yn deall yr angen i gael uchelgais ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, ond, ar gyfer y dyfodol, mae'r cynlluniau yn uchelgeisiol iawn. Yr ymadroddion mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y ddogfen yw 'ar yr amod bod cyfalaf ar gael'—rwyf yn dra cyfarwydd â'r geiriau hynny, Weinidog—ac 'heb ei ddiffinio eto'. Mae'n rhaid inni ofyn i ni ein hunain pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth honno i'r rhai a fydd yn chwilio am fuddsoddiad mewn gwariant ar seilwaith.

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei godi heddiw ar ffyrdd arloesol o godi arian. Nid oes gennym fawr o wybodaeth—ac rwyf yn synnu braidd ynghylch hynny—am y cynnydd a wnaed yn y maes hwn. Rydym yn ail flwyddyn y Llywodraeth hon. Ni all unrhyw bwerau benthyca newydd ddod i rym tan 2015 ac, erbyn hynny, byddwn eisoes i lawr £770 miliwn. Yr unig swm a gyhoeddwyd yw'r defnydd o £170 miliwn o fenthyciadau awdurdodau lleol, a waeth pa mor ddefnyddiol yw hynny, mae gennym ddiffyg o £600 miliwn o hyd. Nid oes unrhyw wybodaeth newydd yn y ddogfen a gyhoeddwyd heddiw am godi'r swm hwnnw yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'n rhaid inni gydnabod, felly, oni bai bod yr arian newydd hwnnw'n dod yn gyflym, y bydd yn rhaid gohirio neu roi'r gorau i gynlluniau newydd ar gyfer ysgolion ac ysbytai, canolfannau gofal iechyd sylfaenol a chynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd. Credaf y dylai'r Llywodraeth, er ei lles ei hun, fod yn fwy agored ynghylch pa mor agos yw i godi cyfalaf ychwanegol. Fel y dywedodd Paul Davies, tra bo'r Scottish Futures Trust yn dyrnu mynd, nid ydym am i ganfyddiad fodoli bod Llywodraeth Cymru ar ei hôl hi ar hyn. Weinidog, byddwch yn cael ein cefnogaeth ond, ar sail tystiolaeth heddiw, bydd yn rhaid i chi ddangos mwy o uchelgais a brys.

**Jane Hutt:** I am grateful to Ieuan Wyn Jones, and I certainly recognise the work that we did in the former One Wales Government, which included bringing forward capital with the support of the former UK Government to ensure that we could, against all the odds in the economic downturn and recession of 2008-09, continue to invest in our public and economic infrastructure. It is important to record the delivery of those projects in the context of this Wales infrastructure investment plan and to recognise that 1,300 jobs will be created as a result of what I have announced today with the first tranche of more than £44 million in funds. This is a plan for growth and jobs, in stark contrast to the austerity measures taken by the current UK Government. It is a response to the IMF, which has called for a plan B, and I believe that Wales is delivering a plan B for infrastructure investment. It is important that we look at procurement as a means of deriving the maximum value that we can from the Welsh public sector's expenditure of £4.3 billion and to ensure that it delivers for business. You will know that we had a review of our procurement procedures, which was undertaken by John McClelland. We also had a valuable report from the working group chaired by Julie James, which considered the opportunities for improving procurement policy in Wales. Furthermore, our community benefits policy has so far protected or created an estimated 2,200 jobs in Wales.

**Jane Hutt:** Rwyf yn ddiolchgar i Ieuan Wyn Jones, ac rwyf yn sicr yn cydnabod y gwaith a wnaethom yn Llywodraeth flaenorol Cymru'n Un, a oedd yn cynnwys cyflwyno cyfalaf gyda chefnogaeth Llywodraeth flaenorol y DU i sicrhau y gallem, er gwaethaf y dirywiad economaidd a'r dirwasgiad yn 2008-09, barhau i fuddsoddi yn ein seilwaith cyhoeddus ac economaidd. Mae'n bwysig cofnodi bod y prosiectau hynny wedi'u cyflawni yng nghyd-destun y cynllun buddsoddi hwn yn seilwaith Cymru, ac i gydnabod y bydd 1,300 o swyddi yn cael eu creu o ganlyniad i'r hyn a gyhoeddais heddiw gyda'r gyfran gyntaf o fwy na £44 miliwn mewn cronfeydd. Dyma gynllun ar gyfer twf a swyddi, mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r mesurau caledi y mae Llywodraeth y DU yn eu gweithredu ar hyn o bryd. Mae'n ymateb i'r Gronfa Ariannol Ryngwladol, sydd wedi galw am gynllun B, a chredaf fod Cymru yn darparu cynllun B ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried caffael fel ffordd o gael y gwerth mwyaf posibl o wariant sector cyhoeddus Cymru o £4.3 biliwn ac i sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer busnes. Gwyddoch ein bod wedi cael adolygiad o'n gweithdrefnau caffael, a gynhaliwyd gan John McClelland. Cawsom hefyd adroddiad gwerthfawr gan y gweithgor o dan gadeiryddiaeth Julie James, a oedd yn ystyried cyfleoedd i wella polisi caffael yng Nghymru. Ar ben hynny, mae ein polisi manteision cymunedol wedi diogelu neu greu 2,200 o swyddi yng Nghymru hyd yma.

It is clear that we are developing innovative models for moving forward against the backdrop of cuts of 40% and above. I have already responded to Paul Davies on lessons that can be learned from other models, such as the Scottish Futures Trust. However, we also have to look at our current circumstances given the costs of setting up such a model, deriving expertise, support and guidance from Gerry Holtham. Organisations and business leaders have a key role to play. For example, we have set up the Ely Bridge Development Company, a social enterprise company and a non-dividend-paying special purpose vehicle, in partnership with the Principality Building Society. Furthermore, the Welsh Housing Partnership is helping us to build more affordable homes. The local

Mae'n amlwg ein bod yn datblygu modelau arloesol i symud ymlaen ar sail toriadau o 40% a mwy. Rwyf eisoes wedi ymateb i Paul Davies ar wersi y gellir eu dysgu o fodelau eraill, megis y Scottish Futures Trust. Fodd bynnag, dylem hefyd edrych ar ein hamgylchiadau presennol o gofio costau sefydlu model o'r fath, gan ddefnyddio arbenigedd, cefnogaeth ac arweiniad gan Gerry Holtham. Mae gan sefydliadau ac arweinwyr busnes rôl allweddol i'w chwarae. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu Cwmni Datblygu Pont Trelái, cwmni menter gymdeithasol sy'n gyfrwng arbennig nad yw'n talu difidend, mewn partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Ar ben hynny, mae Partneriaeth Tai Cymru yn ein helpu i adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Nid

government borrowing initiative had not been taken up in Scotland when I went to meet the Scottish Minister for finance to discuss infrastructural developments, but the model has been successfully adopted by all 22 local authorities in Wales. We will take account of that to see whether it could be a model for other public sector infrastructure projects.

oedd y fenter benthyca llywodraeth leol wedi cael ei mabwysiadu yn yr Alban pan euthum i gwrdd â Gweinidog cyllid yr Alban i drafod datblygiadau seilwaith, ond mae'r model wedi cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Byddwn yn ystyried hynny i weld os gallai fod yn fodel ar gyfer prosiectau seilwaith eraill yn y sector cyhoeddus.

Turning to the ambitions of this plan, I am glad that you recognise that this is a clear line of direction for the public and private sectors on delivery, particularly for the construction sector. Our capital programme has been laid out in specific terms, as a pipeline, and, in chapter 3, we have identified that we will raise £1 billion plus from the innovative financing routes that we are already taking. I see that being extended considerably. Therefore, I welcome the finance spokesperson for Plaid Cymru's acknowledgement that this is an important plan for business, giving the certainty that the construction sector needs today, at a time of low growth, and when the need for infrastructure investment has been called for at an international level by the IMF. We in Wales and this Welsh Government are delivering on it.

Gan droi at uchelgeisiau'r cynllun hwn, rwyf yn falch eich bod yn cydnabod bod hwn yn gyfeiriad clir i'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar gyflenwi, yn enwedig i'r sector adeiladu. Mae ein rhaglen gyfalaf wedi cael ei nodi mewn termau penodol, fel rhaglen arfaethedig, ac, ym mhennod 3, rydym wedi nodi y byddwn yn codi mwy na £1 biliwn o'r llwybrau ariannu arloesol yr ydym eisoes yn eu dilyn. Gwelaf hynny'n cael ei ymestyn yn sylweddol. Felly, rwyf yn croesawu cydnabyddiaeth llefarydd cyllid Plaid Cymru bod hwn yn gynllun pwysig i fusnes, sy'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar y sector adeiladu heddiw, ar adeg o dwf isel, a phan fo galw eisoes ar lefel ryngwladol am yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith gan yr IMF. Rydym ni yng Nghymru a'r Llywodraeth Cymru hon yn cyflawni ar hyn.

**Peter Black:** I welcome this statement and acknowledge the difficult context in which we are having to deal with the capital allocations for the Welsh Government. Clearly, a 41% cut over four years is difficult to deal with, but maybe the Minister would agree that we are fortunate that we do not have to deal with the alternative plans set out by Alistair Darling in 2009, which anticipated a 45% cut over three years. Clearly, although things are bad, they could have been much worse.

**Peter Black:** Rwyf yn croesawu'r datganiad hwn ac yn cydnabod y cyd-destun anodd sy'n sail i sut rydym yn gorfod ymdrin â'r dyraniadau cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Yn amlwg, mae toriad o 41% dros bedair blynedd yn anodd delio ag ef, ond efallai y byddai'r Gweinidog yn cytuno ein bod yn ffodus nad oes yn rhaid i ni ddelio â'r cynlluniau amgen a nodwyd gan Alistair Darling yn 2009, a oedd yn rhagweld gostyngiad o 45% dros dair blynedd. Yn amlwg, er bod pethau yn ddrwg, gallent fod wedi bod yn llawer gwaeth.

I also welcome this strategic document. It is useful to have a document such as this, in which you have repackaged the current spending plans of the Welsh Government. It is helpful to be able to see the strategic direction in which we are going. Could you indicate to us how you will be structuring future budget processes to fit into this strategic document, so that we can clearly see the direction and which particular area capital

Rwyf hefyd yn croesawu'r ddogfen strategol hon. Mae'n ddefnyddiol cael dogfen fel hon, lle rydych wedi ail-becynnu cynlluniau gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru. Mae'n ddefnyddiol ein bod yn gallu gweld ein cyfeiriad strategol. Allwch chi ddweud wrthym sut y byddwch yn strwythuro prosesau cyllideb yn y dyfodol i gyd-fynd â'r ddogfen strategol hon, fel y gallwn weld y cyfeiriad yn glir a gweld i ba ardal gwariant

spending is to fit into?

arbennig y bydd y gwariant cyfalaf yn mynd?

I welcome very much the additional money that has been allocated as part of this statement—and £20 million of the £42 million in the statement is down to initiatives that the Welsh Liberal Democrats have put to the Welsh Government. I am particularly pleased about the £4 million put aside to raise £100 million in bonds. That is an important initiative, and maybe now that we have that in black and white, and announced in Plenary, we can have some sort of timetable for how that will be taken forward, and when we can see that money being put into place.

Rwyf yn croesawu'n fawr yr arian ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r datganiad hwn—ac mae £20 miliwn o'r £42 miliwn yn y datganiad yn ffrwyth mentrau a gyflwynodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i Lywodraeth Cymru. Rwy'n arbennig o falch ynghylch y £4 miliwn a neilltuwyd i godi £100 miliwn mewn bondiau. Mae hynny'n fenter bwysig, ac efallai gan fod gennym hynny ar bapur bellach, a'i fod wedi'i gyhoeddi yn y Cyfarfod Llawn, gallwn gael rhyw fath o amserlen ar gyfer sut y bydd hynny'n cael ei gyflwyno, a phryd y gallwn weld yr arian hwnnw'n cael ei roi ar waith.

The mortgage guarantee scheme that the Government has agreed to put in place is also important. I understand that we are looking at guaranteeing up to 1,500 first-time buyers to buy new-build properties. That is an important initiative in trying to boost the Welsh housing market. Around 5,000 homes were built last year, some 3,000 of which were in the private sector. Clearly, there is a need to boost that sector as much as possible and to offer confidence to the housebuilding sector to start to build those new homes.

Mae'r cynllun gwarant morgais y mae'r Llywodraeth wedi cytuno i'w roi ar waith yn bwysig hefyd. Rwyf yn deall ein bod yn edrych ar roi gwarant i hyd at 1,500 o'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf i brynu eiddo sydd newydd ei adeiladu. Mae hynny'n fenter bwysig i geisio rhoi hwb i farchnad dai Cymru. Cafodd tua 5,000 o gartrefi eu hadeiladu y llynedd, ac roedd tua 3,000 ohonynt yn y sector preifat. Yn amlwg, mae angen rhoi hwb i'r sector hwnnw cymaint ag y bo modd a rhoi hyder i'r sector adeiladu tai i ddechrau adeiladu'r cartrefi newydd hynny.

Finally, I also welcome the money for Nest and Arbed, and how this statement concentrates on housing as a driver of the Welsh economy. Clearly, we need to build more homes, but we also need to get more people back into work, and so if the Welsh Government can show that it has the confidence to invest in the housing sector, maybe the private sector will follow. As part of her response, perhaps the Minister could indicate what discussions she has had with the private sector about how it will be responding to this investment, and in particular whether there is any indication that the investment that she is putting into Arbed and Nest and into the recyclable loans for homes scheme will help to boost local Welsh jobs. How will she be making sure that local Welsh contractors benefit from that extra money?

Yn olaf, rwyf hefyd yn croesawu'r arian i Nest ac Arbed, a'r modd y mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar dai fel hwb i economi Cymru. Yn amlwg, mae angen inni adeiladu mwy o gartrefi, ond mae hefyd angen i ni gael mwy o bobl i ddychwelyd i weithio, ac, felly, os gall Llywodraeth Cymru ddangos bod ganddi'r hyder i fuddsoddi yn y sector tai, efallai y bydd y sector preifat yn ei dilyn. Fel rhan o'i hymateb, efallai y gall y Gweinidog nodi pa drafodaethau a gafodd gyda'r sector preifat ynghylch sut y bydd yn ymateb i'r buddsoddiad hwn, ac yn benodol a oes unrhyw arwydd y bydd ei buddsoddiad yn Arbed a Nest ac yn y cynllun benthyciadau ailgylchadwy ar gyfer cartrefi yn helpu i roi hwb i swyddi lleol yng Nghymru. Sut y bydd yn sicrhau bod contractwyr lleol Cymru yn elwa ar yr arian ychwanegol hwnnw?

**Jane Hutt:** I thank the finance spokesperson for the Welsh Liberal Democrats. The

**Jane Hutt:** Diolch i lefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r

priorities and proposals very much accord with the constructive discussions that we have been having and with their clear influence on the announcements that I have made today. However, they are also clearly in line with the investment framework, and clearly welcomed, as he will have seen today and yesterday, by the housing sector and the construction industry. It is good when constructive discussions can lead to accord in policy decisions and proposals.

blaenoriaethau a'r cynigion yn cyd-fynd, i raddau helaeth, â'r trafodaethau adeiladol a gawsom a chawsant ddylanwad amlwg ar y cyhoeddiadau a wneuthum heddiw. Fodd bynnag, maent hefyd yn amlwg yn cyd-fynd â'r fframwaith buddsoddi, a gafodd groeso brwd, fel y gwelsom heddiw a ddoe, gan y sector tai a'r diwydiant adeiladu. Mae'n dda o beth pan all trafodaethau adeiladol arwain at gydsynio ynghylch penderfyniadau a chynigion polisi.

3.15 p.m.

The mortgage guarantee scheme will stimulate the housing market. We have had very constructive discussions about how we can build a Welsh mortgage guarantee scheme, learning from the schemes that have been developed in England and Scotland, including the NewBuy scheme. We are considering the initial details of a mortgage guarantee scheme that could offer all homebuyers up to 95% mortgages for around 1,500 new-build properties across Wales, with a cap of between £200,000 and £250,000 on each property. A scheme of that size would enable investment of more than £200 million in new-build homes across Wales. Colleagues across Wales will know that this has been widely welcomed by the construction sector and it will enable first-time buyers to enter the marketplace. This will help us to meet the current challenges in the housing market. Therefore, I am pleased that these proposals have been discussed fully with the Welsh Liberal Democrats and we are leading the way towards a Welsh scheme of this kind, and detailed analysis is taking place.

Bydd y cynllun gwarant morgais yn ysgogi'r farchnad dai. Rydym wedi cael trafodaethau adeiladol iawn ar sut y gallwn lunio cynllun gwarant morgais i Gymru, drwy ddysgu oddi wrth y cynlluniau sydd wedi'u datblygu yn Lloegr a'r Alban, gan gynnwys y cynllun NewBuy. Rydym yn ystyried manylion cychwynnol cynllun gwarant morgais a allai gynnig morgeisi o hyd at 95% i brynwyr tai ar gyfer tua 1,500 o dai newydd ledled Cymru, gyda therfyn o rhwng £200,000 a £250,000 ar bob eiddo. Byddai cynllun o'r maint hwnnw yn galluogi buddsoddiad o fwy na £200 miliwn mewn adeiladu tai newydd ledled Cymru. Bydd cydweithwyr ledled Cymru yn gwybod bod hyn wedi cael ei groesawu'n eang gan y sector adeiladu a bydd yn galluogi'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf i gael mynediad i'r farchnad. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r heriau cyfredol yn y farchnad dai. Felly, rwy'n falch bod y cynigion hyn wedi cael eu trafod yn llawn gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac rydym yn arwain y ffordd tuag at gael cynllun Cymreig o'r math hwn, ac mae dadansoddiad manwl yn cael ei gynnal.

If we look at the Welsh housing bond, in working with our registered social landlords to develop this scheme, we are committing £4 million, which will support a bond issue of over £100 million, as I said in my statement, for 1,000 affordable homes over the next four years. We are committed to this—and it links very closely to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage's White Paper announced yesterday on the supply of affordable homes—despite, as you acknowledged, the cut to our capital budget. Therefore, it also underlines our commitment to deliver 7,500 additional new affordable

Os edrychwn ar fond tai Cymru, drwy weithio gyda'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu'r cynllun hwn, rydym yn ymrwymo £4 miliwn, a fydd yn cefnogi dyroddiad bondiau o dros £100 miliwn, fel y dywedais yn fy natganiad, ar gyfer 1,000 o dai fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf. Rydym wedi ymrwymo i hyn—ac mae'n cysylltu'n agos iawn â Phapur Gwyn y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, a gafodd ei gyhoeddi ddoe, ar y cyflenwad o dai fforddiadwy—er gwaethaf y toriad yn ein cyllideb gyfalaf, fel y bu ichi ei gydnabod. Felly, mae hefyd yn pwysleisio

homes. We will look at the opportunities provided by the Nest and Arbed schemes in terms of construction and energy efficiency, and in terms of the opportunities for community benefits with the apprentices and the households that will benefit from this investment.

ein hymrwymiad i ddarparu 7,500 o dai newydd fforddiadwy ychwanegol. Byddwn yn edrych ar y cyfleoedd a ddarperir gan gynlluniau Nyth ac Arbed o ran adeiladu ac effeithlonrwydd ynni, ac o ran y cyfleoedd ar gyfer sicrhau manteision i'r gymuned gyda'r prentisiaid a'r aelwydydd a fydd yn elwa ar y buddsoddiad hwn.

The private sector is very enthusiastic about the response and the partnership in terms of this budget agreement, and is important with regard to the proposals that we have supported. In terms of sending a message to the UK Government, which I am sure you will express very strongly, this demonstrates that we in Wales are working to ensure—across the public and private sectors, and, indeed, across the Chamber—that we have a plan for growth and jobs, investing in our infrastructure.

Mae'r sector preifat yn frwdfrydig iawn ynghylch yr ymateb a'r bartneriaeth o ran cytundeb y gyllideb hon, ac mae'n bwysig o ran y cynigion yr ydym wedi'u cefnogi. O ran anfon neges at Lywodraeth y DU, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ei mynegi'n gryf iawn, mae hyn yn dangos ein bod ni yng Nghymru yn gweithio i sicrhau—ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac, yn wir, ar draws y Siambr—fod gennym gynllun ar gyfer twf a swyddi, drwy fuddsoddi yn ein seilwaith.

**Julie Morgan:** I congratulate the Minister on her statement today and on the push for jobs and growth, particularly through the housing investment. I am sure that the Minister heard press reports over the weekend from the G8 summit at Camp David, which said that enhancing the capital available for the European Investment Bank to lend on is being considered. As all of the Governments participating in the G8 summit are struggling with the same issue as us, namely how to increase capital spending on infrastructure without increasing public borrowing, will she comment on this proposal and whether this would help us in Wales?

**Julie Morgan:** Rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar ei datganiad heddiw ac ar yr ymgais i greu swyddi a thwf, yn enwedig drwy fuddsoddi mewn tai. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed adroddiadau yn y wasg dros y penwythnos, o uwchgynhadledd y G8 yng Ngwersyll David, a ddywedodd fod gwella'r cyfalaf sydd ar gael i Fanc Buddsoddi Ewrop fenthyca yn cael ei ystyried. Gan fod pob un o'r Llywodraethau sy'n cymryd rhan yn uwchgynhadledd y G8 yn cael yr un trafferthion â ni, sef sut i gynyddu gwariant cyfalaf ar seilwaith heb gynyddu benthyca cyhoeddus, a wnaiff hi wneud sylw ar y cynnig hwn ac ynghylch a fyddai hyn yn ein helpu ni yng Nghymru?

**Jane Hutt:** These issues are important in terms of the borrowing potential and the borrowing challenges that we have. We will be looking to the European Investment Bank more for borrowing opportunities. Certainly, that is something on which we are working very closely with Gerry Holtham, so that he can assist us with advice.

**Jane Hutt:** Mae'r materion hyn yn bwysig o ran y potensial benthyca a'r heriau benthyca sydd gennym. Byddwn yn edrych i Fanc Buddsoddi Ewrop roi rhagor o gyfleoedd benthyca. Yn sicr, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn gweithio'n agos iawn gyda Gerry Holtham arno, fel y gall ein cynorthwyo gyda chyngor.

**The Presiding Officer:** We have heard from speakers from each of the parties, so I would appreciate it if the remaining speakers would only ask questions.

**Y Llywydd:** Rydym wedi clywed gan siaradwyr o bob un o'r pleidiau, felly byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai'r siaradwyr sy'n weddill ofyn cwestiynau'n unig.

**Mark Isherwood:** I have three short questions. Six months after the mortgage

**Mark Isherwood:** Mae gennyf dri chwestiwn byr. Chwe mis ar ôl lansio'r

guarantee scheme was launched in England and Scotland, will your mortgage guarantee scheme work on the same basis, with the Welsh Government financial commitment acting only as second loss position provider if the captive insurance deposits from builders are exceeded?

cynllun gwarant morgais yn Lloegr a'r Alban, a fydd eich cynllun gwarant morgais yn gweithio ar yr un sail, gydag ymrwymiad ariannol Llywodraeth Cymru dim ond yn gweithredu fel ail ddarparwr os bydd colledion pe bai adneuon yswiriant caeth gan adeiladwyr yn cael eu torri?

Secondly, what role will the Welsh Government's delivery unit have in monitoring the projects that the Minister has announced today?

Yn ail, beth fydd rôl uned gyflawni Llywodraeth Cymru o ran monitro'r prosiectau y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi heddiw?

Finally, how will your infrastructure plan co-ordinate with the UK Government's infrastructure plan, published last November, which includes proposals for co-ordinating public and private investment to provide jobs, transport links, utilities, broadband access and wider help for business at a UK level?

Yn olaf, sut y bydd eich cynllun seilwaith yn cydlynu â chynllun seilwaith Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cydlynu buddsoddi cyhoeddus a phreifat i ddarparu swyddi, cysylltiadau trafnidiaeth, cyfleustodau, mynediad at fand eang a chymorth ehangach ar gyfer busnesau yn y DU?

**Jane Hutt:** I thank Mark Isherwood for those questions. Of course, we are learning through developing our mortgage guarantee scheme. We are building on the experience of England and Scotland. In order to have a scheme that will fit Wales, we are carrying out a detailed analysis of the options. It is likely that the scheme will run from next spring for three years. With regard to guarantees, it is important that they would last for seven years. Indeed, with regard to the indemnity, we must ensure that, as the Government, we would have an appropriate arrangement for securities. It is important that I have been working with the UK Minister with responsibility for infrastructure finance to ensure that Wales is reflected in the UK infrastructure investment plan and that the UK Government recognises that the Wales infrastructure investment plan is a key factor in its delivery. One clear example of our working together and building opportunities across Wales and England is the M4 scheme, with regard to which there are ongoing detailed discussions about transport links.

**Jane Hutt:** Diolch, Mark Isherwood, am y cwestiynau hynny. Wrth gwrs, rydym yn dysgu drwy ddatblygu ein cynllun gwarant morgais. Rydym yn adeiladu ar brofiadau Lloegr a'r Alban. Er mwyn cael cynllun sy'n addas i Gymru, rydym yn cynnal dadansoddiad manwl o'r opsiynau. Mae'n debygol y bydd y cynllun yn rhedeg o dymor y gwanwyn am gyfnod o dair blynedd. O ran gwarantau, mae'n bwysig eu bod yn para am saith mlynedd. Yn wir, o ran yr indemniad, rhaid inni sicrhau, fel Llywodraeth, y byddai gennym drefniant priodol ar gyfer gwarantau. Mae'n bwysig y bûm yn gweithio gyda Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am gyllid seilwaith i sicrhau bod Cymru yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith y DU a bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru yn ffactor allweddol wrth ei gyflwyno. Un enghraifft glir o'r cydweithio sy'n digwydd a'r cyfleoedd sy'n cael eu datblygu ledled Cymru a Lloegr yw'r cynllun M4, ac mae trafodaethau manwl am gysylltiadau trafnidiaeth yn parhau mewn perthynas â hyn.

**Mike Hedges:** I welcome the statement. Does the Minister know why Wales is not being granted borrowing powers, given that Northern Ireland has had these powers since 2003-04 and Scotland will have them from

**Mike Hedges:** Rwy'n croesawu'r datganiad. A yw'r Gweinidog yn gwybod pam na roddir pwerau benthyca i Gymru, o gofio bod Gogledd Iwerddon wedi cael y pwerau hyn ers 2003-04 ac y bydd yr Alban yn eu cael o

2013? Will the Minister use the revenue support grant to allow the capacity for prudential borrowing by local authorities?

2013? A wnaiff y Gweinidog ddefnyddio'r grant cynnal refeniw er mwyn caniatáu'r gallu i awdurdodau lleol fenthyca'n ddarbodus?

**Jane Hutt:** Thank you, Mike Hedges. Of course, we are keen to use the borrowing powers we already have under the Welsh Development Agency Act 1997, and we are undertaking constructive talks with the UK Government on this matter in order to release those borrowing powers. We need these to enable us to deliver on the expectations set out in our infrastructure investment plan. Indeed, I think that we are making good progress in securing those powers. However, in the meantime, we must work with our partners, including local government, to ensure that we can assist them—and I use that word advisedly—with regard to the use of prudential borrowing powers. With regard to the local government borrowing initiative for highways improvement, this year, we are providing grant; next year our assistance to support that delivery will be through the revenue support grant.

**Jane Hutt:** Diolch yn fawr, Mike Hedges. Wrth gwrs, rydym yn awyddus i ddefnyddio'r pwerau benthyca sydd gennym eisoes o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997, ac rydym yn cynnal trafodaethau adeiladol gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn er mwyn rhyddhau rhai o'r pwerau benthyca hynny. Mae angen y rhain arnom i'n galluogi i fodloni'r disgwyliadau a nodir yn ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith. Yn wir, credaf ein bod yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau'r pwerau hynny. Fodd bynnag, yn y cyfamser, rhaid inni weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol, i sicrhau y gallwn eu cynorthwyo—ac rwy'n defnyddio'r gair hwnnw'n ddoeth—o ran y defnydd o bwerau benthyca darbodus. O ran y fenter benthyca llywodraeth leol ar gyfer gwella priffyrdd, eleni, rydym yn darparu grant; y flwyddyn nesaf, bydd ein cymorth i gefnogi hynny yn digwydd drwy ddarparu grant cynnal refeniw.

**Lynne Neagle:** Minister, I thank you for your statement today. It is incredibly heartening to see a Welsh Labour Government continuing to invest in jobs and growth at this difficult time. I am sure that it will not surprise you to know that I want to focus my questions on the plans for the specialist and critical care centre in Cwmbran, which I was delighted to see forms a key part of the infrastructure programme. I realise that it still has to clear the full business case stage, but are you able to outline any further detail today with regard to the proposed timetable for the construction of the critical care centre? If, as I am confident will happen, final business case approval is forthcoming, will you agree, Minister, that the specialist and critical care centre represents exactly the sort of change in our health service advocated in the Longley report and reports prior to that and that it is therefore not only vital to the future of healthcare delivery in Gwent, but strategically important for the whole of Wales?

**Lynne Neagle:** Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw. Mae'n hynod galonogol gweld Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn swyddi a thwf yn y cyfnod anodd hwn. Rwy'n siŵr na fydd yn syndod i chi wybod y bydd fy nghwestiynau yn canolbwyntio ar y cynlluniau ar gyfer y ganolfan gofal arbenigol a chritigol yng Nghwmbrân, ac rwy'n falch iawn o weld ei fod yn llunio rhan allweddol o'r rhaglen seilwaith. Rwy'n sylweddoli bod yn rhaid iddo basio'r cyfnod achos busnes llawn, ond a allwch chi amlinellu unrhyw fanylion pellach heddiw ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith o adeiladu canolfan gofal critigol? Os caiff yr achos busnes terfynol ei gymeradwyo, ac rwyf yn hyderus y bydd hynny'n digwydd, a fyddech chi'n cytuno, Weinidog, bod y ganolfan gofal arbenigol a chritigol yn cynrychioli'r union newid a argymhellir ar gyfer ein gwasanaeth iechyd yn adroddiad Longley ac mewn adroddiadau cyn hynny ac, o'r herwydd, ei fod nid yn unig yn hanfodol i ddyfodol darpariaeth gofal iechyd yng Ngwent, ond yn strategol bwysig

i Gymru gyfan?

**Jane Hutt:** I pay tribute to the Member for Torfaen for consistently and diligently raising the matter, not just by asking questions of Ministers in the Senedd, but through her work at constituency level. She has highlighted a project in the plan—the Torfaen new specialist critical care centre. It has a total scheme value of £270 million and there is a commitment to financing and delivering that plan. I am grateful, as I am sure the Minister for Health and Social Services will be, for her acknowledgement of the role that such facilities will play in the twenty-first century in a more efficient and economical delivery of the health service. It ties in very clearly with our vision for the NHS in the Minister's document, 'Together for Health', looking at how we can deliver services more economically and efficiently.

**Jane Hutt:** Rwy'n talu teyrnged i'r Aelod dros Dor-faen am godi'r mater hwn yn gyson ac yn ddiwyd, nid yn unig drwy ofyn cwestiynau i Weinidogion yn y Senedd, ond drwy ei gwaith yn ei hetholaeth. Mae hi wedi tynnu sylw at brosiect yn y cynllun—y ganolfan gofal arbenigol a chritigol newydd yn Nhor-faen. Cyfanswm gwerth y cynllun yw £270 miliwn ac mae ymrwymiad i ariannu a chyflawni'r cynllun hwnnw. Rwy'n ddiolchgar, fel yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, am ei chydnabyddiaeth o'r rôl y bydd cyfleusterau o'r fath yn ei chwarae yn yr unfed ganrif ar hugain drwy ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ffordd fwy effeithlon ac economaidd. Mae'n cyd-fynd yn glir iawn â'n gweledigaeth ar gyfer y GIG yn nogfen y Gweinidog, 'Law yn Llaw at Iechyd', o ran edrych ar sut y gallwn ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy economaidd ac effeithlon.

## Datganiad: Y Polisi Amaethyddol Cyffredin: Safbwynt Cymru
## Statement: The Common Agricultural Policy: The Welsh Perspective

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** Since my appointment last year, I have made a clear commitment to informing Members on progress of negotiations on reform of the common agricultural policy. I have also made a clear commitment to developing the Welsh policy and perspective in an open, transparent and inclusive way. I made an initial statement on CAP last July and a further statement in November. I launched a formal consultation process in December and tabled a Government debate in January. My statement this afternoon now seeks to outline the Welsh Government's negotiating position and to provide a further update on progress.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Ers imi gael fy mhenodi flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gwneud ymrwymiad clir i hysbysu Aelodau ynghylch cynnydd y trafodaethau ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Rwyf hefyd wedi gwneud ymrwymiad clir i ddatblygu polisi a safbwynt Cymru mewn ffordd agored, tryloyw a chynhwysol. Gwnes ddatganiad cychwynnol ar PAC fis Gorffennaf diwethaf a datganiad arall ym mis Tachwedd. Lansiais broses ymgynghori ffurfiol ym mis Rhagfyr a chyflwynais ddadl y Llywodraeth ym mis Ionawr. Nod fy natganiad y prynhawn yma yw ceisio amlinellu safbwynt negodi Llywodraeth Cymru a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed.

I would like to begin by thanking all those people and organisations that took the time to join the conversation on CAP, which I launched in December. The purpose of this conversation was to encourage those interested in the future of the common

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r holl bobl a'r sefydliadau a gymerodd yr amser i ymuno â'r drafodaeth ar PAC, a lansiwyd gennyf ym mis Rhagfyr. Diben y drafodaeth oedd annog y rhai sydd â diddordeb yn nyfodol y polisi amaethyddol cyffredin yng Nghymru i

agricultural policy from across Wales to engage in helping to shape and inform the detailed Welsh position. Taken as a whole, the responses that we received offered valuable insights, ideas and proposals, which have certainly helped to develop and enrich our thinking.

gymryd rhan yn y broses o helpu i lunio a llywio sefyllfa fanwl Cymru. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gawsom yn cynnig gwybodaeth, syniadau a chynigion gwerthfawr, sydd yn sicr wedi helpu i ddatblygu a chyfoethogi ein ffordd o feddwl.

Since our last discussions earlier this year, I have attended every European Union agriculture council and I will continue, at every opportunity, to press for the best outcome for Wales. My officials are also involved in detailed discussions with the Commission and the Department for Environment, Food and Rural Affairs, and in ensuring that Wales's voice is heard in the informal forums where policy is shaped.

Ers ein trafodaethau diwethaf yn gynharach eleni, rwyf wedi mynychu pob cyngor amaethyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd a byddaf yn parhau, ar bob cyfle, i bwyso am y canlyniad gorau i Gymru. Mae fy swyddogion hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda'r Comisiwn ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac wrth sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn y fforymau anffurfiol lle caiff polisi ei lunio.

I will now turn to some of the key issues in these negotiations. First, simplification remains a key priority for us. The proposals have some elements of simplification, but they also include several new elements that may increase the complexity for farmers and administrators. The Welsh Government is committed to the Commission's stated objective of a simpler CAP. The UK Government has submitted a number of proposals on this matter, and I hope that the Commission will give serious consideration to these proposals.

Trof yn awr at rai o'r materion allweddol yn y negodiadau hyn. Yn gyntaf, mae symleiddio'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol inni. Mae rhai elfennau o symleiddio yn y cynigion ond maent hefyd yn cynnwys nifer o elfennau newydd a allai gynyddu'r cymhlethdod i ffermwyr a gweinyddwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amcan y Comisiwn i lunio PAC symlach. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o gynigion ar y mater hwn, a gobeithiaf y bydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cynigion hyn.

The transition from historic to area payments is a key issue for many people. I am not alone in pressing for a longer transition period of at least seven years, but preferably 10 years. I am seeking flexibility for regions within member states to determine the distribution of payments to suit the farming industry of their territory. I understand the concern over the Commission's proposals for uniform land-based payments by 2019, and we are considering differential payment rates to manage this change. However, regardless of how we structure these new payments, it is already clear that there will be individual winners and losers. Our priority, as a Government, is fairness and to minimise these extremes.

Mae newid o daliadau hanesyddol i daliadau ardal yn fater allweddol i nifer o bobl. Nid fi yw'r unig un sy'n pwyso am gyfnod pontio hirach o saith mlynedd o leiaf, ond 10 mlynedd yn ddelfrydol. Rwy'n ceisio cael hyblygrwydd ar gyfer rhanbarthau o fewn aelod-wladwriaethau i benderfynu ar y dosbarthiad o daliadau i gyd-fynd â diwydiant ffermio eu tiriogaeth hwy. Rwy'n deall y pryder ynghylch cynigion y Comisiwn ar gyfer cael taliadau tir unffurf erbyn 2019, ac rydym yn ystyried cyfraddau talu gwahaniaethol i reoli'r newid hwn. Fodd bynnag, waeth sut rydym yn strwythuro'r taliadau newydd hyn, mae eisoes yn glir y bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colli. Ein blaenoriaeth, fel Llywodraeth, yw sicrhau tegwch a lleihau'r eithafion hyn.

There was good news in Brussels last week. The greening proposals that 30% of direct

Roedd newyddion da ym Mrwsel yr wythnos diwethaf. Mae'r cynigion gwyrdd y bydd

payment funds will be payable on the basis of farmers undertaking prescribed greening actions have been modified in a Commission concept paper published prior to the last agriculture council. I have been lobbying long and hard for farmers in Glastir to be exempt from the greening proposals under pillar 1 and it is now clear that this is paying off. These new proposals have received a warm welcome from many member states, and I also welcome the new proposals from the Commission. We will support the Commission's ambition for greening the CAP as a whole, and I believe that these ideas provide a real step forward from the overly rigid and narrow approach in the Commission's original proposals.

30% o gronfeydd taliadau uniongyrchol yn daladwy ar y sail bod ffermwyr yn cymryd camau mwy gwyrdd penodedig wedi cael eu haddasu mewn papur cysyniad gan y Comisiwn, a gyhoeddwyd cyn y cyngor amaethyddiaeth diwethaf. Bûm yn lobïo'n galed ers amser i sicrhau bod ffermwyr sy'n rhan o Glastir yn cael eu heithrio o'r cynigion gwyrdd o dan golofn 1 ac mae'n amlwg bellach bod hyn yn talu ar ei ganfed. Cafodd y cynigion newydd hyn groeso cynnes gan nifer o aelod-wladwriaethau, ac rwyf hefyd yn croesawu'r cynigion newydd gan y Comisiwn. Byddwn yn cefnogi uchelgais y Comisiwn ar gyfer gwneud y PAC yn ei gyfanrwydd yn fwy gwyrdd, a chredaf fod y syniadau hyn yn gam mawr ymlaen o'r dull anhyblyg a chul yng nghynigion gwreiddiol y Comisiwn.

I have argued for options to exempt from the greening requirements those farmers in whole-farm agri-environment schemes and a menu of opportunities for greening that are decided on a regional basis within member states to ensure the options suit the needs of farming in Wales. I am glad to see that the position we have adopted is at the centre of gravity in this debate and that the Welsh perspective is shared by many member states. There are further issues relating to the direct payment, such as definitions of an 'active farmer', 'new entrants' and 'capping', and other more technical matters. I am happy to answer questions on these matters.

Rwyf wedi dadlau o blaid cael opsiynau i eithrio'r ffermwyr sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ffermydd cyfan o'r gofynion gwyrdd ac o blaid cyfres o gyfleoedd ar gyfer cynlluniau mwy gwyrdd a gaiff eu penderfynu ar sail ranbarthol o fewn aelod-wladwriaethau i sicrhau bod y dewisiadau yn addas ar gyfer anghenion ffermio yng Nghymru. Rwy'n falch o weld bod y sefyllfa yr ydym wedi ei mabwysiadu wrth wraidd y ddadl hon a bod y safbwynt Cymreig yn cael ei rannu gan nifer o aelod-wladwriaethau. Mae materion pellach sy'n ymwneud â'r taliad uniongyrchol, megis diffiniadau o 'ffermwr gweithredol', 'ymgeiswyr newydd' a 'chapio', a materion eraill mwy technegol. Rwy'n hapus i ateb cwestiynau ar y materion hyn.

I will now turn to pillar 2 of CAP and rural development. First, I support the UK position of seeking to increase the UK allocation for pillar 2. The rural development plan is one of our key tools for supporting rural areas, and increased funding for the whole of pillar 2 is crucial if we are to achieve our ambitions and realise our potential. On 8 May, I set out my principles and priorities for the 2014-20 European programmes. At this stage, I have sought to set out some basic overarching principles that will guide the 2014 -20 plan.

Trof yn awr at golofn 2 o PAC a datblygu gwledig. Yn gyntaf, rwy'n cefnogi safbwynt y DU o geisio cynyddu dyraniad y DU ar gyfer colofn 2. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn un o'n prif arfau ar gyfer cefnogi ardaloedd gwledig, ac mae rhagor o gyllid ar gyfer colofn 2 yn ei chyfanrwydd yn hanfodol os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau a'n potensial. Ar 8 Mai, nodais fy egwyddorion a blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd 2014-20. Ar hyn o bryd, rwyf wedi ceisio nodi rhai egwyddorion sylfaenol cyffredinol a fydd yn arwain y cynllun 2014-20.

I am anxious that the RDP has sufficient

Rwy'n bryderus bod gan y cynllun datblygu

flexibility to enable us to invest in rural employment, SMEs and community regeneration. I therefore seek a more balanced range of investments while maintaining our focus on a minimum of 60% spend on our agri-environmental schemes. At the same time, I want to maximise on the opportunities offered by the RDP for us in Wales to think creatively and channel innovation and new ways of working. We need to learn from the current RDP, but we need to take the best elements and create something more strategic, more flexible and, above all, better targeted at the real issues affecting rural Wales and strengthen the rural economy. Sustainable rural communities must be our goal and the next RDP will need to be fully integrated, where possible, with other funds, such as the structural funds and fisheries fund, as well as wider Welsh Government programmes. This integration is further underlined by the EU common strategic framework, which will create a context for the next programme and will demand synergy across all four EU funds.

gwledig ddigon o hyblygrwydd er mwyn ein galluogi i fuddsoddi mewn cyflogaeth, busnesau bach a chanolig ac adfywio cymunedol yng nghefn gwlad. Felly, rwy’n ceisio am amrywiaeth fwy cytbwys o fuddsoddiadau tra fy mod yn cynnal ein ffocws o wario o leiaf 60% ar ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Ar yr un pryd, rwyf am wneud y gorau o’r cyfleoedd a gynigir gan y cynllun datblygu gwledig i ni yng Nghymru feddwl yn greadigol a sianelu arloesedd a ffyrdd newydd o weithio. Mae angen inni ddysgu oddi wrth y cynllun datblygu gwledig presennol, ond mae angen inni gymryd yr elfennau gorau a chreu rhywbeth mwy strategol, mwy hyblyg ac, yn anad dim, wedi’i dargedu’n well ar y materion pwysig sy’n effeithio ar gefn gwlad Cymru a chryfhau’r economi wledig. Rhaid inni anelu at gael cymunedau gwledig cynaliadwy a bydd yn rhaid i’r cynllun datblygu gwledig nesaf fod wedi’i integreiddio’n llawn, lle y bo’n bosibl, gyda chronfeydd eraill, fel y cronfeydd strwythurol a’r gronfa bysgodfeydd, yn ogystal â rhaglenni ehangach Llywodraeth Cymru. Caiff yr integreiddio hwn ei danlinellu ymhellach gan fframwaith strategol cyffredin yr UE, a fydd yn creu cyd-destun ar gyfer y rhaglen nesaf ac a fydd yn mynnu synergedd ar draws pedair cronfa’r UE.

3.30 p.m.

These are challenging ambitions, and to support me in this work I am setting up a task and finish group to take an overall view of the RDP and to provide advice on the new plan as it emerges. The group will be chaired by Wales’s Commissioner for Sustainable Futures, Peter Davies, and its membership will be drawn widely from throughout rural Wales. I expect it to report back to me by the end of this year.

Mae’r rhain yn uchelgeisiau heriol, ac i’m cefnogi yn y gwaith hwn, rwy’n sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gymryd golwg gyffredinol ar y cynllun datblygu gwledig ac i roi cyngor ar y cynllun newydd wrth iddo ddod i’r amlwg. Cadeirydd y grŵp fydd Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, Peter Davies, a bydd yr aelodau yn dod o bob cwr o Gymru wledig. Rwy’n disgwyl i’r grŵp adrodd yn ôl i mi erbyn diwedd y flwyddyn hon.

In conclusion, we will continue to work closely with the Commission, our MEPs, the UK Government and other UK administrations to ensure that the Welsh position is fully reflected throughout the CAP reform process and in influencing the final shape of the regulations. We are putting a great deal of resource into this work. My officials are submitting a paper to the

I gloi, byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda’r Comisiwn, ein Haelodau o Senedd Ewrop, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod sefyllfa Cymru yn cael ei adlewyrchu yn llawn drwy gydol y broses o ddiwygio’r polisi amaethyddol cyffredin ac wrth ddylanwadu ar ffurf derfynol y rheoliadau. Rydym yn rhoi llawer iawn o adnoddau i

Commission setting out the unique characteristics and needs of the farming industry in Wales, suggesting a number of alternative approaches to pillar 1. These proposals are contained in my paper 'CAP Reform 2014—The Welsh Government Response', which I am publishing today. I will shortly be publishing a paper on our approach to pillar 2 and the RDP, based upon the work of the task and finish group. The reform of the CAP will affect lives, businesses and communities across Wales. This is a time when we are shaping the future. Taken together, both our negotiations and our policy development mean that Wales's voice is heard loud and clear. We are delivering on our commitment to stand up for Wales.

mewn i'r gwaith hwn. Mae fy swyddogion yn cyflwyno papur i'r Comisiwn yn nodi nodweddion ac anghenion unigryw y diwydiant ffermio yng Nghymru, gan awgrymu nifer o ddulliau amgen ar gyfer colofn 1. Mae'r cynigion hyn wedi'u cynnwys yn fy mhapur, 'Diwygio'r PAC 2014—Ymateb Llywodraeth Cymru', yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw. Cyn hir, byddaf yn cyhoeddi papur ar ein dull o ymdrin â cholofn 2 a'r cynllun datblygu gwledig, yn seiliedig ar waith y grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y broses o ddiwygio'r PAC yn effeithio ar fywydau, busnesau a chymunedau ledled Cymru. Mae hwn yn gyfnod pan rydym yn llunio'r dyfodol. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae ein trafodaethau a'n datblygiad polisi yn golygu bod llais Cymru'n cael ei glywed yn glir. Rydym yn cyflawni ein hymrwymiad i sefyll cornel Cymru.

**Antoinette Sandbach:** Thank you for your statement, Deputy Minister. Many in the farming industry will have welcomed your announcement to the media last week concerning the likelihood that farmers participating in Glastir will qualify for at least one of the greening measures. Will you clarify that recent Commission papers refer to this as a 'possibility', and no more than that? Will you state what work you will be commissioning to model the impact of greening on production and farm incomes, and can you confirm what indications you have received that the proposals for permanent pasture will, indeed, be relaxed? What assessment have you made of how ecological focus areas could be implemented in Wales, and what flexibility would farmers have, for example, to incorporate matters such as field trees and other areas that are currently deducted from the reforms?

**Antoinette Sandbach:** Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Bydd nifer o bobl yn y diwydiant ffermio wedi croesawu eich cyhoeddiad i'r cyfryngau yr wythnos diwethaf ynghylch y tebygolrwydd y bydd ffermwyr sy'n cymryd rhan yn Glastir yn gymwys ar gyfer o leiaf un o'r mesurau gwyrdd. A wnewch chi gadarnhau bod papurau diweddar gan y Comisiwn yn cyfeirio at hyn fel 'posibilrwydd', a dim mwy na hynny? A wnewch chi ddweud pa waith y byddwch yn ei gomisiynu i fodelu effaith mesurau gwyrdd ar gynhyrchu ac incwm ffermydd, ac a allwch gadarnhau pa arwyddion rydych wedi'u gweld y bydd y cynigion ar gyfer tir pori parhaol yn cael eu llacio? Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o sut y gallai ardaloedd ecolegol gael eu gweithredu yng Nghymru, a pha hyblygrwydd fyddai gan ffermwyr, er enghraifft, i gynnwys materion fel coed maes ac ardaloedd eraill nad ydynt yn rhan o'r diwygiadau ar hyn o bryd?

I note, with deep regret, the reaffirmation of your commitment to reducing the spending on agri-environment schemes from 80% to 60%. Some may see this as a hammer blow to Glastir, and it is certainly evidence that you are not prepared to stand up and speak up for the farming community in Wales. What that will do, in combination with the removal of the Tir Mynydd payment, is create an uneven playing field, and Welsh farmers will find it

Nodaf, gyda gofid dwfn, y ffaith eich bod wedi ailddatgan eich ymrwymiad i leihau gwariant ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol o 80% i 60%. Efallai y bydd rhai yn gweld hyn yn ergyd drom i Glastir, ac mae'n sicr yn dystiolaeth nad ydych yn barod i sefyll a siarad dros y gymuned ffermio yng Nghymru. Bydd hynny, mewn cyfuniad â chael gwared ar y taliad Tir Mynydd, yn creu sefyllfa annheg, a bydd ffermwyr Cymru yn

difficult to compete with those in England and elsewhere in Europe. Will you confirm where you are proposing to redistribute that 20% proportion of the money, and are you prepared to review that decision if, following changes to the all-Wales element of Glastir, it attracts sufficient participation from farmers during the next round of applications?

ei chael hi'n anodd cystadlu â'r rheini yn Lloegr ac mewn mannau eraill yn Ewrop. A wnewch chi gadarnhau lle rydych yn bwriadu ailddosbarthu'r 20% hynny o'r arian, ac a ydych yn barod i adolygu'r penderfyniad hwnnw, os bydd, yn dilyn newidiadau i elfen Cymru-gyfan Glastir, yn denu digon o gyfranogiad gan ffermwyr yn ystod y cylch nesaf o geisiadau?

Finally, I welcome your support for the UK position in seeking to increase the allocation for pillar 2 funding. This is an area in which the UK has been historically underfunded. I know that representations were made by all of us, as members of the Environment and Sustainability Committee, to MEPs and officials in Europe that that funding should be increased, given the poor settlement for the UK.

Yn olaf, rwy'n croesawu eich cefnogaeth ar gyfer safbwynt y DU o ran ceisio cynyddu'r dyraniad ar gyfer cyllid colofn 2. Mae hwn yn faes lle nad yw'r DU, yn hanesyddol, wedi cael ei ariannu'n ddigonol. Gwn fod sylwadau wedi'u gwneud gan bob un ohonom, fel aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, i Aelodau o Senedd Ewrop a swyddogion yn Ewrop y dylid cynyddu'r cyllid hwnnw, o ystyried setliad gwael y DU.

**Alun Davies:** I say clearly to Members on all sides of the Chamber that the negotiations of which we are currently a part are a dynamic process that will change from week to week—as in the last few weeks—and certainly from month to month. Had I made a statement a month ago, it would have been a different statement to the one that I am making today. If I made another statement in July, that would be also be different. We are, in some ways, responding to proposals and, in other ways, making proposals. I would suggest to all Members that they should read, in some detail, the paper that I have published this afternoon, to look at the totality of the Welsh position and to review that in terms of the conversations that we are having with people across Wales and with the institutions of the European Union.

**Alun Davies:** Dywedaf yn glir wrth Aelodau ar bob ochr o'r Siambr fod y trafodaethau yr ydym yn rhan ohonynt ar hyn o bryd yn rhan o broses ddeinamig a fydd yn newid o wythnos i wythnos—fel yn achos yr ychydig wythnosau diwethaf—ac yn sicr o fis i fis. Pe bawn wedi gwneud datganiad fis yn ôl, byddai wedi bod yn ddatganiad gwahanol i'r un yr wyf yn ei wneud heddiw. Os byddaf yn gwneud datganiad arall ym mis Gorffennaf, byddai hynny hefyd yn wahanol. Rydym, mewn rhai ffyrdd, yn ymateb i gynigion ac, mewn ffyrdd eraill, yn gwneud cynigion. Byddwn yn awgrymu i bob Aelod y dylent ddarllen y papur yr wyf wedi'i gyhoeddi y prynhawn yma yn fanwl, i ystyried sefyllfa Cymru yn ei chrynswth ac i adolygu hynny o ran y sgyrsiau yr ydym yn eu cael gyda phobl ledled Cymru a chyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

The concept paper that was published by the Commission some weeks ago changed the way in which we approach the issue of greening. It placed where we are in Wales at the centre of gravity of the debate across the union on greening and the place of pillar 2 schemes. The Glastir scheme is recognised by the European Commission as a leader in its approach to agri-environment schemes. I have spoken to officials and others in the Commission about Glastir, and I know that it is a scheme and a programme that is held in

Mae'r papur cysyniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn rai wythnosau yn ôl wedi newid y ffordd rydym yn ymdrin â materion gwyrdd. Mae'n gosod ein sefyllfa yng Nghymru wrth wraidd y ddadl ledled yr undeb ar faterion gwyrdd a chynlluniau colofn 2. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod Glastir yn arweinydd o ran y modd y mae'n ymdrin â chynlluniau amaeth-amgylcheddol. Rwyf wedi siarad â swyddogion ac eraill yn y Comisiwn am Glastir, a gwn ei fod yn gynllun ac yn rhaglen sy'n uchel ei barch.

high regard. I believe that the decisions taken by my predecessor and others have placed Wales in a strong position today in approaching the whole issue of greening. I know that there are many in the farming community in other parts of the United Kingdom and elsewhere who wish that their administration had taken similar decisions.

Credaf fod y penderfyniadau a wnaed gan fy rhagflaenydd ac eraill wedi rhoi Cymru mewn sefyllfa gref heddiw o ran ymdrin â materion gwyrdd. Gwn fod llawer yn y gymuned ffermio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill sy'n dymuno bod eu gweinyddiaeth wedi gwneud penderfyniadau tebyg.

In terms of where we are now, I made a statement in March to Members and I will make another statement next month on the place of Glastir. I will not prejudge that decision or that statement today, but I will say that we are committed to ensuring that pillar 2 and the RDP play a fundamental role in the delivery of our overall environmental programme. In Glastir, we have a scheme that delivers the environmental goods that the Commission and others want delivered through the CAP. I am determined that that will continue, but I am also determined that we have the flexibility to look at how the RDP can support the whole of rural Wales and the rural economy. We are looking at that at the moment. I will talk to Members and make further statements on this matter to Members, but a dynamic discussion is taking place and changes will take place. I will report those back to Members, wherever possible. That means that the Welsh Government needs the flexibility to be able to respond to those changes and to change our negotiating position where necessary. We will do so, we will keep Members informed and we will always consult with stakeholders and the community throughout Wales in doing so.

O ran y sefyllfa ar hyn o bryd, rhoddais ddatganiad i Aelodau ym mis Mawrth ar Glastir, a byddaf yn gwneud datganiad arall y mis nesaf. Nid wyf am ragfarnu'r penderfyniad hwnnw neu'r datganiad hwnnw heddiw, ond rwyf am ddweud ein bod yn ymrwymedig i sicrhau bod colofn 2 a'r cynllun datblygu gwledig yn chwarae rôl sylfaenol wrth gyflawni ein rhaglen amgylcheddol yn gyffredinol. Mae Glastir yn gynllun sy'n cyrraedd y nod amgylcheddol y mae'r Comisiwn ac eraill eisiau ei gyrraedd drwy'r PAC. Rwy'n benderfynol y bydd hynny'n parhau, ond rwyf hefyd yn benderfynol bod gennym yr hyblygrwydd i ystyried sut y gall y cynllun datblygu gwledig gefnogi cefn gwlad Cymru a'r economi wledig yn ei gyfanrwydd. Rydym yn ystyried hynny ar hyn o bryd. Byddaf yn siarad ag Aelodau ac yn gwneud rhagor o ddatganiadau ar y mater hwn i'r Aelodau, ond mae trafodaeth ddeinamig yn cael ei chynnal a bydd newidiadau yn digwydd. Byddaf yn adrodd ynghylch y newidiadau hynny i'r Aelodau, lle bo hynny'n bosibl. Mae hynny'n golygu bod ar Lywodraeth Cymru angen yr hyblygrwydd i allu ymateb i'r newidiadau hynny ac i newid ein sefyllfa negodi lle bo angen. Byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a byddwn bob amser yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymuned ledled Cymru wrth wneud hynny.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad. Cytunaf yn llwyr gydag ef—yn arbennig ar y gosodiad a ailadroddodd ar ddiwedd ei ateb i'r cwestiwn blaenorol, ein bod mewn sefyllfa sydd yn newid yn gyson. Diolchaf hefyd i'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am eu presenoldeb ym Mrwsel yn gynharach y mis hwn ac am eu cyfraniad—yn enwedig yn y maes hwn i Vaughan Gething, fel cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen ar newidiadau yn y

**Lord Elis-Thomas:** I thank the Deputy Minister for his statement. I agree entirely with him—particularly on the statement that he repeated at the end of his response to the previous question, that we are in a situation that is constantly changing. I also thank my fellow members of the Environment and Sustainability Committee for their attendance in Brussels earlier this month and for their contribution—particularly in this area to Vaughan Gething, as chair of the task and finish group on changes in the CAP.

polisi amaethyddol cyffredin.

Carwn yn arbennig ddweud wrth y Dirprwy Weinidog gymaint rwy'n edrych ymlaen at ddarllen yn fanwl ei bapur ar yr adolygiad o'r polisi amaethyddol cyffredin ac ar ymateb Llywodraeth Cymru. Carwn ofyn iddo yn benodol ynglŷn â phenderfynu ar y lefel ranbarthol—Cymru fel rhanbarth Ewropeaidd rwy'n ei olygu yn yr achos hwn—o fewn aelod wladwriaethau ynglŷn â holl gwestiynau gwariant ar y polisi amaethyddol. Rwy'n credu bod hwn yn rhoi cyfle o'r newydd inni greu patrwm gwariant cyhoeddus, gyda chymorth yr Undeb Ewropeaidd, ar amaethyddiaeth yng Nghymru a fydd yn fwy defnyddiol nag unrhyw beth sydd wedi bod gennym o'r blaen.

I particularly want to tell the Deputy Minister how much I am looking forward to reading in detail his paper on the review of the CAP and the Welsh Government's response. I want to ask him specifically about making decisions at a regional level—I mean Wales as an European region in this instance—within member states on all questions in relation to CAP expenditure. I believe that this gives us a new opportunity to create a pattern of public expenditure, with the assistance of the European Union, on agriculture in Wales that will be more useful than anything that we have had in the past.

A yw'n credu y bydd modd diwygio'r rheoliadau drafft i sicrhau bod modd i'r gweinyddiaethau datganoledig o fewn aelod wladwriaethau weithredu yn effeithiol yn y maes hwn? Ni fyddai dosraniad syml yn dynodi rhai pethau i'w gwneud ar lefel aelod wladwriaeth a phethau eraill i'w gwneud ar lefel ranbarthol yn gwneud synnwyr yn achos Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr gan fod gennym gyfundrefn amaethyddol sydd wedi cael ei datganoli ymhellach na'r lefel ranbarthol honno a geir mewn rhai aelod-wladwriaethau, megis Ffrainc.

Does he believe that it will be possible to amend the draft regulations to ensure that the devolved administrations within member states are able to operate effectively in this regard? A simple allocation designating that certain things should be done at member-state level and that other things should be done at the regional level would not make sense in the case of Wales, Scotland and Northern Ireland and England as we have an agricultural system that is devolved even lower than the regional level that is to be had in certain member states, such as France.

Wrth sôn am Ffrainc, rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn cael cyfle i gwrdd cyn hir ag aelodau o'r weinyddiaeth newydd yn Ffrainc, oherwydd mae'n amlwg i mi y bydd llawer yn gyffredin rhwng diddordebau amaethyddol a chymdeithasol Llywodraeth newydd Ffrainc a'r diddordeb sydd ganddo yntau, fel ag y mae wedi dangos heddiw.

In mentioning France, I hope that the Deputy Minister will have an opportunity to meet at an early date with the new administration in France, because it is obvious to me that there will be a great deal of common ground in terms of the agricultural and social interests of the new French Government and those of the Deputy Minister, as he has displayed today.

Yn olaf, sut y mae'n meddwl y bydd y cynigion gwyrddu o dan erthyglau 30, 31 a 32, sy'n datgan y bydd gan y Comisiwn yr hawl i ddirprwyo, yn gweithio? Sut y gallwn weinyddu'r erthyglau hyn yng Nghymru? Mae'n bwysig inni ddarganfod ffordd o weithredu'r polisi amaethyddol cyffredin ar lefel Ewropeaidd, yn ogystal ag ar lefel Cymru fel rhanbarth Ewropeaidd, ac mae'r posibilrwydd hwn bellach wedi dod o dan y

Finally, how does he believe that the greening proposals under articles 30, 31 and 32, which state that the Commission will have the right to delegate, will work? How will we be able to administer these articles in Wales? It is important for us to find a means of implementing the common agricultural policy at a European level, as well as at a Wales level as a European region, and that possibility is now available to us under the

rheoliadau newydd ac o dan ei arweiniad ef fel Dirprwy Weinidog.

new regulations and under his leadership as Deputy Minister.

**Alun Davies:** Diolch yn fawr i chi am hynny. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor a chan y grŵp mae'r pwyllgor wedi'i sefydlu i edrych ar y PAC. Mwynheais y cyfle a gefais i sgwrsio amdano, ac rwyf wedi gwerthfawrogi eich cyfraniad. Rhaid dweud hefyd fod eich gwaith wedi dylanwadu ar sut mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i lunio'r polisïau hyn.

**Alun Davies:** Thank you for that. I appreciate the work that was undertaken by the committee and by the group that the committee established to look at CAP. I enjoyed the opportunity that I had to talk about it, and I have appreciated your contribution. I must also say that your work has influenced the way in which the Government has drawn up these policies.

O ran penderfyniadau rhanbarthol, yn amlwg, mae'r Undeb Ewropeaidd yn cydnabod ac yn deall bod gan aelodau-wladwriaethau strwythurau mewnol gwahanol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n gwbl naturiol ar y lefel Ewropeaidd, ac mae'r Comisiwn yn deall, o ran ysgrifennu'r rheoliadau terfynol, y bydd yn rhaid cydnabod strwythur cyfansoddiadol pob aelod o'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod modd i wledydd megis Cymru a'r gwahanol ranbarthau allu rhedeg y PAC. Felly, nid yw hyn yn ddadleuol; mae'n rhywbeth sydd wedi'i gydnabod yn yr holl sgyrsiau a gawsom â'r Comisiwn ac eraill.

On regional decisions, the European Union obviously acknowledges and understands that member states have different internal structures. This is completely natural at the European level and the Commission understands, in terms of drawing up the final regulations, that it will have to acknowledge the constitutional strucuture of every member of the European Union to ensure that there is a way for countries such as Wales and the various regions to be able to implement CAP. Therefore, this is not controversial; it is something that has been acknowledged in all the conversations that we have had with the Commission and others.

O ran trafodaethau ynghylch yr hyn sy'n gyffredin rhyngom—rydych chi, Dafydd, wedi sôn am Lywodraeth newydd Ffrainc—mae gennym lawer yn gyffredin â gwahanol ranbarthau a Llywodraethau. O ran y trafodaethau eu hunain, mae gwledydd yn uno â'i gilydd i drafod y gwahanol bolisïau. Wrth drafod y trefniadau pontio, er enghraifft, cafwyd cefnogaeth gref gan hen Lywodraeth Ffrainc, fel mae'n digwydd, a chan Lywodraethau eraill.

On discussions about what we agree on—you, Dafydd, mentioned France's new Governmment—we have much in common with different regions and Governments. In terms of the discussions themselves, countries come together to discuss the different policies. In discussing the transitional arrangements, for example, there was strong support from the last French Government, as it happens, and from other Governments.

Pan ddown i gytuno'r polisi a'r modd y byddwn yn gweinyddu'r polisi gwyrddu rhanbarthol, rwy'n hyderus y bydd gennym ni yng Nghymru ffordd o'i weinyddu ac o wneud penderfyniadau yn ei gylch. Mae DEFRA yn cydnabod ac yn derbyn hynny'n llwyr. Mae gennym gytundeb â DEFRA ar sut y byddwn yn symud ymlaen yn hyn o beth. Bydd gweithgor anffurfiol yn edrych ar y polisi gwyrddu'r wythnos hon—yfory ym Mrwsel—a bydd aelodau staff Llywodraeth Cymru yn mynychu'r cyfarfod hwnnw fel rhan o dîm Prydain. Felly, rydym yn cydweithio gyda DEFRA a chyda

When we come to agree the policy and how we will administer the regional greening policy, I am confident that we in Wales will be able to administer it and make decisions on it. DEFRA fully accepts and recognises that. We have an agreement with DEFRA on how we proceed in this regard. An informal working group will this week—tomorrow in Brussels—look at the greening policy, and Welsh Government officials will attend as part of the British team. Therefore, we are co-operating with DEFRA and with the UK Government, and we are co-operating with the Commission and European Union

Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac rydym yn cydweithio gyda'r Comisiwn a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd fel bod lle Cymru yn cael ei gydnabod a'i barchu. Rwy'n hyderus y bydd hynny'n llwyddiant.

institutions so that Wales's place is recognised and respected. I am confident that that will succeed.

**William Powell:** Thank you, Deputy Minister, for that statement. Indeed, the Member for Monmouth has already paid tribute to your capacity for the shuttle diplomacy that comes with this area of work. The members of the task and finish group and the wider Environment and Sustainability Committee would also like to acknowledge the fact that it was clear from the stakeholders who we met that that is appreciated in the European institutions, and that should be recognised here today. Obviously, the common agricultural policy continues to play an absolutely vital role in shaping and guaranteeing the future sustainability of life in rural Wales, and it is entirely appropriate that we should be regularly updated, as indeed we are in this Chamber, on the development of what is indeed a dynamic process.

**William Powell:** Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad hwnnw. Yn wir, mae'r Aelod dros Fynwy eisoes wedi talu teyrnged i'ch gallu i wneud y gwaith diplomyddiaeth wib sy'n dod gyda'r maes gwaith hwn. Hoffai aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ehangach gydnabod y ffaith ei bod yn amlwg o sylwadau'r rhanddeiliaid a gyfarfûm fod hynny'n cael ei werthfawrogi yn y sefydliadau Ewropeaidd, a dylid cydnabod hynny yma heddiw. Yn amlwg, mae'r polisi amaethyddol cyffredin yn parhau i chwarae rhan gwbl hanfodol wrth lunio a gwarantu cynaliadwyedd bywyd yng nghefn gwlad Cymru yn y dyfodol, ac mae'n gwbl briodol y dylem fod yn cael gwybodaeth reolaidd, fel, yn wir, yr ydym yn ei chael yn y Siambr hon, ar ddatblygiad yr hyn sy'n wirioneddol yn broses ddeinamig.

3.45 p.m.

On behalf of the Welsh Liberal Democrat group, I strongly welcome the appointment of Peter Davies to chair the task and finish group on the rural development plan. That is an important step forward, and the group is clearly in safe hands. We will be monitoring closely the work of the group, and urging others to contribute to it.

Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwyf yn croesawu penodiad Peter Davies i gadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen ar y cynllun datblygu gwledig. Mae hynny'n gam pwysig ymlaen, ac mae'r grŵp yn amlwg mewn dwylo diogel. Byddwn yn monitro gwaith y grŵp yn ofalus, ac yn annog eraill i gyfrannu ato.

One thing that committee members saw when we visited Brussels was the fact that this is very much a Team Wales—indeed, a Team GB—approach, and is far too important for us to be engaging in unnecessary partisan point-scoring. That is something that needs to be recognised.

Un peth a welodd aelodau'r pwyllgor pan wnaethom ymweld â Brwsel oedd y ffaith bod ymagwedd Tîm Cymru—yn wir, ymagwedd Tîm GB—mewn gwirionedd, ac mae'n llawer rhy bwysig inni fod yn ceisio sgorio pwyntiau pleidiol diangen. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei gydnabod.

However, I have a number of questions that I seek answers for today. A number of issues relate to the level of funding for the future of the RDP. Indeed, as you said on 8 May, the next RDP and agri-environment budget could be reduced to 60%. What specific projections have you and your officials made to measure the impact of reductions on the ability of schemes to deliver against the targeted

Fodd bynnag, mae gennyf nifer o gwestiynau yr wyf am gael atebion iddynt heddiw. Mae nifer o faterion yn ymwneud â lefel y cyllid ar gyfer dyfodol y cynllun datblygu gwledig. Yn wir, fel y dywedasoch ar 8 Mai, gallai'r cynllun nesaf a'r gyllideb amaeth-amgylcheddol gael ei lleihau i 60%. Pa amcangyfrif penodol a wnaethoch chi a'ch swyddogion i fesur effaith y gostyngiadau ar

environmental objectives that have been identified? In what ways will these schemes have to change to reflect the reduction in budget?

allu cynlluniau i gyflawni ar sail yr amcanion amgylcheddol a dargedwyd sydd wedi eu nodi? Ym mha ffyrdd y bydd yn rhaid i'r cynlluniau hyn newid i adlewyrchu'r gostyngiad yn y gyllideb?

It would be helpful if you could update us on any progress with regard to the development of the new entrants scheme, which has the potential to play a significant part in safeguarding the next generation of farmers across Wales. That is something that we must not underestimate. Reference has also been made to the ecological focus areas. One particular issue that has been raised by a number of stakeholders with me is the significance that the ecological focus areas could have in terms of species-rich grassland and hay meadows. Can they be included? There seems to be something of a grey area there, and we encountered that again during our deliberations in Brussels. Finally, given that farmers and the farming unions have so far been dissatisfied with the level of modelling work that they have received from the Welsh Government to assess the impact of the greening proposals, what specific steps have you been taking to review that level of modelling, and what plans exist to expand that in 2012?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw gynnydd o ran datblygu'r cynllun newydd-ddyfodiaid, sydd â'r potensial i chwarae rhan sylweddol o ran diogelu'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth na ddylem ei danbrisio. Cyfeiriwyd hefyd at y meysydd ffocws ecolegol. Un mater penodol y mae nifer o randdeiliaid wedi'i godi â mi yw'r arwyddocâd y gallai'r meysydd ffocws ecolegol ei gael o ran dolydd gwair a glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau. A ellir eu cynnwys? Ymddengys fod hynny'n amwys, a daethom ar draws hynny eto yn ein trafodaethau ym Mrwsel. Yn olaf, o gofio bod ffermwyr a'r undebau ffermio hyd yn hyn yn anfodlon â lefel y gwaith modelu a gawsant gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith y cynigion materion gwyrdd, pa gamau penodol yr ydych chi wedi eu cymryd i adolygu'r lefel honno o gynlluniau modelu, a pha gynlluniau sydd i ehangu hynny yn 2012?

**Alun Davies:** I thank the Liberal Democrats for their kind remarks at the beginning. I agree with the approach taken by the Liberal Democrats to this matter. I have, on a number of occasions, spoken about the team approach that we need to adopt when negotiating as part of the United Kingdom team, of course. In Brussels, and in the institutions of the European Union, it is essential that we speak with a single voice, although with different accents. That UK voice must represent the whole of the United Kingdom, and the interests and needs of the whole of the United Kingdom must be taken into account when agreeing that United Kingdom policy. I have tried to ensure that when the UK Minister—whoever that Minister happens to be—speaks at any meeting, they are representing equally all the constituent parts of the United Kingdom. A team approach is fundamental in these matters.

**Alun Davies:** Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu sylwadau caredig ar y dechrau. Rwyf yn cytuno ag ymagwedd y Democratiaid Rhyddfrydol tuag at y mater hwn. Rwyf wedi sôn ar nifer o achlysuron am y dull o weithio fel tîm sydd angen inni ei fabwysiadu wrth negodi fel rhan o dîm y Deyrnas Unedig, wrth gwrs. Ym Mrwsel, ac yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, mae'n hanfodol ein bod yn siarad gydag un llais, er bod gennym acenion gwahanol. Rhaid i lais y DU gynrychioli'r Deyrnas Unedig gyfan, ac mae'n rhaid ystyried buddiannau ac anghenion y Deyrnas Unedig gyfan wrth gytuno ar y polisi hwnnw gan y Deyrnas Unedig. Rwyf wedi ceisio sicrhau, pan fydd Gweinidog y DU—pwy bynnag fydd—yn siarad mewn unrhyw gyfarfod, ei fod yn cynrychioli holl rannau cyfansoddol y Deyrnas Unedig yn gyfartal. Mae gweithio fel tîm yn hanfodol yn y materion hyn.

Bill Powell attempts to lead me down the path of temptation again and Members will

Mae Bill Powell yn ceisio fy arwain i lawr llwybr temtasiwn unwaith eto a bydd yr

know that I am very bad at resisting such things. However, I will again resist the temptation to give you a foretaste of the statement that I will make next month on Glastir and the future of agri-environment schemes. I made a statement to the Assembly in March, when I stated my intention to review these schemes in terms of how they were delivering and how they were being administered. I have received a number of representations on these matters and it is only fair to all those people who have made those representations that I take some time to review them and to make a statement when I am able to do so. I have given an assurance to the Assembly that I will make a statement before the end of June, and I repeat that assurance today.

Aelodau yn gwybod fy mod yn wael iawn am wrthsefyll pethau o’r fath. Fodd bynnag, byddaf unwaith eto yn gwrthsefyll y demtasiwn i roi rhagflas i chi o’r datganiad y byddaf yn ei wneud y mis nesaf ar Glastir a dyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Gwneuthum ddatganiad i’r Cynulliad ym mis Mawrth, pan nodais fy mwriad i adolygu’r cynlluniau hyn o ran sut roeddynt yn cyflawni a sut roeddynt yn cael eu gweinyddu. Cefais nifer o sylwadau ar y materion hyn, ac nid yw ond yn deg i’r holl bobl hynny a wnaeth y sylwadau hynny fy mod yn cymryd peth amser i’w hadolygu ac yn gwneud datganiad pan fyddaf yn gallu gwneud hynny. Rwyf wedi rhoi sicrwydd i’r Cynulliad y byddaf yn gwneud datganiad cyn diwedd mis Mehefin, ac rwyf yn rhoi’r sicrwydd hwnnw eto heddiw.

On the final point made by the Liberal Democrat spokesperson in relation to modelling, I understand that some unions have taken a view that we do not do sufficient modelling on the impact of different proposals on agriculture in Wales. I have, again, written to the Farmers Union of Wales, the NFU and the Country Land and Business Association with copies of all the modelling that we have done over recent months. I have received a reply from only one of them—the FUW—stating that it is happy with that level of modelling and with that level of work. I presume that the silence from the others means that they are also content, but perhaps I will find that out in a few weeks’ time.

Ar y pwynt olaf a wnaed gan lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am fodelu, rwyf yn deall bod rhai undebau o’r farn nad ydym yn gwneud digon o fodelu ar effaith cynigion gwahanol ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Unwaith eto, rwyf wedi ysgrifennu at Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a’r Gymdeithas Tir Busnes gan gynnwys copïau o’r holl fodelu a wnaethom dros y misoedd diwethaf. Dim ond gan un ohonynt y cefais ateb—Undeb Amaethwyr Cymru—yn dweud ei fod yn fodlon ar y lefel honno o fodelu a chyda’r lefel honno o waith. Tybiaf fod distawrwydd y lleill yn golygu eu bod hefyd yn fodlon, ond efallai y caf wybod am hynny ymhen ychydig wythnosau.

We are anxious to understand what the proposals mean for Wales and to ensure that, in shaping the future of Welsh agriculture, we are able to demonstrate that farming businesses will have clear and predictable income levels and financial support from the public purse over a long period of time. That will enable all businesses, in whatever sector they are active, to plan and change their businesses as necessary, over the period from now to 2020. We are currently undertaking and publishing this work regularly, and we are discussing it with the unions and with others. There is great satisfaction with that work within the high-level groups that we have established.

Rydym yn awyddus i ddeall yr hyn y mae’r cynigion yn ei olygu i Gymru ac i sicrhau, wrth lunio dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru, ein bod yn gallu dangos y bydd busnesau ffermio yn cael lefelau incwm clir a rhagweladwy a chymorth ariannol gan y pwrs cyhoeddus dros gyfnod hir o amser. Bydd hynny’n galluogi pob busnes, ym mha bynnag sector y maent yn gweithredu, i gynllunio a newid eu busnesau yn ôl yr angen, dros y cyfnod o’r presennol tan 2020. Rydym yn cynnal a chyhoeddi’r gwaith hwn yn rheolaidd, ac yn ei drafod gyda’r undebau a chydag eraill. Mae boddhad mawr gyda’r gwaith hwnnw yn y grwpiau lefel uchel yr ydym wedi’u sefydlu.

**Vaughan Gething:** I thank the Deputy Minister for his statement and update today. I welcome the work that he and others have done within the European institutions. When the Environment and Sustainability Committee visited Brussels, it was made clear to us that the view that the Government had taken, together with the work undertaken by Welsh Members of the European Parliament across all parties, was recognised and appeared to be having an impact. However, I am interested in having further detail on a couple of areas.

**Vaughan Gething:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf heddiw. Croesawaf y gwaith a wnaeth ef ac eraill o fewn y sefydliadau Ewropeaidd. Pan ymwelodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd â Brwsel, dywedwyd yn glir wrthym fod barn y Llywodraeth, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan Aelodau Cymru o Senedd Ewrop ar draws bob plaid, yn cael ei gydnabod ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael effaith. Fodd bynnag, mae gennyf ddiddordeb mewn cael rhagor o fanylion ar un neu ddau o feysydd.

The first concerns the point that you made about the move to area-based payments—not just in relation to the period of time, but the depth of change that is being proposed for the first year. If you wanted to be mischievous, you could say that we think that the proposals are too far, too fast and too deep in that first year. However, there is a serious point about whether you think that the Commission is moving towards having a longer period of time and a slower pace for change.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r pwynt a wnaethoch am y newid i daliadau yn seiliedig ar ardal—nid yn unig mewn perthynas â'r cyfnod o amser, ond hefyd dyfnder y newid sy'n cael ei gynnig am y flwyddyn gyntaf. Pe baech am fod yn ddireidus, gallech ddweud ein bod yn credu bod y cynigion yn symud yn rhy bell, yn rhy gyflym ac yn rhy ddwfn yn y flwyddyn gyntaf honno. Fodd bynnag, mae pwynt difrifol ynghylch a ydych o'r farn bod y Comisiwn yn symud tuag at gael cyfnod hwy o amser a newid ar gyflymder arafach.

The second area is the aspect of greening, which is significantly controversial. While I am sure that every one of us will welcome the Commission movement that has been indicated, I am especially interested in the issue of equivalence. Could you explain whether the Commission has given more detail on the equivalent nature of the environmental benefit that it expects to see from agri-environment schemes across the European Union before that 30% greening payment is payable under pillar 1? We were concerned that some schemes in other parts of the European Union may not require the same level of environmental benefit.

Yr ail faes yw'r agwedd ar faterion gwyrdd, sy'n peri cryn ddadlau. Er fy mod yn siŵr y bydd pob un ohonom yn croesawu symudiad y Comisiwn y soniwyd amdano, mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn cyfatebolrwydd. A allwch esbonio a yw'r Comisiwn wedi rhoi mwy o fanylion ar natur gyfatebol y budd amgylcheddol y mae'n disgwyl ei weld o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ledled yr Undeb Ewropeaidd cyn bod y taliad gwyrdd hwnnw o 30% yn daladwy o dan golofn 1? Roeddem yn pryderu nad yw rhai cynlluniau mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd angen yr un lefel o fudd amgylcheddol.

The final area concerns new entrants and entitlements. William Powell mentioned the point about new entrants, and part of our concern on the task and finish group was that new entrants could be prevented from going into farming, because of the age restriction, which is set at 40. We were also concerned about the historic entitlement issue. If you did not have an entitlement in 2011 then, at present, you may not be able to get an entitlement in the future, and that appears to be a transparent bar to new entrants into

Mae'r maes olaf yn ymwneud â newydd-ddyfodiaid a hawliau. Soniodd William Powell am newydd-ddyfodiaid, ac un o bryderon y grŵp gorchwyl a gorffen oedd y gellid rhwystro newydd-ddyfodiaid rhag dechrau ffermio, oherwydd y cyfyngiad oedran o 40 a osodwyd. Roeddem hefyd yn pryderu am yr hawl hanesyddol. Os nad oedd gennych hawl yn 2011 felly, ar hyn o bryd, efallai na fyddwch yn gallu cael hawl yn y dyfodol, ac ymddengys bod hynny'n rhwystr clir i newydd-ddyfodiaid allu ffermio. Rydym

farming. We are all concerned about the age profile of people within the farming industry. So, I would be interested to hear whether you are detecting any further progress and movement from the European Commission on those particular issues.

i gyd yn poeni am broffil oedran pobl o fewn y diwydiant ffermio. Felly, byddai gennyf ddiddordeb clywed a ydych yn canfod bod unrhyw gynnydd a symud pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y materion penodol hynny.

**Alun Davies:** Thank you for those questions. In terms of area-based payments and the move from historic to area-based payments, we recognise that it is no longer possible to make future payments on past years. We have no disagreement about the destination towards which we are travelling. However, we have concerns about the speed of implementation of the proposals. Indeed, my friend made the point that they are too far, too fast and too deep, and I would accept that description. We have concerns about the speed of travel and about the impact that that would have on particular sectors. We are particularly concerned that the current proposals might have the perverse impact of penalising the most productive parts of Welsh agriculture, while at the same time rewarding the least productive parts. Clearly, that is not the intention of the Commission and it is not something that any of us would wish to see. We are looking at different options to manage the transition period. We have said that we want to have a far greater length of time for the transition—possibly seven, eight or 10 years—and that we would like to manage it in such a way that there is minimum disruption to individual businesses and maximum predictability in terms of their financial planning. We are looking at the different options at the moment. In the conversations that I have had with Commission officials, they have been receptive to these arguments. We agree on the destination; it is how we reach that destination that is the matter of some debate and discussion at the moment. The Commission officials that we have had discussions with have been receptive to the proposals that we are putting to them, and I hope that those proposals will find their way into some of the final regulations.

**Alun Davies:** Diolch am y cwestiynau hynny. O ran taliadau yn seiliedig ar ardal a’r newid o daliadau hanesyddol i daliadau yn seiliedig ar ardal, rydym yn cydnabod nad yw’n bosibl bellach gwneud taliadau yn y dyfodol ar flynyddoedd blaenorol. Nid ydym yn anghytuno ynghylch y cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch cyflymder gweithredu’r cynigion. Yn wir, gwnaeth fy nghyfaill y pwynt eu bod yn mynd yn rhy bell a’u bod yn rhy gyflym ac yn rhy ddwfn, a byddwn yn derbyn y disgrifiad hwnnw. Mae gennym bryderon am gyflymder y newidiadau ac am yr effaith y byddai hynny’n ei gael ar sectorau penodol. Rydym yn arbennig o bryderus y gallai’r cynigion presennol gael yr effaith gwyrdroëdig o gosbi’r rhannau mwyaf cynhyrchiol o amaethyddiaeth yng Nghymru, tra eu bod yn gwobrwyo’r rhannau lleiaf cynhyrchiol ar yr un pryd. Yn amlwg, nid dyna yw bwriad y Comisiwn ac nid yw’n rhywbeth y byddai unrhyw un ohonom yn dymuno ei weld. Rydym yn edrych ar wahanol opsiynau i reoli’r cyfnod pontio. Rydym wedi dweud ein bod am gael llawer mwy o amser ar gyfer y pontio—saith, wyth neu 10 mlynedd o bosibl—ac y byddem yn hoffi ei reoli mewn ffordd lle nad amherir fawr ar fusnesau unigol ac ar eu gallu gorau i ragweld o ran eu cynllunio ariannol. Rydym yn edrych ar yr opsiynau gwahanol ar hyn o bryd. Yn y sgyrsiau a gefais gyda swyddogion y Comisiwn, buont yn barod i dderbyn y dadleuon hyn. Rydym yn cytuno ar y gyrchfan; y ffordd rydym yn cyrraedd y gyrchfan sy’n destun trafod ar y funud. Bu swyddogion y Comisiwn y buom yn trafod â hwy yn barod i dderbyn y cynigion yr ydym yn eu rhoi iddynt, a gobeithiaf y bydd y cynigion hynny yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau terfynol.

The question on equivalents in greening is a good one. Earlier, we heard the Conservative spokesperson talking about Tir Mynydd. If Tir Mynydd were the only scheme available to us, it would not be an equivalent, and

Mae’r cwestiwn ar elfennau cyfatebol mewn materion gwyrdd yn un da. Yn gynharach, clywsom lefarydd y Ceidwadwyr yn sôn am Tir Mynydd. Os mai Tir Mynydd fyddai’r unig gynllun sydd ar gael inni, ni fyddai'n

Welsh farmers would not qualify for the 30% greening in pillar 1 through membership of Tir Mynydd. I believe that it is fair to say that that is one reason why my predecessor—who is here today and she may nod her agreement—decided to remove Tir Mynydd and replace it with Glastir, which has the benefit of providing Welsh agriculture with the means of potentially qualifying for pillar 1 payments through a pillar 2 scheme. I see some Members shaking their heads; I was in the meetings and they were not. They have misunderstood these matters for a year now, which is quite an achievement.

gyfwerth, ac ni fyddai ffermwyr Cymru yn gymwys i gael y 30% ar faterion gwyrdd yng ngholofn 1 drwy fod yn aelod o Tir Mynydd. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud mai dyna un rheswm pam y penderfynodd fy rhagflaenydd—sydd yma heddiw, ac efallai y bydd yn nodio i ddangos ei chytundeb—ddisodli Tir Mynydd gyda Glastir, sydd â'r fantais o ddarparu ffordd bosibl i amaethyddiaeth yng Nghymru fod yn gymwys ar gyfer taliadau colofn 1 drwy gynllun colofn 2. Rwy'n gweld rhai Aelodau yn ysgwyd eu pennau; roeddwn i yn y cyfarfodydd ond nid oeddent hwy. Maent wedi camddeall y materion hyn ers dros flwyddyn bellach, sy'n dipyn o gamp.

On accreditation, this is something on which we are open to discussions with the Commission. The Commission has said that it would expect any agri-environment scheme to provide a qualification under pillar 1 for it to be an accredited scheme. We do not yet fully understand what is meant by that term. We are in discussions with the Commission on that. I mentioned a meeting of the working group in Brussels tomorrow; these are the sorts of matters that we will be discussing, and the Welsh Government will be represented in those discussions.

Ar achrediad, dyma rywbeth yr ydym yn agored i'w drafod gyda'r Comisiwn. Dywedodd y Comisiwn y byddai'n disgwyl i unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol ddarparu cymhwyster o dan golofn 1 iddo fod yn gynllun wedi'i achredu. Nid ydym yn deall yn iawn eto beth a olygir gan y term hwnnw. Rydym mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn ar hynny. Soniais am gyfarfod o'r gweithgor ym Mrwsel yfory; rhain yw'r mathau o faterion y byddwn yn eu trafod, a bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y trafodaethau hynny.

With regard to new entrants, young farmers and entitlements, I agree with the points made by Vaughan Gething, Bill Powell and others—some progress has been made and further discussion of these matters with the Commission is required. At the moment, we are not in a position to say that there has been progress in the same way as there has been on greening. However, I am confident that these are matters where there is great recognition—not only by the Commission and other institutions of the European Union, but among other governments as well—that we might need an overall CAP framework that recognises the differences in individual territories across the whole of the union. If we are able to achieve that, I hope that we will be able to build a scheme in Wales that is able to encourage people into agriculture—not only young farmers and new entrants, but those who do not come from an agricultural background.

O ran newydd-ddyfodiaid, ffermwyr ifanc a hawliau, cytunaf â'r pwyntiau a wnaed gan Vaughan Gething, Bill Powell ac eraill—gwnaed rhywfaint o gynnydd ac mae angen trafodaeth bellach ar y materion hyn gyda'r Comisiwn. Ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i ddweud y bu cynnydd yn yr un ffordd ag y bu ar faterion gwyrdd. Fodd bynnag, rwyf yn ffyddiog bod y rhain yn faterion lle mae cryn gydnabyddiaeth—nid yn unig gan y Comisiwn a sefydliadau eraill yr Undeb Ewropeaidd, ond ymhlith llywodraethau eraill hefyd—y gallai fod angen fframwaith polisi amaethyddol cyffredinol sy'n cydnabod y gwahaniaethau mewn tiriogaethau unigol ar draws yr undeb gyfan. Os gallwn gyflawni hynny, rwyf yn gobeithio y gallwn lunio cynllun yng Nghymru sy'n gallu annog pobl i weithio ym myd amaeth—nid yn unig ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid, ond hefyd y rhai nad ydynt yn dod o gefndir amaethyddol.

**The Presiding Officer:** We have had a

**Y Llywydd:** Rydym wedi cael siaradwr o

speaker from each of the parties, so I ask the remaining speakers to be concise and ask questions only.

bob plaid, felly gofynnaf i'r siaradwyr sy'n weddill fod yn gryno a gofyn cwestiynau yn unig.

**Russell George:** On greening, is the Welsh Government considering commissioning its own work to fully assess the impact that greening could have on production and farm income?

**Russell George:** Ar faterion gwyrdd, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried comisiynu ei gwaith ei hun i asesu'r effaith y gallai materion gwyrdd ei gael ar gynhyrchiant ac incwm ffermydd?

**Alun Davies:** Yes, it is.

**Alun Davies:** Ydy.

**Andrew R.T. Davies:** Deputy Minister, periodically in the farming press, there are rumours that there could be slippage in the start date of the scheme and that we could go beyond 2014; January 2015 is often mooted as the true starting date. From your discussions, do you believe that there is any slippage and might we be moving to a start date of 2015 rather than 2014 for these schemes?

**Andrew R.T. Davies:** Ddirprwy Weinidog, o dro i dro yn y wasg ffermio, mae sibrydion y gallai fod llithriad yn nyddiad cychwyn y cynllun ac y gallem fynd y tu hwnt i 2014; sonnir am fis Ionawr 2015 yn aml fel y gwir ddyddiad dechrau. O'ch trafodaethau, a ydych yn credu bod unrhyw lithriant ac y byddwn efallai yn symud i ddyddiad cychwyn o 2015 yn hytrach na 2014 ar gyfer y cynlluniau hyn?

**Alun Davies:** That is certainly possible. With regard to where we are at the moment, the Danes, who currently hold the presidency of the European Union, and the Commission are pushing hard for agreement on a wide range of issues. The commissioner spoke last week about reaching agreement on greening next month. That is optimistic; I do not think that we will be able to do that, either next month or over the summer. We expect the implementing regulations that will provide us with the detail of CAP to be published during the next few months, and we expect some further policy announcements from the European Commission on areas such as entitlements and young entrants, as we have discussed earlier this afternoon. It is certainly possible that the new CAP will slip, and that the new RDP will slip. We have had very preliminary discussions on how we would continue existing programmes were that to happen. There is recognition that we would prefer agreement to be reached sooner rather than later.

**Alun Davies:** Mae hynny'n sicr yn bosibl. O ran lle rydym ar y funud, mae'r Daniaid, sydd ar hyn o bryd â llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd, a'r Comisiwn yn gwthio'n galed am gytundeb ar ystod eang o faterion. Soniodd y comisiynydd yr wythnos diwethaf am ddod i gytundeb ynghylch materion gwyrdd y mis nesaf. Mae hynny'n optimistaidd; nid wyf yn meddwl y byddwn yn gallu gwneud hynny, naill ai mis nesaf neu dros yr haf. Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau gweithredu a fydd yn rhoi manylion y PAC inni gael eu cyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf, ac rydym yn disgwyl rhai cyhoeddiadau polisi pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd ar feysydd megis hawliau a newydd-ddyfodiaid ifanc, fel yr ydym wedi trafod yn gynharach y prynhawn yma. Mae'n sicr yn bosibl y bydd y polisi amaethyddol cyffredin newydd yn llithro, ac y bydd y cynllun datblygu gwledig newydd yn llithro. Rydym wedi cael trafodaethau rhagarweiniol iawn ar sut y byddem yn parhau â'r rhaglenni presennol pe byddai hynny'n digwydd. Cydnabyddir y byddai'n well gennym ddod i gytundeb cyn gynted â phosibl.

4.00 p.m.

The leader of the opposition is absolutely right in his view that it is a very different

Mae arweinydd yr wrthblaid yn llygad ei le ei bod yn drafodaeth wahanol iawn i'r un a

negotiation to the one that was last conducted. We now have co-decision with the European Parliament. A number of reports from different rapporteurs will be published over the coming months. I will be speaking to those rapporteurs before the summer recess in order to discuss the Welsh position with them. That introduces a different dynamic into the process of reaching an agreement.

gynhaliwyd ddiwethaf. Erbyn hyn, mae gennym benderfyniad ar y cyd â Senedd Ewrop. Bydd nifer o adroddiadau gan rapporteurs gwahanol yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf. Byddaf yn siarad â'r rapporteurs hynny cyn toriad yr haf er mwyn trafod sefyllfa Cymru gyda nhw. Bydd hynny'n cyflwyno dynameg wahanol i'r broses o ddod i gytundeb.

Also, there are now 27 members of the European Union, which is far more than we had seven years ago. Therefore, it is a different dynamic and a different environment in which these negotiations are being conducted today. Slippage is possible. A lot will depend upon agreement at the European Council in December on the overall budget available to the Commission. If there is agreement on the budget in December, I am relatively confident that we will be able to move forward to political agreement and to legislation within the next 18 months, and reach an agreement possibly this time next year. If the budget slips in December, clearly the whole timetable could slip with it.

Erbyn hyn, hefyd, mae 27 aelod gan yr Undeb Ewropeaidd, sy'n llawer mwy nag a oedd gennym saith mlynedd yn ôl. Felly, mae'r ddynameg a'r amgylchedd lle y mae'r trafodaethau hyn yn cael eu cynnal heddiw yn wahanol iawn. Mae'n bosibl llithro. Bydd llawer yn dibynnu ar gytundeb yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr ar y gyllideb gyffredinol sydd ar gael i'r Comisiwn. Os bydd cytundeb ar y gyllideb ym mis Rhagfyr, yr wyf yn gymharol hyderus y byddwn yn gallu symud ymlaen at gytundeb gwleidyddol ac at ddeddfwriaeth o fewn y 18 mis nesaf, a dod i gytundeb, o bosibl, yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Os bydd y gyllideb yn llithro ym mis Rhagfyr, mae'n amlwg y gallai'r amserlen gyfan lithro gyda hi.

Therefore, at the moment, we are potentially on target, but there is significant cause to believe that slippage is possible. We have had discussions about how we would handle such slippage were it to happen. If it does, I will come back here with a further statement for Members.

Felly, ar hyn o bryd, mae'n eithaf posibl y byddwn yn cyrraedd y targed, ond mae achos sylweddol i gredu bod llithriant yn bosibl. Rydym wedi cael trafodaethau am sut y byddem yn ymdrin â llithriad o'r fath pe bai'n digwydd. Os bydd yn digwydd, dof yn ôl yma gyda datganiad pellach i'r Aelodau.

**Darren Millar:** Deputy Minister, could you update us on the ongoing discussions regarding the proposed definition of an active farmer? You will be aware that concerns have been expressed by FE colleges providing agricultural courses on site, such as Coleg Llysfasi in my constituency. Clearly, farming is not the bread and butter of that particular organisation; education is. To what extent have you been able to safeguard the future of the payments that it receives under the current arrangements to ensure that it can have continuity in terms of its ability to provide courses as an FE institution?

**Darren Millar:** Ddirprwy Weinidog, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau sy'n parhau ynghylch y diffiniad arfaethedig o ffermwr gweithredol? Byddwch yn ymwybodol bod pryderon wedi'u mynegi gan golegau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau amaethyddol ar y safle, megis Coleg Llysfasi yn fy etholaeth. Yn amlwg, nid ffermio yw bara menyn y sefydliad penodol hwnnw, ond addysg. I ba raddau yr ydych wedi gallu diogelu dyfodol y taliadau y mae'n eu cael o dan y trefniadau presennol i sicrhau y gall gael parhad o ran ei allu i ddarparu cyrsiau fel sefydliad addysg bellach?

**Alun Davies:** I would hope that colleges and institutions such as Coleg Llysfasi would not

**Alun Davies:** Byddwn yn gobeithio na fyddai cynigion o'r fath yn effeithio ar

be affected by any such proposals. That is certainly not the intention of the proposals. It is not the intention of either our response here or the proposals made by the Commission itself. The Commission, as you will be aware, published a negative list some time ago, which included all sorts of things, from golf courses to airports. I think that many of us would agree with that, and there is a role for a negative list. We have said to the Commission, in terms of some of our discussions with it, that we are less happy about a discussion about a percentage and a proportion of a business's income coming from agriculture, because that does potentially impact a family farm, for argument's sake, where one partner would go out to work elsewhere and the other would manage the farm. That could have a significant impact on their ability to claim single-farm payments.

golegau a sefydliadau fel Coleg Llysfasi. Yn sicr, nid dyna yw bwriad y cynigion. Nid dyna yw bwriad ein hymateb yma na'r cynigion a wnaed gan y Comisiwn ei hun. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Comisiwn restr negyddol beth amser yn ôl, a oedd yn cynnwys pob math o bethau, o gyrsiau golff i feysydd awyr. Rwy'n meddwl y byddai llawer ohonom yn cytuno â hynny, ac mae rôl i restr negyddol. Rydym wedi dweud wrth y Comisiwn, o ran rhai o'n trafodaethau ag ef, ein bod yn llai hapus am drafodaeth ynghylch canran a chyfran o incwm busnes yn dod oddi wrth amaethyddiaeth, gan nad yw hynny'n cael effaith, o bosibl, ar fferm deuluol, dyweder, lle y byddai un partner yn mynd allan i weithio yn rhywle arall a byddai'r llall yn rheoli'r fferm. Gallai hynny gael effaith sylweddol ar eu gallu i wneud cais am y taliad sengl.

We are looking for something that is fair, and for something that recognises the different models of our culture in different parts of the European Union. However, we are also anxious that those who farm receive the payments and that this is a payment to support farm businesses, not simply a subsidy for people who happen to own land. That is the important issue. As a consequence, we are looking at different options. You will see the proposals that we are making in the paper when you have the opportunity to read it. This is one of those areas, as I indicated to my friend Vaughan Gething earlier, where discussion is continuing. It is fair to say that member states, the Commission and the Parliament are all looking at different options at the moment, and I hope that a consensus will emerge during the coming months.

Rydym yn chwilio am rywbeth sy'n deg, ac am rywbeth sy'n cydnabod y modelau gwahanol yn ein diwylliant mewn rhannau gwahanol o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu bod y rhai sy'n ffermio yn cael taliadau ac mae taliad i gefnogi busnesau fferm yw hwn, nid cymhorthdal ar gyfer pobl sy'n digwydd bod yn berchen ar dir. Dyna'r mater pwysig. O ganlyniad, rydym yn edrych ar wahanol opsiynau. Byddwch yn gweld y cynigion yr ydym yn eu gwneud yn y papur pan gewch gyfle i'w ddarllen. Mae hwn yn un o'r meysydd hynny, fel yr awgrymais wrth fy nghyfaill Vaughan Gething yn gynharach, lle y mae trafodaethau'n parhau. Mae'n deg dweud bod aelod-wladwriaethau, y Comisiwn a'r Senedd i gyd yn edrych ar opsiynau gwahanol ar hyn o bryd, ac rwy'n gobeithio y daw consensws i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.04 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.04 p.m.*

## Datganiad: Trefniadau Newydd ar gyfer Darparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru
## Statement: New Arrangements to Provide Support for Council Tax in Wales

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am making a statement today to update Members on the

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy'n gwneud datganiad heddiw i roi'r wybodaeth

current position regarding the abolition of council tax benefit and the progress that we are making in developing a new scheme to provide support for council tax in Wales.

ddiweddaraf i Aelodau am y sefyllfa bresennol ynghylch diddymu budd-dal y dreth gyngor a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud wrth ddatblygu cynllun newydd i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru.

The Welsh Government is profoundly concerned by the UK Government's plans to abolish council tax benefit on 31 March 2013 and to localise support for council tax as part of its wider reforms of the benefits system. This is a huge challenge, requiring us to develop and implement a new scheme that provides crucial support for some of the most vulnerable members of our society. The timescales within which it is to be forced through present significant challenges for the Welsh Government and our partners in local government.

Mae Llywodraeth Cymru yn hynod bryderus ynghylch cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu budd-dal y dreth gyngor ar 31 Mawrth 2013 ac i leoleiddio cefnogaeth ar gyfer y dreth gyngor fel rhan o'i chynlluniau ehangach i ddiwygio'r system fudd-daliadau. Mae hon yn her enfawr, sy'n gofyn i ni ddatblygu a gweithredu cynllun newydd sy'n darparu cymorth hanfodol ar gyfer rhai o'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno hyn yn creu heriau sylweddol i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid mewn llywodraeth leol.

These changes are taking place against the backdrop of an extremely challenging economic climate that, since January 2009, has seen a 12% increase in the number of people in Wales requiring help to pay their council tax bills. They are also coupled with the implications of the UK Government's wider welfare reform agenda, the impact of which will not be fully understood until universal credit is implemented in October 2013.

Mae'r newidiadau hyn yn digwydd mewn cyfnod sydd â hinsawdd economaidd heriol iawn sydd, ers mis Ionawr 2009, wedi gweld cynnydd o 12% yn nifer y bobl yng Nghymru y mae arnynt angen cymorth i dalu eu biliau treth gyngor. Maent hefyd yn cael eu cyplysu â goblygiadau agenda diwygio lles ehangach Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac ni fydd yr effaith yn cael ei deall yn llawn hyd nes i'r credyd cyffredinol gael ei weithredu ym mis Hydref 2013.

It would have been difficult enough to develop a new scheme faced with these challenges, but the UK Government has also decided to cut the funding that will be provided to Wales to pay recipients of council tax support by at least 10%. This means a reduction of around £20 million in 2013-14. This will clearly place significant pressure on local authorities' already stretched resources and could see some claimants being severely disadvantaged.

Byddai wedi bod yn ddigon anodd datblygu cynllun newydd o wynebu'r heriau hyn yn unig, ond mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi penderfynu cwtogi o leiaf 10% ar y cyllid a fydd yn cael ei ddarparu i Gymru i dalu i'r rhai sy'n cael cymorth y dreth gyngor. Mae hyn yn golygu gostyngiad o tua £20 miliwn yn 2013-14. Yn amlwg, bydd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau awdurdodau lleol sydd eisoes o dan bwysau, a gallai olygu y bydd rhai pobl sy'n hawlio cymorth o dan anfantais fawr.

I am aware that the Scottish Government and local authorities in Scotland have agreed to jointly make up the funding shortfall there. The challenging budget from the UK Government means that we are not in a position to make a similar arrangement in Wales. Doing so would equate to funding almost 650 fewer primary school teachers or

Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol yn yr Alban wedi cytuno ar y cyd i wneud iawn am y diffyg cyllid sydd yno. Mae'r gyllideb heriol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn golygu nad ydym mewn sefyllfa i wneud trefniant tebyg yng Nghymru. Byddai gwneud hynny'n cyfateb i ariannu bron 650 yn llai o athrawon

more than 600 fewer nurses. However my Cabinet colleagues and I are completely committed to ensuring that Wales receives a fair funding transfer from the UK Government. As well as funding the cost of the support itself, this means receiving fair and accurate administrative funding and adequate cover for the new burdens that introducing this scheme will place on the Welsh Government and local authorities in Wales. To this end, I will shortly be meeting Iain Duncan Smith and Lord Freud.

ysgolion cynradd neu bron 600 yn llai o nyrsys. Fodd bynnag, rwyf fi a fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod y cyllid sy'n cael ei drosglwyddo i Gymru gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn deg. Yn ogystal ag ariannu cost y cymorth ei hun, mae hyn yn golygu cael cyllid gweinyddol teg a chywir ac arian digonol i dalu am y beichiau newydd y bydd cyflwyno'r cynllun hwn yn eu rhoi ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru. I'r perwyl hwn, byddaf yn cwrdd ag Iain Duncan Smith a'r Arglwydd Freud cyn hir.

Almost 328,000 households in Wales—roughly 1 in 4—currently receive some form of support with their council tax bills. While I have deep reservations about the UK Government's decisions and their resulting impact, we have a moral obligation to develop and implement a replacement scheme. If we fail to do so, some of the most vulnerable people in our society will experience severe financial hardship. This is a responsibility that I am taking very seriously.

Mae bron 328,000 o gartrefi yng Nghymru—tua 1 o bob 4—yn cael rhyw fath o gymorth gyda'u biliau treth gyngor ar hyn o bryd. Er bod gen i amheuon mawr am benderfyniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'u heffaith o ganlyniad, mae gennym ddyletswydd foesol i ddatblygu a gweithredu cynllun yn ei le. Os byddwn yn methu â gwneud hynny, bydd rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn wynebu caledi ariannol difrifol. Mae hwn yn gyfrifoldeb yr wyf yn ei gymryd o ddifrif.

We have been working alongside key service delivery partners in local government for many months now to make the best use of the knowledge and expertise that exists in Wales to develop a viable and affordable scheme. Through this work, we are seeking to simplify the existing complex arrangements and to promote collaboration in the design and delivery of the new scheme wherever possible. This will help to maximise the limited funding available to provide support.

Rydym wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid darparu gwasanaethau allweddol mewn llywodraeth leol ers misoedd lawer bellach, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth a'r arbenigedd sy'n bodoli yng Nghymru i ddatblygu cynllun ymarferol a fforddiadwy. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn ceisio symleiddio'r trefniadau cymhleth presennol a hyrwyddo cydweithio wrth gynllunio a chyflwyno'r cynllun newydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn helpu i wneud y gorau o'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael i ddarparu cymorth.

I have also issued a public consultation on the policy and delivery issues around the development of a new scheme. I was particularly pleased to note the number of responses received from advisory groups and other third sector bodies. These organisations will have a vital role in helping to advise vulnerable people about the new scheme and in supporting those who experience financial hardship as a result of the changes. I have also sought provisions in the UK Government's Local Government Finance Bill and will, therefore, shortly be laying a

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus am y materion yn ymwneud â pholisi a chyflawni sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun newydd. Roeddwn yn arbennig o falch o nodi nifer yr ymatebion a gafwyd gan grwpiau cynghori a chyrff eraill yn y trydydd sector. Bydd y sefydliadau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i gynghori pobl sy'n agored i niwed am y cynllun newydd ac wrth gefnogi rhai sy'n wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r newidiadau. Rwyf hefyd wedi ceisio darpariaethau ym Mil Llywodraeth y Deyrnas

legislative consent motion. This will provide Welsh Ministers with the necessary legal framework to establish a council tax support scheme that best meets the needs of people in Wales.

Unedig ynghylch Cyllid Llywodraeth Leol a byddaf, felly, cyn hir yn gosod cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Bydd hyn yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol i Weinidogion Cymru i sefydlu cynllun cymorth treth gyngor sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn y ffordd orau.

In England, local authorities have been left to develop their own schemes, meaning that there could be hundreds of different approaches. This could see claimants in England with similar circumstances receiving very different levels of council tax support depending on where they live. I have been clear that this will not be the case in Wales. Here, we will have a nationally defined scheme that avoids a postcode lottery and provides a consistent level of support across Wales. We aim to ensure equality and fairness for all claimants.

Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol wedi cael rhwydd hynt i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, sy'n golygu y gallai fod cannoedd o ddulliau gwahanol. Gallai hyn olygu bod hawlwyr yn Lloegr sydd ag amgylchiadau tebyg yn cael lefelau gwahanol iawn o gymorth y dreth gyngor yn dibynnu ar ble y maent yn byw. Rwyf wedi bod yn glir na fydd hyn yn digwydd yng Nghymru. Yma, bydd gennym gynllun a ddiffinnir yn genedlaethol sy'n osgoi loteri cod post ac yn darparu lefel gyson o gymorth ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau cydraddoldeb a thegwch i bob hawliwr.

While my priority is to ensure that the replacement to council tax benefit is operational before April 2013, I am also determined to ensure that the future scheme supports our commitment to tackling poverty. Therefore, I have commissioned research to identify who will be the hardest hit by reductions in council tax support and this will inform subsequent decisions on whether any groups should be protected from the changes. I will also review the new scheme and the impact that it has had once it comes into operation.

Er mai fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod yr olynydd i fudd-dal y dreth gyngor yn weithredol cyn mis Ebrill 2013, rwy'n benderfynol hefyd o sicrhau bod y cynllun newydd yn cefnogi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi. Felly, rwyf wedi comisiynu ymchwil i weld ar bwy y bydd gostwng cymorth y dreth gyngor yn effeithio fwyaf a bydd hyn yn llywio penderfyniadau dilynol ynghylch a ddylai unrhyw grwpiau gael eu diogelu rhag y newidiadau. Byddaf hefyd yn adolygu'r cynllun newydd a'r effaith y mae wedi'i chael wedi iddo ddod i rym.

Our work in this area will also be supported by the review of advisory services and the development of successor arrangements for the social fund. It is timely to review the advice services we currently fund to align them with the Welsh Government's priorities and to consider how they can best support the tackling poverty agenda. A priority for the review is to determine how best to mitigate the impact of the cuts in advice service budgets just when demand for these services is increasing because of the economic climate and the UK Government's reforms of the benefits system.

Bydd ein gwaith yn y maes hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan yr adolygiad o wasanaethau cynghori a datblygu trefniadau olynol ar gyfer y gronfa gymdeithasol. Mae'n amserol adolygu'r gwasanaethau cynghori yr ydym yn eu hariannu ar hyn o bryd er mwyn iddynt gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac er mwyn ystyried beth yw'r ffordd orau iddynt gefnogi'r agenda o fynd i'r afael â thlodi. Un flaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad yw penderfynu beth yw'r ffordd orau i liniaru effaith y toriadau yng nghyllidebau gwasanaethau cynghori ar yr union adeg y mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn cynyddu oherwydd yr hinsawdd economaidd a diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system fudd-daliadau.

We have also consulted widely with key stakeholders to examine the options for a Welsh successor to the discretionary social fund, due to be devolved in April 2013. Following our consultation, we are developing a delivery option that will take into account the views of stakeholders and provide a solution fit for Wales. Our aim is to ensure that any future arrangements have strong links with financial capability, money advice, income maximisation and affordable credit. This will ensure that the underlying problems faced by those on low incomes are addressed at the point of application, with relevant signposting to support and to maximise income and organise finances better to help avoid repeat claims.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid allweddol i edrych ar yr opsiynau ar gyfer olynydd yng Nghymru i'r gronfa gymdeithasol ddewisol, sydd i fod i gael ei datganoli ym mis Ebrill 2013. Yn dilyn ein hymgynghoriad, rydym yn datblygu opsiwn cyflawni a fydd yn ystyried barn rhanddeiliaid ac yn darparu ateb sy'n addas i Gymru. Ein nod yw sicrhau bod gan unrhyw drefniadau yn y dyfodol gysylltiadau cryf â gallu ariannol, cyngor ariannol, sicrhau'r incwm mwyaf posibl a chredyd fforddiadwy. Bydd hyn yn sicrhau bod y problemau sylfaenol a wynebir gan y rhai sydd ar incwm isel yn cael sylw wrth iddynt wneud cais, gyda chyfeirio perthnasol at gymorth a chynyddu'r incwm hyd yr eithaf a threfnu arian yn well er mwyn helpu i osgoi hawliadau a gaiff eu gwneud dro ar ôl tro.

Our programme for government makes it clear that we will take every opportunity to mitigate the negative implications of the UK Government's welfare reforms as well as seek to tackle the longer term causes of poverty in Wales. To that end, we intend to publish a tackling poverty action plan before the summer, which will draw together the policy actions we are taking and set out our key objectives. We are clear that it is essential that we consider the impact of the welfare reform changes holistically, and we are fortunate that, in Wales, unlike in England, we can come together across different portfolios to achieve this.

Mae ein rhaglen lywodraethu yn ei gwneud yn glir y byddwn yn manteisio ar bob cyfle i liniaru goblygiadau negyddol diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ogystal â cheisio mynd i'r afael ag achosion tymor hwy tlodi yng Nghymru. I'r perwyl hwnnw, rydym yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu cyn yr haf i fynd i'r afael â thlodi, a fydd yn tynnu ynghyd y camau gweithredu polisi yr ydym yn eu cymryd ac yn pennu ein hamcanion allweddol. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol ein bod yn ystyried effaith y newidiadau diwygio lles mewn modd cyfannol, ac rydym yn ffodus yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, y gallwn ddod at ein gilydd ar draws gwahanol bortffolios i gyflawni hyn.

**Janet Finch-Saunders:** I thank the Minister for his statement. Minister, the UK Government reforms create new income streams that give local authorities the power to adapt to these changes. Why are you not doing the same?

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Weinidog, mae diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn creu ffrydiau incwm newydd sy'n rhoi pŵer i awdurdodau lleol i ymaddasu i'r newidiadau hyn. Pam nad ydych chi'n gwneud yr un fath?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her very clear, short question. I am delighted that the Member has asked me about how we are going to try to mitigate the effects of the fact that Wales will be receiving at least £20 million less from the UK Government. I find that very difficult in relation to ensuring that the people affected by the reduction in

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn clir iawn a chryno. Rwy'n falch iawn bod yr Aelod wedi gofyn i mi am y ffordd yr ydym yn mynd i geisio lliniaru effaith y ffaith y bydd Cymru yn cael dros £20 miliwn yn llai gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwy'n gweld bod hynny'n anodd iawn o ran sicrhau y bydd y bobl y

benefits through welfare reform will be supported by a Welsh Government that cares for vulnerable people. Another problem we have is that, as I mentioned, in England, local authorities will be able to determine how they implement the scheme, which could provide many different groups with the opportunity to be supported, while many others will not be. Neighbouring authorities will use different criteria. There will be certain criteria supporting single parents in one authority while there may be no support in another. I do not believe that that is appropriate. It is certainly not equal, it is certainly not fair, and will not happen in Wales.

bydd y gostyngiad mewn budd-daliadau drwy ddiwygio lles yn effeithio arnynt yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru sy'n gofalu am bobl sy'n agored i niwed. Problem arall sydd gennym, fel y soniais, yw y bydd awdurdodau lleol yn Lloegr yn gallu penderfynu sut y byddant yn gweithredu'r cynllun, a gallai hynny roi cyfleoedd i nifer o wahanol grwpiau gael cymorth, tra na fydd cymorth ar gael i lawer o rai eraill. Bydd awdurdodau cyfagos yn defnyddio meini prawf gwahanol. Bydd meini prawf penodol i gefnogi rhieni sengl mewn un awdurdod er na fydd dim cymorth ar gael mewn un arall efallai. Nid wyf yn credu bod hynny'n briodol. Yn sicr, nid yw'n gyfartal, yn sicr nid yw'n deg, ac ni fydd yn digwydd yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, wrth ymateb i gwestiwn Janet Finch-Saunders, roeddech yn barod iawn i daflu'r bai ar y glymblaid yn San Steffan, ac nid wyf yn anghytuno â chi yn hynny o beth. Byddai'n ddiddorol gwybod beth yn union a wnaethoch i geisio dadlau achos Cymru ac i ddadlau yn erbyn y toriad hwn o 10% wrth drosglwyddo budd-daliadau'r dreth gyngor i Gymru. Nid ydych yn dweud wrthym ni beth rydych yn mynd i'w wneud, Weinidog. Aeth y Blaid Lafur i mewn i etholiadau'r Cynulliad yn 2011 gan ddweud wrth bobl Cymru y bydd yn eu hamddiffyn oddi wrth y toriadau a fyddai'n cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Mae'r bobl fwyaf bregus a thlotaf yn y gymdeithas yn wynebu sefyllfa lle bydd eu budd-daliadau yn cael eu torri'n ôl yn sylweddol, ac eto nad ydych chi, fel Gweinidog, yn barod i wneud unrhyw beth. Rydych yn sôn am gynnal trafodaethau a chreu strategaethau, ond mae'n hwyr iawn yn y dydd, Weinidog. Rydych wedi cael digon o gyfle ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud i wneud y pethau hyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, in responding to Janet Finch-Saunders's question, you were quite willing to throw the blame onto the Westminster coalition, and I do not disagree with you in that regard. It would be interesting to know exactly what you did to argue the case for Wales and to argue against this 10% cut in transferring council tax benefits to Wales. You are not telling us what you are going to do, Minister. The Labour Party went into the Assembly elections in 2011 telling the people of Wales that they would defend them against the cuts that would be imposed by the coalition Government in Westminster. The most vulnerable and poorest people in society are facing a situation in which their benefits will be cut back substantially, and yet you, as a Minister, are not willing to do anything. You talk about holding discussions and creating strategies, but it is very late in the day, Minister. You have had plenty of opportunity since the announcement was made to do these things.

Mae'r Alban wedi ymateb i hyn a sicrhau bod pecyn yn ei le sy'n golygu na fydd y bobl hyn yn dioddef yn uniongyrchol o ganlyniad i hyn. Yn eich datganiad, rydych yn sôn am gynnig cydsyniad deddfwriaethol er mwyn creu strategaeth yng Nghymru. Pam rydych yn dilyn y llwybr hwnnw? Pam nad ydych yn creu Bil yn y lle hwn? Pe baech yn gwneud hynny, gallem graffu ar yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud, ond rydych wedi

Scotland has responded to this and ensured that there is a package in place that means that these people will not suffer directly as a result of this. In your statement, you spoke about a legislative consent motion in order to create a strategy in Wales. Why are you going down that path? Why are you not creating a Bill in this place? If you were to do that, we could scrutinise what you propose to do, but you have decided to avoid that and

penderfynu osgoi hynny ac osgoi'r craffu sy'n gysylltiedig â hynny.

avoid the scrutiny that would be associated with that.

4.15 p.m.

Nid oes sôn am arian yn y strategaeth hon sydd i roi cynhaliaeth ar gyfer y dreth gyngor, Weinidog. Rydych yn sôn am drafodaethau a phartneriaid, ond nid oes sôn am Lywodraeth Cymru yn buddsoddi yn hyn. Rydych yn dweud nad oes arian ar gael ac, yn y gorffennol, rydych wedi cyhuddo Plaid Cymru o ddweud y dylid ymateb i hyn ond heb ddweud o ble y dylai'r arian ddod. Weinidog, rydym wedi dweud wrthych yn gwbl glir. Mae Danny Alexander yn y Trysorlys wedi dweud, mewn ymateb i gwestiwn gan Jonathan Edwards yn San Steffan, fod £86 miliwn i ddod i Lywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf mewn symiau canlyniadol. Mae digon o arian yno ichi fynd i'r afael â'r broblem hon. Nid wyf yn dweud wrthych fod yn rhaid ichi ddefnyddio'r arian hwnnw, ond mae arian yno, felly peidiwch â chuddio y tu ôl i'r ffaith nad oes arian.

There is no mention of money in this strategy that is to provide support for council tax, Minister. You talk about discussions and partners, but there is no mention of the Welsh Government investing in this. You say that there is no money available and, in the past, you have accused Plaid Cymru of saying that something should be responded to but without saying from where the money should come. Minister, we have told you that quite clearly. Danny Alexander in the Treasury has said, in response to a question from Jonathan Edwards at Westminster, that £86 million will be coming to the Welsh Government next year in consequentials. There is plenty of money there for you to deal with this problem. I am not telling you that you have to use that money, but there is money there, so do not hide behind the fact that there is no money.

Weinidog, a ydych chi, Llywodraeth Cymru a'r Blaid Lafur yng Nghymru yn dymuno amddiffyn buddiannau'r bobl dlotaf a mwyaf bregus yn ein cymdeithas? Rydych yn dweud y byddwch yn cynnal astudiaeth i weld pwy yw'r bobl sy'n dioddef fwyaf, ond mae'n amlwg mai'r bobl sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn, wrth eu natur, yw'r bobl dlotaf a mwyaf bregus yn y gymdeithas. Rydych wedi penderfynu gwneud dim i amddiffyn eu buddiannau.

Minister, do you, the Welsh Government and the Labour Party in Wales want to protect the interests of the poorest and most vulnerable people in our society? You say that you will be conducting a study to see who is suffering the most, but it is perfectly apparent that it is the people who are claiming these benefits, given their very nature, who are the poorest and most vulnerable people in society. You have decided to do nothing to protect their interests.

**Carl Sargeant:** The Member raises some interesting points. I normally have a lot of time for his contributions, but today he has been quite astonishing. The Member asks what I have done to represent the Welsh Government's position on this. My officials and I have had many conversations with Westminster colleagues. As I have said, I will be meeting with Iain Duncan Smith and Lord Freud on this matter shortly, because there is still a dispute about the finances that are due to come to Wales and the reductions that have been indicated by the Westminster Government.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwyntiau diddorol. Fel arfer, mae gennyf lawer o amser ar gyfer ei gyfraniadau, ond heddiw bu'n hynod syfrdanol. Mae'r Aelod yn gofyn beth yr wyf wedi'i wneud i gynrychioli safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn. Mae fy swyddogion a minnau wedi cael nifer o sgyrsiau gyda'n cymheiriaid yn San Steffan. Fel y dywedais, byddaf yn cyfarfod ag Iain Duncan Smith a'r Arglwydd Freud ar y mater hwn yn fuan, oherwydd mae anghydfod o hyd ynghylch y cyllid y mae bwriad iddo ddod i Gymru a'r gostyngiadau a nodwyd gan Lywodraeth San Steffan.

The Member says that the Welsh Government is doing nothing. Again, the

Mae'r Aelod yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn gwneud dim. Unwaith eto, mae'r

Member is ill informed. He will be aware of the council tax benefit scheme that the Welsh Government adds on to the schemes that are available in Wales, whereby many pensioners across Wales receive support, either in the form of advice or financial support. That scheme was introduced by this Labour Government.

Aelod yn anwybodus. Bydd yn gwybod am gynllun budd-dal y dreth gyngor y mae Llywodraeth Cymru yn ei ychwanegu at y cynlluniau sydd ar gael yng Nghymru, lle mae nifer o bensiynwyr ledled Cymru yn cael cymorth, naill ai ar ffurf cyngor neu gymorth ariannol. Cyflwynwyd y cynllun hwnnw gan y Llywodraeth Lafur hon.

The Member also made reference to the legislative consent motion process in the context of the creation of the scheme. Let me place this clearly on the record: I do not want to distribute the council tax benefit scheme, as that is the duty of the Westminster Government, but it has been devolved to us, and so we must have a mechanism to deal with it. On the brevity of it, we had to bring in an LCM because of the fiscal responsibilities contained in the Government of Wales Act 2006. They are listed differently in the Scotland Act 2012, and therefore an LCM is not needed there, but we need one in Wales. If you want to me to deliver a scheme on time by 2013, I have to ensure that it is fit for purpose, and an LCM process is the way to deliver that.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y broses cynigion cydsyniad deddfwriaethol yng nghyd-destun llunio’r cynllun. Gadewch imi roi hyn yn glir ar goedd: nid wyf am ddosbarthu cynllun budd-dal y dreth gyngor, gan mai dyletswydd Llywodraeth San Steffan yw hynny, ond mae wedi cael ei ddatganoli i ni, ac felly rhaid inni gael dull o ymdrin ag ef. O ran byrder y sefyllfa, bu’n rhaid inni gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol oherwydd y cyfrifoldebau ariannol a geir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Cânt eu rhestru yn wahanol yn Neddf yr Alban 2012, ac felly nid oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol yno, ond mae arnom angen un yng Nghymru. Os ydych am imi i gyflwyno cynllun ar amser erbyn 2013, rhaid imi sicrhau ei fod yn addas i’r diben, a defnyddio’r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol yw’r ffordd i gyflawni hynny.

I also note the Member’s concerns about the £20 million reduction in funding, and I have read the Member’s press release to try to understand what he is trying to establish today. However, I will not top up the council tax benefit scheme, because I cannot and I have no additional funding, given the UK Government’s settlement to us. Doing so would equate to funding 650 fewer primary school teachers or 600 fewer nurses. That is a conscious decision that I have made. You cannot continue to double-spend money. You have a wish list of funding, and you cannot continue to spend it twice. You have to get real and be responsible for the people of Wales.

Nodaf hefyd bryderon yr Aelod ynghylch y gostyngiad o £20 miliwn yn y cyllid, ac rwyf wedi darllen datganiad yr Aelod i’r wasg i geisio deall beth y mae’n ceisio ei ddweud heddiw. Fodd bynnag, nid wyf am ychwanegu at gynllun budd-dal y dreth gyngor, oherwydd ni allaf wneud hynny ac nid oes gennyf gyllid ychwanegol, o gofio setliad Llywodraeth y DU i ni. Byddai gwneud hynny yn cyfateb i ariannu 650 yn llai o athrawon ysgolion cynradd neu 600 yn llai o nyrsys. Dyna’r penderfyniad bwriadol rwyf wedi’i wneud. Ni allwch barhau i wario arian ddwywaith. Mae gennych restr o ddymuniadau o ran cyllid, ac ni allwch barhau i’w wario ddwywaith. Mae’n rhaid ichi fod o ddifrif ac yn gyfrifol, er lles pobl Cymru.

The final point that I want to respond to today is that the Member and his party claim that they wish to stand up to this process, but I believe that this is all predicated on a press release. There was a consultation process in the Assembly to consult with people and

Y pwynt olaf yr wyf am ymateb iddo heddiw yw bod yr Aelod a’i blaid yn honni eu bod yn dymuno gwrthwynebu’r broses hwn, ond credaf fod hyn i gyd yn seiliedig ar ddatganiad i’r wasg. Roedd proses ymgynghori yn y Cynulliad i ymgynghori â

ensure that they interacted with the process, but he and his party made no representation to me at all. Therefore, I tell him not to come to me crying at the end of the day because it all went horribly wrong.

phobl a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses, ond ni wnaeth ef na'i blaid sylwadau i mi o gwbl. Felly, dywedaf wrtho am beidio â dod ataf yn crio ar ddiwedd y dydd oherwydd bod popeth wedi mynd o'i le.

**Peter Black:** May I say at the outset that I share the Minister's concerns about the 10% cut in the funding for council tax benefit? We have had similar issues in the past when housing benefit, for example, was devolved to local government. There are always issues when new functions are devolved to local government or, in this case, the National Assembly.

**Peter Black:** Rwyf am ddweud ar y dechrau fy mod yn rhannu pryderon y Gweinidog ynghylch y toriad o 10% i'r cyllid ar gyfer budd-dal y dreth gyngor. Rydym wedi cael problemau tebyg yn y gorffennol pan oedd budd-dal tai, er enghraifft, wedi'i ddatganoli i lywodraeth leol. Mae problemau yn codi bob amser pan fydd swyddogaethau newydd yn cael eu datganoli i lywodraeth leol neu, yn yr achos hwn, y Cynulliad Cenedlaethol.

Minister, you said to Rhodri Glyn Thomas that you have made many representations to the UK Government about this. Will you please publish the correspondence that you have had with the UK Government on this matter, so that we can see how we can help you in that regard? That would be very helpful.

Weinidog, dywedasoch wrth Rhodri Glyn Thomas eich bod wedi cyflwyno nifer o sylwadau i Lywodraeth y DU am hyn. A wnewch gyhoeddi'r ohebiaeth a fu rhyngoch chi a Llywodraeth y DU ar y mater hwn, fel y gallwn weld sut y gallwn eich helpu? Byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

What work have you done on reducing the administrative costs of the council tax benefit to try to soak up some of those cuts in support? Do you know what assumptions the UK Government has made about the devolution of council tax benefit and the costings, and have you examined those assumptions and challenged them? If so, can you give us some insight into the assumptions being made?

Pa waith yr ydych wedi'i wneud ar leihau costau gweinyddol budd-dal y dreth gyngor i geisio ymdrin â rhai o'r toriadau i'r cymorth hwnnw? A wyddoch pa benderfyniadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud am ddatganoli budd-dal y dreth gyngor a'r prisiadau, ac a ydych wedi archwilio'r penderfyniadau hynny a'u herio? Os felly, a allwch roi syniad inni beth yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud?

What discussions have you had with local government regarding the new scheme and how it will take it forward? I think that you have almost a year to put this new scheme together, Minister, so I am sure that there is plenty of time for those discussions to go ahead.

Pa drafodaethau a gawsoch gyda llywodraeth leol ynghylch y cynllun newydd a sut y bydd yn bwrw ymlaen ag ef? Rwy'n meddwl bod gennych bron i flwyddyn i lunio'r cynllun newydd hwn, Weinidog, felly rwy'n siŵr bod digon o amser i gynnal y trafodaethau hynny.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his constructive comments. I take note of his comments about the correspondence with my counterparts at Westminster, and, if possible, I will make it available for him and his colleagues to see.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau adeiladol. Rwy'n nodi ei sylwadau am yr ohebiaeth rhyngof â'm cymheiriaid yn San Steffan, ac, os yw'n bosibl, byddaf yn sicrhau ei bod ar gael iddo ef a'i gydweithwyr.

On the process, we have already started working with the local government finance team to work up a scheme, but there are

O ran y broses, rydym eisoes wedi dechrau gweithio gyda thîm cyllid llywodraeth leol i ddatblygu cynllun, ond mae nifer o

several difficulties. One is that we do not know what the quantum or the amount of money is. We are trying to understand the two prongs to this: one is to do with the delivery of a scheme and the other is understanding the shape of it. That is why I have made the decision early on to have consistent criteria across Wales, so that there are not 22 individual schemes. On that basis, we hope to have a reduced administrative cost, because we will be doing it en masse and sharing best practice across the 22 authorities. They are working with us on ascertaining the best method for doing that, whether on a regional basis or by individual authorities.

anawsterau. Un anhawster yw nad ydym yn gwybod beth yw cwantwm neu swm yr arian. Rydym yn ceisio deall y ddwy agwedd ar hyn: mae un yn ymwneud â chyflwyno cynllun ac mae'r llall yn ymwneud â deall ffurf y cynllun. Dyna pam rwyf wedi penderfynu, yn gynnar yn y broses, cael meini prawf cyson ledled Cymru, fel nad oes 22 o gynlluniau unigol. Ar sail hynny, rydym yn gobeithio cael cost weinyddol is, oherwydd y byddwn yn gwneud hynny mewn un cam ac yn rhannu arfer gorau ar draws y 22 awdurdod. Maent yn gweithio gyda ni i ganfod y dull gorau o wneud hynny, boed hynny ar sail ranbarthol neu gan awdurdodau unigol.

Through this correspondence and detailed discussions with my officials and officials at Westminster, we have had some early indications of what the financial settlement may or may not be. To that end, I have requested an urgent meeting with Iain Duncan Smith and Lord Freud, which should be in my diary for mid June, to discuss some of the discrepancies in the figures that have been proposed. Currently, the figures being presented indicate not a 10% reduction but a 13% to 14% reduction in the funding. I do not think that a 10% reduction is appropriate, but I will do my best to defend our position in discussions on the 13% to 14% in the indications that we have already received.

Drwy'r ohebiaeth hon a thrafodaethau manwl gyda'm swyddogion a swyddogion yn San Steffan, rydym wedi cael rhai arwyddion cynnar o'r hyn y gallai'r setliad ariannol ei gynnwys. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi gofyn am gyfarfod brys gydag Iain Duncan Smith a'r Arglwydd Freud, a ddylai fod yn fy nyddiadur ar gyfer canol mis Mehefin, i drafod rhai o'r anghysonderau yn y ffigurau sydd wedi'u cynnig. Ar hyn o bryd, nid yw'r ffigurau a gyflwynwyd yn dangos gostyngiad o 10% ond gostyngiad o 13% i 14% i'r cyllid. Nid wyf yn credu bod gostyngiad o 10% yn briodol, ond byddaf yn gwneud fy ngorau i amddiffyn ein sefyllfa mewn trafodaethau ar y 13% i 14% sydd yn y wybodaeth yr ydym eisoes wedi'i derbyn.

That is just on the core, and the administrative burden of delivering the scheme is a separate issue, so there are further discussions to be had about the true costs of its administration. They will not be easy discussions when the decision of the UK Government is to reduce costs and we have to pass that on. However, my team and I will do all that we can to ensure that we protect our most vulnerable groups in this process. I will take the Member's comments about wishing to help the process move forward in good faith, and I will do my best to furnish him and colleagues with further information, should I feel it to be appropriate.

Mae hynny yn ymwneud â chraidd y cynllun yn unig, ac mae baich gweinyddol darparu'r cynllun yn fater ar wahân, felly mae rhagor o drafodaethau i'w cael am wir gostau ei weinyddu. Ni fyddant yn drafodaethau hawdd pan fydd Llywodraeth y DU yn penderfynu lleihau costau a phan fo'n rhaid inni basio hynny ymlaen. Fodd bynnag, bydd fy nhîm a minnau yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i sicrhau ein bod yn diogelu ein grwpiau mwyaf agored i niwed yn y broses hon. Byddaf yn ystyried sylwadau'r Aelodau ynghylch dymuno helpu'r broses i symud ymlaen gydag ewyllys da, a byddaf yn gwneud fy ngorau i roi rhagor o wybodaeth iddo, ac i'm cyd-Aelodau, os teimlaf ei bod yn briodol.

**Mike Hedges:** I welcome the statement by the Minister and, more importantly, the fact

**Mike Hedges:** Croesawaf y datganiad gan y Gweinidog ac, yn bwysicach, y ffaith bod

that we have an all-Wales scheme. Like everyone else, I have concerns about the cuts that are being made, affecting some of the most vulnerable people in society. What effect does the Minister think that the local schemes of authorities in England will have on cross-border movements, especially in those parts of Wales where there is a lot of movement for work? Secondly, will the tackling poverty action plan be published before the summer recess?

gennym gynllun ar gyfer Cymru gyfan. Fel pawb arall, mae gennyf bryderon am y toriadau sy'n cael eu gwneud, sy'n effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Pa effaith y mae'r Gweinidog yn credu y bydd cynlluniau lleol awdurdodau yn Lloegr yn ei chael ar symudiadau traws-ffiniol, yn enwedig yn y rhannau hynny o Gymru lle mae nifer o bobl yn teithio i fynd i'r gwaith? Yn ail, a fydd y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi yn cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf?

**Carl Sargeant:** I will take the final point first. Our intention is to publish the tackling poverty strategy before the summer recess. While I hold cross-portfolio discussions on the implementation of anti-poverty programmes, the cross-cutting theme of tackling poverty is the responsibility of each individual Minister in the Government. Of course, as I have mentioned, you have to take welfare reform holistically to deal with this, and council tax benefit is just a part of that, and so there is a lot of information that we are still lacking to take that forward. That is why there has been some delay, but it is our intention to bring the document forward before the summer recess.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn trafod y pwynt olaf yn gyntaf. Ein bwriad yw cyhoeddi'r strategaeth i fynd i'r afael â thlodi cyn toriad yr haf. Er fy mod yn cynnal trafodaethau trawsbortffolio ar weithredu rhaglenni gwrthdlodi, mae pob Gweinidog unigol yn y Llywodraeth yn gyfrifol am y thema drawsbynciol i fynd i'r afael â thlodi. Wrth gwrs, fel yr wyf wedi'i grybwyll, rhaid ichi ystyried diwygio lles mewn ffordd gyfannol er mwyn ymdrin â hyn, a dim ond rhan o hynny yw budd-dal y dreth gyngor, felly mae prinder gwybodaeth o hyd i fwrw ymlaen â hynny. Dyna pam y bu rhywfaint o oedi, ond ein bwriad yw cyflwyno'r ddogfen cyn toriad yr haf.

On the relationship with authorities across the border, I have no detail about the implications for somebody who works in England and resides in Wales. Of course, regional pay, if it happens, will have an impact on that and on how much people would be eligible to claim under the process. However, as you and many others here today have acknowledged, it is vital that we have a scheme that is equal for all and that is why I have made sure that it will be consistent throughout the 22 authorities. In England, there will be discrepancies between postcodes and areas, and groups within a community may be isolated by some being able to claim and others not. Those groups may be single parents, pensioners or others. That is why I think it appropriate for us in Wales to have some consistency.

O ran y berthynas gydag awdurdodau dros y ffin, nid oes gennyf fanylion am y goblygiadau ar gyfer rhywun sy'n gweithio yn Lloegr ac yn byw yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd cyflogau rhanbarthol, os cânt eu cyflwyno, yn effeithio ar hynny ac ar faint y byddai pobl yn gymwys i'w hawlio fel rhan o'r broses. Fodd bynnag, fel yr ydych chi, a nifer o Aelodau eraill yma heddiw, wedi'i gydnabod, mae'n hanfodol bod gennym gynllun sy'n gyfartal i bawb a dyna pam rwyf wedi sicrhau y bydd yn gyson yn y 22 awdurdod. Yn Lloegr, bydd anghysondebau rhwng codau post ac ardaloedd, ac mae'n bosibl y gallai grwpiau mewn cymuned gael eu hynysu gan y ffaith fod rhai yn gallu hawlio ac eraill ddim. Efallai mai rhieni sengl, pensiynwyr neu bobl eraill fydd y grwpiau hynny. Dyna pam rwy'n credu ei bod yn briodol inni gael rhywfaint o gysondeb yng Nghymru.

**Darren Millar:** Thank you, Minister, for your statement. I have to say, however, that I am a little bewildered that you say that you

**Darren Millar:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rhaid imi ddweud, fodd bynnag, fy mod wedi drysu braidd eich bod yn dweud

want to help people with their council tax, and yet you are failing to pass on the money that was given to the Welsh Government to secure a council tax freeze this year.

eich bod am helpu pobl gyda'u treth gyngor, ac eto rydych yn methu â throsglwyddo'r arian a roddwyd i Lywodraeth Cymru i sicrhau rhewi'r dreth gyngor eleni.

I am also a little alarmed at the inconsistent approach here. You say that you want a nationally defined scheme, and yet the scheme currently operating to support pensioners is not nationally defined; it is devolved to each individual local authority to decide. I would therefore appreciate it if you could clarify why there is a different approach, whether the existing scheme is to be rolled up into this particular scheme—and if so, of course, that would help to answer my question—and if you are rolling the existing scheme up into the new scheme, what specific support there will be for pensioners. You will be aware that my constituency, Clwyd West, is demographically the oldest in Wales. There are many people who have benefited from the existing scheme, and I am keen to see support continue to be extended to them where they need it.

Rwyf hefyd ychydig yn bryderus am y dull anghyson yma. Rydych yn dweud eich bod am gael cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol, ac eto nid yw'r cynllun sy'n cefnogi pensiynwyr ar hyn o bryd wedi'i ddiffinio yn genedlaethol; mae'r penderfyniad yn cael ei ddatganoli i bob awdurdod lleol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro pam fod y dull yn wahanol, a fydd y cynllun presennol yn cael ei gynnwys yn y cynllun hwn—ac os felly, wrth gwrs, byddai hynny'n helpu i ateb fy nghwestiwn—ac, os ydych yn cynnwys y cynllun presennol yn y cynllun newydd, pa gymorth penodol fydd i bensiynwyr. Byddwch yn gwybod mai fy etholaeth, Gorllewin Clwyd, yw'r hynaf yng Nghymru o ran demograffeg. Mae nifer o bobl wedi elwa ar y cynllun presennol, ac rwy'n awyddus i weld cymorth yn parhau i gael ei estyn iddynt lle y maent ei angen.

**Carl Sargeant:** The Member raised some interesting points about local determination. He is wrong in saying that we did not passport the money from Westminster through to local authorities. Indeed, we gave an opportunity for the very thing that the Member asked for: local determination. If local authorities had wished to freeze council tax this year, they had the ability to do so. In England, however, they top-sliced the budget and then gave that back to authorities, provided that they froze council tax for one year. That did not happen in Wales. It was for one year, and we made sure that we invested our funding in the economy and in people's jobs to provide a more secure future for the people of Wales.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwyntiau diddorol am wneud penderfyniadau yn lleol. Mae'n anghywir dweud na wnaethom drosglwyddo'r arian o San Steffan i awdurdodau lleol. Yn wir, rhoddwyd y cyfle ar gyfer yr hyn y mae'r Aelod yn gofyn amdano, sef gwneud penderfyniadau yn lleol. Pe bai awdurdodau lleol wedi dymuno rhewi'r dreth gyngor eleni, gallant fod wedi gwneud hynny. Yn Lloegr, fodd bynnag, gwnaethant frigdorri'r gyllideb ac yna rhoi hynny yn ôl i'r awdurdodau, ar yr amod eu bod yn rhewi'r dreth gyngor am flwyddyn. Ni ddigwyddodd hynny yng Nghymru. Digwyddodd hynny am un flwyddyn, a gwnaethom sicrhau ein bod yn buddsoddi ein cyllid yn yr economi ac yn swyddi pobl i roi dyfodol mwy diogel i bobl Cymru.

It is about priorities, and of course you have different priorities from ours. I accept that. That is the nature of politics. You are right to say that your constituency has a disproportionately high number of elderly people living there, and that is good for the community and I know that you welcome that, but I hope that you tell all your constituents that the UK Government is giving Wales £20 million less because of its

Mae'n ymwneud â blaenoriaethau, ac wrth gwrs mae gennych flaenoriaethau gwahanol i'n rhai ni. Rwy'n derbyn hynny. Dyna natur gwleidyddiaeth. Rydych yn gywir i ddweud bod gan eich etholaeth nifer anghymesur o uchel o bobl oedrannus yn byw yno, ac mae hynny'n beth da ar gyfer y gymuned a gwn eich bod yn croesawu hynny, ond rwy'n gobeithio eich bod yn dweud wrth eich etholwyr fod Llywodraeth y DU yn rhoi £20

decision, as a Conservative and Liberal Democrat administration. Therefore, when we talk about supporting council tax benefit, this Welsh Government is determined to maximise the reduced funding for people who need it on a consistent basis.

miliwn yn llai i Gymru oherwydd penderfyniad gweinyddiaeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Felly, pan fyddwn yn sôn am gefnogi budd-dal y dreth gyngor, mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o wneud y gorau o'r gostyngiad mewn cyllid ar gyfer pobl sydd ei angen yn gyson.

On your point about the council tax support system that is in place, as I mentioned earlier, there are many unknowns at the moment, such as the quantum of money and how it will be distributed. It will be a single scheme, and that will play a part in it. I need to understand over the next couple of months how much money is available in total and how best to distribute it. Again, it is about getting the biggest bang for the buck. Yes, it will still form a part of council tax support, but I do not know yet how it will play into the overall scheme. It is just a process that I am trying to work through, as we are still trying to tease these numbers out of the Treasury. However, I will keep the Member posted given his interest in that particular area.

O ran eich pwynt am y system cymorth treth gyngor sydd ar waith, fel y soniais yn gynharach, mae nifer o ffactorau anhysbys ar hyn o bryd, fel cwantwm yr arian a sut y bydd yn cael ei ddosbarthu. Bydd yn gynllun sengl, a bydd hynny'n chwarae rhan yn hyn. Mae angen imi ddeall, dros yr ychydig fisoedd nesaf, beth yw cyfanswm yr arian sydd ar gael a beth yw'r ffordd orau o'i ddosbarthu. Unwaith eto, mae'n ymwneud â sicrhau'r gwerth gorau am arian. Bydd yn parhau i fod yn rhan o gymorth y dreth gyngor, ond nid wyf yn gwybod eto sut y bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun cyffredinol. Rwy'n ceisio gweithio drwy'r broses, gan ein bod yn dal i geisio canfod y rhifau hyn gan y Trysorlys. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod o gofio ei ddiddordeb yn y maes hwnnw.

4.30 p.m.

**Joyce Watson:** I welcome the Minister's statement today. It seems that the Westminster Government is happy to embark on devolution as long as it is not accountable to the people of Wales for delivering it. On the £20 million, Minister, is that worked out on the basis of a 10% reduction rather than the new figure, which could be between 12% and 13%? Could that figure therefore rise substantially?

**Joyce Watson:** Rwy'n croesawu datganiad y Gweinidog heddiw. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth San Steffan yn barod i ddechrau ar ddatganoli ar yr amod nad yw'n atebol i bobl Cymru am ei gyflwyno. Ar y £20 miliwn, Weinidog, a yw'n cael ei gyfrifo ar sail gostyngiad o 10% yn hytrach na'r ffigur newydd, a allai fod rhwng 12% a 13%? A allai'r ffigur hwnnw godi'n sylweddol felly?

I want to focus on your report's reference to the review of advice services and the social fund. I hope that the review of financial services starts from the position that people in financial distress tend to cling to the first organisation that offers them help, and that tips the scales towards fee chargers with the biggest budgets and the most aggressive advertising, even when a free option is available. I hope that you will recognise that tendency and work to overcome it. I hope the review also highlights the importance of face-

Rwyf am ganolbwyntio ar y cyfeiriad yn eich adroddiad at yr adolygiad o wasanaethau cynghori a'r gronfa gymdeithasol. Gobeithio y bydd yr adolygiad o wasanaethau ariannol yn dechrau o'r safbwynt bod pobl mewn trafferth ariannol yn tueddu i lynu at y sefydliad cyntaf sy'n cynnig help iddynt, a bod hynny yn eu hanfon i gyfeiriad y rhai sy'n codi ffi sydd â'r cyllidebau mwyaf a'r hysbysebu mwyaf ymosodol, hyd yn oed pan fydd opsiwn rhad ac am ddim ar gael. Gobeithio y byddwch yn cydnabod y duedd

to-face free financial advice. The fact is that people in financial difficulty can often feel extremely stressed and isolated, and it makes them particularly vulnerable to unscrupulous money lenders and debt managers. Having someone to talk to face to face is invaluable.

honno ac yn gweithio i'w newid. Rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad hefyd yn amlygu pwysigrwydd cyngor ariannol wyneb-yn-wyneb am ddim. Y ffaith amdani yw bod pobl sydd mewn trafferthion ariannol yn aml yn teimlo o dan straen ac wedi'u hynysu'n fawr, ac mae'n eu gwneud yn arbennig o agored i fenthycwyr arian a rheolwyr dyled diegwyddor. Mae cael rhywun i siarad â hwy wyneb-yn-wyneb yn amhrisiadwy.

**The Deputy Presiding Officer:** Please conclude now, Joyce.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dewch i ddiwedd eich cyfraniad, Joyce.

**Joyce Watson:** On the social fund, Minister, while the Tories and Lib Dems have abandoned it, I would like to see exactly what it is that you intend to work up.

**Joyce Watson:** Ar y gronfa gymdeithasol, Weinidog, tra bo'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi rhoi'r gorau iddi, hoffwn weld beth yn union rydych yn ei fwriadu ar ei chyfer.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her contribution. The £20 million is based on a 10% reduction, but, as I said earlier, we are unsighted as to what the actual figures will be. The most alarming figures that we have received do indicate a 12% to 13% reduction. I will be meeting the relevant Ministers in London about this. It comes at a point when we have welfare reform, changes and reductions to advice services, council tax benefit reduction, social fund changes and uncertainty in the economy—this is a turbulent time for the people of the UK and Wales. My responsibility is for the people of Wales, making sure that we are able to give the best services with the best value regardless of the funding reduction that we get from Westminster.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Mae'r £20 miliwn yn seiliedig ar y gostyngiad o 10%, ond, fel y dywedais gynnau, ni wyddom beth fydd y ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau mwyaf brawychus a gawsom yn dangos gostyngiad o 12% i 13%. Byddaf yn cwrdd â'r Gweinidogion perthnasol yn Llundain i drafod hyn. Mae'n dod ar adeg pan fo gennym ddiwygio lles, newidiadau i wasanaethau cynghori a gostyngiadau ynddynt, gostyngiad yn y budd-dal treth cyngor, newidiadau i'r gronfa gymdeithasol ac ansicrwydd yn yr economi—mae hwn yn gyfnod cythryblus i bobl y DU a Chymru. Rwyf fi yn gyfrifol am bobl Cymru, gan wneud yn siŵr ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau gorau gyda'r gwerth gorau beth bynnag fo'r gostyngiad mewn arian a gawn gan San Steffan.

We are aligning our programme for Government around the agenda on tackling poverty. The ministerial task and finish group on welfare reform is considering this in a holistic way, working with Jane Hutt, the Minister for Finance and Leader of the House, on advice services, because we believe that people receiving advice should get good-quality advice in their time of need. These are turbulent times, and we must stand together to ensure that we can make the best of what we have. Despite the reductions, it is my view, and the view of my ministerial

Rydym yn alinio ein rhaglen lywodraethu â'r agenda ar fynd i'r afael â thlodi. Mae'r tasglu gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddiwygio lles yn ystyried hyn mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, ar wasanaethau cynghori, oherwydd credwn y dylai pobl sy'n cael cyngor gael cyngor o safon pan fyddant mewn angen. Mae hwn yn gyfnod cythryblus, a rhaid i ni sefyll gyda'n gilydd i sicrhau y gallwn wneud y gorau o'r hyn sydd gennym. Er gwaethaf y gostyngiadau, rwyf o'r farn, fel y mae fy nghydweithwyr gweinidogol, y

colleagues, that we will continue to stand up for the people of Wales with the limited resources we have.

byddwn yn parhau i sefyll cornel pobl Cymru gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym.

**Alun Ffred Jones:** As part of your consultation exercise, you stated:

**Alun Ffred Jones:** Fel rhan o'ch ymarfer ymgynghori, gwnaethoch nodi:

'We are not in a position to make up any shortfall'.

Nid ydym mewn sefyllfa i wneud iawn am unrhyw ddiffyg.

Is that still your position and, if so, what is your scheme going to achieve?

Ai dyna yw eich safbwynt o hyd, ac, os felly, beth fydd eich cynllun yn ei gyflawni?

**Carl Sargeant:** That is my position. We are still not in a position to top up the funding. If we make the assumption that this is only £20 million, then we do not have £20 million to top up the system. On the indicator figures that we have, it will be much more than £20 million, so the case becomes even worse. In terms of what we will do with the scheme, as I said earlier, I have made a clear decision that we will have one type of scheme running through Wales. Once we and the authorities delivering the scheme understand the quantum of finance, I will be able to give more detail to the Member and colleagues on the scheme and on the key groups that we will be undertaking to support. Make no mistake, delivering the scheme within 12 months is quite challenging for my local government partners, and I am doing everything I can to support them. They do not know how much they will be receiving for administering the scheme, or how much money they will be administering. These are all key questions on which we are waiting to hear from the UK Government. When I have more detail on that, I will be happy to provide a written statement to the Assembly, or an oral statement if that is appropriate at the time.

**Carl Sargeant:** Dyna yw fy safbwynt. Nid ydym dal mewn sefyllfa i ychwanegu at y cyllid. Os tybiwn mai dim ond £20 miliwn fydd hyn, yna nid oes gennym £20 miliwn i'w ychwanegu at y system. O ran y ffigurau dangosol sydd gennym, bydd yn llawer mwy na £20 miliwn, felly mae'r achos yn mynd yn waeth byth. O ran yr hyn y byddwn yn ei wneud â'r cynllun, fel y dywedais gynnau, rwyf wedi gwneud penderfyniad clir y bydd gennym un math o gynllun ar waith drwy Gymru. Unwaith y byddwn ni a'r awdurdodau sy'n rhoi'r cynllun ar waith yn deall y cwantwm cyllid, byddaf yn gallu rhoi mwy o fanylion i'r Aelod a chydweithwyr am y cynllun a'r grwpiau allweddol y byddwn yn ymrwymo i'w cefnogi. Peidiwch â chamgymryd: mae rhoi'r cynllun ar waith o fewn 12 mis yn darged eithaf heriol i fy mhartneriaid mewn llywodraeth leol, ac rwyf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'w cefnogi. Nid ydynt yn gwybod faint y byddant yn ei gael ar gyfer gweinyddu'r cynllun, na faint o arian y byddant yn ei weinyddu. Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau allweddol rydym yn aros i glywed gan Lywodraeth y DU amdanynt. Pan gaf fwy o fanylion am hynny, rwy'n hapus i roi datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad, neu ddatganiad llafar, os yw hynny'n briodol bryd hynny.

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru'
## The Results of the 'Natural Resources Wales' Consultation

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliant 2 yn enw Peter Black, a gwelliannau 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendment 2 in the name of Peter Black, and amendments 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM4891 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' ynghylch y cynnig i ddatblygu un corff i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.*

*Motion NDM4891 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes the results of the 'Natural Resources Wales' consultation with regard to the proposal to develop a single body for natural resource management in Wales.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

Following the Welsh Government's commitment to work towards bringing the Environment Agency, the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission together as one organisation, I am pleased to announce the results of the consultation on creating a single body to manage Wales's natural resources. With over 300 responses, the large majority have expressed their preference for the creation of a single body. In addressing the concerns expressed, I will outline today why I believe that this new body should proceed, as well as respond to the key themes of the contributions.

The consultation has provided us with a rich and valuable source of feedback that will continue to be of use in helping to shape the new body's vision, values and ways of working. I have published both the individual responses and a summary of them on the Welsh Government website. It was essential to demonstrate the viability of the business case before we consulted on the proposal, and that is why I cannot support amendment 3 in the name of William Graham.

With sustainable development as our central organising principle, we recognise the importance of delivering well-integrated economic, social and environmental outcomes for the people and communities in Wales. Having a new body that is equipped to make well-informed and far-sighted judgments, and which continuously improves itself and its services, will be a priority for me in our efforts to achieve this ambition. I am therefore pleased to confirm that we will be proceeding with the development of the new single body and that, before the end of

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio tuag at ddod ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd yn un sefydliad, rwyf yn falch o gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad ar greu un corff i reoli adnoddau naturiol Cymru. Gyda dros 300 o ymatebion, mae'r mwyafrif helaeth wedi mynegi eu dewis i greu un corff. Wrth fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd, byddaf yn amlinellu heddiw pam y credaf y dylai'r corff newydd hwn fynd yn ei flaen, yn ogystal ag ymateb i themâu allweddol y cyfraniadau.

Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi inni ffynhonnell o adborth cyfoethog a gwerthfawr a fydd yn parhau i fod o ddefnydd wrth helpu i lunio gweledigaeth, gwerthoedd a dulliau gweithio'r corff newydd. Rwyf wedi cyhoeddi'r ymatebion unigol a chrynodeb ohonynt ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yn hanfodol i ddangos hyfywedd yr achos busnes cyn inni ymgynghori ar y cynnig, a dyna pam na allaf gefnogi gwelliant 3 yn enw William Graham.

Gyda datblygiad cynaliadwy yn egwyddor drefnu ganolog, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wedi'u hintegreiddio'n dda i bobl a chymunedau yng Nghymru. Bydd cael corff newydd sy'n barod i wneud penderfyniadau gwybodus a phellgyrhaeddol, ac sy'n gwella ei hun a'i wasanaethau'n barhaus, fod yn flaenoriaeth imi yn ein hymdrechion i gyflawni'r uchelgais hon. Felly, rwy'n falch o gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu'r un corff newydd a, chyn diwedd y

the month, an Order seeking to establish the body as a corporate entity will be laid before Members. At the same time, officials will begin the process of advertising for candidates for the posts of chair, chief executive and non-executive board members.

mis, bydd Gorchymyn sy'n galw am sefydlu'r corff fel endid corfforaethol yn cael ei osod gerbron yr Aelodau. Ar yr un pryd, bydd swyddogion yn dechrau'r broses o hysbysebu am ymgeiswyr ar gyfer swyddi'r cadeirydd a'r prif weithredwr ac aelodau anweithredol o'r bwrdd.

I strongly believe that the board of the new body needs, first and foremost, to exercise highly effective corporate leadership. It is important that the new board's relationship with the organisation's stakeholders must be both effective and productive. Stakeholder engagement is an important issue. The body should establish effective comprehensive mechanisms that reflect and support an integrated approach to resource management. To ensure that this happens, we will be undertaking some immediate work to involve stakeholders in shaping the vision, values and ways of working of the new body. It is also essential that the integration of the three bodies is carefully structured to ensure that any consenting processes are transparent and streamlined. That will, of course, be a matter for the new executive team as it takes the new body forward next year, and that is why I support amendment 7 from William Graham.

Credaf yn gryf fod angen i fwrdd y corff newydd, yn gyntaf ac yn bennaf, arfer arweinyddiaeth gorfforaethol hynod effeithiol. Mae'n bwysig bod perthynas y bwrdd newydd â rhanddeiliaid y sefydliad yn effeithiol a chynhyrchiol. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fater pwysig. Dylai'r corff sefydlu dulliau cynhwysfawr ac effeithiol sy'n adlewyrchu a chefnogi dull integredig o reoli adnoddau. I sicrhau bod hyn yn digwydd, byddwn yn ymgymryd â rhywfaint o waith ar unwaith i gynnwys rhanddeiliaid wrth lunio gweledigaeth, gwerthoedd a ffyrdd o weithio'r corff newydd. Mae hefyd yn hanfodol bod y gwaith o integreiddio'r tri chorff yn cael ei strwythuro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw brosesau rhoi caniatâd yn dryloyw a syml. Bydd hynny, wrth gwrs, yn fater i'r tîm gweithredol newydd wrth iddo fynd â'r corff newydd yn ei flaen y flwyddyn nesaf, a dyna pam rwyf yn cefnogi gwelliant 7 gan William Graham.

I will also be laying a second Order later this year to define the body's functions, with the intention of proposing 1 April 2013 as the vesting date. I will regularly review the progress of the development programme with my officials and I will continually examine whether there are risks arising to delivery that might need further consideration of the timetable for delivery. It is crucial that the vital services provided by the existing bodies continue uninterrupted in the meantime.

Byddaf hefyd yn cyflwyno ail Orchymyn yn ddiweddarach eleni i ddiffinio swyddogaethau'r corff, gyda'r bwriad o bennu 1 Ebrill 2013 fel y dyddiad breinio. Byddaf yn adolygu cynnydd y rhaglen ddatblygu gyda'm swyddogion a byddaf yn archwilio'n gyson a oes risgiau o ran y gwaith o gyflwyno a allai olygu bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r amserlen gyflwyno. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan y cyrff presennol yn parhau'n ddi-dor yn y cyfamser.

In creating this new body, I very much want to ensure that the skills, enthusiasm and commitment of the staff who move into it are prioritised during this transitional period and beyond. Programme team staff and the senior management teams in the bodies are working hard to ensure that the change process is inclusive and well managed.

Wrth greu'r corff newydd hwn, rwyf yn awyddus iawn i sicrhau bod sgiliau, brwdfrydedd ac ymrwymiad y staff sy'n symud iddo yn cael eu blaenoriaethu yn ystod y cyfnod trosiannol a thu hwnt i hynny. Mae staff tîm y rhaglen a'r timau uwch reoli yn y cyrff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y broses newid yn gynhwysol ac wedi'i rheoli'n dda.

Our continued support for the staff affected

Mae ein cefnogaeth barhaus i'r staff yr

by this decision is vitally important to the success of the new body. Today, I shall be writing to staff, explaining the change process and addressing any concerns they may have over conditions of service. Discussions are also ongoing with trade unions and officials to establish the best possible arrangements in relation to pensions. I can assure staff that, under current arrangements, their accrued rights will be protected.

effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn yn hanfodol bwysig i lwyddiant y corff newydd. Heddiw, byddaf yn ysgrifennu at staff i esbonio’r broses newid ac yn mynd i’r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch yr amodau gwasanaeth. Mae trafodaethau hefyd yn parhau gydag undebau llafur a swyddogion i sefydlu’r trefniadau gorau posibl o ran pensiynau. Gallaf sicrhau staff y bydd eu hawliau cronedig, o dan y trefniadau presennol, yn cael eu diogelu.

I can also confirm that I will be carefully considering consultation responses and looking again at whether the aim of the new body adequately defines the role that it will play in protecting the natural environment, the cultural and historic landscape and access to the countryside and coast. I will ensure that the new body has the duties and powers necessary to maintain these crucial roles as carried out by the three existing bodies. The aim of the body will be expressed in the first Order, with the objectives and functions being defined in the second Order later this year. There will be an opportunity for Members to debate the content of both Orders. I cannot support amendment 5, which calls for the principal aims and strategic objectives of the body to be re-examined.

Gallaf gadarnhau hefyd y byddaf yn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn ofalus ac yn edrych eto ar pa un a yw nod y corff newydd yn diffinio’n ddigonol y rôl y bydd yn ei chwarae wrth warchod yr amgylchedd naturiol, y dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol a mynediad i gefn gwlad a’r arfordir. Byddaf yn sicrhau bod gan y corff newydd y dyletswyddau a’r pwerau angenrheidiol i gynnal y rolau hanfodol hyn fel ag y gwneir gan y tri chorff presennol. Bydd nod y corff yn cael ei fynegi yn y Gorchymyn cyntaf, a chaiff yr amcanion a’r swyddogaethau eu diffinio yn yr ail Orchymyn yn ddiweddarach eleni. Bydd cyfle i Aelodau drafod cynnwys y ddau Orchymyn. Ni allaf gefnogi gwelliant 5, sy’n galw am ail-archwilio prif nodau ac amcanion strategol y corff.

I would also like to make clear that in relation to forestry and woodland management, the ‘Woodlands for Wales’ strategy remains this Government’s priority. It recognises the importance of timber to the rural economy of Wales, and I will expect the body to continue to deliver the strategy’s aims just as the Forestry Commission has done; that is why I am content to support amendments 1 and 4.

Hoffwn hefyd ei gwneud yn glir, mewn perthynas â rheoli coedwigaeth a choetiroedd, fod y strategaeth ‘Coetiroedd i Gymru’ yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Lywodraeth hon. Mae’n cydnabod pwysigrwydd coed i economi wledig Cymru, a byddaf yn disgwyl i’r corff barhau i gyflawni amcanion y strategaeth yn union fel ag y gwnaeth y Comisiwn Coedwigaeth; dyna pam rwyf yn fodlon cefnogi gwelliannau 1 a 4.

I believe that the new body’s integrated operations will result in greater efficiency and faster, more certain decision-making processes with a single point of contact for customers. Such a body will require commercial expertise if it is to be successful, and this should be reflected in the make-up of the new board. We will, therefore, be supporting amendments 2 and 6.

Credaf y bydd gwaith integredig y corff newydd yn arwain at fwy o effeithlonrwydd a phrosesau gwneud penderfyniadau cyflymach, fwy penodol gydag un pwynt cyswllt i gwsmeriaid. Bydd angen arbenigedd masnachol ar gorff o’r fath os yw am fod yn llwyddiannus, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y bwrdd newydd. Byddwn, felly, yn cefnogi gwelliannau 2 a 6.

I remain convinced that bringing the three bodies together is the right course of action.

Rwyf yn dal yn argyhoeddedig mai dod â’r tri chorff ynghyd yw’r ffordd gywir o

The environmental benefits, the cost savings and the streamlined approach will make the introduction of an ecosystems approach to natural resource management simpler and more effective. This is a significant day for Wales. Although there are challenges to be overcome, we believe that this change will help us to make our country better—better for people and their communities, for the environment and for the economy.

weithredu. Bydd y manteision amgylcheddol, yr arbedion cost a'r dull symlach yn gwneud y gwaith o gyflwyno dull ecosystemau i reoli adnoddau naturiol yn symlach ac yn fwy effeithiol. Mae hwn yn ddiwrnod pwysig i Gymru. Er y bydd heriau i'w goresgyn, credwn y bydd y newid hwn yn ein helpu i wneud ein gwlad yn well—yn well i bobl a'u cymunedau, yr amgylchedd a'r economi.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon y sector coedwigaeth a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.*

*Calls on the Welsh Government to address the concerns of the forestry sector expressed in the consultation responses.*

**Llyr Huws Gruffydd:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

**Llyr Huws Gruffydd:** I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn barod iawn i dderbyn yr angen i greu un corff gyda throsolwg ar adnoddau naturiol Cymru, oherwydd bod rhywun yn croesawu'r egwyddor o symud at drefn fwy unedig a fydd yn arwain at system reoleiddiol symlach, llai biwrocrataidd, mwy effeithiol a mwy effeithlon, a, chyn bwysiced â hynny i gyd, yn arwain at system sy'n haws i ymwneud â hi o safbwynt y cyhoedd, diwydiant, llywodraeth leol ac yn y blaen. Bydd rhai'n teimlo efallai bod 'ond' yn dod nesaf, ac mae ambell 'ond' wedi codi yn ystod y broses hon, felly mae angen ateb y pwyntiau hynny cyn inni fod yn gwbl hyderus fod Llywodraeth Cymru ar y trywydd cywir.

I start by saying that I am more than willing to accept the need for a single environment body with an overview of our natural resources in Wales, because one would welcome the principle of moving towards a more unified regime that will lead us to a more streamlined, less bureaucratic, more effective and more efficient regulatory system, and, as importantly, a system that is easier to engage with from the point of view of the public, industry, local government and so on. Some might well feel that there is a 'but' coming, and a few 'buts' have arisen during this process, therefore we need responses to those points before we can feel completely confident that the Welsh Government is on the right path.

Y thema amlycaf yn y sylwadau rydym ni wedi eu cael fel Aelodau yw cwestiynau am sut fydd y Comisiwn Coedwigaeth yn ffitio yn y corff newydd. Rydym yn gwybod bod natur y comisiwn ychydig yn wahanol i'r ddau gorff arall oherwydd y ffocws masnachol sy'n perthyn iddo. Nid wyf eto'n hyderus fod y Llywodraeth wedi dangos sut y bydd modd amddiffyn yr arbenigedd a'r ffocws masnachol hynny yn y corff newydd, ac mae angen gwneud hynny. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog wedi cydnabod bod angen gwneud hynny yn ei gyfraniad i'r ddadl yn awr, a hynny oherwydd natur hirdymor

The most apparent theme of the representations made to us as Members is one that questions the fit of the Forestry Commission within the new body. We know that the nature of the commission is a little different to the other two bodies because of its commercial focus. I am still not entirely confident that the Government has demonstrated how it will be possible to safeguard that commercial expertise and focus within the new body, and that is something that needs to be done. I think that the Minister acknowledged this point in his contribution, given the long-term nature of

cynllunio yn y sector coedwigaeth.

planning in the forestry sector.

4.45 p.m.

Mae angen ffocws clir, cyfeiriad sicr ac arweiniad diamwys er mwyn delifro'r sicrwydd sydd ei angen ar y sector o safbwynt argaeledd coed a *continuity* ym mherchnogaeth gyhoeddus ystâd goedwigaeth Cymru. Yn sgîl hynny, daw hyder yn y sector bod ganddo ran bwysig wrth adeiladu economi sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy. Yn anffodus, rwy'n teimlo bod yr holl ansicrwydd sydd wedi bod, ac sy'n dal i fodoli, o gwmpas y broses hon yn tanseilio buddsoddiad, yn peri risg i fusnesau ac yn niweidio'r sector.

You need a clear focus, a definite direction and unambiguous leadership in order to deliver the assurance needed by the sector about the availability of timber and continuity in terms of the public ownership of the Welsh forestry estate. In light of that, confidence can emerge within the sector that it has an important role to play in building an economy based on sustainable development. Unfortunately, I feel that the uncertainty that has existed, and continues to exist, around this process undermines investment, poses a threat to business and damages the sector.

Mae rôl fasnachol y Comisiwn Coedwigaeth hefyd wedi amlygu elfen arall o gonsýrn, lle mae angen llawer mwy o eglurdeb wrth fynd ati i greu'r corff newydd, sef sut y gallwn wahanu yn ddigon cyhyrog a thryloyw y cyfrifoldebau rheoleiddiol a gweithredol fydd gan yr un corff newydd hwn. Mae rhai o'r ymatebion i ymgynghoriad y Llywodraeth yn gofyn sut y gall un corff amddiffyn adnoddau naturiol a'u hecsbloetio ar yr un pryd. Enghraifft o hyn yw ymdrin â chais i godi tyrbin gwynt ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Rwy'n gweld bod gwelliant gan y Ceidwadwyr yn mynd ar ôl y mater hwnnw.

The commercial role of the Forestry Commission has also highlighted another area of concern where far more clarity is required as we go about creating the new body, namely how we can differentiate robustly and transparently enough the regulatory and operational responsibilities of the new single body. Some of the responses to the Government consultation ask how one body can defend natural resources and exploit them at the same time. An example of this is dealing with an application to erect a wind turbine on Forestry Commission land. I see that the Conservatives have an amendment on that issue.

Rwy'n hyderus bod modd cyflawni'r ddwy rôl yn effeithiol, cyhyd â bod y gwahanol agendâu a safbwyntiau, a'r persbectif sydd gan y tri chorff fel ag y maent ar hyn o bryd, yn parhau, heb eu gwanhau a'u colli o fewn y corff newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid wyf wedi fy mherswadio y bydd hynny yn llwyddo. Dyna fydd un o heriau mwyaf arweinyddiaeth y corff newydd. Bydd angen bwrdd cryf a phenderfynol a phrif weithredwr hynod i allu creu'r diwylliant sefydliadol hwnnw sydd ei angen i sicrhau bod y corff newydd yn llwyddo.

I am confident that it is possible to achieve both roles effectively, as long as the different agendas and viewpoints and perspectives of the current three bodies continue, and are not diluted and lost within the new body. However, at present, I have not been persuaded that that will succeed. That will be one of the greatest challenges for the leaders of the new body. A strong and determined board and an extraordinary chief executive will be needed to create the institutional culture that will ensure that the new body succeeds.

Mae risg aruthrol o ymgymryd â newid trefniadol a sefydliadol mor sylweddol ar unrhyw adeg, ond mae gwneud hynny ar yr un pryd â gweithredu newid polisi mawr hefyd yn gwneud y risg gymaint yn fwy. Rwy'n amau doethineb creu corff sydd am ddelifro gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar

There are huge risks involved in undertaking such significant organisational and institutional changes at any time, but doing so while also implementing a major change of policy exacerbates the risk. I question the wisdom of creating a body that will drive the Welsh Government's vision for the natural

gyfer yr amgylchedd naturiol cyn i'r weledigaeth honno gael ei chadarnhau.

environment before that vision is confirmed.

Fel y dywed Cadeirydd y pwyllgor yn ei ragair i adroddiad y pwyllgor ar yr achos busnes, mae'n ymddangos ei fod yn fater o 'roi'r drol o flaen y ceffyl'. Mae eich cyhoeddiad heddiw eich bod am symud ymlaen i hysbysebu am aelodau o'r bwrdd a staff allweddol yn tanlinellu'r cwestiwn hwnnw yn fy meddwl i.

As the Chair of the committee says in his foreword to the committee's report on the business case, it seems as if it is a matter of putting the cart before the horse. Your announcement today that you are moving to advertise for board members and key staff underlines that question in my mind.

Yn ogystal, rwy'n teimlo mai un o'r budd-ddeiliaid pwysicaf yn yr holl broses hon yw'r staff yr effeithir arnynt gan y posibilrwydd o greu'r corff newydd. Rwy'n deall eich bod yn ysgrifennu atynt heddiw, yn ôl eich datganiad, ond ble fuoch chi tan heddiw? Mae cyfnod o newid yn golygu pwysau gwaith gyda staff yn cael dyletswyddau ychwanegol. Bu'n gyfnod o ansicrwydd dybryd, ac felly y mae'n parhau, ac mae perygl o golli staff mewn sefyllfa felly. Yn aml iawn, y staff gorau—y rhai mwyaf profiadol ac effeithlon—sydd yn mynd yn gyntaf.

I also feel that one of the most important stakeholders in this process is the staff who will be affected by the possibility of the creation of the new body. I understand that you will be writing to them today, according to your statement, but where have you been until now? There are work pressures associated with a period of change, with staff taking on additional duties. It has been a period of great uncertainty, and so it continues, and as such there is a risk of losing staff. Often, it is the best staff—the most experienced and effective—who go first.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude, please.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rhaid sicrhau bod gan y corff newydd hwn y staff gorau posibl er mwyn cael y cychwyn gorau posibl pan ddaw i fodolaeth. Os yw uchelgais Llywodraeth Cymru tuag at adnoddau naturiol Cymru am gael ei wireddu—

**Llyr Huws Gruffydd:** We must ensure that this new body has the best possible staff to give it the best possible start when it comes into existence. If the Welsh Government's ambition for Wales's natural resources is to be achieved—

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arbenigedd masnachol y sector coedwigaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn nhrefniadaeth unrhyw un corff amgylcheddol newydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.*

*Calls on the Welsh government to ensure that the commercial expertise of the forestry sector is adequately reflected in the organisation of any new single environment body, as was recommended by the Environment and Sustainability Committee in its report into the business case for a single environment body, laid in the Table Office on 27 April 2012.*

**William Powell:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

**William Powell:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

It is a pleasure to contribute to this vital debate in the Assembly today. I see it as the bringing together of a significant body of work, and indeed, in many ways, it is an important step in creating a sustainable framework for sustainable development policy to secure Wales's future.

Mae'n bleser cael cyfrannu at y ddadl hanfodol hon yn y Cynulliad heddiw. I mi mae'n dod â chorff sylweddol o waith ynghyd, ac yn wir, mewn nifer o ffyrdd, mae'n gam pwysig wrth greu fframwaith cynaliadwy ar gyfer polisi datblygu cynaliadwy i sicrhau dyfodol Cymru.

The creation of a single environment body was a Welsh Liberal Democrat manifesto commitment last year. It is good to see that the Welsh Government has engaged in a wide-ranging consultation to ensure that the voices across the sector are heard. In that respect, I confirm that my colleagues and I will be supporting amendments 1, 3, 4, 6 and 7, and I acknowledge the support of the Minister for our amendment.

Roedd creu un corff amgylcheddol yn ymrwymiad ym maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y llynedd. Mae'n dda gweld bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad eang i sicrhau bod lleisiau ar draws y sectorau'n cael eu clywed. Yn hynny o beth, rwy'n cadarnhau y bydd fy nghyd-Aelodau a minnau'n cefnogi gwelliannau 1, 3, 4, 6 a 7, ac rwy'n cydnabod cefnogaeth y Gweinidog i'n gwelliant.

However, we will not be supporting amendment 5. While I appreciate the sentiment behind it and accept the constant need to be responsive to situations as they develop, I argue that there is no need to fundamentally re-examine the proposals, as the amendment implies. Taken at face value, such an amendment would, if passed, take us back to the drawing board, and I do not feel that that is appropriate. Indeed, that is underscored by the recent findings of the Environment and Sustainability Committee's exercise to look at the business case. However, as the Minister has said, and as Llyr Huws Gruffydd has emphasised, it is vital that we take into account the views and the sentiments of the staff, who are absolutely critical to this process.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 5. Er fy mod yn deall y syniad sydd wrth wraidd y gwelliant ac yn derbyn yr angen parhaus i fod yn ymatebol i sefyllfaoedd wrth iddynt ddatblygu, rwy'n dadlau nad oes angen ailedrych yn sylfaenol ar y cynigion, fel y mae'r gwelliant yn awgrymu. Ar yr wyneb, byddai gwelliant o'r fath, pe câi ei gymeradwyo, yn mynd â ni yn ôl i'r cychwyn, ac nid wyf yn teimlo bod hynny'n briodol. Yn wir, caiff hynny ei danlinellu gan ganfyddiadau ymarfer diweddar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i edrych ar yr achos busnes. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gweinidog, ac fel y mae Llyr Huws Gruffydd wedi pwysleisio, mae'n hanfodol inni ystyried barn a theimladau'r staff, sydd yn gwbl hanfodol i'r broses hon.

I will now turn to the responses to the consultation. It is worth noting that the single largest group—almost a third—came from private individuals. It is significant because it shows the level of concern across Wales that we get this right. Most importantly, we must listen to the detail of those responses.

Trof yn awr at yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n werth nodi bod y grŵp unigol mwyaf o ymatebion—traean bron—wedi dod gan unigolion. Mae'n arwyddocaol am ei fod yn dangos faint o bryder sydd yng Nghymru ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid inni wrando ar fanylion yr ymatebion hynny.

Like many stakeholders, including many Members in the Chamber today, I have been contacted by others regarding aspects of this merger that concern them, and some of those have already been rehearsed. One such example was a Mr Byrne, who contacted me explaining that the overarching principle of the new body must be to protect and enhance

Fel llawer o randdeiliaid, gan gynnwys llawer o Aelodau yn y Siambr heddiw, mae nifer o bobl wedi cysylltu â mi ynghylch agweddau ar yr uno hwn sy'n peri pryder iddynt, ac mae rhai o'r rhain eisoes wedi cael eu trin a'u trafod. Un enghraifft o'r fath oedd Mr Byrne. Cysylltodd â mi i esbonio bod rhaid i egwyddor gyffredinol y corff newydd

Wales's biodiversity and that it should widen access to, and improve people's understanding of, the natural environment, increasing the sense of ownership, responsibility and wellbeing with respect to the environment. Few would disagree with this. It is a perfect example of why we need to work together to ensure that this is enacted effectively. By having a single and reliable body, it is clear that advice can be given in a more coherent way and it can foster support and enhance programmes that encourage public participation. All of that is vital for the future of our environment.

ddiogelu a gwella bioamrywiaeth Cymru ac y dylai ehangu mynediad pobl at yr amgylchedd naturiol, a gwella eu dealltwriaeth ohono, gan gynyddu'r ymdeimlad o berchnogaeth, cyfrifoldeb a lles mewn perthynas â'r amgylchedd. Ychydig fyddai'n anghytuno â hyn. Mae'n enghraifft berffaith o pam mae angen inni gydweithio i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n effeithiol. Drwy gael un corff dibynadwy, mae'n amlwg y gall cyngor gael ei roi mewn ffordd fwy cydlynol a gall feithrin cymorth a gwella rhaglenni sy'n annog cyfranogiad y cyhoedd. Mae hynny i gyd yn hanfodol ar gyfer dyfodol ein hamgylchedd.

However, there are still significant questions that need to be asked. As has already been stated, many of these relate to the integration of Forestry Commission Wales, as indeed we highlighted in our Environment and Sustainability Committee report. While there is an obvious natural fit between the Countryside Council for Wales and the Environment Agency, it is clear that the commercial acumen of the Forestry Commission needs to be maintained, and I am not satisfied that that has been planned for fully as things stand. We also need to consider the potential for expertise, resources and, indeed, profits leaking across the border into England, where many feel forestry will be getting a better deal post the merger. We need to be alive to this danger.

Fodd bynnag, mae cwestiynau pwysig sydd angen eu gofyn eto. Fel y dywedwyd eisoes, mae llawer o'r rhain yn ymwneud ag integreiddio Comisiwn Coedwigaeth Cymru, fel y gwnaethom ddangos yn glir yn adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Er bod cysylltiad naturiol amlwg rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'n amlwg bod angen cynnal craffter masnachol y Comisiwn Coedwigaeth, ac fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod cynllunio llawn wedi bod ar gyfer hynny. Mae angen inni hefyd ystyried y posibilrwydd y bydd arbenigedd, adnoddau ac, yn wir, elw yn mynd dros y ffin i Loegr, lle y mae llawer yn teimlo y bydd coedwigaeth yn cael bargen well ar ôl yr uno. Mae angen inni fod yn effro i'r perygl hwn.

We also need to consider the implications for the planning system, given the fact that individual organisations have a long history of disagreement when it comes to energy projects across Wales—several examples come to mind. We also need a nuanced and fully developed definition of what sustainable development means. On this matter, I would be grateful if the Minister would take the time to highlight how the responses to this consultation will inform the Bill in future and how well this will feed into the new body's development. It is also clear that questions remain about the way in which the development will interact with schemes such as the Glastir woodland management scheme, which I think it is fair to say has had a difficult birth.

Mae angen inni hefyd ystyried y goblygiadau ar gyfer y system gynllunio, o gofio'r ffaith bod gan sefydliadau unigol hanes hir o anghytuno o ran prosiectau ynni ledled Cymru—mae nifer o enghreifftiau yn dod i'r cof. Mae angen inni hefyd gael diffiniad manwl gywir sydd wedi'i ddatblygu'n llawn o beth yw ystyr datblygu cynaliadwy. O ran y mater hwn, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn treulio amser yn rhoi sylw i sut y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r Bil yn y dyfodol a pha mor dda y bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygiad y corff newydd. Mae hefyd yn glir bod cwestiynau yn parhau ynghylch y ffordd y bydd y datblygiad yn rhyngweithio â chynlluniau fel cynllun rheoli coetiroedd Glastir, sydd wedi cael genedigaeth anodd—credaf ei bod yn deg

dweud hynny.

Finally, turning to the next steps that are highlighted in the consultation summary, it is clear that a great deal remains to be done, not least around governance, in the new body. Given the references that are made in the responses, I would also be grateful if the Minister would outline precisely how these data will fit into the work and what specific steps will be taken over the coming months.

Yn olaf, gan droi at y camau nesaf sy'n cael eu hamlygu yn y crynodeb ymgynghori, mae'n amlwg bod llawer iawn o waith i'w wneud, yn enwedig o ran llywodraethu, yn y corff newydd. O ystyried y cyfeiriadau sy'n cael eu gwneud yn yr ymatebion, byddwn hefyd yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn amlinellu sut yn union y bydd y data hyn yn rhan o'r gwaith a pha gamau penodol a fydd yn cael eu cymryd dros y misoedd nesaf.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod yr achos busnes dros yr uno wedi'i gyhoeddi cyn ymgynghori ar nodau'r un corff amgylcheddol.*

*Regrets that the business case for the merger was published before the aims of the single environment body were consulted upon.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pryderon presennol sector coedwigaeth Cymru o ran creu'r un corff amgylcheddol.*

*Notes the current concerns that the Welsh forestry sector has with the creation of the single environment body.*

*Gwelliant 5 William Graham*

*Amendment 5 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-archwilio prif nodau ac amcanion strategol yr un corff amgylcheddol er mwyn cael sicrwydd ac eglurder llwyr yn eu cylch.*

*Calls on Welsh Government to re-examine the principle aims and strategic objectives of the single environment body to ensure absolute certainty and clarity in both areas.*

*Gwelliant 6 William Graham*

*Amendment 6 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arbenigedd masnachol yn y sefydliad newydd.*

*Calls upon the Welsh Government to ensure the presence of sufficient commercial expertise in the new organisation.*

*Gwelliant 7 William Graham*

*Amendment 7 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o drefniadau diogelu yn yr un corff amgylcheddol petai gwrthdaro mewn buddiannau rhwng y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno a'r trefniadau caniatáu ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.*

*Calls on Welsh Government to ensure that there are sufficient safeguards in the single environment body where there is a conflict of interest between Welsh Government's land ownership and consenting arrangements for energy projects on that land.*

**Russell George:** I move amendments 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of William Graham.

**Russell George:** Cynigiaf welliannau 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw William Graham.

For the purpose of this debate, I will refer to the proposed new body as 'the single environment body'. There is, of course, an issue with regard to what the organisation should be called and I do not think that it has been helpful, particularly for organisations and members of the public outside the Assembly, that mixed terms have been employed by the Government thus far in the process. Calling the new organisation at this stage 'the single body' is not helpful and the environment has to be at the very core of this organisation. It is not just a bureaucratic restructuring exercise.

At ddibenion y ddadl hon, byddaf yn cyfeirio at y corff newydd arfaethedig fel yr 'un corff amgylcheddol'. Wrth gwrs, mae cwestiwn ynghylch beth y dylid galw'r sefydliad ac nid wyf yn credu ei bod wedi bod o gymorth, yn enwedig i sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd y tu allan i'r Cynulliad, fod y Llywodraeth wedi defnyddio termau gwahanol hyd yma yn ystod y broses. Ar hyn o bryd, nid yw galw'r sefydliad newydd 'yr un corff' o gymorth ac mae'n rhaid i'r amgylchedd fod wrth graidd y sefydliad hwn. Nid ymarfer ailstrwythuro biwrocrataidd yn unig yw hwn.

Of course, the Minister says that there is no conspiracy and that we should be viewing the organisation as more than the sum of its parts. However, the removal of the environment element creates confusion. More than that, I believe that it is at the heart of the problem that the Government has found itself with. During our opposition debate on the principles of the proposed merger last December, we said that we could not understand why the Government produced and agreed the business plan for the single environment body when it had not decided on the aims and objectives of the new body or what it wanted to achieve. The way the Government has gone about the whole process so far is a bizarre way of improving environmental governance and outcomes. That has been borne out in many of the consultation responses and in our discussions on the Environment and Sustainability Committee.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn dweud nad oes cynllwyn, ac y dylem fod yn edrych ar y sefydliad fel mwy na dim ond cyfanswm ei rannau. Fodd bynnag, mae cael gwared ar elfen yr amgylchedd yn achosi dryswch. Yn fwy na hynny, credaf ei fod wrth wraidd y broblem y mae'r Llywodraeth wedi canfod ei hun ynddi. Yn ystod dadl yr wrthblaid gennym ar egwyddorion yr uno arfaethedig fis Rhagfyr diwethaf, dywedasom nad oeddem yn gallu deall pam yr oedd y Llywodraeth wedi cynhyrchu a chytuno ar y cynllun busnes ar gyfer yr un corff amgylcheddol pan nad oedd wedi penderfynu ar nodau ac amcanion y corff newydd na'r hyn yr oedd am i'r corff newydd ei gyflawni. Mae'r ffordd y mae'r Llywodraeth wedi mynd ati yn y broses hyd yma yn ffordd ryfedd o wella llywodraethu amgylcheddol a chanlyniadau. Mae hynny wedi cael ei gadarnhau mewn llawer o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac yn ystod ein trafodaethau ar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

I am still of the mind that we should have legislation first, in the form of the sustainable development Bill, which would have set the

Rwyf yn dal o'r farn y dylem gael deddfwriaeth yn gyntaf, ar ffurf y Bil datblygu cynaliadwy, a fyddai wedi pennu'r

approach and purpose for all Government activity, and not just environmental activity. It would have also enshrined in law the function and governance structure of the new single environment body. However, we are where we are and, having looked at so many of the responses, Government now needs to listen to the concerns raised during the consultation process and act upon them. It is not a coincidence that, in the amendments tabled to the Government's motion today, all three opposition parties have made reference to the concerns raised by the Welsh forestry sector. Despite the Minister's assurance that we would be moving forward to ensure that the interests of the Welsh forestry industry are protected, the sector is still not convinced that the Government is doing that—something that has again been borne out in the consultation process. There are many businesses and organisations in the sector that are still not convinced that the Government is right to merge Forestry Commission Wales into the new single environment body. Their principal concern is that FCW's commercial focus and expertise will be lost in the new body—a view shared by the Environment and Sustainability Committee.

dull gweithredu a'r diben ar gyfer holl weithgarwch y Llywodraeth, ac nid dim ond gweithgarwch amgylcheddol. Byddai hefyd wedi ymgorffori mewn cyfraith swyddogaeth a strwythur llywodraethu yr un corff amgylcheddol newydd. Fodd bynnag, rydym wedi cyrraedd y sefyllfa yr ydym ynddi ac, ar ôl edrych ar gynifer o'r ymatebion, mae angen i'r Llywodraeth wrando ar y pryderon a godwyd yn ystod y broses ymgynghori a gweithredu arnynt. Nid cyd-ddigwyddiad yw bod y tair gwrthblaid wedi cyfeirio at y pryderon a godwyd gan y sector coedwigaeth yng Nghymru yn y gwelliannau a gyflwynwyd i gynnig y Llywodraeth heddiw. Er gwaethaf y sicrwydd gan y Gweinidog y byddem yn symud ymlaen i sicrhau bod buddiannau'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru yn cael eu diogelu, nid yw'r sector yn argyhoeddedig o hyd fod y Llywodraeth yn gwneud hynny—rhywbeth sydd eto wedi'i gadarnhau yn ystod y broses ymgynghori. Mae llawer o fusnesau a sefydliadau yn y sector nad ydynt yn argyhoeddedig o hyd fod y Llywodraeth yn iawn wrth uno Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r un corff amgylcheddol newydd. Eu prif bryder yw y bydd ffocws ac arbenigedd masnachol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei golli yn y corff newydd—a dyna farn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd hefyd.

Finally, with regard to the aims and objectives of the single environment body, it is critical that, if the new body is to be effective, the Government is crystal clear what the strategic aims and objectives are and what functions and values of each of the respective parts of the new body will be taken forward. As my colleague William Powell said, there are lots of questions that remain to be answered. Is sustainable development to be the central organising principle of the new body or is it to be to maintain, improve and develop the responsible stewardship of Wales's environmental and natural resources? If you are looking to take forward the ecosystems approach, people will be central to that, so how will public engagement be built into the aims of the new body? How will the body engage and work in partnership with other bodies, including the third sector?

Yn olaf, o ran nodau ac amcanion yr un corff amgylcheddol, mae'n hanfodol, os yw'r corff newydd i fod yn effeithiol, i'r Llywodraeth fod yn gwbl glir ynghylch beth yw'r nodau a'r amcanion strategol a pha swyddogaethau a gwerthoedd gan bob un o rannau'r corff newydd a fydd yn cael eu datblygu. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod William Powell, erys llawer o gwestiynau i'w hateb. Ai datblygu cynaliadwy fydd prif egwyddor drefniadol y corff newydd ynteu ai cynnal, gwella a datblygu stiwardiaeth gyfrifol dros adnoddau amgylcheddol a naturiol Cymru fydd y brif egwyddor honno? Os ydych yn ystyried bwrw ymlaen â'r dull ecosystemau, bydd pobl yn ganolog i hynny, felly sut y bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gynnwys yn amcanion y corff newydd? Sut y bydd y corff yn ymwneud â chyrff eraill ac yn gweithio mewn partneriaeth â hwy, gan gynnwys y trydydd sector?

Minister, the creation of this new body is one of the most significant pieces of work that any Welsh Government has faced since devolution, and the opportunity to shape that will be a very important one for the future of the Welsh environment and our wellbeing. It is in your hands. Therefore, I ask you, Minister, to be absolutely clear about how you will proceed.

Weinidog, creu'r corff newydd hwn yw un o'r darnau mwyaf arwyddocaol o waith y mae unrhyw un o Lywodraethau Cymru wedi ei wynebu ers datganoli, a bydd y cyfle i lywio hynny yn un pwysig iawn ar gyfer dyfodol amgylchedd Cymru a'n lles. Mae yn eich dwylo chi. Felly, gofynnaf i chi, Weinidog, fod yn gwbl glir ynghylch sut y byddwch yn symud ymlaen.

**Kenneth Skates:** I start by welcoming the debate and the way in which the Welsh Government and the Minister in particular have approached the issue of natural resources management. I am heartened by his willingness to listen to every side of the argument and by the strong level of support for his proposals. Indeed, more than 60% of respondents in the consultation support the Government's proposals. In contrast, just 10% oppose them. There is no doubt that reinvigorating our rural economy will require sophistication on the part of policymakers to understand the challenges that local businesses face.

**Kenneth Skates:** Dechreuaf drwy groesawu'r ddadl a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn arbennig wedi ymdrin â rheoli adnoddau naturiol. Mae'n galonogol gweld ei barodrwydd i wrando ar bob ochr i'r ddadl a'r gefnogaeth gref sydd i'w gynigion. Yn wir, mae dros 60% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y Llywodraeth. Ar y llaw arall, dim ond 10% sy'n eu gwrthwynebu. Nid oes amheuaeth, er mwyn rhoi hwb i'n heconomi wledig, na fydd gofyn i lunwyr polisïau fod yn soffistigedig i ddeall yr heriau sy'n wynebu busnesau lleol.

Today's debate about the management and future of our natural resources highlights many of the issues involved. Rural business operators often tell me that not enough focus is placed on big-picture infrastructure issues in rural areas, such as transport, communications, planning and further education. I will highlight one of these important big-picture issues, namely the urgent need to ensure that our forestry sector gets the transformational support that it needs to help sustain vital jobs in rural areas. As many of you will know, forestry is a hugely significant and valuable industry to the wider Welsh economy, employing more than 10,000 people across the country and generating more than £840 million in revenue every year. In my constituency of Clwyd South, we have one of the world's leading manufacturers of wood-based panels, Kronospan in Chirk. As one of the top 10 manufacturing outfits in the whole of Wales, it is a vital cog in the local rural economy. Over the past five years, £13 million has been invested at its Chirk site, where more than 600 people work, 90% of whom live within 10 miles of the plant. Two of the biggest issues recently raised with me by the company have been the need to increase

Mae'r ddadl heddiw am reolaeth a dyfodol ein hadnoddau naturiol yn tynnu sylw at lawer o'r materion dan sylw. Mae gweithredwyr busnesau gwledig yn aml yn dweud wrthyf nad oes digon o sylw yn cael ei roi i faterion mawr ym maes seilwaith mewn ardaloedd gwledig, megis trafnidiaeth, cyfathrebu, cynllunio ac addysg bellach. Tynnaf sylw at un o'r materion mawr hyn, sef yr angen brys i sicrhau bod ein sector coedwigaeth yn cael y cymorth sy'n gweddnewid y mae ei angen arno i helpu i gynnal swyddi hanfodol mewn ardaloedd gwledig. Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, mae coedwigaeth yn ddiwydiant hynod arwyddocaol a gwerthfawr i economi ehangach Cymru, yn cyflogi dros 10,000 o bobl ar draws y wlad ac yn cynhyrchu mwy na £840 miliwn o refeniw bob blwyddyn. Yn fy etholaeth yn Ne Clwyd, mae gennym un o gynhyrchwyr paneli pren mwyaf blaenllaw'r byd, Kronospan, yn y Waun. Fel un o'r 10 prif gwmni gweithgynhyrchu yng Nghymru gyfan, mae'n rhan allweddol o'r economi wledig leol. Dros y pum mlynedd diwethaf, buddsoddwyd £13 miliwn yn ei safle yn Y Waun, lle mae mwy na 600 o bobl yn gweithio, ac mae 90% ohonynt yn byw o fewn 10 milltir i'r ffatri. Y ddau fater

apprenticeship opportunities in the rural economy and the merger of Forestry Commission Wales into the new single environment body. In particular, Kronospan is anxious to ensure that the important, structural relationships that it has built up with FCW will continue.

pwysicaf a godwyd gyda mi yn ddiweddar gan y cwmni yw'r angen i gynyddu cyfleoedd prentisiaeth yn yr economi wledig ac i gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn yr un corff amgylcheddol newydd. Yn benodol, mae Kronospan yn awyddus i sicrhau y bydd y cysylltiadau pwysig strwythurol a ddatblygodd gyda'r comisiwn yn parhau.

5.00 p.m.

One only needs to look at the numbers to see the importance of this point. In 2011, it purchased more than 150,000 tonnes of round timber directly from FCW, which is around a quarter of FCW's annual harvest. Therefore, it has a key interest in the way that the new body views the important commercial and oversight role that FCW currently plays in Welsh forestry. As both the regulator and commercial trading partner of businesses in timber production, the Forestry Commission's role and its highly trained staff have a first-class understanding of the forestry industry. There are some very positive responses with regard to the expertise that FCW will bring.

Nid oes ond angen edrych ar y niferoedd i weld pa mor bwysig yw'r pwynt hwn. Yn 2011, prynodd fwy na 150,000 tunnell o goed crwn yn uniongyrchol gan y comisiwn, sef tua chwarter o'i gynhaeaf blynyddol. Felly, mae ganddo ddiddordeb amlwg yn y ffordd y bydd y corff newydd yn ystyried y rôl fasnachol a goruchwylio bwysig sydd gan y comisiwn ar hyn o bryd o ran coedwigaeth Cymru. Fel rheoleiddiwr a phartner masnachol busnesau yn y maes cynhyrchu coed, mae rôl y comisiwn a'i staff hyfforddedig yn golygu ei fod yn meddu ar ddealltwriaeth o'r radd flaenaf o'r diwydiant coedwigaeth. Cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol iawn o ran yr arbenigedd a ddaw gan y comisiwn.

One issue that we spent a long time on recently has been the need for effective brands as a way of selling Wales to the world. However, I would contend that we also need effective brands to sell Wales within Wales as a way of driving forward our indigenous industries and creating confidence in key sectors of the economy. It strikes me that when you talk to anyone involved in forestry, the FCW brand is one such valued brand, with a skillset and a reputation that people within the industry respect and trust. That is why we need to listen to those within the Welsh forestry sector who are saying that, in the creation of the new single environment body, we need to ensure that the sustainable production and manufacture of indigenous Welsh timber needs to be a prime focus of the new body's work.

Un mater y gwnaethom dreulio amser hir arno'n ddiweddar yw'r angen am frandiau effeithiol fel ffordd o werthu Cymru i'r byd. Fodd bynnag, byddwn yn dadlau bod hefyd angen brandiau effeithiol arnom i werthu Cymru o fewn Cymru fel ffordd o roi hwb i'n diwydiannau cynhenid a chreu hyder mewn sectorau allweddol o'r economi. Pan fyddwch yn siarad ag unrhyw un yn y maes coedwigaeth, daw'n amlwg bod brand y comisiwn yn un o'r brandiau gwerthfawr hynny, sydd â chyfres o sgiliau ac enw da y mae pobl yn y diwydiant yn ymddiried ynddynt a'u parchu. Dyna pam mae angen inni wrando ar y rhai o fewn sector coedwigaeth Cymru sy'n dweud bod angen inni sicrhau, wrth greu un corff amgylchedd newydd, fod angen i'r broses o gynhyrchu a gweithgynhyrchu coed cynhenid Cymru yn gynaliadwy fod yn brif ffocws gwaith y corff newydd.

Timber industries are already going through a period of major uncertainty with great threats to supply across the UK. Manufacturing any

Mae diwydiannau coed eisoes yn mynd drwy gyfnod o gryn ansicrwydd gyda bygythiadau mawr i'r cyflenwad ledled y DU. Mae

product made from wood is becoming increasingly difficult, given the unintended implications of biomass subsidies in the energy sector, which are pushing up the price of wood used by our manufacturers. In addition, there is still uncertainty over the future of the public forest estate in England and concerns over plant health. Clearly, we need certainty in the timber supplies in order to attract further investment into Wales and specifically into our rural economy.

gweithgynhyrchu unrhyw gynnyrch a wnaed o goed yn dod yn fwyfwy anodd, o ystyried goblygiadau anfwriadol cymorthdaliadau biomas yn y sector ynni sy’n gwthio pris y coed a ddefnyddir gan ein cynhyrchwyr yn uwch. Yn ogystal, mae ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru a phryderon ynghylch iechyd planhigion. Yn amlwg, mae angen sicrwydd yn y cyflenwadau coed er mwyn denu buddsoddiad pellach i Gymru ac yn benodol i’n heconomi wledig.

I support the establishment of the single environment body and look forward to seeing concerns allayed in respect of the continuation of the customer-facing and commercial focus of the work of Forestry Commission Wales as it is merged into the single environment body. Protecting the important manufacturing jobs that we have in north-east Wales and beyond is both an urban and a rural concern, and I urge the Government to continue to assist the timber and forestry industries in securing a strong, long-term future.

Rwy’n cefnogi sefydlu un corff amgylcheddol ac yn edrych ymlaen at weld pryderon yn cael eu lliniaru ynghylch parhau â’r ffocws ar y cwsmer a ffocws masnachol yng ngwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru wrth iddo gael ei gynnwys yn yr un corff amgylcheddol. Mae diogelu’r swyddi gweithgynhyrchu pwysig sydd gennym yng ngogledd-ddwyrain Cymru a thu hwnt yn bryder trefol a gwledig, ac rwyf yn annog y Llywodraeth i barhau i gynorthwyo’r diwydiannau coed a choedwigaeth i sicrhau dyfodol cryf a hirdymor iddynt.

**Antoinette Sandbach:** The Welsh Government’s proposals to merge the three environmental bodies had, perhaps, a noble aim, which was to reduce waste and improve the efficiency of the public services delivered by these organisations. However, the Welsh Conservatives have deep reservations about the way in which the Welsh Government has gone about this task. As Russell George has already alluded to, the business case was published before the aims of the body were consulted upon and, indeed, what it was intended to deliver.

**Antoinette Sandbach:** Efallai fod gan gynigion Llywodraeth Cymru i uno’r tri chorff amgylcheddol nod anrhydeddus, sef lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau cyhoeddus a gyflwynir gan y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, mae gan y Ceidwadwyr Cymreig amheuon dwfn am y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i wneud hyn. Fel y dywedodd Russell George eisoes, cyhoeddwyd yr achos busnes cyn y bu ymgynghori ar amcanion y corff, ac, yn wir, yr hyn yr oedd yn bwriadu ei gyflawni.

Although environmental regulation is the main focus of the Environment Agency and CCW—and there appears to be a good synergy between those two organisations—the Forestry Commission has a distinct commercial role that sets it apart from the other bodies. There are serious concerns that the land management and business elements of Forestry Commission Wales will be lost to the merged body. I am not going to repeat the matters raised by Ken Stakes, which I effectively adopt—they were relevant and well-made points.

Er mai rheoleiddio amgylcheddol yw prif ffocws Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru—ac ymddengys bod synergedd da rhwng y ddau sefydliad hynny—mae gan y Comisiwn Coedwigaeth rôl fasnachol benodol sy’n ei osod ar wahân i’r cyrff eraill. Mae pryderon dwys y bydd elfennau rheoli tir a busnes Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael eu colli i’r corff unedig. Nid wyf am ailadrodd y materion a godwyd gan Ken Skates, gan fy mod yn cytuno â hwy i bob pwrpas—roeddynt yn bwyntiau perthnasol a wnaed yn raenus.

I would like the Minister to answer whether the management board will include active practitioners in the forestry sector. Will specific forestry expertise be retained in order to manage the Welsh Government's own forests and engage with the private sector? Will the Minister be considering whether a forest estate management unit will be established to be at arm's length within the single environment body, to run the commercial operation with separate accounts and to be able to carry on profit and loss from year to year? What levels of accountability will there be within the body, in terms of taking responsibility for decisions and actions? Concerns about the consultation and the forestry sector have been expressed by not only the Forestry Commission, but the Confederation of Forest Industries (UK) Ltd, the Institute of Chartered Foresters and the many businesses that are located in Wales. The danger is that we will lose them to Scotland, where they give far greater prominence to their forestry industry then has been the case in Wales.

Hoffwn i'r Gweinidog ddweud a fydd y bwrdd rheoli yn cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector coedwigaeth. A fydd arbenigedd penodol mewn coedwigaeth yn cael ei gadw er mwyn rheoli coedwigoedd Llywodraeth Cymru ac ymgysylltu â'r sector preifat? A wnaiff y Gweinidog ystyried sefydlu uned i reoli'r ystâd goedwigaeth a fydd hyd braich o fewn yr un corff amgylcheddol, i redeg y busnes masnachol gyda chyfrifon ar wahân ac i allu cario elw a cholled ymlaen o flwyddyn i flwyddyn? Pa lefelau o atebolrwydd fydd gan y corff, ac a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau a chamau gweithredu? Mynegwyd pryderon am yr ymgynghoriad a'r sector coedwigaeth nid yn unig gan y Comisiwn Coedwigaeth, ond hefyd gan y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (DU) Cyf, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig a nifer o'r busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Y perygl yw y byddwn yn eu colli i'r Alban, lle maent yn rhoi llawer mwy o amlygrwydd i'w diwydiant coedwigaeth nag a fu yng Nghymru.

In relation to the governance procedures referred to by William Powell, again, that has been a huge concern that has been brought before the Environment and Sustainability Committee. There are particular concerns about how the Chinese walls will operate and about the conflicts of interests within the Welsh Government in relation to consenting to energy projects on land that it owns. Will the Minister explain how those Chinese walls will operate and what safeguards will be put in place, particularly in light of the Seaport Investments case, which did not include the ownership or the management of consenting along with the Forestry Commission in Northern Ireland being in the same body? The Welsh Conservatives are urging the Minister to recognise the concerns of the forestry industry to avoid repeating the mistakes of past mergers and to protect the interests of one of Wales's most sustainable and successful industries.

O ran y gweithdrefnau llywodraethu y soniodd William Powell amdanynt, bu hynny eto'n bryder mawr a fynegwyd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae pryderon penodol ynghylch sut y bydd y muriau diadlam yn gweithio ac ynghylch y gwrthdaro buddiannau o fewn Llywodraeth Cymru o ran rhoi caniatâd i brosiectau ynni ar dir y mae'n berchen arno. A wnaiff y Gweinidog egluro sut y bydd y muriau diadlam yn gweithio a pha gamau diogelu fydd yn cael eu rhoi ar waith, yn enwedig yng ngoleuni achos Seaports Investments, nad oedd yn cynnwys y berchnogaeth na'r rheolaeth cydsynio ynghyd â'r Comisiwn Coedwigaeth yng Ngogledd Iwerddon gan ei fod yn yr un corff? Mae Ceidwadwyr Cymru yn annog y Gweinidog i gydnabod pryderon y diwydiant coedwigaeth er mwyn osgoi ailadrodd camgymeriadau uno'r gorffennol er mwyn diogelu buddiannau un o ddiwydiannau mwyaf cynaliadwy a llwyddiannus Cymru.

**Sandy Mewies:** I will try to be extremely brief, because lots of comments have already been made. It was excellent to see so many responses to the consultation process, and I look forward to seeing how, in practice, it

**Sandy Mewies:** Ceisiaf fod yn gryno iawn, oherwydd gwnaed nifer o sylwadau eisoes. Roedd yn rhagorol gweld cymaint o ymatebion i'r broses ymgynghori, ac edrychaf ymlaen at weld sut y bydd yn cael ei

will be taken forward. You will be aware, Minister, that I have raised concerns on behalf of several organisations, not only the Forestry Commission but others as well, which say that the single body must protect and enhance biodiversity, build in flexibility for the new body to deliver an integrated approach to biodiversity and ecosystems, and recognise that biodiversity has an intrinsic value. Needless to say, the new body should engage effectively with all stakeholders, such as wildlife trusts and the north Wales branch of Butterfly Conservation, which also made observations that I put forward to you. All that I am asking is this: will there be a way, as this comes into being and goes on stream, of monitoring the situation to assure people that the fears that have been raised have not been realised and of continuing to talk to people so they can have real faith in what we are doing? I am sure that they will, because the consultation process has been excellent, but could we continue to monitor what is happening?

ddatblygu'n ymarferol. Gwyddoch, Weinidog, fy mod wedi mynegi pryderon ar ran sawl sefydliad, nid yn unig y Comisiwn Coedwigaeth, ond eraill yn ogystal, sy'n dweud y dylai'r un corff amgylcheddol warchod a gwella bioamrywiaeth, y dylai gael yr hyblygrwydd i ddarparu ymagwedd integredig tuag at fioamrywiaeth ac ecosystemau, ac y dylai gydnabod bod gan fioamrywiaeth werth cynhenid. Afraid dweud, dylai'r corff newydd ymwneud yn effeithiol â'r holl randdeiliaid, megis ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a changen gogledd Cymru o Butterfly Conservation, a wnaeth sylwadau hefyd, y rhoddais i chi. Y cyfan yr wyf yn ei ofyn yw hyn: a fydd modd, wrth i'r corff ddod i fodolaeth a dechrau ar ei waith, monitro'r sefyllfa i roi sicrwydd i bobl nad yw'r ofnau a godwyd wedi cael eu gwireddu a pharhau i siarad â phobl fel bod ganddynt ffydd wirioneddol yn yr hyn yr ydym yn ei wneud? Rwyf yn siŵr y byddant, oherwydd bu'r broses ymgynghori yn rhagorol, ond a allwn barhau i fonitro'r hyn sy'n digwydd?

**Elin Jones:** Byddaf yn siarad y prynhawn yma ar faterion sydd yn ymwneud â'r Comisiwn Coedwigaeth. Mewn egwyddor, roedd hi'n berffaith briodol i ystyried rôl y Comisiwn Coedwigaeth mewn perthynas ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn enwedig yr egwyddor o ddatganoli'r Comisiwn Coedwigaeth yn llwyr. Fodd bynnag, roedd opsiynau amgen posibl i'r Comisiwn Coedwigaeth, yn benodol yr opsiwn iddo ddod yn adran lawn o Lywodraeth Cymru—i bob pwrpas yn adran goedwigaeth y Llywodraeth. Y penderfyniad heddiw yw uno'r tri chorff y tu allan i'r Llywodraeth o fis Ebrill nesaf ymlaen.

**Elin Jones:** I will be talking this afternoon about issues that relate to the Forestry Commission. In principle, it was perfectly appropriate to consider the role of the Forestry Commission together with the Environment Agency and the Countryside Council for Wales, especially the principle of devolving the Forestry Commission completely. However, there were other possible options for the Forestry Commission, in particular, the option for it to become a full department of the Welsh Government—to all extents and purposes the Government's forestry department. The decision today is to merge the three bodies outside the Government from next April.

Wrth greu'r cwango newydd hwn, mae'n bwysig bod adain fasnachol y Comisiwn Coedwigaeth yn cadw'i min masnachol. Nid wyf yn credu bod creu'r corff newydd yn fygythiad o anghenrhaid gan fod y Comisiwn Coedwigaeth yn ei ffurf bresennol, i bob pwrpas, yn gorff cyhoeddus, ond mae angen i'r Gweinidog sefydlu strwythur sy'n caniatàu i'r elfen fasnachol hon barhau. Mae'r Llywodraeth yn berchen adnodd coedwigaeth enfawr yng Nghymru ac mae angen i'r adnodd hwnnw gynhyrchu *return*

In creating this new quango, it is important that the commercial side of the Forestry Commission maintains its commercial edge. I do not believe that the creation of the new body is a threat to that necessarily because the Forestry Commission in its current form, to all extents and purposes, is a public body, but the Minister must establish a structure that permits that commercial element to continue. The Government owns a huge forestry resource in Wales and that resource needs to produce a financial return for the

ariannol i'r Llywodraeth. Mae rôl y Comisiwn Coedwigaeth a'r staff masnachol i wneud hynny yn hollbwysig.

Government. The role of the Forestry Commission and the commercial staff in doing so is crucial.

Yn ei ymateb, efallai gall y Gweinidog gadarnhau beth fydd perthynas y corff newydd â phencadlys Prydeinig presennol y Comisiwn Coedwigaeth, sydd yng Nghaeredin. A fydd unrhyw berthynas yn aros? Beth fydd rôl y Comisiwn Coedwigaeth Prydeinig, os mai dyna'r ffordd o'i ddisgrifio, neu a fydd y corff newydd yn comisiynu ambell wasanaeth penodol yn unig o'r pencadlys presennol yng Nghaeredin?

In his response, perhaps the Minister will confirm what relationship the new body will have with the current British headquarters of the Forestry Commission, which is in Edinburgh. Will any relationship remain? What role will be played by the British Forestry Commission, if that is the way to describe it, or will the new body only commission some specific services from the current headquarters in Edinburgh?

Wrth uno'r tri chorff hyn, mae angen bod yn glir am berthynas a phwrpas y corff newydd, a hefyd bod yn glir y bydd sefydlu'r corff newydd yn gost effeithiol fel na fydd yn fwy costus i'r Llywodraeth na chadw'r tri chorff unigol. Soniodd y Gweinidog yn ei gyflwyniad y bydd yn cyflwyno'r Gorchymyn yn y mis nesaf i greu'r corff newydd. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr asesiad rheoleiddiol a fydd yn cydredeg â'r Gorchymyn yn amlinellu'n glir y costau a fydd yn cael eu harbed o greu'r corff newydd hwn. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod am fod yn hyderus wrth benderfynu drwy bleidlais ar y Gorchymyn hwn fod arbedion sylweddol o ran y costau i'w cael.

In merging these three bodies, there is a need to be clear about the relationship and the purpose of the new body, and also to be clear that the establishment of the new body will be cost effective so that it will not be more expensive for the Government than maintaining three separate bodies. The Minister mentioned in his introductory remarks that he will table an Order next month to create the new body. I very much hope that the regulatory assessment that will accompany that Order will outline clearly the savings that will be made as a result of the creation of this new body. I am sure that every Member would like to be confident when deciding on this Order and voting on it that significant savings will be made.

Pwysleisiodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yr angen i roi gwybodaeth ar fyrder i staff ynglŷn â rhai o'r risgiau ariannol a'r risgiau i'w telerau a'u pensiynau yn benodol oherwydd y broses uno. Hyd yn hyn, yn ôl fy nealltwriaeth i, nid yw staff y Comisiwn Coedwigaeth wedi derbyn gwybodaeth gyflawn am y sefyllfa o ran eu pensiynau o fis Ebrill ymlaen. Ar hyn o bryd, mae staff y comisiwn a staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn aelodau o gynllun pensiynau'r gwasanaeth sifil. Eu pryder yw y gallent gael eu gorfodi i ymuno â chynllun pensiynau llywodraeth leol ac y byddai hynny'n niweidiol iawn i'w telerau pensiwn. Rwy'n siŵr nad yw'r Gweinidog am weld israddio telerau staff fel rhan o'r broses gyfuno hon. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hala llythyr at yr holl staff heddiw. Dywedodd y byddai'n edrych i ddiogelu'r *accrued entitlements* ar gyfer pensiynau'r staff, ond, wrth gwrs, mae gan staff

The Environment and Sustainability Committee emphasised the need to give information to staff promptly about some of the financial risks and the risks to their terms and conditions and pensions specifically because of the merger process. Thus far, as I understand it, Forestry Commission staff have not received full information about the situation in terms of their pensions from April onwards. At the moment, commission staff and CCW staff are members of the civil service pension scheme. Their concern is that they could be forced to join the local government pension scheme and that that would be greatly damaging to the terms and conditions of their pensions. I am sure that the Minister does not wish to see the downgrading of the terms and conditions of staff as a part of this merger process. The Minister said that he would send a letter to all staff today. He said that he would look to protect accrued entitlements for staff

ddisgwyliadau o ran eu pensiynau i'r dyfodol ac rwyf am gael sicrwydd ganddo na fydd yr elfen honno yn cael ei hisraddio ychwaith yn ystod y broses hon.

pensions, but, of course, staff have expectations in terms of their pensions for the future and I want an assurance from him that that element will also not be downgraded during this process.

Byddwn wedi clywed yn y Siambr y prynhawn yma a chyn heddiw *pitch* Alun Ffred Jones i gael pencadlys y corff newydd hwn ym Mangor neu ar lan yr Afon Menai. Gallwn innau wneud *pitch* tebyg ar gyfer Aberystwyth. Fy mhwynt penodol ar gyfer Aberystwyth yw ein bod am weld swyddi'r swyddogion sydd yn gweithio yn yr ardal honno, neu ym mha le bynnag maent yn gweithio ar hyd a lled Cymru, yn cael eu diogelu yn yr ardaloedd hynny, ynghyd â'r swyddogaethau maent yn eu cyflawni. Hefyd, os yw'r Gweinidog yn symud ymlaen i hysbysebu am brif weithredwr, mae eisiau penderfyniad gweddol gynnar ynglŷn â lleoliad pencadlys y corff newydd hwn.

We will have heard in the Chamber this afternoon, and previously, Alun Ffred Jones's pitch for the headquarters of this new body to be based in Bangor or on the banks of the Menai. I could also make a similar pitch for Aberystwyth. My specific point in relation to Aberystwyth is that we want to see the jobs of the officers who work in that area, or wherever they are based across Wales, being safeguarded in those areas, along with the functions that they perform. Also, if the Minister moves to advertise for a chief executive, a relatively early decision needs to be made about the location of the headquarters of this new body.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I begin by thanking Members for their contributions and for their general support for the decision to proceed with a single environment body. Many issues have been raised, and I will respond to as many as I can within the available time, particularly those that have been raised by a number of Members. However, I would, as I have said, first like to welcome the general support for the decision to proceed and for the principle and concept of a single environment body.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Dechreuaf drwy ddiolch i Aelodau am eu cyfraniadau ac am eu cefnogaeth gyffredinol i'r penderfyniad i fwrw ymlaen gydag un corff amgylcheddol. Codwyd nifer o faterion, a byddaf yn ymateb i gynifer ag y gallaf o fewn yr amser sydd ar gael, yn enwedig y rhai a godwyd gan nifer o Aelodau. Fodd bynnag, fel y dywedais, hoffwn yn gyntaf groesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r penderfyniad i fwrw ymlaen â hyn ac i'r egwyddor a'r cysyniad o gael un corff amgylcheddol.

Many of the concerns have centred on the forestry element of a new single environment body and the current Forestry Commission Wales. While we have aired these issues in the past, I understand that there are continuing concerns, and they are ones that I share. We want to ensure not only that the commercial experience and expertise present in Forestry Commission Wales is not just retained, but is further developed so that it informs the whole of the new single environment body. There will be a clear forestry function for the new body, and I think that it is important to state that. Indeed, Forestry Commission staff would be around 20% of the total number of staff for the single body. Other safeguards are in place, such as sustainable forest management certification,

Roedd nifer o'r pryderon yn canolbwyntio ar yr elfen goedwigaeth o un corff amgylchedd newydd a'r Comisiwn Coedwigaeth Cymru presennol. Er ein bod wedi sôn am y materion hyn yn y gorffennol, rwyf yn deall fod pryderon parhaus, ac maent yn rhai yr wyf yn eu rhannu. Rydym am sicrhau nid yn unig bod y profiad a'r arbenigedd masnachol yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei gadw, ond ei fod hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach fel ei fod yn llywio gwaith yr un corff amgylcheddol newydd yn ei gyfanrwydd. Bydd swyddogaeth goedwigaeth glir i'r corff newydd, a chredaf ei bod yn bwysig dweud hynny. Yn wir, staff y Comisiwn Coedwigaeth fyddai i gyfrif am tua 20% o gyfanswm staff y corff. Mae mesurau diogelu eraill ar waith, fel yr

which has both economic and environmental requirements. We will continue to adhere to those requirements.

ardystiad rheoli coedwig yn gynaliadwy, sydd â gofynion economaidd ac amgylcheddol. Byddwn yn parhau i gadw at y gofynion hynny.

5.15 p.m.

In terms of the board itself, obviously it is open to forestry commissioners to apply, but we go through a public appointments process and it is not possible to pre-empt any of that. There are necessary processes that will rightly be observed.

O ran y bwrdd ei hun, mae'n amlwg bod aelodaeth yn agored i gomisiynwyr coedwigaeth wneud cais, ond rydym yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus, ac nid oes modd achub y blaen ar hynny. Mae prosesau angenrheidiol yn bodoli a fydd yn cael eu dilyn yn briodol.

Many Members mentioned issues around the staff of the current three bodies, and, of course, change of this magnitude is unsettling.

Mae nifer o Aelodau wedi crybwyll materion yn ymwneud â staff y tri chorff presennol ac, wrth gwrs, mae newid o'r maint hwn yn gythryblus.

**Kirsty Williams:** Before you move on from the issue of forestry, you have heard around the Chamber significant concern about whether this new organisation will represent the needs of the forestry industry adequately. There is no reason why a place on the board could not be identified specifically for that purpose. Could you not reconsider your decision not to explicitly state that the forestry industry will be represented at board level, and give that guarantee today? It would go a long way towards reassuring those who have genuine concerns.

**Kirsty Williams:** Cyn ichi symud ymlaen o fater coedwigaeth, rydych wedi clywed y pryder sylweddol yn y Siambr ynghylch a fydd y sefydliad newydd hwn yn cynrychioli anghenion y diwydiant coedwigaeth yn ddigonol. Nid oes dim rheswm pam na ellid cael lle ar y bwrdd yn benodol ar gyfer y diben hwnnw. Oni allech ailystyried eich penderfyniad i beidio â datgan yn glir y bydd y diwydiant coedwigaeth yn cael ei gynrychioli ar y bwrdd, a rhoi'r sicrwydd hwnnw inni heddiw? Byddai'n mynd yn bell at gysuro'r rhai sydd â phryderon gwirioneddol.

**John Griffiths:** What I can say at this stage is that, although it is not right or proper to pre-empt the public appointments process, and we all know the requirements of that process, we will be keen to ensure that there is adequate representation of forestry on the board. So, although I cannot give the specific reassurance that the Member seeks, having representation of forestry interests will be uppermost in our minds as we go through the process. I think that we have made that clear all along.

**John Griffiths:** Yr hyn y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw, er nad yw'n gywir nac yn briodol achub y blaen ar y broses penodiadau cyhoeddus, ac rydym i gyd yn gwybod beth yw gofynion y broses honno, y byddwn yn awyddus i sicrhau bod coedwigaeth yn cael ei chynrychioli'n ddigonol ar y bwrdd. Felly, er na allaf roi'r sicrwydd penodol y mae'r Aelod yn ei geisio, bydd cael cynrychiolaeth o fuddiannau coedwigaeth ar flaen ein meddyliau wrth inni fynd drwy'r broses. Credaf ein bod wedi gwneud hynny'n glir ar hyd yr amser.

Getting back to the staff elements, I very much recognise, as I started to say, the concerns of staff. When you have change of this magnitude it is very unsettling. We are just about to start a work stream that will closely involve staff in the process of change,

O fynd yn ôl at yr elfennau'n ymwneud â'r staff, rwy'n cydnabod pryderon y staff, fel y dechreuais ddweud. Mae newid o'r maint hwn yn gythryblus iawn. Rydym ar fin dechrau ffrwd waith a fydd yn cynnwys y staff yn y broses o newid, a chredaf y bydd

which I think will go a long way towards allaying some of those concerns. I recognise the issues around pensions; obviously, they are absolutely crucial to people. There are UK Cabinet Office stipulations and requirements that are relevant here, but I have met the trade unions and I hope to do so again next week to ensure that we work through this process of change together and offer necessary further reassurance to staff.

yn mynd yn bell tuag at leddfu rhai o'r pryderon hynny. Rwy'n cydnabod y materion sy'n ymwneud â phensiynau; mae'n amlwg eu bod yn gwbl hanfodol i bobl. Mae rhai amodau a gofynion gan Swyddfa Gabinet y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol yma, ond rwyf wedi cwrdd â'r undebau llafur ac rwy'n gobeithio gwneud hynny eto yr wythnos nesaf i sicrhau ein bod yn cydweithio ar y broses o newid ac yn cynnig sicrwydd pellach angenrheidiol i'r staff.

In terms of the vision and the values, which a number of people have raised, and rightly so, in relation to what this new single environment body will be all about, those concerns around biodiversity, ecosystems and our natural resources and making sure that they are centre stage in the new body are very important indeed. I think that we have been clear—and this goes to the debate that Members mentioned on form and function—about the ecosystems approach. We want to join up and integrate our natural resource approach, and that is very much the key rationale for a single environment body. The same is true of a clear Wales focus, which goes to some of the issues around expertise in the UK forestry set-up as it is currently comprised. There will be service-level agreements to ensure that we continue to access that expertise and experience, but there will also be a clear Wales focus for the new body, very much in line with devolution. The third leg of the case for a single environment body is about value for money and effectiveness, and this goes to the business case issues that were mentioned, and whether this will, as we often mention, give us more bang for our buck. I think that is clearly the case.

O ran y weledigaeth a'r gwerthoedd, fel y mae nifer o bobl wedi crybwyll, a hynny'n briodol, o ran yr hyn y bydd yr un corff amgylcheddol newydd yn ymwneud ag ef, mae'r pryderon ynghylch bioamrywiaeth, ecosystemau a'n hadnoddau naturiol a gwneud yn siŵr eu bod yn ganolog i'r corff newydd, yn bwysig iawn. Credaf ein bod wedi bod yn glir—ac mae hyn yn cyfeirio at y drafodaeth y soniodd yr Aelodau amdani ynghylch ffurf a swyddogaeth—am y dull ecosystemau. Rydym am gydgysylltu ac integreiddio ein dull o drin ein hadnoddau naturiol, a dyna yw'r brif resymeg dros gael un corff amgylcheddol. Mae'r un peth yn wir am gael ffocws clir i Gymru, sy'n ymwneud â rhai o'r materion ynghylch arbenigedd yn nhrefn coedwigaeth y Deyrnas Unedig fel y mae ar hyn o bryd. Bydd cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio'r arbenigedd a'r profiad hwnnw, ond bydd hefyd ffocws clir ar Gymru i'r corff newydd, yn unol â datganoli. Mae trydedd ran yr achos dros gael un corff amgylcheddol yn ymwneud â gwerth am arian ac effeithiolrwydd, ac mae hyn yn ymwneud â'r materion achos busnes y soniwyd amdanynt, ac a fydd hyn, fel yr ydym yn sôn yn aml, yn rhoi mwy o werth i ni am ein harian. Credaf mai dyna'n amlwg yw'r achos.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae'r pwynt wedi ei wneud yn y ddadl hon yn barod, a dymunaf ei bwysleisio yn unig. Wrth i ni fel Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd edrych ar yr achos busnes, daethom â mwy o gonsýrn, a dweud y gwir, am allu corff newydd i weithredu'r amcanion naturiol yn nhermau rheoli amgylchedd Cymru yn briodol, ar hyd llinellau 'Cynnal Cymru Fyw'. Felly, mae gwerth am arian i ni fel pwyllgor yn sicr yn golygu gwerth y gallu i

**Lord Elis-Thomas:** The point has been made in this debate already, and I just want to emphasise it. As we as the Environment and Sustainability Committee looked at the business case, we had greater concern, to be honest, about the ability of the new body to implement the natural objectives in terms of managing the environment of Wales appropriately, along the lines of 'Sustaining a Living Wales'. Therefore, value for us as a committee means the value of being able to

wneud hynny, ac nid dim ond arbedion ar sail y tri chorff blaenorol.

do that, and not just savings on the basis of the three previous bodies.

**John Griffiths:** I accept that absolutely. In achieving better value for money, we free-up further resource for the front line. It is about that ecosystem approach, and 'Sustaining a Living Wales' spells that out.

**John Griffiths:** Rwy'n derbyn hynny'n llwyr. Wrth sicrhau gwell gwerth am arian, rydym yn rhyddhau rhagor o adnoddau ar gyfer y rheng flaen. Mae'n ymwneud â'r dull ecosystem, ac mae 'Cynnal Cymru Fyw' yn manylu ar hynny.

What also significantly featured in Members' points were the necessary Chinese walls and safeguards, so that we separate the operational and regulatory work of the new single body. That is very much recognised in the work that we have done to date and we will continue with that approach into the future. It will be appropriate—

Rhywbeth arall a gafodd sylw helaeth ym mhwyntiau'r Aelodau oedd sicrhau bod y waliau Tseiniaidd a'r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith, fel ein bod yn gwahanu gwaith gweithredol a gwaith rheoleiddiol yr un corff newydd. Caiff hynny ei gydnabod yn bendant iawn yn y gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma a byddwn yn parhau â'r ymagwedd honno i'r dyfodol. Bydd yn briodol—

**Nick Ramsay** *rose—*

**Nick Ramsay** *a gododd***—**

**The Deputy Presiding Officer:** There is no time for an intervention.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes amser i wneud ymyriad.

**John Griffiths:** I will take the Deputy Presiding Officer's advice on the intervention.

**John Griffiths:** Derbyniaf gyngor y Dirprwy Lywydd ar yr ymyriad.

It will be appropriate to separate environmental appraisal from operational work in that regard, and we will ensure that that is the case.

Bydd yn briodol gwahanu arfarniad amgylcheddol oddi wrth y gwaith gweithredol yn hynny o beth, a byddwn yn sicrhau mai dyna sy'n digwydd.

To conclude, it is up to us, as we take forward the Orders later this year, to return to the aims of the new body and the joined-up approach that Members clearly support and which has been integral to the way that we have taken this forward. I believe that the consultation process has indicated a clear way forward and I look forward to next April and a new beginning for the management of and responsibility for our environment and natural resources.

I gloi, mater i ni, wrth i ni fwrw ymlaen â'r Gorchmynion yn ddiweddarach eleni, yw dychwelyd at amcanion y corff newydd a'r dull cydgysylltiedig y mae'n amlwg bod yr Aelodau yn ei gefnogi ac sydd wedi bod yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym wedi bwrw ymlaen â hyn. Credaf fod y broses ymgynghori wedi dangos ffordd glir ymlaen ac rwy'n edrych ymlaen at fis Ebrill nesaf a dechreuad newydd ar gyfer rheoli a chyfrifoldeb dros ein hadnoddau amgylcheddol a naturiol.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly datganaf fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Are there any objections? I see that there are none, therefore I declare amendment 1 agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly datganaf fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Are there any objections? I see that there are none, therefore I declare amendment 2 agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 3. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

**The Deputy Presiding Officer:** Before we proceed to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn symud ymlaen at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 3 i NDM4891: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.*
*Amendment 3 to NDM4891: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.

Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4891: O blaid 58, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4891: For 58, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William

Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4891: O blaid 14, Ymatal 5, Yn erbyn 39.*
*Amendment 5 to NDM4891: For 14, Abstain 5, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:

The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4891: O blaid 58, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM4891: For 58, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled

Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM4891: O blaid 58, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 7 to NDM4891: For 58, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick

Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4891 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4891 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' ynghylch y cynnig i ddatblygu un corff i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.*

*Notes the results of the 'Natural Resources Wales' consultation with regard to the proposal to develop a single body for natural resource management in Wales.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon y sector coedwigaeth a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.*

*Calls on the Welsh Government to address the concerns of the forestry sector expressed in the consultation responses.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arbenigedd masnachol y sector coedwigaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn nhrefniadaeth unrhyw un corff amgylcheddol newydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.*

*Calls on the Welsh government to ensure that the commercial expertise of the forestry sector is adequately reflected in the organisation of any new single environment body, as was recommended by the Environment and Sustainability Committee in its report into the business case for a single environment body, laid in the Table Office on 27 April 2012.*

*Yn nodi pryderon presennol sector coedwigaeth Cymru o ran creu'r un corff amgylcheddol.*

*Notes the current concerns that the Welsh forestry sector has with the creation of the single environment body.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arbenigedd masnachol yn y sefydliad newydd.*

*Calls upon the Welsh Government to ensure the presence of sufficient commercial expertise in the new organisation.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o drefniadau diogelu yn yr un corff amgylcheddol petai gwrthdaro mewn buddiannau rhwng y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno a'r trefniadau caniatáu ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.*

*Calls on Welsh Government to ensure that there are sufficient safeguards in the single environment body where there is a conflict of interest between Welsh Government's land ownership and consenting arrangements for energy projects on that land.*

*Cynnig NDM4891 fel y'i diwygiwyd: O blaid 58, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4891 as amended: For 58, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4891 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4891 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I ask those Members leaving the Chamber to please do so quickly and quietly.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

## Dadl Fer
## Short Debate

### Cyfranogaeth a Grymuso yn Nyfodol Gwasanaethau Gofal yng Nghymru—Mentrau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a Thaliadau Uniongyrchol
### Participation and Empowerment in the Future of Care Services in Wales—Co-Ops, Mutuals and Direct Payments

**Vaughan Gething:** I have agreed to give a minute of my time to Kirsty Williams and Mark Isherwood who have asked to contribute briefly to this short debate.

We often discuss in the Assembly the best way to support vulnerable adults who need care packages. There is, of course, a balance to be struck between the need to protect and have safeguards in place on the one hand, and a growing realisation and acceptance that a more enabling approach to care provides greater dignity and fulfilment to the individual on the other. I welcome the opportunity to take part in this continuing discussion. At its core, the discussion concerns what we, as a country, value about social care.

From the outset, I should pay tribute to the staff who work in this field across the public, private and third sectors. The work is demanding and usually not very well paid, but the vast majority of staff are committed to helping the people for whom they care. The relationships and trust that are created are an important factor in the value of the care that they provide. Conversely, a poorly organised care provider, providing a package of multiple different carers who change from week to week for the same person, is one of the most frustrating aspects of some private care and affects the quality of care provided. I have received many complaints on this point, as have other Members, I am sure.

**Vaughan Gething:** Rwyf wedi cytuno i roi munud o fy amser i Kirsty Williams a Mark Isherwood sydd wedi gofyn am gael cyfrannu'n fyr at y ddadl fer.

Yn aml yn y Cynulliad, rydym yn trafod y ffordd orau o gefnogi oedolion sy'n agored i niwed y mae arnynt angen pecynnau gofal. Wrth gwrs, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu a chael mesurau diogelwch, ar y naill law, a sylweddoli a derbyn gan fwy a mwy o bobl, fod ymagwedd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar alluogi ym maes gofal yn rhoi mwy o urddas a boddhad i'r unigolyn ar y llaw arall. Rwy'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth barhaus hon. Yn ei hanfod, mae'r drafodaeth yn ymwneud â'r hyn yr ydym ni, fel gwlad, yn ei werthfawrogi am ofal cymdeithasol.

O'r cychwyn cyntaf, dylwn dalu teyrnged i'r staff sy'n gweithio yn y maes hwn ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r gwaith yn anodd ac, fel arfer, nid yw'r tâl yn dda iawn, ond mae'r mwyafrif helaeth o'r staff wedi ymrwymo i helpu'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r berthynas a'r ymddiriedaeth sy'n cael eu meithrin yn ffactor pwysig yng ngwerth y gofal y maent yn ei ddarparu. I'r gwrthwyneb, mae darparwr gofal sydd wedi'i drefnu'n wael, sy'n darparu pecyn gofal sydd â nifer o ofalwyr gwahanol sy'n newid o wythnos i wythnos ar gyfer yr un person, yn un o'r agweddau mwyaf rhwystredig ar beth gofal preifat ac yn effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir. Rwyf wedi cael llawer o

gwynion ar y pwynt hwn, fel y mae Aelodau eraill rwy’n siŵr.

There must be a way between the dangers of an approach driven by the market and consumerism at one extreme and a top-down or one-size-fits-all approach at the other. Both extremes can lead to confusion and exclusion of the very people who should be our chief concern—the people who need that care and support to live as healthy and as socially engaged a life as possible.

Mae’n rhaid bod rhyw gyfaddawd rhwng peryglon ymagwedd sy’n cael ei hysgogi gan y farchnad a phrynwriaeth ar un ochr, ac ymagwedd ‘o’r brig i lawr’ neu ‘yr un fath i bawb’ ar yr ochr arall. Gall y ddau eithaf arwain at ddryswch ac eithrio’r union bobl a ddylai fod yn brif destun pryder inni—y bobl y mae arnynt angen y gofal a’r cymorth hwnnw i fyw bywyd mor iach a chymdeithasol ag sy’n bosibl.

In moving this debate, I should say that I do not seek an end to care provided by the public sector. Directly provided care will continue to be a part of our future. However, the individual and collective viewpoints need not be mutually exclusive. We have a long and rich history in Wales of mutuals and co-operatives in every sector. It is time to look more seriously towards these empowering models of organisation and ownership to deliver greater communal benefit and, at the same time, deliver greater personal enablement and independence.

Wrth symud y ddadl hon ymlaen, dylwn ddweud nad wyf am geisio rhoi terfyn ar ofal a ddarperir gan y sector cyhoeddus. Bydd gofal a ddarperir yn uniongyrchol yn parhau’n rhan o’n dyfodol. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i safbwynt yr unigolyn a’r safbwynt ar y cyd fod yn anghydnaws â’i gilydd. Mae gennym hanes hir a chyfoethog yng Nghymru o fentrau cydfuddiannol a chydweithredol ym mhob sector. Mae’n bryd edrych yn fwy o ddifrif ar y modelau hyn o drefniant a pherchnogaeth sy’n grymuso i ddarparu rhagor o fudd cymunedol ac, ar yr un pryd, sicrhau rhagor o alluogi ac annibyniaeth bersonol.

The future of social care is a big question, with social services supporting 150,000 people and a net expenditure on social services of about £1.4 billion. Its importance should not be underestimated, especially as the aspirations and ambitions of people who receive an element of care have changed significantly over the decades and will continue to change in future. Our continually ageing population—we are all going to live longer, we hope—guarantees a greater focus on this area in future.

Mae dyfodol gofal cymdeithasol yn gwestiwn mawr, gyda gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi 150,000 o bobl a gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol sydd tua £1.4 biliwn. Ni ddylid diystyru ei bwysigrwydd, yn enwedig gan fod dyheadau ac uchelgeisiau pobl sy’n cael elfen o ofal wedi newid yn sylweddol dros y degawdau a bydd yn parhau i newid yn y dyfodol. Mae ein poblogaeth sy’n heneiddio’n barhaus—rydym i gyd yn mynd i fyw’n hirach, gobeithio—yn gwarantu y bydd rhagor o ffocws ar y maes hwn yn y dyfodol.

We have already witnessed a major shift in the thinking behind the way that these services are provided, with greater focus on enabling, personalisation and a stronger sense of citizen control. That greater citizen engagement and direction is, of course, a key theme running through ‘Sustainable Social Services for Wales’ and the current Welsh Government’s social care Bill. However, extreme personalisation comes with a warning. On their own, personal budgets do

Rydym eisoes wedi gweld newid mawr yn y meddylfryd sydd wrth wraidd y ffordd y mae’r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu, gyda rhagor o ffocws ar alluogi, personoli ac ymdeimlad cryfach o reolaeth gan y dinesydd. Wrth gwrs, mae rhagor o ymgysylltiad a chyfeiriad gan ddinasyddion yn thema allweddol sy’n nodwedd ar ‘Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru’ a Bil gofal cymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae

not ensure that people have the opportunity and support to achieve the outcomes that they want. The risk is that individuals can be left feeling isolated. Taking decisions in what is, at present, an uncompetitive market could lead to disempowerment for them and their support workers. However, in my view, we should support the belief that social care must act in a way that strengthens a citizen's voice and allows people to have the maximum control over their lives. It is a matter of not simply providing, but enabling.

angen rhybuddio ynglŷn â phersonoli eithafol. Ar eu pen eu hunain, nid yw cyllidebau personol yn sicrhau bod gan bobl y cyfle a'r cymorth i gyflawni'r canlyniadau y mae arnynt eu heisiau. Y perygl yw y gall unigolion deimlo'n ynysig. Gallai gwneud penderfyniadau mewn marchnad sydd, ar hyn o bryd, yn anghystadleuol, arwain at ddadrymuso iddynt hwy a'u gweithwyr cymorth. Fodd bynnag, yn fy marn i, dylem gefnogi'r gred bod yn rhaid i ofal cymdeithasol weithredu mewn ffordd sy'n cryfhau llais y dinesydd ac sy'n galluogi pobl i gael y rheolaeth fwyaf posibl dros eu bywydau. Nid yn unig y mae'n fater o ddarparu, ond o alluogi.

5.30 p.m.

Since 1996, UK local authorities have been able to provide services by giving people direct cash payments. In Wales, direct payments are the only form of devolved payments available but only about 2% of social care is provided from direct payments at the moment. Those direct payments could help to provide greater citizen engagement by enabling a more adaptive and responsive approach to be taken to deal with changes in a person's life. However, having a personal budget does not guarantee independence and empowerment.

Ers 1996, mae awdurdodau lleol y DU wedi gallu darparu gwasanaethau drwy roi taliadau uniongyrchol i bobl. Yng Nghymru, taliadau uniongyrchol yw'r unig fath o daliadau datganoledig sydd ar gael ond dim ond tua 2% o ofal cymdeithasol a ddarperir o daliadau uniongyrchol ar hyn o bryd. Gallai'r taliadau uniongyrchol hynny helpu i gael mwy o ymgysylltu gan ddinasyddion drwy alluogi dull mwy addasol ac ymatebol i ymdrin â newidiadau mewn bywyd person. Fodd bynnag, nid yw cael cyllideb bersonol yn gwarantu annibyniaeth a grymuso.

A consumerist model has, if you like, a passive view of those who receive support. They become customers holding a personal budget to exercise choice in an open market of goods and services. There are a number of assumptions in that position about markets that work ideally, the nature of competition, purchasing power and choice, and the dissemination of information, to name but a few. Marketising direct payments or personal budgets can exacerbate isolation and erode social capital in the shape of friendships and community support networks. Increased economic risk can be placed squarely on the shoulders of individuals who have to navigate between providers, and that can be problematic and difficult, not to mention dangerous given the potential for a sporadic loss of support and care, especially if information and knowledge is not widely available and easily accessed. We all know that people who have a need for an element

Mae model prynwriaethol yn ystyried y rhai sy'n cael cymorth mewn modd goddefol. Maent yn dod yn gwsmeriaid sydd â chyllideb bersonol i arfer dewis mewn marchnad agored o nwyddau a gwasanaethau. Mae nifer o ragdybiaethau yn y sefyllfa honno am farchnadoedd sy'n gweithio mewn modd delfrydol, natur cystadleuaeth, pŵer prynu a dewis, a lledaenu gwybodaeth, i enwi ond ychydig. Gall marchnadeiddio taliadau uniongyrchol neu gyllidebau personol waethygu unigedd ac erydu cyfalaf cymdeithasol ar ffurf cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth cymunedol. Mae unigolion sy'n gorfod symud rhwng darparwyr yn agored i fwy o risg economaidd, a gall hynny fod yn broblem ac yn anodd, heb sôn am fod yn beryglus o ystyried y potensial ar gyfer colli cefnogaeth a gofal yn achlysurol, yn enwedig os nad yw gwybodaeth ar gael yn eang nac yn hygyrch. Rydym i gyd yn gwybod bod lefelau

of care have varying levels of capacity and ability. We know that the market does not care and that an unconditional trust in markets does not lead inevitably to the strength of competition over price and the driving up of the quality of goods and services. I am sure that we could all quote examples of an uncontrolled market leading to a race for the floor in cost terms, regardless of the impact on quality and safety.

amrywiol o allu gan bobl sydd angen elfen o ofal. Rydym yn gwybod nad yw'r farchnad yn poeni ac nad yw ymddiried yn ddiamod mewn marchnadoedd yn arwain yn anochel at gryfder cystadleuaeth dros bris a gwella ansawdd nwyddau a gwasanaethau. Rwy'n siŵr y gallai pob un ohonom ddyfynnu enghreifftiau o farchnad heb ei reoli yn arwain at ras at y llawr o ran cost, waeth beth yw'r effaith ar ansawdd a diogelwch.

The Government's White Paper recognises that social enterprise could play a larger role. Greater citizen control and choice can be achieved with mutual support and co-production, actively supporting people to play a role within their community. I believe that there is a case for co-operative and mutual models to provide social care with a collective model that strengthens the democratic decision-making of the individual who is receiving the care. The greater power and potential of co-ops and mutuals could act as a market stimulus locally. With the right support and power in numbers in an inclusive manner, they could help to transform communities.

Mae Papur Gwyn y Llywodraeth yn cydnabod y gallai mentrau cymdeithasol chwarae rhan fwy. Gall dinasyddion gael mwy o reolaeth a dewis gyda chydgefnogaeth a chyd-gynhyrchu, gan gefnogi pobl i chwarae rhan yn eu cymuned. Rwy'n credu bod achos dros gael modelau cydweithredol a chydfuddiannol i ddarparu gofal cymdeithasol gyda model cyfunol sy'n cryfhau penderfyniadau democrataidd yr unigolyn sy'n cael y gofal. Gallai pŵer ychwanegol mentrau cydweithredol a chydfuddiannol weithredu fel ysgogiad i'r farchnad leol. Gyda'r cymorth cywir a'r pŵer mewn niferoedd mewn modd cynhwysol, gallent helpu i drawsnewid cymunedau.

We know that domestic and residential care is already delivered by mutual and co-operative models in many jurisdictions, including in Quebec, the Netherlands, France and Italy to name a few, and in much larger proportions than in this country. Those models include service user owned models, hybrid models where workers and citizens own elements in a co-op or a mutual, and, in England, Sunshine Care in Rochdale and the Social Work Co-operative based in North Shields are examples of successful worker-owned co-operatives.

Gwyddom fod gofal yn y cartref a gofal preswyl eisoes yn cael ei ddarparu gan fodelau cydfuddiannol a chydweithredol mewn nifer o awdurdodaethau, gan gynnwys Quebec, yr Iseldiroedd, Ffrainc a'r Eidal, i enwi ond ychydig, ac mewn cyfran llawer uwch nag yn y wlad hon. Mae'r modelau hynny yn cynnwys modelau sy'n eiddo i'r defnyddiwr gwasanaeth, modelau hybrid lle mae gweithwyr a dinasyddion yn berchen ar elfennau mewn menter gydweithredol neu gydfuddiannol, ac, yn Lloegr, mae Sunshine Care yn Rochdale a'r Social Work Co-operative yn North Shields yn enghreifftiau o fentrau cydweithredol llwyddiannus sy'n eiddo i'r gweithwyr.

Evidence from the Social Care Institute for Excellence suggests that local authority commissioning has not provided the depth and quality from the current market of social care providers for direct payments to achieve a genuine choice in provision. That absence of choice is exacerbated by geographic and population factors across Wales.

Mae tystiolaeth gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn awgrymu nad yw comisiynu gan awdurdodau lleol wedi darparu digon o ddyfnder ac ansawdd oddi wrth y farchnad bresennol o ddarparwyr gofal cymdeithasol er mwyn i daliadau uniongyrchol sicrhau dewis gwirioneddol o ddarpariaeth. Mae'r diffyg dewis hwnnw yn cael ei waethygu gan ffactorau daearyddol a phoblogaeth ledled Cymru.

Disabled consumers are a sizeable element of the current market, representing approximately £80 billion of the payments across the UK at present. This is not purely a matter of monetary clout, though. The inherent structure of co-operatives and mutuals promote and offer greater support, with a forum for social networks to be developed. Promoting that social value and quality is the motivating concern, rather than purely maximising financial gain.

Mae defnyddwyr anabl yn elfen sylweddol o'r farchnad bresennol ac maent yn cynrychioli tua £80 biliwn o'r taliadau ledled y DU ar hyn o bryd. Nid yw hyn yn fater o rym ariannol yn unig, fodd bynnag. Mae strwythur cynhenid mentrau cydweithredol a chydfuddiannol yn hyrwyddo ac yn cynnig mwy o gymorth, gyda fforwm ar gyfer datblygu rhwydweithiau cymdeithasol. Hyrwyddo'r gwerth a'r ansawdd cymdeithasol hwnnw yw'r pryder ysgogol, yn hytrach na dim ond gwneud yr elw mwyaf.

Scope's recently published paper 'Individualism versus Collectivism in Care' addresses the range of challenges facing us in relation to individual aspiration for greater control and involvement in care. Its paper makes a clear recommendation that co-operative and mutual models should be actively promoted in preference to the simple direct-payment model pursued in some parts of England. Scope's three recommendations for the Welsh Government were as follows. First, the Welsh Government should create a pilot scheme to explore collective models, including mutuals and co-ops, of direct payments. It wants those to be directed by a designated lead within the Welsh Government, and to have a task and finish group to scrutinise their work. Secondly, it wants to establish a growth fund—and, of course, money is always a factor—to support those pilot schemes and to help to stimulate the exploration of a new market based on community and collective benefit. Thirdly, it looked for the independent evaluation of any pilot schemes that proceed. Obviously, we would like to see robust evaluation if it is to be at all meaningful.

Mae'r papur 'Unigoliaeth neu Gyfunoliaeth ym Maes Gofal', a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Scope, yn amlinellu'r ystod o heriau sy'n ein hwynebu mewn perthynas â dyhead unigolion ar gyfer mwy o reolaeth a chyfranogiad mewn gofal. Mae'r papur yn gwneud argymhelliad clir y dylai modelau cydweithredol a chydfuddiannol gael eu hyrwyddo yn hytrach na model syml taliadau uniongyrchol sy'n cael ei ddilyn mewn rhai rhannau o Loegr. Roedd tri argymhelliad Scope ar gyfer Llywodraeth Cymru fel a ganlyn. Yn gyntaf, dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun peilot i archwilio modelau ar y cyd ar gyfer taliadau uniongyrchol, gan gynnwys mentrau cydfuddiannol a chydweithredol. Mae am i'r rheini gael eu cyfarwyddo gan arweinydd dynodedig yn Llywodraeth Cymru, ac maent am gael grŵp gorchwyl a gorffen i graffu ar eu gwaith. Yn ail, mae am sefydlu cronfa dwf—ac, wrth gwrs, mae arian bob amser yn ffactor—i gefnogi'r cynlluniau peilot hynny ac i helpu i ysgogi'r broses o archwilio marchnad newydd yn seiliedig ar fuddiannau cymunedol a chydweithredol. Yn drydydd, roedd am weld unrhyw gynllun peilot sy'n mynd rhagddo yn cael ei werthuso'n annibynnol. Yn amlwg, byddem yn hoffi gweld gwerthusiad cadarn os ydym am iddo fod yn ystyrlon.

I will finish by saying that, in my view—and I am sure that this will be shared by many others—care should not be something that happens to people; it should help to enable people to have greater value for their own life. I look forward to hearing the response of the Deputy Minister on the role that the Government sees for greater co-operative

Rwyf am gloi drwy ddweud—ac rwy'n siŵr y bydd nifer o bobl yn rhannu'r teimlad hwn—fy mod yn credu na ddylai gofal fod yn rhywbeth sy'n digwydd i bobl; dylai helpu i alluogi pobl i gael gwell gwerth am eu bywydau eu hunain. Edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Dirprwy Weinidog am y rôl y mae'r Llywodraeth yn ei weld ar gyfer

engagement and on what the Government can do to support that as part of the future of social care in Wales.

mwy o ymgysylltu cydweithredol ac am yr hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i gefnogi hynny fel rhan o ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** I thank Vaughan Gething for this thought-provoking debate today. The content of the debate demonstrates how far we have moved along in the consideration of how social care is commissioned and provided. I am greatly heartened by his belief that the service user should have a greater role in deciding what their care can be. I have been continually frustrated to hear the experiences of my constituents who had little say about who came into their homes, who carried out the most intimate of tasks when looking after them, and when they came, and to hear about the failure by both the public and private sectors to provide a continuum and a consistency of care to which the person aspired.

**Kirsty Williams:** Diolch i Vaughan Gething am y ddadl hon heddiw, sy’n ysgogi’r meddwl. Mae cynnwys y ddadl yn dangos pa mor bell rydym wedi symud ymlaen o ran ystyried sut y mae gofal cymdeithasol yn cael ei gomisiynu a’i ddarparu. Rwyf wedi cael fy nghalonogi’n fawr gan ei gred y dylai defnyddwyr gwasanaeth gael mwy o rôl wrth benderfynu am eu gofal. Rwyf wedi teimlo’n rhwystredig droeon wrth glywed profiadau fy etholwyr nad oedd ganddynt fawr o ddewis ynghylch pwy ddaeth i mewn i’w cartrefi, pwy wnaeth y tasgau mwyaf personol wrth ofalu amdanynt, a phryd y daethant, ac i glywed am fethiant y sectorau cyhoeddus a phreifat i ddarparu continwwm a chysondeb o ran y gofal yr oedd y person yn dyheu amdano.

Vaughan, you have talked today about collectivism and co-operative models, and these can provide part of the answer to some of the challenges facing us in overcoming some of the problems that people on your benches have had in the past about the greater individualisation of care and ensuring that the voices of service users are heard. If this model provides the space for the Deputy Minister to move forward with greater advancements of direct payments, I would welcome it very much indeed.

Vaughan, rydych wedi siarad heddiw am fodelau cydberchnogaeth a chydweithredol, a gall y rhain ddarparu rhan o’r ateb i rai o’r heriau sy’n ein hwynebu wrth oresgyn rhai o’r problemau y mae pobl ar eich meinciau wedi’u cael yn y gorffennol o ran mwy o unigoleiddio mewn gofal ac o ran sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu clywed. Os yw’r model hwn yn rhoi’r cyfle i’r Dirprwy Weinidog symud ymlaen gyda’r defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol, byddwn yn ei groesawu’n fawr iawn.

**Mark Isherwood:** Two weeks ago, I had the pleasure of standing in for Vaughan Gething and chairing Scope Cymru’s launch of its piece of work, ‘Individualism versus Collectivism in Care: Can direct payments help build stronger communities?’. That suggests that co-ops and mutual models of direct payments can be a force for positive change, enabling disabled people to drive down costs, shape community services and have a real stake in the services that they receive. This follows a report commissioned by Scope last year, ‘Coping with the Cuts: Less money doesn’t have to mean a poorer service for disabled people’. That noted that, while direct payments existed in Wales, the take-up was low. It found that a small number of forward-thinking local authorities

**Mark Isherwood:** Bythefnos yn ôl, cefais y pleser o ddirprwyo ar ran Vaughan Gething wrth gadeirio lansiad Scope Cymru o’i ddarn o waith, ‘Unigoliaeth neu Gyfunoliaeth ym Maes Gofal: A all taliadau uniongyrchol helpu i greu cymunedau cryfach?’. Mae’r ddogfen yn awgrymu y gall modelau cydweithredol a chydfuddiannol ar gyfer taliadau uniongyrchol achosi newid cadarnhaol, gan alluogi pobl anabl i leihau costau, i ddylanwadu ar wasanaethau cymunedol ac i fod yn rhan wirioneddol o’r gwasanaethau y maent yn eu cael. Mae hyn yn dilyn adroddiad a gomisiynwyd gan Scope y llynedd, sef ‘Coping with the Cuts: Less money doesn’t have to mean a poorer service for disabled people’. Nododd yr adroddiad, er bod taliadau uniongyrchol yn bodoli yng

were identifying common strategies, including a commitment to personalisation, not as a cost-cutting measure, but as the foundation on which other strategies can be built, and that the best outcomes were delivered where personalisation was maximised.

Nghymru, bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn isel. Canfu fod nifer fach o awdurdodau lleol blaengar yn nodi strategaethau cyffredin, gan gynnwys ymrwymiad i bersonoli, nid fel mesur i leihau costau, ond fel y sylfaen y gellir adeiladu strategaethau eraill arno, a bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni pan fo personoli yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

Disabled people tell us that they want to be in control. They do not want a compulsory scheme; they want the freedom to choose. Direct payments allow them to control their own budgets. We therefore welcome the Welsh Government's commitment to work with service users to develop a model of self-directed support, but we are concerned that the Welsh Government's consultation on the Social Services (Wales) Bill states that Ministers want the powers to prescribe the clients and circumstances under which direct payments can be used. I hope that the Deputy Minister will provide assurance of her recognition that it is disabled people and not Ministers who should be making that decision.

Mae pobl anabl yn dweud wrthym eu bod eisiau bod mewn rheolaeth. Nid ydynt am gael cynllun gorfodol; maent am gael y rhyddid i ddewis. Mae taliadau uniongyrchol yn eu galluogi i reoli eu cyllidebau eu hunain. Rydym felly yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu model o gefnogaeth hunan-gyfeiriedig, ond rydym yn pryderu bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn nodi bod Gweinidogion am gael y pwerau i ragnodi'r cleientiaid a all ddefnyddio taliadau uniongyrchol a'r amgylchiadau lle y gellir gwneud hynny. Rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi sicrwydd o'i chydnabyddiaeth mai pobl anabl, ac nid Gweinidogion, ddylai fod yn gwneud y penderfyniad hwnnw.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I welcome the opportunity to contribute to the debate today, and I thank Vaughan Gething, Mark Isherwood and Kirsty Williams for their comments. This is happening at a time when the provision of social care services in Wales is being fundamentally transformed. We set out our vision for the future of social care in the White Paper, 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', and we have now published the consultation on the Social Services (Wales) Bill, which is open until 1 June.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw, a hoffwn ddiolch i Vaughan Gething, Mark Isherwood a Kirsty Williams am eu sylwadau. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei thrawsnewid yn llwyr. Rydym wedi amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol yn y Papur Gwyn, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu,', ac rydym bellach wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), sydd ar agor tan 1 Mehefin.

These are exciting times for Wales. We have the opportunity to build on the excellent work that we have already achieved, and we can look forward to developing solid and sustainable social care services for the future. The provision of high-quality social care is a

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Gymru. Mae gennym y cyfle i adeiladu ar y gwaith rhagorol a gyflawnwyd gennym eisoes, a gallwn edrych ymlaen at ddatblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae darparu

very high priority for the people of Wales. We have listened to what people are telling us about how our approach needs to be transformed to make sure that we meet the challenges that are ahead of us over the next decade and beyond. We know that demand for social care will increase, and we must make sure that the quality of support that people receive continues to improve.

gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn flaenoriaeth uchel iawn ar gyfer pobl Cymru. Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym am sut y mae angen inni drawsnewid ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau dros y degawd nesaf a thu hwnt. Gwyddom y bydd y galw am ofal cymdeithasol yn cynyddu, a rhaid inni sicrhau bod ansawdd y cymorth y mae pobl yn ei gael yn parhau i wella.

We must also ensure that people are empowered to make their own choices and to have control over the support that they receive. All three contributions this afternoon made that point. To meet these challenges, we believe that service delivery must become more flexible, more responsive and more integrated with other local services. In 'Sustainable Social Services for Wales', we set out our priorities for delivering high-quality sustainable social services. These are: to deliver strong national direction while being clear that it is the service that must deliver change; to deliver a new improvement framework founded upon a national outcomes framework; and to make a reality of integrated, citizen-centred services, delivered by a confident and competent workforce, where complexity is reduced and people are safeguarded and protected. We have said that we want to put the citizen at the heart of decision making. Our approach centres on the needs of children and adults and their families living in our communities.

Rhaid inni hefyd sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i wneud eu dewisiadau eu hunain ac i gael rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei chael. Gwnaeth pob un o'r tri chyfraniad y prynhawn yma y pwynt hwnnw. Er mwyn ateb yr heriau hyn, rydym yn credu bod yn rhaid darparu gwasanaethau mewn modd mwy hyblyg ac ymatebol a'u hintegreiddio mwy â gwasanaethau lleol eraill. Yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru', rydym yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy o safon uchel, sef: darparu cyfeiriad cenedlaethol cryf wrth fod yn glir mai'r gwasanaeth sy'n rhaid newid; cyflwyno fframwaith gwella newydd sy'n seiliedig ar fframwaith canlyniadau cenedlaethol; ac i wneud gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a ddarperir gan weithlu hyderus a chymwys, lle mae cymhlethdod yn cael ei leihau a lle mae pobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn, yn realiti. Rydym wedi dweud ein bod am sicrhau bod y dinesydd wrth wraidd y broses benderfynu. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar anghenion plant ac oedolion a'u teuluoedd sy'n byw yn ein cymunedau.

In 'Sustainable Social Services for Wales', we made a commitment to develop a model of self-directed support in Wales. This model will be based on the set of principles that underpins our approach to social services and social care. We want people to have a strong voice and to have real control over their lives. Everyone should be treated with dignity and respect and be protected from avoidable harm and abuse. When we experience difficulties, support should be available that is appropriate and that meets our needs over time as we adjust to our changing circumstances. It is also important to

Yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru', gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu model ar gyfer cymorth hunan-gyfeiriedig yng Nghymru. Bydd y model hwn yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion sy'n sail i'n hymagwedd at wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Rydym am i bobl gael llais cryf ac i gael gwir reolaeth dros eu bywydau. Dylai pawb gael eu trin ag urddas a pharch a chael eu hamddiffyn rhag niwed a cham-drin y gellir ei osgoi. Pan fyddwn yn cael anawsterau, dylai cymorth fod ar gael sy'n addas ac sy'n ateb ein hanghenion dros amser

recognise that it is not only through the provision of services that we can find solutions to difficulties. Many people are supported by their families, friends and local communities. That help must be acknowledged as an essential and integral part of the support provided.

wrth inni addasu i'n hamgylchiadau sy'n newid. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad drwy ddarparu gwasanaethau yn unig y gallwn ddod o hyd i atebion i anawsterau. Mae nifer o bobl yn cael eu cefnogi gan eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau lleol. Rhaid cydnabod bod y cymorth hwnnw yn rhan hanfodol ac annatod o'r gefnogaeth a ddarperir.

Self-directed support is an approach that focuses on the importance of joint working between Government, the voluntary sector and the wider community. We want to encourage the role of the voluntary sector in providing that little bit of help that can make all the difference to people's lives. We made a commitment to work with all stakeholders, including service users and carers, to develop our approach to enabling self-directed support. I am pleased to say that stakeholders have responded to this challenge with great interest and enthusiasm. I commend their substantial contribution to our work. That joint work has enabled us to draft proposals that are fully informed by the views of service users, carers, statutory bodies, the third sector and service providers. Our proposals will shortly be published for public consultation, and I encourage you to respond with any further suggestions that you may have to help to ensure that we make our vision of sustainable and truly citizen-centred social care services a reality.

Mae cymorth hunan-gyfeiriedig yn ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd cydweithio rhwng y Llywodraeth, y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach. Rydym am annog rôl y sector gwirfoddol wrth ddarparu'r ychydig o help hynny sy'n gallu gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl. Gwnaethom ymrwymiad i weithio gyda phob rhanddeiliad, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, i ddatblygu ein dull o alluogi cymorth hunan-gyfeiriedig. Rwy'n falch o ddweud bod rhanddeiliaid wedi ymateb i'r her hon gyda chryn ddiddordeb a brwdfrydedd. Rwy'n cymeradwyo eu cyfraniad sylweddol at ein gwaith. Mae'r gwaith hwnnw ar y cyd wedi ein galluogi i ddrafftio cynigion sydd wedi'u dylanwadu'n llawn gan farn defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cyrff statudol, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau. Bydd ein cynigion yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir, ac rwy'n eich annog i ymateb gydag awgrymiadau pellach y gallai fod gennych i helpu i sicrhau bod ein gweledigaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn realiti.

We are already paving the way for the changes that will lead to service users having more control of the services they receive. We are encouraging the take-up of direct payments, to enable people to purchase the assistance or services that the local authority would otherwise provide. I am pleased that take-up is increasing. In 2011, there were around 3,000 users in Wales, and I expect that to have increased when the updated figures are published later this year. However, as Vaughan Gething said, that still represents only a small percentage of the 150,000 people who receive social services support. We recognise that direct payments are not suitable for everyone, but increasing

Rydym eisoes yn paratoi'r ffordd ar gyfer y newidiadau a fydd yn arwain at ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu cael. Rydym yn annog pobl i fanteisio ar daliadau uniongyrchol, er mwyn galluogi pobl i brynu'r cymorth neu'r gwasanaethau y byddai'r awdurdod lleol yn eu darparu fel arall. Rwy'n falch bod y nifer sy'n manteisio ar gynnydd. Yn 2011, roedd tua 3,000 o ddefnyddwyr yng Nghymru, ac rwy'n disgwyl y bydd hynny wedi cynyddu pan fydd y ffigurau diweddaraf yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Fodd bynnag, fel y dywedodd Vaughan Gething, mae hynny'n dal yn cynrychioli dim ond

the uptake by those who would benefit most will be an important feature of enabling self-directed support to flourish.

canran fach o'r 150,000 o bobl sy'n cael cymorth gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn cydnabod nad yw taliadau uniongyrchol yn addas i bawb, ond bydd cynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio o blith y rhai a fyddai'n elwa fwyaf yn rhan bwysig o alluogi cymorth hunan-gyfeiriedig i ffynnu.

The social services Bill and forthcoming consultation on self-directed support will give us the opportunity to extend direct payments and encourage an increase in take-up. We want to make it easier for service users and practitioners to understand the benefits of direct payments, to know what is available and what their entitlements are. If we are to achieve the transformation in the way in which social services are planned and delivered, we also recognise there is a need to build a strong and sustainable support infrastructure so that the services that people need are available when and where they need them.

Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol a'r ymgynghoriad ar gymorth hunan-gyfeiriedig sydd ar ddod yn rhoi'r cyfle inni ymestyn taliadau uniongyrchol ac annog cynnydd yn nifer y bobl sy'n eu cael. Rydym am ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr ddeall manteision taliadau uniongyrchol, i wybod beth sydd ar gael a beth yw eu hawliau. Os ydym am gyflawni'r trawsnewid o ran y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu cynllunio a'u darparu, rydym hefyd yn cydnabod bod angen adeiladu seilwaith gymorth gref a chynaliadwy fel bod y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ar gael pryd a lle y maent eu hangen.

5.45 p.m.

I welcome all contributions to the debate on how we can build a solid infrastructure that will enable us to deliver more effective and flexible services. We want to examine all the options available to us. This includes exploring the role that social enterprise, mutuals and co-operatives can have in delivering effective and sustainable service delivery in the future. I am very pleased that participation and empowerment in the future of social care has been debated here today. It is an indication of the high priority now placed on making sure that social care services support our vision for individuals accessing support and that we make sure that we create a truly citizen-centred approach for the future. I encourage everyone to make their own contribution by responding to the Bill consultation and the forthcoming consultation on self-directed support.

Rwyf yn croesawu pob cyfraniad i'r drafodaeth ar sut y gallwn adeiladu seilwaith cadarn a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol a hyblyg. Rydym yn awyddus i edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael inni. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y rôl y gall mentrau cymdeithasol, mentrau cydfuddiannol a chwmnïau cydweithredol ei chwarae o ran darparu gwasanaethau mewn modd effeithiol a chynaliadwy yn y dyfodol. Rwyf yn falch iawn bod y broses o gyfranogi ac ymrymuso yn nyfodol gofal cymdeithasol wedi cael ei thrafod yma heddiw. Mae'n dangos y flaenoriaeth uchel a roddir yn awr i sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer unigolion sy'n cael cymorth a'n bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn creu ymagwedd sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar y dinesydd yn y dyfodol. Rwy'n annog pawb i wneud eu cyfraniad eu hunain drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil a'r ymgynghoriad sydd i ddod ar gymorth hunan-gyfeiriedig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.46 p.m.*
*The meeting ended at 5.46 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)